# Llawlyfr ar gyfer Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain

~

**Ei Anrhydedd y Barnwr Edward Bailey, Prif Olygydd**
**Ei Anrhydedd y Barnwr Neil Bidder CF**
**Ei Anrhydedd y Barnwr Peter Bowers**
**Ei Hanrhydedd y Barnwr Alison Hampton**
**Ei Anrhydedd y Barnwr David Hodge CF**
**Ei Anrhydedd y Barnwr Peter Hughes CF**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| *Rhagair* | | *i* |
| *Rhagarweiniad* | | *ii* |
| Pennod 1 | Help cyfreithiol: a oes raid i chi fod yn ymgyfreithiwr drosoch eich hun? | 1 |
| Pennod 2 | Cyfryngu | 7 |
| Pennod 3 | Y Llys Sirol | 11 |
| Pennod 4 | Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) | 16 |
| Pennod 5 | Ffioedd y Llys Sirol | 21 |
| Pennod 6 | Strwythur sylfaenol ymgyfreitha | 23 |
| Pennod 7 | Cychwyn achos ac ymateb i gychwyn achos | 26 |
| Pennod 8 | Datganiadau o achos | 37 |
| Pennod 9 | Dyfarniad drwy ddiffyg a sancsiynau am beidio â chydymffurfio | 49 |
| Pennod 10 | Datgelu ac archwilio dogfennau | 55 |
| Pennod 11 | Datganiadau tystion | 63 |
| Pennod 12 | Tystiolaeth arbenigol | 70 |
| Pennod 13 | Rheoli achosion a gwrandawiadau interim eraill | 76 |
| Pennod 14 | Rheoli costau | 90 |
| Pennod 15 | Paratoi ar gyfer eich gwrandawiad | 97 |
| Pennod 16 | Cynnal y treial | 111 |
| Pennod 17 | Dirwyn i ben | 121 |
| Pennod 18 | CPR Rhan 36 a Chostau | 124 |
| Pennod 19 | Gorfodi | 131 |
| Pennod 20 | Apeliadau | 137 |
| Pennod 21 | Gorchmynion Atal Sifil | 144 |
| Pennod 22 | Cynnal achosion yn y Gymraeg | 147 |
| | Geirfa | 149 |
| | Cynsail H (ffurflen cyllideb costau) | 160 |

**Rhagarweiniad i'r 'Llawlyfr ar gyfer Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain'**

Hawl, nid braint, yw mynediad at gyfiawnder. Yn y mwyafrif helaeth o achosion cafodd yr hawl hwnnw ei ddefnyddio'n draddodiadol gan aelodau'r cyhoedd drwy wasanaeth cyfreithiwr. Dros y deng mlynedd diwethaf, fodd bynnag, bu cynnydd yn y nifer o unigolion sydd, am wahanol resymau, wedi dwyn achosion ac amddiffyn achosion drostynt eu hunain: yr oeddynt ac y maent yn ymgyfreithwyr drostynt eu hunain (neu ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain). Rhagwelir yn y blynyddoedd i ddod y bydd nifer yr ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cynyddu ac efallai yn gwneud hynny'n sylweddol iawn.

Mewn amgylchedd lle y mae mwy o unigolion yn ymgyfreitha drostynt eu hunain mae'n ddyletswydd ar y farnwriaeth, ymysg eraill, i wneud yr hyn a all i'w helpu i ganfod eu ffordd drwy'r system cyfiawnder sifil mor effeithiol ag y gallant. I'r diben hwnnw, cafodd y llawlyfr hwn, a anelir yn benodol at ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n ymwneud ag achosion ar yr amldrac, ei baratoi gan nifer o Farnwyr Cylchdaith profiadol iawn dan arweiniad Ei Anrhydedd y Barnwr Bailey, ac fe'i cynhyrchwyd yn garedig iawn gan Linklaters.

Ni ddylid anghofio nad yw ymgyfreitha'n beth hawdd, ac ni ddylid ymgymryd ag ef ar chwarae bach. Ar gyfer y rhai sydd angen mynd i'r llysoedd er mwyn gorfodi eu hawliau, a gwneud hynny heb gymorth cyfreithiwr, bydd yr arweiniad a ddarperir yn y llawlyfr hwn o gymorth ymarferol gwirioneddol. Mae'n eglur ac yn hawdd ei ddeall. Mae'n fanwl ac yn rhwydd i'w ddefnyddio. Rwy'n sicr y bydd yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau fod y broses ymgyfreitha sifil yn llai brawychus ac yn haws ei defnyddio i'r ymgyfreithwyr hynny sy'n cynrychioli'u hunain. Yn y cyswllt hwnnw bydd yn chwarae rhan bwysig o ran cynorthwyo i gynnal ein hymrwymiad i fynediad at gyfiawnder fel hawl sydd ar gael i bawb.

**Yr Arglwydd Dyson, Meistr y Rholiau**

**11 Rhagfyr 2012**

# Rhagair

Ysgrifennwyd y Llawlyfr hwn gan chwech o farnwyr, sef aelodau Is-bwyllgor Sifil Pwyllgor Cyngor y Barnwyr Cylchdaith; barnwyr sydd, rhyngddynt, â thros 60 mlynedd o brofiad o eistedd ar y fainc.

Wrth gyhoeddi'r llawlyfr hwn nid ydym yn bwriadu annog ymgyfreithwyr i gynrychioli'u hunain. I'r gwrthwyneb. Gall ymgyfreitha sifil fod yn broses anodd iawn, ac nid peth hawdd yw canfod eich ffordd drwy elfennau technegol y gyfraith a rheolau trefniadaeth sifil. Bydd llawer o'r rhai sy'n ymgyfreitha drostynt eu hunain yn mynd ati i eiriol heb sgiliau cyfreithiol fforensig na gwrthrychedd, dwy nodwedd hanfodol ar gyfer cyfreithiwr cymwys.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod niferoedd cynyddol o ymgyfreithwyr yn y llysoedd sifil sy'n cynrychioli'u hunain. Gall cynrychiolaeth gyfreithiol fod yn ddrud iawn, ac mae argaeledd cymorth cyfreithiol sifil wedi'i gyfyngu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn broblem wirioneddol i gymdeithas ac i ymgyfreithwyr fel ei gilydd. Yn ddelfrydol, byddai pob anghydfod yn cael ei ddatrys yn gyfeillgar, gyda chymorth cyfryngwr os bydd angen. Ond yn anorfod, nid oes modd datrys rhai anghydfodau ac mae'n bwysig i'r rhai sy'n gysylltiedig ag anghydfod iddo gael ei benderfynu gan farnwr yn y system llysoedd sifil sy'n ennyn parch ac sydd ar gael yn hwylus i bawb.

Caiff y mwyafrif llethol o anghydfodau cyfreithiol nad ydynt yn ymwneud â chyfraith droseddol eu penderfynu yn y llys sirol. Bydd barnwr y llys sirol un ai'n farnwr cylchdaith neu'n farnwr rhanbarth. Barnwyr rhanbarth sy'n penderfynu ar yr hawliadau llai (hawliadau bychain neu hawliadau trac cyflym) tra bo barnwyr cylchdaith yn penderfynu ar yr hawliadau mwy (hawliadau amldrac) ac yn gwrando ar apeliadau yn codi o benderfyniadau barnwyr rhanbarth.

Fel barnwyr sy'n eistedd ar hyd a lled y wlad, rydym yn hynod ymwybodol o'r trafferthion sy'n wynebu'r sawl sy'n ymgyfreitha drosto'i hun. Ynghyd â llawer o farnwyr a chyfreithwyr eraill, cytunwn fod gwir angen am lawlyfr ar gyfer Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain. Fodd bynnag, anodd iawn yw penderfynu beth yw'r fformat gorau ar gyfer llyfr o'r fath. Mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn amrywio'n fawr o ran eu gallu a'u hagwedd tuag at y llys a'r broses ymgyfreitha. Nid yw'r llyfr hwn yn ganllaw syml. Ar gyfer ymgyfreithiwr nad yw eisiau dim mwy na thaflen fer ar y broses gyfan, neu rannau unigol o'r broses, bydd taflenni o'r fath ar gael yn y rhan fwyaf o lysoedd sirol. Lluniwyd y Llawlyfr hwn ar gyfer yr ymgyfreithiwr sy'n ymwneud â hawliad amldrac eithaf sylweddol. Pennwyd ei ffurf yn dilyn llawer o drafod ac, i raddau, drwy daergymhelliad y Prif Olygydd. Dylid anfon cwynion ac argymhellion ar gyfer gwelliannau ato ef. Mae'r pwyntiau canlynol yn bwysig:

(1) Mae'r Llawlyfr yn rhoi golwg gyffredinol ar y broses gyfan i'r darllenydd;

(2) Mae pob pennod yn dechrau gyda 'Phenawdau'; dyma'r pwyntiau mwyaf pwysig i'w nodi yn y deunydd a gynhwysir yn y bennod;

(3) Mae'r testun yn rhoi cyfeiriadau lle bo'n briodol at y *Rheolau Trefniadaeth Sifil*; i ymgyfreithiwr sy'n gysylltiedig ag achos llys sylweddol, does dim curo ar ddarllen y *Rheolau* drostynt eu hunain;

(4) Mae'r Llawlyfr yn cwmpasu holl broses y llys ac mae'n rhoi cyngor sut orau i ymdrin â phob cam yn y broses ymgyfreitha. Ysgrifennir penodau cyngor yn yr ail berson er mwyn rhoi uniongyrchedd i'r cyngor a gynigir. Mae gweddill y Llawlyfr, sy'n darparu gwybodaeth yn hytrach na chyngor, yn y trydydd person.

Nid yw'r Llawlyfr hwn yn un cynhwysfawr. Byddai'n amhosibl iddo fod. Ond mae'r Llawlyfr yn ymdrin â'r deunydd pwysicaf y mae ymgyfreithiwr drosto'i hun yn debygol o fod angen cymorth ac arweiniad arno ac mae'n rhoi cyngor ar y meysydd canolog o ran paratoi a chyflwyno y mae'r awduron yn gobeithio fydd yn rhoi cymorth gwirioneddol i ymgyfreithiwr ar ben ei hun.

Mae ymgyfreithwyr yn siŵr o fod yn bryderus ynghylch gwrandawiad llys, ond ni ddylent ofni ymddangos yn y llys. Mae'r barnwr modern yn anelu at fod o gymorth i'r fath raddau ag sy'n gyson â'i sefyllfa ef neu hi a'r angen i gynnal awdurdod y llys. Mae dyletswydd ar farnwr i sicrhau treial teg drwy roi cymorth dyladwy i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae gwneud hynny'n sicrhau bod yr ymgyfreithiwr drosto'i hun yn cael ei drin yn gyfartal gerbron y gyfraith ac yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder. Ond mae'n rhaid i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain gofio fod terfyn i'r cymorth y gall barnwr ei roi yn ystod treial neu wrandawiad interim. Ni all y barnwr roi cyngor cyfreithiol i ymgyfreithiwr drosto'i hun. Ni ddylai'r barnwr byth roi ei hun mewn sefyllfa lle y gallai sylwedydd niwtral ystyried ei fod yn ffafrio un parti dros ei wrthwynebydd, hyd yn oed pan fo'r parti dan sylw yn ymgyfreithiwr drosto'i hun a'i wrthwynebydd yn fargyfreithiwr ers blynyddoedd lawer ac yn alluog iawn i ofalu amdano'i hun a'i gleient. Felly, ni all y barnwr ddod yn adfocad i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun, gan fod swyddogaeth barnwr yn sylfaenol wahanol i swyddogaeth adfocad. Rhaid iddo sicrhau treial teg, a pheidio â rhoi mantais i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun.

Mae'n bwysig i bob ymgyfreithiwr weld y broses ymgyfreitha yn ei chyfanrwydd. Daw'r broses i'w therfyn mewn treial, ond y mae'r gofal a rydd ymgyfreithiwr wrth baratoi ar gyfer y treial hwnnw cyn bwysiced bob tamaid â'r treial ei hun. Tasg y barnwr mewn llys sifil yw penderfynu ar ffeithiau'r achos a hefyd y gyfraith sy'n berthnasol i'r ffeithiau hynny. Wrth bennu'r ffeithiau, ni chaiff y Barnwr ddibynnu ar ddim ond ar y dystiolaeth a gyflwynir gan y partïon. Ni chaiff y barnwr ymwneud â chael gafael ar dystiolaeth. Yn syml iawn, ni chaniateir hynny. Y mae felly'n hanfodol fod ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cyflwyno'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo. Mae achosion wedi eu colli a allai fel arall fod wedi cael eu hennill, oherwydd nad yw ymgyfreithwyr wedi meddwl yn ofalus am y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt, nad ydynt wedi cael gafael ar y dystiolaeth honno neu nad ydynt wedi ei chyflwyno'n iawn.

Os oes neges o gwbl yn y Llawlyfr hwn, hyn ydyw: Os ydych am ymgymryd ag ymgyfreitha, dylech fod o ddifrif yn ei gylch. Gallwch bob amser osgoi ymgyfreitha drwy gyfaddawdu, neu, os bydd angen, ildio. Os byddwch yn canfod eich hun yn ymgyfreitha ar yr amldrac, bydd yn waith caled. Ond os yw'n werth ei wneud, mae'n werth ei wneud yn dda. Mae'r Llawlyfr hwn yma i'ch helpu.

Tri phwynt pellach. Yn gyntaf, mae'r iaith Saesneg eto i ddatblygu rhagenwau neillryw. Rydym wedi defnyddio rhagenwau gwrywaidd lle y mae angen rhagenw, a gofynnwn am faddeuant ein darllenwyr benywaidd yn hyn o beth. Yn ail, yn y fersiwn Saesneg rydym wedi defnyddio'r hen ddywediad 'litigant in person' am ymgyfreithiwr drosto'i hun, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio a'i ddeall yn eang, a dyma'r dywediad a ddefnyddir gan y Senedd mewn deddfwriaeth berthnasol. Bydd eraill yn cyfeirio at 'self-represented litigant' sef ymgyfreithiwr sy'n cynrychioli ei hun. Mater o ddewis ydyw. Yn drydydd, ac yn fwyaf pwysig, dylai ymgyfreithwyr werthfawrogi mai unigolion yw barnwyr. Mae gan rai eu ffordd benodol eu hunain o wneud pethau. Rydym yn hyderus y bydd y rhan fwyaf o farnwyr sy'n eistedd yn y llysoedd sifil yn cytuno â'r holl gyngor a roddwyd gennym yn y Llawlyfr hwn. Ond fe allech chi ymddangos gerbron barnwr sy'n anghytuno â phwyntiau unigol a wnaed gennym. I'r ymgyfreithiwr, y barnwr pwysicaf yw'r barnwr y mae ef yn ymddangos o'i flaen.

Mae'r testun yn ymgorffori'r diwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a gyflwynwyd gan Reolau Trefniadaeth Sifil (Diwygiad) 2013 ('Diwygiadau Jackson') ac y mae'n gyfredol ar 1 Ebrill 2013.

Yn olaf, hoffem ddiolch i Linklaters am eu cymorth caredig, yn ymarferol ac yn ariannol, wrth gyhoeddi'r Llawlyfr.

Ei Anrhydedd y Barnwr Edward Bailey, Prif Olygydd,
Canolfan Cyfiawnder Sifil Canol Llundain
Ei Anrhydedd y Barnwr Neil Bidder CF, Llys Sirol Caerdydd
Ei Anrhydedd y Barnwr Peter Bowers, Llys Cyfunedig Teeside
Ei Hanrhydedd y Barnwr Alison Hampton, Llys Sirol Caerlŷr
Ei Anrhydedd y Barnwr David Hodge CF, Barnwr Arbenigol y Siawnsri,
Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion
Ei Anrhydedd y Barnwr Peter Hughes CF, Llysoedd Barn Caerliwelydd

Mawrth 2013

# Pennod 1
# Help cyfreithiol: A oes raid i chi fod yn ymgyfreithiwr drosoch eich hun?

A. Yswiriant
B. Cyfreithwyr 'Dim ennill dim ffi'
C. Cytundebau yn Seiliedig ar Iawndal
C. Achosion damweiniau
D. Canolfannau Cyngor Ar Bopeth
E. Canolfannau'r Gyfraith
F. Cyfreithwyr Pro Bono
G. 'Ymgynghorwyr' cyfreithiol a Chyfeillion McKenzie proffesiynol
H. Ble i ganfod eich cyfraith

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Ymchwiliwch, gyda chyfreithiwr mewn canolfan gynghori, a allech chi fod yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus ar gyfer eich achos cyfreithiol.*

*(2) Archwiliwch eich polisïau yswiriant rhag ofn fod gennych yswiriant treuliau cyfreithiol a fydd yn berthnasol i'ch achos penodol.*

*(3) Peidiwch ag oedi cyn ceisio help a chymorth.*

*(4) Ymchwiliwch a yw eich achos o ddiddordeb i gyfreithiwr 'dim ennill dim ffi' neu a oes modd i chi ymuno mewn Cytundeb Seiliedig ar Iawndal lle y mae cyfreithiwr yn ymgymryd â'ch achos am siâr o'ch iawndal a heb ffi os byddwch yn colli.*

*(5) Ystyriwch a fyddai modd i chi efallai gael help a chymorth gan unrhyw un o'r ystod eang o asiantaethau sy'n cynnig gwasanaethau rhad ac am ddim, megis CAB lleol, neu ganolfan y Gyfraith, neu Ganolfan Gynghori Arbenigol.*

*(6) Gallai cynrychiolaeth yn y llys fod ar gael gan yr Uned Cynrychiolaeth Ddi-dâl, Uned Pro Bono y Bar, neu un o gynlluniau Pro Bono Cymdeithas y Cyfreithwyr.*

**Cyflwyniad**

1.1 Mae'r llyfr hwn ar eich cyfer chi, sef rhywun sydd heb unrhyw wybodaeth uniongyrchol am y gyfraith na threfniadaeth gyfreithiol, pan fyddwch yn canfod eich hun mewn anghydfod cyfreithiol. Gallai ymwneud â'ch cartref, eich car, eich swydd, rhyw anaf a ddioddefwyd gennych neu rywbeth sy'n gyfan gwbl y tu allan i'ch profiad arferol. Fe allech fod eisiau cychwyn achos neu gallai rhywun fod yn dwyn achos yn eich erbyn chi. Boed y swm dan ystyriaeth yn fychan neu'n sylweddol, os ydych yn anghyfarwydd â'r broses gyfreithiol, bydd yn brofiad poenus. Felly, cyn gynted ag y byddwch yn canfod eich hun yn y sefyllfa hon, dylech edrych pa help cyfreithiol y gallwch

ei gael, os o gwbl. Efallai y bydd modd i chi dalu am beth cyngor cyfreithiol, o leiaf yn y camau cyntaf, neu efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, neu ryw help cyfreithiol arall, er enghraifft, gan eich undeb llafur. Mae'r Llawlyfr hwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi ymchwilio i'r posibiliadau hyn ac nad ydynt yn agored i chi. Ond cyn penderfynu y bydd yn rhaid i chi gynrychioli eich hun, dylech edrych i ddechrau a oes unrhyw ffynonellau eraill posibl o ran help cyfreithiol.

PEIDIWCH AG OEDI – GALL CAMAU CYNTAF ANGHYDFODAU O'R FATH FOD YN HOLLBWYSIG YN NHERMAU'R CAMAU Y DYLID EU CYMRYD A'R COSTAU Y GELLIR EU HARBED.

1.2 Mae'r bennod hon yn edrych yn fyr ar ba help y gallech ei gael pan nad ydych yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus.

## A. Yswiriant

1.3 Mae'n bosibl fod gennych eisoes yswiriant i dalu eich costau cyfreithiol mewn ystod eang o hawliadau. Mae yswiriant 'Cyn y Digwyddiad' ar gael am brisiau derbyniol ar y cyfan, ond wrth gwrs, cyntaf y bydd y digwyddiadau sy'n achosi'r anghydfod wedi digwydd, bydd yn rhy hwyr i drefnu yswiriant o'r fath. Fodd bynnag, cofiwch edrych ar eich polisïau yswiriant. Os ydych chi'n gysylltiedig â hawliad yn ymwneud â thraffig y ffordd bydd polisi eich car yn aml yn darparu yswiriant ar gyfer treuliau cyfreithiol pan fyddwch eisiau dwyn achos, yn hytrach nac ar gyfer amddiffyn achos. (Bydd eich yswiriwr yn amddiffyn unrhyw hawliad a ddygir yn eich erbyn, ar yr amod eich bod wedi cadw at delerau'r polisi.)

1.4 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yswiriant cartref yn darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a fydd yn talu costau amddiffyn amrywiaeth eang o hawliadau. Mae rhai polisïau yswiriant cartref yn cynnwys yswiriant ar gyfer treuliau cyfreithiol 'Cyn y Digwyddiad'. Gallai yswiriant gwyliau dalu am gostau hawlio am wyliau a ddifethwyd, a gall mathau eraill o yswiriant arbenigol ddarparu ar gyfer hawliadau cyfreithiol yn codi yng nghyswllt pwnc yr yswiriant.

## B. Cyfreithwyr 'Dim ennill dim ffi'

1.5 Yn awr bod Cytundebau Ffi Amodol (CFA) yn gyfreithiol, ceir llawer o gyfreithwyr sy'n fodlon dwyn hawliadau ac ambell waith amddiffyn hawliadau ar sail 'dim ennill dim ffi'. Mae hwn yn faes sensitif. Mae'n bwnc anodd i awduron y llawlyfr hwn wneud sylwadau arno. Mae cynifer o gyfreithwyr rhagorol a fydd yn darparu gwasanaeth da dan CFA. Ceir hefyd, yn anffodus, adroddiadau am gyfreithwyr sy'n syrthio'n brin o safonau uchel, ac sy'n ceisio gosod ychwanegiad rhy uchel am ennill neu sy'n cyfaddawdu mewn hawliad yn rhy fuan er mwyn sicrhau ffi. I chi fel ymgyfreithiwr, mae'n hynod bwysig eich bod yn gwneud y canlynol:

(a) darllen y cytundeb yn ofalus, a

(b) gofyn os oes unrhyw bwyntiau nad ydynt yn eglur.

Gwiriwch yn benodol fod y cytundeb yn darparu am wasanaeth cyfreithiol llawn yng nghyswllt yr anghydfod, gan gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol yn y gwrandawiad. Mae rhai cytundebau’n darparu ar gyfer cyngor cychwynnol a gwaith paratoadol yn unig, gan eich gadael chi i ganfod a thalu am gynrychiolaeth yn y gwrandawiad. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr, sydd â chyfrifoldeb rheoleiddio dros gyfreithwyr, yn cyhoeddi arweiniad ar CFA gan gynnwys cytundeb enghreifftiol a thaflen i gleientiaid, ac os ydych yn ansicr mewn unrhyw fodd ynghylch a ydych yn cael eich trin yn briodol, gallwch godi’r mater gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr.

1.6 Os nad ydych yn ymgyfreitha dan CFA, mae’n debygol y bydd yn rhaid i chi drefnu polisi yswiriant ‘Ar Ôl y Digwyddiad’. Bydd hwn yn eich yswirio rhag gorfod talu costau'r parti arall os byddwch yn colli, ond fe allai olygu premiwm sylweddol iawn.

## C. Cytundebau yn Seiliedig ar Iawndal

1.7 O 1 Ebrill 2013 bydd yn bosibl i ymgyfreithiwr ymuno mewn ’Cytundeb yn Seiliedig ar Iawndal’ (“DBA”) gyda chyfreithiwr. Bu cytundebau o’r fath yn bosibl ers 2010, ond mewn materion cyflogaeth yn unig. Maent bellach wedi eu hymestyn i bob hawliad sifil. Heb fynd i ormod o fanylion, cytundeb ar gyfer ffi wrth gefn yw DBA, ond yn seiliedig ar 'fodel Ontario’ yn hytrach na model Americanaidd. Dan DBA caiff y cyfreithiwr (ac unrhyw fargyfreithiwr a gyfarwyddir ganddo) ei wobrwyo â chyfran y cytunwyd arni o iawndal yr ymgyfreithiwr hyd at derfyn o 25% mewn achosion anaf personol, a 50% ym mhob achos arall, ond ddim ond os bydd yr ymgyfreithiwr yn ennill. Does dim ffi’n daladwy i’r cyfreithiwr nac i unrhyw fargyfreithiwr a gyfarwyddwyd os bydd yr ymgyfreithiwr yn colli ei achos, ond fel arfer bydd yn rhaid i’r ymgyfreithiwr dalu costau'r llys a chostau eraill. Pan fydd yr ymgyfreithiwr yn llwyddiannus ac yn cael gorchymyn i’w gostau gael eu talu gan yr ochr arall, sef y gorchymyn arferol ar gyfer ymgyfreithiwr sy’n ennill, caiff y costau a adenillir gan y parti a gollodd yr achos eu didynnu o’r hyn fyddai cyfran y cyfreithiwr o’r iawndal, felly gall ymgyfreithiwr sy’n cytuno i dalu 50% o’i iawndal i gyfreithiwr ddiweddu gydag ychydig mwy na 50% ei hun ar ôl i dâl gael ei dderbyn dan orchymyn costau yn erbyn y diffynnydd a gollodd yr achos.

1.8 Caiff y gofynion ar gyfer DBA dilys mewn achos sifil eu nodi yn adran 58AA Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, (a gyflwynwyd gan a 45 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012) a’r Rheoliadau Cytundebau Seiliedig ar Iawndal 2013. Yn fyr rhaid i DBA dilys:

(1) fod yn ysgrifenedig;

(2) nodi’r achos llys (neu rannau o’r achos llys) y mae’r cytundeb yn ymwneud ag ef/hwy;

(3) nodi’n glir ym mha amgylchiadau y mae’n rhaid i’r ymgyfreithiwr dalu unrhyw gostau a threuliau;

(4) egluro’r rheswm dros bennu swm taliad y cyfreithiwr ar y lefel a gytunwyd.

Nid oes unrhyw ofyniad i’r cleient gael cyngor cyfreithiol annibynnol cyn iddo ymrwymo i DBA gyda chyfreithiwr, ac nid oes unrhyw ofyniad i gyfreithiwr sy’n gweithredu dan DBA hysbysu’r ochr arall o’r ffaith honno.

1.9 Ar gyfer y darpar ymgyfreithiwr o hawlydd bydd o ddiddordeb iddo allu cyfarwyddo cyfreithiwr heb orfod talu costau os bydd yn colli, er i hynny fod ar draul cyfran sylweddol o’i iawndal os bydd yn ennill. Mae’n bosibilrwydd i’w ystyried cyn cychwyn ymgyfreitha heb gynrychiolaeth. Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw ymgyfreithiwr fyth anghofio, os bydd yn colli ei achos y bydd fel arfer yn wynebu gorchymyn i dalu costau’r ochr arall. Mae angen ystyried y posibilrwydd hwn yn ofalus, a sut y caiff ei ariannu os gwireddir hynny. Os nad oes gan yr ymgyfreithiwr yswiriant neu ffordd arall o dalu’r costau hynny dylai ystyried polisi yswiriant Ar Ôl y Digwyddiad (ATE). Mae’r premiwm dan bolisïau o'r fath yn uchel, a chan na all cost premiwm ATE gael ei adennill oddi wrth yr ochr arall gan ymgyfreithiwr llwyddiannus, dylai’r gost hon fod yn ystyriaeth o bwys mewn unrhyw asesiad o rinweddau bwrw ymlaen â DBA.

1.10 Mae hefyd yn wir fod Rheoliadau 2013 yn gadael nifer o gwestiynau heb eu hateb ar gyfer cyfreithwyr, nid y lleiaf ohonynt sut y mae cyfradd yr awr i’w phennu ar gyfer asesiad o gostau rhwng y partïon os caiff yr ochr arall orchymyn i dalu costau’r ymgyfreithiwr. Nid yw’r rhain yn faterion sy’n ymwneud yn uniongyrchol â’r ymgyfreithiwr, ond gallent gael effaith ar y ffordd y mae’r ymgyfreithiwr yn negodi DBA gyda chyfreithiwr. Mewn achosion anaf personol, lle y mae’r cyfreithiwr wedi’i gyfyngu i ffi llwyddo o 25%, rhaid bod dyfarniad iawndal posibl o ymhell dros £100,000 cyn y bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn cytuno i DBA. Mewn achosion eraill, mae’n debygol y bydd yn rhaid bod rhagolygon o ddyfarniad sylweddol o iawndal, o leiaf rhwng £75,000 a £100,000, neu achos syml gydag ond ychydig o faterion, a dogfennau neu ddatgeliad cyfyngedig, cyn y bydd cyfreithiwr yn cytuno i weithredu ar DBA o gwbl, heb sôn am ffi llwyddo o lai na 50%.

## D. Achosion damweiniau

1.11 Ceir ‘cwmnïau rheoli hawliadau’ a fydd yn ‘rheoli’ eich hawliad drosoch, yn arbennig pan fydd hyn yn ymwneud ag anaf personol. Mae rhai cwmnïau o’r fath yn ddibynadwy, ond mae llawer nad ydynt. Gan fwyaf, nid oes gan gwmnïau o’r fath ddiddordeb os nad ydych yn ddarpar hawlydd a bod gan eich hawliad siawns dda iawn o lwyddo. Bydd hawliadau o’r fath fel arfer yn cael eu cyflwyno gan gyfreithiwr dibynadwy neu fargyfreithiwr mynediad uniongyrchol am ffi llwyddo o 10% neu 20%, sy'n debygol o fod yn well opsiwn na defnyddio cwmni rheoli hawliadau.

1.12 Mae cwmnïau rheoli hawliadau’n gweithredu gan amlaf mewn achosion traffig ffyrdd. Byddant yn anelu at wneud eu harian drwy godi tâl ar gwmni yswiriant y gyrrwr arall am gludo eich cerbyd ymaith a’i storio, drwy wneud y

gwaith atgyweirio ar eich car a thrwy hurio car i chi ar 'hap-gyfradd' uchel. Ni fydd hyn yn costio dim i chi, y gyrrwr sy'n gwneud yr hawliad, gyda pha risgiau bynnag sy'n bodoli yn cael eu hysgwyddo gan y cwmni rheoli hawliadau a'u cyfreithwyr perthnasol.

## E. Canolfannau Cyngor Ar Bopeth

1.13 Gellir cael cyngor cyfreithiol gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth mewn dros 3,500 o leoliadau yng Nghymru a Lloegr. Mae gan CAB hanes hir o helpu ymgyfreithwyr cyn ac yn ystod achosion. Gall llawer ohonynt alw ar gyfreithwyr gwirfoddol i roi cyngor mwy arbenigol. Gallwch ganfod eich CAB lleol yn www.citizenadvice.org.uk

## F. Canolfannau'r Gyfraith

1.14 Ceir 56 o Ganolfannau'r Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, lle y mae cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn cynnig cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim (ond nid cynrychiolaeth fel arfer) yn y rhan fwyaf o feysydd cyfraith sifil. Yn ogystal, ceir nifer o ganolfannau cynghori arbenigol ledled y wlad lle y mae gwirfoddolwyr â chymwysterau cyfreithiol yn rhoi cymorth a chyngor. Mae'n annhebygol y gall y gwirfoddolwyr hyn fynd â chi yr holl ffordd drwy'r broses ymgyfreitha, ond fel arfer bydd modd iddynt gynnig cyngor da i chi ar sut i fynd i'r afael â'ch achos penodol chi. Dylech allu dod o hyd i ganolfannau'r gyfraith neu ganolfannau cynghori lleol ar y we – (rhowch gynnig ar Legal Advice Finder) neu ffoniwch y Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar 0845 345 4 345.

## G. Cyfreithwyr Pro Bono

1.15 Bydd llawer o gyfreithwyr yn gwneud gwaith am ddim dan gynlluniau 'pro bono'. Mae gan uned Pro Bono'r Bar dros 2,000 o fargyfreithwyr ar ei phanel gydag ystod eang o brofiad, gan gynnwys 250 o Gwnsleriaid y Frenhines. Mae gan Gymdeithas y Cyfreithwyr gynlluniau pro bono lle y mae cyfreithwyr yn cynnig eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim, gyda'i isadran Cyfreithwyr Iau, Law Works, ac mewn cydweithrediad â Chwmnïau mawr yn y Ddinas sy'n rhedeg eu cynllun pro bono eu hunain. Gellir canfod adfocad i ymddangos ar eich rhan yn y llys o'r Uned Cynrychiolaeth Ddi-dâl.

1.16 Mae'r gwahanol gynlluniau pro bono hyn yn rhoi llawer iawn o gymorth a chyngor yn rhad ac am ddim. Mewn rhai achosion caiff cymorth o'r fath ei ddarparu yr holl ffordd drwy'r broses ymgyfreitha. Mewn achosion eraill efallai y rhoddir cyngor ar y cefndir cyfreithiol i'ch achos a chymorth i'ch rhoi ar y trywydd iawn yn yr achos llys. Ni all awduron y Llawlyfr hwn gymeradwyo unrhyw gynllun unigol, er y bu sawl un o'r awduron yn ymwneud ag ambell gynllun yn ystod y cyfnod pan oeddynt yn ymarfer fel cyfreithwyr. Mater o hap a damwain fydd hi o ran canfod cyfreithiwr a fydd o

gymorth. Ond os nad ydych yn benderfynol o ymdopi heb gymorth, rydym yn awgrymu eich bod yn ceisio cymorth, yn enwedig yng nghamau cyntaf achos. Mae cyfreithwyr yn cael sylw negyddol gan y wasg. Nid pob cyfreithiwr sy'n haeddu hynny.

## H. 'Ymgynghorwyr' cyfreithiol a Chyfeillion McKenzie proffesiynol

1.17 Mae rhai lleygwyr yn cynnig cyngor a chynrychiolaeth i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain am ffi. Mae rhai yn ddibynadwy, ond llawer ddim. Cofiwch mai dim ond bargyfreithiwr neu gyfreithiwr gaiff siarad ar eich rhan yn y llys. Weithiau, gall barnwr unigol ganiatáu i gynrychiolydd lleyg penodol annerch y llys mewn amgylchiadau priodol, ond mater i'r barnwr yn llwyr yw hyn, yn ôl ei ddisgresiwn ef/hi.

1.18 *Y Cyfaill McKenzie.* Syniad gwreiddiol y Cyfaill McKenzie oedd y byddai rhywun yr oedd yr ymgyfreithiwr yn ei adnabod (sef 'cyfaill') yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r ymgyfreithiwr yn ystod y gwrandawiad. Byddai modd i'r Cyfaill McKenzie, er enghraifft, gynorthwyo gyda dogfennau neu atgoffa'r ymgyfreithiwr yn dawel o gwestiynau i'w gofyn i dystion neu bwyntiau i'w gwneud i'r barnwr yn yr anerchiad clo. Mae bellach yn bosibl i ymgyfreithiwr ganfod Cyfaill McKenzie ar y rhyngrwyd. Ni fyddai'r awduron yn eich annog i ddefnyddio gwasanaeth rhywun nad oeddech yn ei adnabod cyn dechrau'r ymgyfreitha i weithredu fel cyfaill, ond rydym yn cydnabod y gall rhai cynghorwyr ddarparu help a chymorth defnyddiol. Cofiwch nad oes unrhyw reoleiddio ar 'gyfeillion' o'r fath.

## H. Ble i ganfod y gyfraith

1.19 Yn gyffredinol iawn, ceir testunau ar gyfer ymarferwyr, testunau myfyrwyr a chanllawiau neu grynodebau symlach. Mae testunau ymarferwyr yn debygol o fod yn anodd i ymgyfreithiwr heb hyfforddiant cyfreithiol, ond mae rhai ymgyfreithwyr yn ymdopi â hwy'n dda iawn. Dylai llyfrau i fyfyrwyr fod yn haws eu treulio. Fe allent ymddangos yn anodd ar yr olwg gyntaf, ond mae'r rhan fwyaf wedi'u hysgrifennu'n glir a dylai'r egwyddorion ddisgyn i'w lle dim ond i chi ddyfalbarhau. Mae rhai llyfrgelloedd yn cynnwys gwerslyfrau cyfreithiol, ond cofiwch edrych ar y dyddiad cyhoeddi. Rhaid i chi fod yn ofalus o ran defnyddio llyfr sy'n fwy nag ychydig o flynyddoedd oed.

Efallai y bydd modd i'ch CAB neu Ganolfan y Gyfraith leol eich arwain at destun priodol, neu gallech geisio cyngor gan werthwr llyfrau cyfreithiol annibynnol megis Wildy & Sons [020 7242 5778] neu un o'r siopau llyfrau cyfreithiol a geir mewn sawl tref prifysgol a allai fod â gwerslyfr ail-law ar werth.

# Pennod 2
# Cyfryngu

A. Ymgyfreitha yn ddewis olaf
B. Beth yw cyfryngu?
C. Sut fydd y cyfryngu'n digwydd?
D. Beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn setlo'r achos drwy gyfryngu?

<u>*Penawdau*</u>

*(1)* *Gwnewch ymdrech i setlo'ch achos os yw'n bosibl. Byddwch yn arbed llawer iawn o waith caled, pryder a chostau i chi'ch hun.*

*(2)* *Ceisiwch setlo'r achos yn uniongyrchol gyda'ch gwrthwynebydd yn gyntaf. Os nad oes modd i chi wneud hynny, ystyriwch gyfryngu.*

*(3)* *Mae cymorth ar gael i ddod o hyd i gyfryngwr gan y Cyngor Cyfryngu Sifil.*

*(4)* *Mae'r broses gyfryngu'n gwbl hyblyg. Gellir ei gynnal mewn sawl gwahanol ffordd, ac fe gewch chi a'ch gwrthwynebydd ddewis beth sydd fwyaf addas ar gyfer y ddau ohonoch gyda chymorth y cyfryngwr.*

*(5)* *Os bydd y cyfryngu'n fethiant yna byddwch yn bwrw ymlaen (neu'n cychwyn) eich achos cyfreithiol, yn aml gyda'r fantais o wybod mwy am safbwynt eich gwrthwynebydd ar y materion a sut y mae ef/hi'n ystyried yr hawliad yn ei gyfanrwydd nac yr oeddech o'r blaen.*

*(6)* *Gallai ymgyfreithiwr sy'n gwrthod ymgysylltu'n adeiladol â chyfryngu ganfod ei hun yn cael ei gosbi yn y costau ar derfyn y treial.*

### A. Ymgyfreitha yn ddewis olaf

2.1 Dylai cychwyn achos yn y llys sifil gael ei ystyried yn ddewis olaf pan fyddwch wedi methu gyda phob dull arall o ddwyn eich anghydfod i ben. Mae'r llysoedd yn disgwyl i bartïon sy'n rhan o anghydfod wneud pob ymdrech i ddatrys eu hanghydfod cyn iddynt wneud penderfyniad i gychwyn achos sifil.

2.2 Gallai ceisiadau i ddatrys eich anghydfod cyn cychwyn achos sifil gynnwys y canlynol:

(1) Siarad yn uniongyrchol â'r unigolyn neu gynrychiolydd y cwmni y mae gennych anghydfod ag ef, mewn ymgais i setlo rhai, neu'r cyfan o'r materion. Weithiau gall cynnal y sgyrsiau hyn fod yn anodd, ond dylech

bob amser geisio peidio â chynhyrfu hyd yn oed os ydych yn teimlo'n rhwystredig. Fydd colli'ch tymer ddim yn helpu i ddatrys y sefyllfa.

(2) Os bydd y sgyrsiau uniongyrchol cychwynnol yn methu, dylech fod yn barod i nodi eich ochr chi o'r anghydfod yn ysgrifenedig. Byddai hyn yn hynod ddefnyddiol wrth ymdrin â chwmni a allai fod â'u trefn gwynion eu hunain ar gyfer cwsmeriaid. Dylech ganiatáu amser rhesymol i ymateb gael ei roi.

(3) Os ydych chi'n anhapus gyda gwasanaeth, neu waith a wnaed ar eich rhan gan gwmni neu unigolyn proffesiynol megis cyfrifydd neu grefftwr, byddai'n rhesymol rhoi cyfle iddynt roi sylw i'ch materion a, lle bo'n bosibl, i wneud y math o waith a allai arwain at ddatrys yr anghydfod.

(4) Efallai fod mudiadau eraill a allai ymdrin â'ch cwyn yn fwy priodol, megis yr Ombwdsmon, neu gorff safonau proffesiynol megis Cymdeithas y Cyfreithwyr neu un o'r sefydliadau cyfrifyddiaeth, neu gymdeithas fasnach. Mae'n bosib iawn y gallai cael ymdrin â'ch achos yn y modd hwn fod yn gyflymach ac yn llai costus nac achos yn y llys sirol.

2.3 Os ydych yn ansicr ynghylch eich cam nesaf, gallwch gael cymorth a chyngor drwy gysylltu â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth lleol neu gallwch ymweld â gwefan Directgov www.direct.gov.uk, lle y gallwch gael mwy o wybodaeth o ran datrys anghydfodau.

2.4 Os ydych wedi cychwyn achos a bod eich hawliad wedi cael ei ddyrannu i'r trac hawliadau bychain, gallwch wneud cais am i'ch hawliad gael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain. Dylech wneud hyn drwy dicio 'Ie' i gyfryngu ar yr holiadur dyrannu hawliadau bychain (Ffurflen N149). Nid oes unrhyw wasanaeth cyfatebol ar gyfer achosion amldrac a thrac cyflym. Fodd bynnag, ymhob achos bron bydd y llys yn annog cyfryngu mewn dwy ffordd, gan ddefnyddio gwobr a chosb:

(1) y wobr yw arbed costau (ac weithiau bydd y llys yn mynnu bod y partïon yn paratoi rhagamcanion o'r costau fel ei bod yn amlwg faint fydd mynd i dreial yn ei gostio) a'r cymorth a ddarperir gan y Cyngor Cyfryngu Sifil wrth ddarparu cyfeirlyfr o gyfryngwyr sifil achrededig a phennu cyfraddau rhesymol o daliadau, y gellir eu gweld yn: *http://www.civilmediation.justice.gov.uk;*

*(2)* y gosb yw'r ddarpariaeth yn y gorchymyn ar gyfer cyfarwyddyd fel a ganlyn (neu sy'n cyfateb iddo):

> Bod y partïon rhoi ystyriaeth ddifrifol o ddefnyddio cyfryngu gyda golwg ar gyrraedd setliad buan. Disgwylir i'r partïon ddarparu eglurhad os na roddwyd cynnig ar gyfryngu. Gallai canlyniadau o ran costau ddilyn.

Effaith y gorchymyn hwn yw y gallai'r parti sydd yn y pen draw yn ennill ei hawliad, ond na fu iddo ymgysylltu'n effeithiol â chyfryngu pan

oedd ei wrthwynebydd yn barod i gyfryngu, golli rhywfaint o’r costau neu’r holl gostau a fyddai wedi cael eu dyfarnu iddo ar derfyn y treial.

## B. Beth yw cyfryngu?

2.5 Mae cyfryngu’n broses lle y mae partïon sy’n gwrthwynebu ei gilydd (a’u cynghorwyr, os o gwbl), yn cael eu dwyn ynghyd mewn trafodaeth egwyddorol gyda’r nod o ganfod cytundeb ymarferol rhwng y partïon a thrwy hynny osgoi gorfod mynd i’r Llysoedd.

2.6 Goruchwylir y broses gyfryngu gan gyfryngwr, a fydd yn sicrhau fod yr holl bartïon cysylltiedig â’r anghydfod yn cael cyfle i gyflwyno’u barn a chlywed beth sydd gan yr ochr arall i’w ddweud. Mae’r cyfryngwr yn ddiduedd. Nid yw’n cymryd ochr, ac ni fydd yn gwneud unrhyw ymdrech i farnu pwy sy’n iawn neu’n anghywir. Bydd y cyfryngwr yn canolbwyntio egni’r partïon ar symud ymlaen yn hytrach na rhygnu ar rinweddau a ffaeleddau’r gorffennol. Byddant yn cael eu hannog o gymryd rhan mewn datrys problemau, datblygu opsiynau ac adeiladu cytundeb yn seiliedig ar ddiddordebau cyffredin.

2.7 Gallwch ganfod cyfryngwr drwy’r Cyngor Cyfryngu Sifil, gweler uchod. Neu efallai y byddai’n well gennych ganfod cyfryngwr yn breifat. Mae nifer o gyfryngwyr profiadol y gellir canfod eu manylion ar y rhyngrwyd. Cofiwch fod cyfryngu yn broses ar y cyd. Rhaid i'r ddwy ochr yn yr anghydfod gytuno ar y cyfryngwr, neu ar y modd y dewisir y cyfryngwr, a bydd yn rhaid i chi a’ch gwrthwynebydd dalu ffi ymlaen llaw i’r cyfryngwr am ei wasanaeth ef neu hi.

## C. Sut fydd y cyfryngu’n digwydd?

2.8 Mater i'w gytuno rhwng y partïon a’r cyfryngwr fydd hyn. Gall cyfryngu ddigwydd dros y ffôn, drwy e-bost neu mewn cyfarfod. Ni fydd cyfryngu dros y ffôn yn addas ond lle bydd y maes lle ceir anghytundeb rhwng y partïon yn gyfyngedig. Weithiau byddai’n well gan y partïon i’r cyfryngwr fynd yn ôl ac ymlaen rhyngddynt dros y ffôn neu drwy e-bost, heb yr angen iddynt orfod siarad yn uniongyrchol â’i gilydd. Mewn amgylchiadau eraill gellir cael cymysgedd o sesiynau ar y cyd rhwng y partïon a’r cyfryngwr, a sesiynau caeedig lle y gall parti gael sgwrs un i un â’r cyfryngwr yn gyfrinachol. Mae’r broses gyfryngu’n hyblyg ac wedi’i llunio i gwrdd ag anghenion y partïon.

2.9 Efallai y bydd yn ddefnyddiol cadw mewn cof, pan geir cytundeb wedi’i negodi, ei bod yn bur debyg y bydd yn rhaid i’r ddwy ochr ildio i ryw raddau. Fe allech ddiweddu’n teimlo ychydig yn anfodlon ac yn meddwl a fyddai wedi bod yn well ymladd yr holl ffordd yn y llys. Nid yw teimladau o’r fath ond yn naturiol, ond y mae'r siawns y byddai'n well i chi fod wedi treulio misoedd yn ymgyfreitha ac yn treulio’r amser angenrheidiol i ymladd eich hawliad yn iawn, gan ddioddef y pryder a ddaw’n anorfod gydag ymgyfreitha sifil, mor annhebygol fel y gallwch ei diystyru’n llwyr.

## D. Beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn setlo'r achos drwy gyfryngu?

2.10 Bydd y llys fel arfer yn gorchymyn atal (stopio) yr achos am gyfnod rhwng un a thri mis i alluogi cyfryngu. Os na chaiff yr anghydfod ei setlo yna bydd angen i chi a'ch gwrthwynebydd gysylltu â'r llys a bydd yr achos yn mynd rhagddo yn y ffordd arferol. Dylech gofio fod y broses gyfryngu'n gyfrinachol. Chewch chi ddim dweud wrth y barnwr beth ddywedoch chi na'r parti arall yn ystod y cyfryngu. Os na fydd un parti'n ymgysylltu'n adeiladol yn y cyfryngu gallai hynny fod yn fater a ddygir i sylw'r barnwr ar derfyn yr achos pan fydd yn ystyried pa orchymyn i'w wneud o ran costau.

2.11 Efallai y bydd y cyfan wedi bod yn wastraff amser ac egni. Ond yn aml mae o gymorth i fod wedi mynd drwy'r broses gyfryngu hyd yn oed os na chafwyd cytundeb ar derfyn y cyfryngu. Dylai'r ddwy ochr fod yn deall y materion yn fwy eglur, a deall safbwynt yr ochr arall yn well. Mae'n bosibl iawn, yn ystod y broses ymgyfreitha, wedi i ddogfennau gael eu datgelu ac i ddatganiadau tystion gael eu cyfnewid, y bydd yn haws setlo'r achos yng ngoleuni'r hyn a wyddoch am sefyllfa'ch gwrthwynebydd.

# Pennod 3
# Y Llys Sirol

A. Hanes a diben
B. Anghydfodau Sifil
C. Y Farnwriaeth a Staff
D. Treial gan Farnwr yn unig
E. Achosion y Llys Sirol: Hawliadau Bychain / Trac Cyflym / Yr Amldrac

_Penawdau_

*(1) Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth gefndir gyffredinol am y llys sirol a'r tri 'thrac', y bydd pob achos yn cael ei ddyrannu i un ohonynt.*

*(2) Mae ystyriaethau pwysig o ran costau a allai gael eu dyfarnu wrth ddyrannu eich achos i drac. Ymdrinnir â'r pwnc hwn ym mhennod 7. Os credwch fod eich achos yn un gweddol syml ac na ddylai'r treial mewn gwirionedd gymryd mwy na diwrnod, peidiwch â chaniatáu i'ch gwrthwynebydd eich perswadio fod eich achos yn un amldrac. Dylech ofyn i'r barnwr ystyried y mater a darparu'r wybodaeth iddo fel y gall wneud penderfyniad gwybodus.*

## A. Hanes a diben

3.1 Bu llysoedd yn Lloegr a elwid yn 'lysoedd sirol' ers cyfnod y Sacsoniaid. Fodd bynnag, crëwyd y llys sirol modern drwy statud yn 1846. Y nod oedd darparu llys lleol ar gyfer poblogaeth a oedd yn tyfu, wedi'i lunio i farnu anghydfodau bychain yn gyflym ac yn llai costus nag ymgyfreitha yn y llysoedd yn Llundain. Ar hyn o bryd ceir 215 o lysoedd sirol ledled y wlad, ond ni fydd pob un o'r llysoedd hyn yn gwrando achosion mwy (Amldrac). Tueddir i wrando achosion mwy mewn Canolfannau Treialon rhanbarthol. Y statud llywodraethol bellach yw Deddf Llysoedd Sirol 1984, gydag awdurdodaeth y llys sirol wedi'i ddiwygio gan Orchymyn Awdurdodaeth y Llys Sirol a'r Uchel Lys 1991.

3.2 Dros amser, mae awdurdodaeth y llys sirol, a bennir bob amser drwy statud, wedi cael ei ehangu. Mewn rhai meysydd cyfreithiol, megis contractau, camweddau (ac eithrio hawliadau difenwi), symiau y gellir eu hadennill dan statud, a chamau i adfer tir, mae awdurdodaeth y llys sirol cyn ehanged ag awdurdodaeth yr Uchel Lys. Mewn meysydd eraill, yn y bôn y rhai a ddaw dan yr awdurdodaeth ecwiti a weithredir gan Adran Siawnsri'r Uchel Lys, mae awdurdodaeth y llys sirol yn gyfyngedig iawn, gyda maint awdurdodaeth y llys yn cael ei gyfyngu i hawliadau nad ydynt yn werth mwy na £30,000.

3.3 Pery diben y llys sirol i fod yn llys lleol sy'n darparu cyfiawnder yn llawer cyflymach na'r hyn sydd ar gael yn yr Uchel Lys, ac ar gost is. Yn awr ceir tri

math gwahanol o achosion yn y llys sirol, ac mae cost ymgyfreitha yn y llys sirol yn ddibynnol iawn ar y math o achos y mae'r ymgyfreithiwr yn gysylltiedig ag ef, gweler Adran E isod.

## B. Anghydfodau Sifil

3.4 Mae gan y llys sirol awdurdodaeth mewn tri math gwahanol iawn o anghydfodau sifil, yn yr ystyr nad ydynt yn droseddol. Gellir disgrifio'r rhain fel hawliadau sifil, teulu ac ansolfedd. Mae gan y rhan fwyaf o lysoedd sirol awdurdodaeth teulu, yn penderfynu ar anghydfodau'n codi o briodasau'n chwalu, a phroblemau'n ymwneud â phlant, yn gysylltiedig ag ysgariad neu beidio. Mae gan nifer bychan o lysoedd sirol awdurdodaeth ansolfedd yn ymdrin â methdaliad a diddymu cwmnïau gyda chyfalaf cyfrannau o lai na £120,000.

3.5 Nid yw'r Llawlyfr hwn yn cwmpasu anghydfodau teuluol nac ansolfedd. Mae'n ymdrin ag anghydfodau sifil yn unig, megis hawliadau'n ymwneud â chontractau, perchnogaeth a meddiant tir, a chamweddau, gan gynnwys hawliadau anaf personol yn codi o ddamweiniau ffyrdd, a damweiniau yn y gwaith.

## C. Y Farnwriaeth a staff

3.6 Caiff achosion yn y llys sirol eu rheoli a'u gwrando gan Farnwyr Cylchdaith a Barnwyr Rhanbarth. Yn gyffredinol, caiff y treialon mwy (amldrac) eu gwrando gan Farnwyr Cylchdaith, rhai ohonynt hefyd yn eistedd yn yr Uchel Lys ac yn gweithredu awdurdodaeth Barnwyr Uchel Lys. Mae Barnwyr Rhanbarth yn gyfrifol am wrando treialon achosion llai (trac cyflym a hawliadau bychain) ac am reoli hawliadau amldrac cyn iddynt gyrraedd gwrandawiad. Ond nid yw'r gwahaniaethau hyn yn gwbl haearnaidd. Mae rhai Barnwyr Rhanbarth wedi'u hawdurdodi i wrando achosion amldrac, a phan nad oes gwaith arall ar gael gall Barnwyr Cylchdaith wrando ar achosion trac cyflym. Mewn rhai llysoedd, yn benodol Canolfan Cyfiawnder Sifil Canol Llundain, gwneir y rhan fwyaf o waith rheoli achosion amldrac gan Farnwyr Cylchdaith.

3.7 Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, caiff ymgyfreithiwr apelio i Farnwr Cylchdaith yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Farnwr Rhanbarth. Mae hon yn apêl wirioneddol. Hynny yw, nid yw'r Barnwr Cylchdaith yn gwrando ar y mater o'r newydd. Mae'n rhaid i ymgyfreithiwr sy'n apelio yn erbyn penderfyniad Barnwr Rhanbarth ddangos bod y Barnwr Rhanbarth wedi gwneud gwall cyfreithiol neu wedi dod i benderfyniad sydd y tu allan i ffiniau derbyniol gwneud penderfyniadau yn y maes penodol hwnnw. Mae angen i apelydd gael caniatâd i apelio penderfyniad Barnwr Rhanbarth, un ai gan y Barnwr Rhanbarth neu'r Barnwr Cylchdaith.

3.8 Caiff y llys sirol ei staffio gan gyflogeion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Mae'r staff yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau sydd eu hangen i sicrhau fod y llys yn gweithredu'n gywir. Mae staff y Llys Sirol yn gyfrifol am godi hawliadau, derbyn achosion a

drosglwyddwyd o lysoedd eraill, cyhoeddi a phrosesu ceisiadau, clercio i'r barnwyr yn eu gwaith yn y llys a thu allan, paratoi a chyflwyno gorchmynion, gorfodi gorchmynion, ac ystod eang o swyddogaethau eraill. Bydd rhai staff uwch yn gwneud gwaith lled-farnwrol, yn benodol cynnal archwiliadau o ddyledwyr ynghylch eu modd.

3.9 Nid yw staff y Llys Sirol yn gyfreithwyr, ac nid yw'n rhan o'u dyletswydd hwy i roi cyngor cyfreithiol. Mae amodau'n amrywio o lys i lys, ond yn y dinasoedd mawr mae staff yn tueddu i orfod gweithio dan amodau anodd iawn. Mae gan ymgyfreithwyr hawl i ddisgwyl lefel dda o wasanaeth, ond rhaid iddynt gofio fod y llys sirol yn 'berthynas tlawd' yng nghyswllt y gwasanaeth llysoedd, ac nad oes ganddo ddigon o adnoddau o bell ffordd. Mae hyn yn rhoi llawer iawn o bwysau ar staff y llys.

## D. Treial gan Farnwr yn unig

3.10 Gyda rhai eithriadau penodol, caiff pob treial yn y llys sirol ei wrando a'i benderfynu gan un barnwr yn eistedd ar ei ben ei hun. Mae'r barnwr felly'n eistedd fel barnwr, yn rheoli'r achos yn y llys ac yn penderfynu ar bwyntiau cyfreithiol, ac fel rheithgor, gan benderfynu ar gwestiynau ynghylch ffeithiau.

3.11 Dan ddarpariaethau Deddf Llysoedd Sirol 1984, a 66, gellir gwneud cais i dreial gael ei wrando gan farnwr a rheithgor lle ceir 'cyhuddiad o dwyll' yn erbyn y ceisydd am reithgor neu lle y ceir hawliad yng nghyswllt erlyn yn faleisus neu gam-garcharu. Mae 'cyhuddiad o dwyll" yn cynnwys mwy na honiad o dwyll. Nid yw cyhuddiad o'r fath yn codi ond mewn achos o dwyll y gellir gweithredu arno, a hyd yn oed wedyn, anaml y defnyddir disgresiwn y llys i orchymyn treial gyda rheithgor. Mewn achosion o erlyn yn faleisus neu gamgarcharu, hawliadau a ddygir bron yn bob amser yn erbyn yr heddlu yn unig, mae'n fwy cyffredin i'r llys orchymyn treial gyda rheithgor.

3.12 Rhaid i gais am dreial gyda rheithgor gael ei wneud o fewn 28 diwrnod i gyflwyno'r amddiffyniad [CPR 26.11]. Mae rheithgor mewn llys sirol yn cynnwys 8 rheithiwr, ac mae'r rheithgor yn gweithredu drwy ateb cwestiynau penodol yn ymwneud â materion hanfodol o ran ffeithiau yn yr achos. Penderfynir ar y cwestiynau hyn gan y barnwr gan ymgynghori â'r ymgyfreithwyr.

## E. Achosion y Llys Sirol: Hawliadau Bychain / Trac Cyflym / Yr Amldrac

3.13 Caiff pob hawliad yn y llys sirol ei ddyrannu i "drac" dan ddarpariaethau CPR Rhan 26. Ceir tri thrac. Fel yr awgryma ei enw mae'r Trac Hawliadau Bychain ar gyfer hawliadau isel eu gwerth. Hwn yw'r trac arferol ar gyfer unrhyw hawliad sydd â gwerth sydd heb fod yn fwy na £5,000. Fodd bynnag, ceir dau eithriad i'r rheol gyffredinol hon. Yn gyntaf, pan fo'r hawliad yn un am anaf personol, nid yn unig na ddylai cyfanswm gwerth yr hawliad fod yn fwy na £5,000, ni ddylai gwerth elfen anaf personol yr hawliad fod yn fwy na £1,000. Yn ail, lle ceir hawliad gan denant eiddo preswyl yn erbyn ei landlord yn gofyn

i'r landlord wneud gwaith atgyweirio, ni ddylai cost yr atgyweiriadau fod yn fwy na £1,000 ac ni ddylai gwerth unrhyw hawliad arall fod yn fwy na £1,000 arall.

3.14 Y Trac Cyflym yw'r trac arferol ar gyfer unrhyw hawliad o werth uwch na'r rhai ar gyfer Hawliad Bychan, ond nad yw'n uwch na £25,000 ac nad yw'r treial yn debygol o bara mwy nac un diwrnod gydag unrhyw dystiolaeth arbenigol wedi'i gyfyngu i un arbenigwr y parti mewn dim mwy na dau faes arbenigol.

3.15 Caiff pob hawliad arall ei ddyrannu i'r Amldrac. Bydd y rhain yn hawliadau mwy sylweddol a ddygir yn y llys sirol.

3.16 Bydd materion ar y trac hawliadau bychain bron yn ddi-feth yn cael eu gwrando gan Farnwr Rhanbarth a fydd yn gweithredu dipyn mwy fel dyfarnwr nac fel Barnwr. Bydd yr achos yn anffurfiol, a bydd tasg y barnwr yn cynnwys cyfrifoldeb i ganfod y dystiolaeth, a sicrhau bod pob parti wedi galw'r tystion a all roi tystiolaeth berthnasol ac wedi cyflwyno'r dogfennau a fydd yn cynorthwyo'r llys i gyrraedd y penderfyniad cywir. "Rhaid iddo hefyd reoli'r sefyllfa a sicrhau fod pob parti yn cael cyfle teg i gyflwyno'i achos ei hun a herio achos ei wrthwynebydd". I wneud hyn, bydd yn rhaid i'r barnwr weithredu mewn modd sy'n amhriodol yn aml mewn achosion eraill. Gallai'r Llawlyfr hwn roi peth cymorth cyffredinol i ymgyfreithiwr mewn mater ar y trac hawliadau bychain, ond fe'i hanelir yn bennaf at yr ymgyfreithiwr ar y trac cyflym a'r amldrac sy'n gorfod cymryd rhan mewn trefn gyfreithiol llawer mwy ffurfiol lle y mae sgôp y barnwr ar gyfer cynorthwyo wrth baratoi a chyflwyno'r achos wedi'i gyfyngu'n sylweddol iawn.

3.17 Fel arfer caiff hawliadau trac cyflym eu gwrando gan Farnwr Rhanbarth. Yn eu hanfod, aiff yr hawliadau hyn rhagddynt yn yr un modd â hawliadau amldrac. Y maent, fodd bynnag, yn hawliadau byrrach, o werth isel, ac am y rhesymau hynny byddant yn tueddu i fod yn symlach eu paratoi a'u cyflwyno. Bydd rhai ymgyfreithwyr yn defnyddio cyfreithwyr i'w cynrychioli ar hawliadau trac cyflym ond bydd mwyafrif yr ymgyfreithwyr yn cynrychioli eu hunain.

3.18 Bydd hawliadau amldrac fel arfer yn cael eu gwrando gan Farnwr Cylchdaith neu Gofiadur. Fel rheol, bydd Cofiadur yn dwrnai sy'n ymarfer, un ai bargyfreithiwr neu gyfreithiwr, sydd â swydd farnwrol ran-amser. Mae rhai Cofiaduron yn dal swyddi barnwrol llawn-amser mewn meysydd eraill, megis fel Cadeirydd Tribiwnlys Cyflogaeth neu Dribiwnlys Prisio Lesddaliadau. Ceir Barnwyr Rhanbarth sydd hefyd yn Gofiaduron. Mae gan Gofiadur yr un statws â Barnwr Cylchdaith. Bydd pob Barnwr Cylchdaith wedi bod yn Gofiadur am o leiaf dwy flynedd cyn cael ei apwyntio'n farnwr llawn-amser.

3.19 Ceir goblygiadau pwysig iawn o ran cost yn gysylltiedig â'r gwahanol draciau. Y rheol gyffredinol yn y trac hawliadau bychain [CPR 27.14] yw na ellir dyfarnu unrhyw gostau yn erbyn y parti sy'n colli ac eithrio'r costau sefydlog y gellir eu priodoli i godi'r hawliad a ffioedd llys a delir gan y parti llwyddiannus, ynghyd ag (a) costau teithio rhesymol ar gyfer y parti llwyddiannus a'i dystion (b) colli enillion hyd at £50 y dydd ac (c) ffi ar gyfer unrhyw arbenigwr a alwyd, heb fod yn fwy na £200 [27PD.7]. Fodd bynnag, lle bydd y barnwr o'r farn bod

parti wedi ymddwyn yn afresymol (e.e. drwy ddod ag achos cwbl sbeciannol neu fethu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys) gellir gorchymyn i'r parti dan sylw dalu costau cyfreithiol y parti arall.

3.20 Mewn hawliadau trac cyflym, dyfernir costau fel arfer yn erbyn y parti sy’n colli ac o blaid y parti llwyddiannus ar raddfa sefydlog. Lle nad yw gwerth yr hawliad yn fwy na £3,000, bydd y costau’n £485; ar gyfer hawliadau hyd at £10,000, £690; ar gyfer hawliadau hyd at £15,000, £1,035 ac ar gyfer hawliadau hyd at £25,000, £1,650. Ceir darpariaethau ychwanegol yn y CPR ar gyfer dyfarnu costau pellach neu ddim costau o gwbl, a nodir y rhain yn CPR Rhan 46, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer dyfarnu costau ychwanegol i ymgyfreithiwr drosto’i hun sy’n llwyddiannus yn yr achos, boed fel hawlydd neu ddiffynnydd.

3.21 Gall parti llwyddiannus mewn hawliad amldrac ddisgwyl derbyn dyfarniad am ei gostau'n llawn. Efallai na fydd “llawn” yn golygu fod yn rhaid talu pob ceiniog o gostau’r parti llwyddiannus. Mae rheolau manwl ynghylch y costau y gellir eu hadennill mewn achos sifil, ac mae’n bosibl cael dadl bellach dros y costau gerbron Barnwr Costau arbenigol. Gall fod yn fater drud iawn wynebu gorchymyn i dalu costau’r ochr arall mewn hawliad amldrac.

# Pennod 4
# Rheolau Trefniadaeth Sifil

A. Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998
B. Y Prif Amcan
C. Pwerau Rheoli Achosion y Llys
D. Terfynau amser
E. Canllawiau i'r Siawnsri, Mainc y Frenhines a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith (TCC)

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Caiff pob treial sifil ei lywodraethu gan Reolau Trefniadaeth Sifil 1998 ("CPR").*

*(2) Gellir llwytho'r CPR o nifer o safleoedd. Nid oes angen ac nid yw'n ddoeth llwytho'r rheolau cyfan. Mae 79 ohonynt i gyd, llawer ohonynt yn cynnwys cyfarwyddiadau ymarfer. Os nad oes modd i chi gael copi printiedig o'r CPR, y peth synhwyrol i'w wneud yw llwytho'r rheol, neu reolau, sy'n ymwneud â'r cam yn yr achos yr ydych chi arno ar hyn o bryd. Bydd testun y llawlyfr hwn yn eich cyfeirio, fel y bo'n briodol, at y rhan berthnasol o'r rheolau. Rhoddir cyfeiriadau mewn cromfachau sgwâr. Mae [CPR 16.2] yn gyfeiriad at reol. Mae [CPR 16PD.3] yn gyfeiriad at gyfarwyddyd ymarfer sy'n ategu'r rheol.*

*(3) Mae'r CPR [CPR1] yn ei gwneud yn ofynnol i ymdrin â phob achos yn 'gyfiawn', a rhydd CPR 1 ddiffiniad bras o 'cyfiawn' i'r dibenion hyn. Mae'r diffiniad yn ymgorffori'r cysyniad o gymesuredd, a dyrannu adnoddau'r llys yn deg. Rhaid i'r llys ymdrin yn deg â'r partïon ym mhob achos, ond rhaid iddo hefyd ystyried y ffaith y bydd partïon eraill mewn achosion eraill yn cystadlu am amser ac adnoddau'r llys.*

*(4) Mae gan y llys bwerau rheoli eang. Dylid cadw at gyfyngiadau amser, a gallai sancsiynau gael eu gosod ar ymgyfreithiwr sy'n methu â chwrdd â chyfyngiadau amser. Ond anaml y gosodir sancsiynau am dorri cyfyngiad amser am y tro cyntaf.*

## A. Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998

4.1 Mae'r Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1998 ("CPR") a ddaeth i rym ar 26 Ebrill 1999, yn darparu un corff o reolau trefniadaeth ar gyfer yr holl lysoedd sifil, sef y llys sirol, yr Uchel Lys, a'r Llys Apêl, adran sifil. Mae gan y CPR rym statud gan eu bod yn cael eu gwneud, a'u diwygio'n rheolaidd, gan offeryn statudol dan y grym a roddwyd gan Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997. Daeth diwygiadau sylweddol i rym ar 1 Ebrill 2013 fel rhan o 'Ddiwygiadau Jackson', gweler Pennod 14.

4.2 Lluniwyd y CPR i greu newid sylweddol i'r rheolau trefniadaeth a oedd mewn grym yn flaenorol, sef Rheolau'r Goruchaf Lys a Rheolau'r Llys Sirol. Yn benodol, mae'r CPR yn gosod ar y llys (h.y. y barnwr) y ddyletswydd i reoli achosion yn ddiwyd er mwyn cyflawni'r prif amcan. Ymysg nodau pwysicaf y CPR y mae (1) sicrhau bod cyfreitha'n digwydd gyda 'chardiau'r partïon ar y bwrdd', a (2) cyflwyno'r cysyniad o gymesuredd wrth ymdrin ag achos. Bydd y llys bob amser yn anelu at ganfod gwir ffeithiau unrhyw achos er mwyn cymhwyso'r darpariaethau cyfreithiol cywir fel ei fod yn cyrraedd canlyniad cyfiawn. Ond cydnabuwyd erioed na all y llys bob amser fod yn hyderus ei fod wedi canfod y ffeithiau. Mae'r safon prawf mewn achosion sifil, h.y. prawf ar sail tebygolrwydd yn dangos y realaeth a ddefnyddir wrth ymgymryd â'r dasg o 'ganfod y ffeithiau'. Yn ogystal, mae'r CPR yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ymgymryd â'r dasg gyda chymesuredd mewn golwg. Os yw cost bwrw ymlaen ag unrhyw agwedd ar anghydfod sifil yn anghytbwys â'r budd allai ddeillio o hynny, gallai'r llys benderfynu mai gwell peidio â mynd i gostau na dilyn pwynt penodol, hyd yn oed lle y byddai gwneud hynny o bosibl yn galluogi'r llys i ganfod ateb mwy dibynadwy.

4.3 Mae'r CPR wedi'u rhannu i 'Rannau', pob un gyda nifer o reolau'n ymwneud â phwnc penodol ac mae gan y rhan fwyaf o Rannau hefyd un neu fwy o Gyfarwyddiadau Ymarfer sy'n ategu'r rheolau ac yn cynorthwyo o ran deall sut y mae'r rheolau i gael eu gweithredu. Mae 79 o rannau i'r CPR, ond mae nifer o'r rhannau hyn yn ymdrin â llysoedd penodol neu achosion arbenigol na fyddant yn berthnasol i'r mwyafrif helaeth o ymgyfreithwyr. Mae'r CPR hefyd yn cynnwys nifer o ffurflenni i'w defnyddio ar wahanol gamau yn ystod hawliad sifil.

4.4 Cyhoeddir y CPR, gyda nodiadau golygyddol, gan nifer o gyhoeddwyr cyfreithiol. Gall yr ymgyfreithiwr drosto'i hun glywed y Barnwr neu gyfreithwyr yn cyfeirio at 'y Llyfr Gwyn' (a gyhoeddir gan Sweet & Maxwell) neu'r 'Llyfr Gwyrdd' (a gyhoeddir gan LexisNexis) a cheir argraffiadau eraill hefyd. Mae Jordan's yn cyhoeddi'r rheolau gyda nodiadau golygyddol (mewn clawr Brown). Mae'r llyfrau hyn i gyd yn ddrud iawn. Fodd bynnag, gellir llwytho'r CPR eu hunain yn rhwydd oddi ar y rhyngrwyd, er enghraifft yn www.justice.gov.uk/civil/procrules. Gall y gwahanol ffurflenni a allai gael eu defnyddio i gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddir gan y llys wrth weithredu ei bwerau rheoli achos hefyd gael eu llwytho'n rhwydd.

4.5 Mae'n bwysig bod yr ymgyfreithiwr yn cael copi o'r rheolau sy'n berthnasol i bob cam yn yr achos y mae'n ymwneud ag ef. Mae'r rheolau'n eithaf syml eu darllen a'u deall, ac felly gall ymgyfreithiwr eu dilyn heb gymorth cyfreithiol. Os bydd ymgyfreithiwr yn cael trafferth i ddeall unrhyw reol, gall bob amser ofyn i'r barnwr yn y Gynhadledd Rheoli Achos nesaf am gymorth, neu os bydd y mater yn un brys ac yn ymwneud yn benodol â Gorchymyn a wnaed gan lys, gall ymgyfreithiwr ysgrifennu at reolwr y llys gan ofyn iddo roi unrhyw gwestiwn penodol gerbron y barnwr yn gofyn am gymorth i gydymffurfio â'r Gorchymyn dan sylw.

## B. Y Prif Amcan

4.6 Mae CPR Rhan 1.1 yn darparu fel a ganlyn “Mae’r Rheolau hyn yn god trefniadaethol newydd a’r prif amcan yw galluogi’r llys i ymdrin ag achosion yn gyfiawn ac am gost gymesur”. ‘Ymdrin ag achos yn gyfiawn’ fu nod y llys sifil Seisnig erioed, ond o 1 Ebrill 2013 rhoddir diffiniad newydd i’r ‘prif amcan’ hwn. Drwy CPR Rhan 1.2 mae ymdrin ag achos yn gyfiawn ac am gostau cymesur yn cynnwys, cyn belled ag y bo hynny’n ymarferol -

(a) sicrhau bod y ddau barti’n gyfartal;

(b) arbed costau;

(c) ymdrin â'r achos mewn ffyrdd sy’n gymesur ag –
  (i) y swm o arian sydd dan sylw;
  (ii) pwysigrwydd yr achos;
  (iii) cymhlethdod y materion; a
  (iv) sefyllfa ariannol pob parti;

(d) sicrhau y caiff yr achos ei drin yn hwylus ac yn deg; a

(e) dyrannu iddo gyfran briodol o adnoddau’r llys, heb anghofio bod angen dyrannu adnoddau i achosion eraill.

(f) gorfodi cydymffurfiaeth â rheolau, cyfarwyddiadau ymarfer a gorchmynion.”

4.7 Mae’n dilyn fod yn rhaid i’r llys ymwneud nid yn unig â chanfod y gwir ffeithiau a chymhwyso'r gyfraith berthnasol. Rhaid iddo hefyd ymwneud â materion treuliau, cymesuredd, a’r angen i roi sylw i ofynion achosion eraill. O bersbectif yr ymgyfreithiwr drosto’i hun nid yw ‘sicrhau bod y ddau barti’n gyfartal’ yn ymestyn i amddifadu’r ochr arall o’i adfocad, ond y mae’n rhaid i’r llys ystyried y ffaith, pan gyfyd, fod gan un ochr gynrychiolaeth gyfreithiol, a dim gan y llall. O 1 Ebrill 2013 rhoddir pwyslais newydd ar ‘orfodi cydymffurfiaeth â rheolau, cyfarwyddiadau ymarfer a gorchmynion’.

## C. Pwerau Rheoli Achosion y Llys

4.8 Mae’r pwerau hyn yn eang iawn. Fe’u nodir yn CPR Rhan 3 sy’n rhy eang i’w drafod yma. Yn ei hanfod, rhoddir y grym angenrheidiol i’r llys chwarae rhan weithredol yn y gwaith o reoli unrhyw achos ac, fel y bo’n briodol, i deilwra’r cyfarwyddiadau a wneir ganddo i gwrdd ag anghenion penodol yr achos.

4.9 Mae’r llys yn rheoli achos drwy wneud Gorchmynion sydd, mewn gwirionedd, yn rhoi cyfarwyddiadau i’r partïon o ran beth y mae’n rhaid iddynt ei wneud, ac erbyn pa bryd. Weithiau gwneir y Gorchmynion hyn yn ystod gwrandawiad interim (interim oherwydd nad yw’n dreial neu wrandawiad terfynol) gyda’r ddau barti’n bresennol. Gellir gorchymyn gwrandawiad interim oherwydd bod gan un o’r partïon gais penodol i'w wneud, ond gwneir y rhan fwyaf o Orchmynion am gyfarwyddiadau mewn Cynadleddau Rheoli Achos pan fydd y llys yn galw pob parti i fod yn bresennol mewn gwrandawiad i ystyried sut y mae'r achos yn mynd rhagddo a pha gyfarwyddiadau pellach sydd angen eu gwneud.

4.10 Weithiau bydd y llys yn gwneud gorchymyn ar bapur (a ddisgrifir yn aml fel ‘gwaith blwch’) heb i’r partïon fod yn bresennol. Gall Gorchmynion o’r fath gael eu gwneud ar gais y llys neu o ganlyniad i gais gan y naill neu’r llall o’r partïon. Pan fydd llys yn gwneud gorchymyn heb wrando ar y partïon, rhaid i’r Gorchymyn gynnwys datganiad o hawl unrhyw barti a effeithir gan y Gorchymyn i wneud cais iddo gael ei roi o'r nail du, ei amrywio neu ei atal, [CPR 3.3(5)]. Fel arfer bydd y gorchymyn yn rhoi saith diwrnod i’r partïon wneud cais o'r fath. Dylai ymgyfreithiwr drosto’i hun sy’n dymuno herio Gorchymyn ysgrifennu at y llys yn ddi-oed. Bydd Barnwyr fel arfer yn ofalus o ran sicrhau nad yw gorchmynion gwaith blwch a wneir heb wrandawiad yn rhy ddadleuol, ond ni ddylai unrhyw ymgyfreithiwr deimlo’n ofnus ynghylch gwneud cais am i orchymyn a wnaed heb wrandawiad gael ei amrywio neu ei roi o’r naill du. Ni ddylai barnwr byth wrthwynebu gwrando ar ymgyfreithiwr drosto’i hun yn gwneud datganiadau ynghylch ffurf briodol Gorchymyn nac yn wir a ddylid gwneud Gorchymyn o gwbl.

4.11 Mae’n bwysig cofio y gallai cyfarwyddiadau a wneir yn ystod paratoi ar gyfer treial fod â goblygiadau difrifol yn y treial. Mae ymgyfreitha’n waith caled, a dylid ei ystyried felly. Pan fydd y llys yn gorchymyn Cynhadledd Rheoli Achos, efallai na fydd yr amser yn gyfleus, ac y mae bob amser yn agored i unrhyw barti ofyn i’r llys am amser gwahanol ar gyfer y gwrandawiad. Ond ni all y llys ymateb i geisiadau o’r fath bob amser. Dylai pob unigolyn sy’n barti mewn achos cyfreithiol wneud ei orau i fynychu gwrandawiadau interim, gan sicrhau ei fod wedi adolygu ei bapurau fel y gall ateb unrhyw gwestiwn ynghylch ei achos a ofynnir iddo gan y barnwr.

## D. Cyfyngiadau Amser a sancsiynau

4.12 Dylai pob Gorchymyn am gyfarwyddiadau ddod gyda chyfyngiadau amser, a bydd gorchymyn da yn nodi nid yn unig y dyddiad ond erbyn pa amser o'r dydd y mae'n ofynnol cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd.

4.13 Bydd llysoedd yn cymryd cyfyngiadau amser o ddifrif, ac mae ystod o sancsiynau ar gael i’r llys gosbi ymgyfreithiwr nad yw'n cydymffurfio â chyfyngiad amser. Gallai, er enghraifft, gael ei atal rhag dadlau mater penodol, neu alw tystiolaeth tyst penodol, neu gallai rhan o’i hawliad am iawndal gael ei dileu. Y sancsiwn mwyaf difrifol o’r cyfan yw dileu hawliad yn ei gyfanrwydd lle y bydd hawlydd yn gweithredu’n groes i orchymyn llys, neu ddileu amddiffyniad a chan hynny ganiatáu i hawlydd gael dyfarniad heb dreial lle y bydd diffynnydd wedi torri gorchymyn llys.

4.14 Fodd bynnag, er siom i rai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n canfod nad yw’r ochr arall yn cydymffurfio’n gaeth ag unrhyw amser penodol y darparwyd amdano mewn cyfarwyddyd, yr arferiad fu i beidio â gosod sancsiwn am dorri gorchymyn llys am y tro cyntaf. Y dull mwyaf arferol o weithredu yw i’r llys wneud ail orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni cyfarwyddyd ond y tro hwn yn nodi’n glir pa sancsiwn fydd yn berthnasol os na chydymffurfir â’r ail Orchymyn hwn. Gelwir y Gorchmynion hyn yn aml yn orchmynion “oni bai”,

oherwydd y rhoddir hwy gan nodi, oni bai y bydd y parti'n cydymffurfio â'r gorchymyn y bydd sancsiwn penodol yn berthnasol. O 1 Ebrill 2013, mae barnwyr wedi cael cyfarwyddyd i fod yn llymach gydag ymgyfreithwyr nag y buont yn y gorffennol. Mae'n llawer rhy gynnal i weld pa effaith a gaiff hyn ar orfodi gorchmynion. Bydd barnwyr yn aml mewn sefyllfa anodd. Gallai gorfodaeth drylwyr ar orchmynion arwain mewn gwirionedd at gostau uwch, sy'n gwbl groes i nod datganedig y newidiadau i'r rheolau yn Ebrill 2013.

4.15 Hyd yn oed pan osodir sancsiwn, mae'n agored i barti wneud cais am ryddhad o'r sancsiynau [CPR Rhan 3.9] (gweler 9.18). Rhaid i gais o'r fath gael ei gefnogi gan dystiolaeth, fe arfer ar ffurf datganiad tyst, a ddylai egluro paham y bu i'r parti fethu â chydymffurfio â'r Gorchymyn a phaham, os mai dyna'r sefyllfa, na fu i'r cais am ryddhad o sancsiynau, gael ei wneud ar unwaith. Mae'r cwestiwn a fydd yn llys wedyn yn caniatáu rhyddhad, neu'n gwneud hynny ar delerau penodol, yn dibynnu ar ystyriaeth o'r holl amgylchiadau perthnasol ac yn benodol y rhai a nodir yn CPR Rhan 3.9(1).

4.16 Bron bob amser, caniateir dyddiau ar gyfer cydymffurfio â chyfarwyddiadau. Nid yw pob diwrnod yn cyfrif fel diwrnod i'r dibenion hyn. Gweler y rheol ar gyfer cyfrifo dyddiau yn CPR Rhan 2.8. Mae diwrnod yn golygu 'diwrnod clir'. Mae hyn yn golygu na fydd y diwrnod pan fydd cyfnod o ddyddiau'n cychwyn yn cael ei gyfrif; ac os bydd diwedd y cyfnod yn cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at ddigwyddiad, ni fydd diwrnod y digwyddiad hwnnw'n cyfrif chwaith. Pan fydd cyfnod o amser yn bum diwrnod neu lai, ni fydd penwythnosau a gwyliau banc yn cyfrif.

4.17 Mae pwerau'r llys o ran rheoli achosion yn ei alluogi i ymestyn neu fyrhau unrhyw gyfnod o amser, hyd yn oed pan wneir cais am estyniad ar ôl i'r amser ddod i ben.

## E. Canllawiau i'r Siawnsri, Mainc y Frenhines, Llys Masnach a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith (TCC)

4.18 Yn yr Uchel Lys, mae Adrannau'r Siawnsri a Mainc y Frenhines a'r llysoedd arbenigol (gan gynnwys y Llys Masnach a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith ('TCC') yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylid cynnal agweddau penodol ar gyfreitha yn y llysoedd hynny. Nid yw Canllawiau Adran y Siawnsri nac Adran Mainc y Frenhines yn uniongyrchol berthnasol yn y llys sirol. Fodd bynnag, gall yr ymgyfreithiwr drosto'i hun ddod ar draws cyfeiriadau at y Canllawiau hyn, sydd mewn sawl ffordd yn rhoi arweiniad defnyddiol iawn y gellid ei ddilyn yn y llys sirol, a chrybwyllir hwy i'r diben hwn. Gellir llwytho'r Canllawiau'n rhwydd oddi ar wefan www.justice.gov.uk.

4.19 Gallai ymgyfreithiwr drosto'i hun ganfod fod ei achos ar Restr Fasnach neu Restr Technoleg ac Adeiladwaith yn y llys sirol. Mewn achos o'r fath bydd y rheolau sy'n ymwneud yn benodol â'r llysoedd hyn, y Llys Masnach CPR 59, TCC CPR 60 yn berthnasol i'r achos hwnnw. Mae gan y TCC ei ganllaw ei hun a bydd hwn yn berthnasol i achosion y llys sirol ar Restr TCC.

# Pennod 5
# Ffioedd y Llys Sirol

A. Ffioedd Llys
B. Esemptiad rhag talu ffioedd

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Rhaid talu ffioedd ar gychwyn hawliad a hefyd ar gamau gwahanol yn ystod yr hawliad.*

*(2) Mae ymgyfreithwyr sy’n cael Cymhorthdal Incwm, Credyd Gwarant Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, a Chredyd Treth Gwaith yn cael esemptiad rhag talu ffioedd ar yr amod nad ydynt hefyd yn derbyn Credyd Treth Plant.*

*(3) Gall ymgyfreithwyr ar incwm isel ac ymgyfreithwyr sy’n gallu dangos y byddai talu ffi llys yn arwain at galedi gormodol fod yn gymwys i gael y ffioedd wedi'u dileu neu esemptiad rhag talu’r ffi, yn ddibynnol ar brawf modd.*

*(4) Rhaid i ymgyfreithiwr sy’n destun Gorchymyn Atal Sifil gael ganiatâd Barnwr Uchel Lys i wneud cais am esemptiad rhag talu ffi.*

## A. Ffioedd Llys

5.1 Mae ffioedd llys yn daladwy pan gychwynnir hawliad, ac mae hynny’n cynnwys cychwyn gwrth-hawliad neu hawliad trydydd parti. Gyda hawliadau am arian, bydd lefel y ffi ar gyfer cychwyn yr hawliad yn dibynnu ar y swm sy'n cael ei hawlio. O’r herwydd, y peth doeth i hawlydd ei wneud yw gwneud yn siŵr bod ei hawliad wedi’i gyfyngu i frig y band y mae’n perthyn iddo. Os bydd hawliad yn cael ei gychwyn ar-lein (Money Claim Online neu MCOL), mae'r ffioedd ychydig yn is na phan gychwynnir yr hawliad yn y llys. Mae ffi sefydlog ar gyfer hawliadau anariannol. Bydd y ffi ar hawliadau meddiant a wneir ar-lein drwy PCOL, y gellir ei ddefnyddio dim ond ar gyfer hawliadau meddiant sy’n codi yn sgil ôl-ddyledion rhent, yn llai nag ar gyfer achosion eraill.

5.2 Mae ffioedd i'w talu hefyd:

(i) pan fydd achos yn cael ei ddyrannu i un o'r tri 'thrac';

(ii) pan gyflwynir cais am orchymyn yn ystod cam interim yr hawliad, hy cyn gwrandawiad y treial;

(iii) pan fydd y rhestr wirio cyn-treial yn cael ei ffeilio;

(iv) ar gyfer y gwrandawiad; a

(v) ar gyfer unrhyw asesiad o gostau ar ôl y gwrandawiad.

Ar ôl y dyfarniad, bydd rhagor o ffioedd i'w talu ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn y dyfarniad neu am ddefnyddio unrhyw rai o’r dulliau gorfodi gwahanol yng nghyswllt dyfarniad.

5.3 Mae'r Senedd wedi gwneud ymgyfreitha sifil yn fater drud. Mae lefelau’r ffioedd yn cael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth, Gorchmynion Ffioedd y Llys Sirol ac maent yn cynyddu'n rheolaidd. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyhoeddi taflen, EX50, a fydd yn dangos y ffioedd sydd mewn grym ar y pryd. Mae manylion y ffioedd sydd i'w talu ar gael bob amser yn www.justice.gov.uk/guidance/courts-and-tribunals/courts/fees .

5.4 Yn ystod cam interim yr hawliad, does dim ffi i’w thalu am Gynhadledd Rheoli Achos neu Adolygiad Cyn-treial. Efallai y gellir osgoi ffi am gais penodol os bydd yr ymgyfreithiwr yn aros i wneud ei gais mewn Cynhadledd Rheoli Achos. Ond rhaid iddo gofio rhoi digon o rybudd ymlaen llaw i’r ochr arall ac i’r llys y bydd yn gofyn am gyfarwyddiadau penodol gan y llys yn y Gynhadledd er mwyn sicrhau bod yr ochr arall yn gwybod am hynny a bod y llys yn caniatáu digon o amser ar gyfer y gwrandawiad.

5.5 Mae modd i ffi gwrandawiad gael ei had-dalu os bydd yr achos yn cael ei setlo a'r llys yn cael gwybod bod yr achos wedi'i setlo. Bydd maint yr ad-daliad yn dibynnu ar pryd yr hysbysir y llys bod yr achos wedi’i setlo. Bydd 100% o'r ffi yn cael ei ad-dalu os caiff y llys ei hysbysu fwy na 28 diwrnod cyn y gwrandawiad; rhwng 28 a 15 diwrnod, 75% o'r ffi; a rhwng 14 a saith diwrnod 50% o'r ffi. Ni fydd ad-daliad os caiff y llys ei hysbysu llai na 7 niwrnod cyn y gwrandawiad.

## B. Esemptiad rhag talu Ffi

5.6 Ar gyfer ymgyfreithwyr nad ydynt mor gyfoethog, efallai y cânt esemptiad rhag talu ffioedd. Mae tri chonsesiwn. O dan gonsesiwn 1, ceir esemptiad llawn rhag talu ffioedd y llys os yw’r ymgyfreithiwr yn derbyn unrhyw un o’r pedwar budd-dal sy’n dibynnu ar brawf modd, cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, credyd gwarant pensiwn y wladwriaeth neu gredyd treth gwaith, lle nad yw'r ceisydd yn derbyn credyd treth plant. O dan gonsesiwn 2, ceir esemptiad llwyr rhag talu ffioedd llys, os yw incwm gros blynyddol yr ymgyfreithiwr yn llai na therfynau penodedig, y ffigur yn dibynnu ar nifer y plant sy'n byw gyda’r ymgyfreithiwr. O dan gonsesiwn 3, ceir esemptiad rhannol rhag talu ffioedd yn seiliedig ar brawf modd. Ceir manylion y consesiynau hyn yn nhaflen EX160A GLlTEM. Mae rhagor o wybodaeth am esemptiad rhag talu ffioedd neu ddileu ffioedd ar gael ar-lein yn www.hmctsformfinder.justice.gov.uk

5.7 Ni chaiff ‘ymgyfreithiwr blinderus’, sef ymgyfreithiwr sy’n destun Gorchymyn Atal Sifil, wneud cais am esemptiad rhag talu ffioedd heb ganiatâd Barnwr Uchel Lys.

5.8 Rhaid i ymgyfreithiwr sy’n gwneud cais am esemptiad rhag talu ffi lenwi ffurflen EX160. Bydd hon yn cael ei phrosesu gan swyddog llys. Os na fydd yr ymgyfreithiwr yn cytuno â phenderfyniad y swyddog, gall gyflwyno apêl ysgrifenedig i Reolwr y Llys. Bydd apêl terfynol yn symud o Reolwr y Llys i’r Cyfarwyddwr Ardal.

# Pennod 6
# Strwythur Sylfaenol Ymgyfreitha

A. Sail achos
B. Pynciau o gyfraith
C. Pynciau o ffaith

<u>*Penawdau*</u>

*(1) I ddod â hawliad, mae'n rhaid i'r Hawlydd fod â 'sail achos' sy'n cael ei chydnabod gan y gyfraith.*

*(2) Os bydd Diffynnydd am herio hawliad yr Hawlydd, rhaid iddo naill ai godi pynciau o gyfraith neu bynciau o ffeithiau neu'r ddau. Dim ond pynciau o ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf o achosion.*

*(3) Mae'n holl bwysig eich bod chi fel ymgyfreithiwr yn nodi'r pynciau o ffeithiau yn eich achos er mwyn ichi allu canolbwyntio ar beth sy'n wirioneddol bwysig yn eich achos.*

*(4) Bydd y llys weithiau yn rhoi cyfarwyddyd i bartïon i baratoi rhestr o bynciau. Dylech groesawu cyfarwyddyd o'r fath oherwydd, wedyn, byddwch yn gweld beth yw'r pynciau ym marn eich gwrthwynebydd. Efallai hefyd y bydd y barnwr yn gwneud sylwadau defnyddiol ynghylch beth yw'r pynciau yn yr achos neu ddim.*

## A. Sail achos

6.1 Er mwyn dwyn achos mewn llys sifil, rhaid i'r hawlydd fod â hawliad yn erbyn y diffynnydd sy'n cael ei gydnabod fel hawliad y gellir ei orfodi o dan y gyfraith. Er mwyn bod yn llwyddiannus yn yr achos, rhaid i'r hawlydd gael 'sail achos' dda ar gyfer dwyn achos yn erbyn y diffynnydd. Sail achos yw'r set gyflawn o ffeithiau sy'n arwain at hawliad y gellir ei orfodi.

6.2 Mae dwy elfen i'w hystyried yma. Yn gyntaf, rhaid cael hawliad sy'n cael ei gydnabod fel hawliad y gellir ei orfodi o dan y gyfraith. Mae cyfraith Lloegr yn cydnabod amrywiaeth eang o hawliadau, ond ni fydd popeth sy'n achosi anaf, colled neu annifyrrwch i rywun arall yn hawliad dilys. Rhaid i'r hawlydd fodloni'r llys fod ei hawliad yn un sy'n briodol i'w gyflwyno o dan egwyddorion cydnabyddedig y gyfraith.

6.3 Yr ail elfen yw sail ffeithiol yr hawliad. Dyma ddwy enghraifft. Os bydd unigolyn yn torri cytundeb sydd ganddo â rhywun arall efallai y bydd yn rhaid iddo dalu iawndal i'r unigolyn arall hwnnw (y parti dieuog). Neu os yw unigolyn sydd o dan ddyletswydd i weithredu â gofal dyladwy yn peidio â gwneud hynny ac unigolyn arall yn dioddef niwed oherwydd hynny, gall y sawl sydd wedi dioddef y niwed

wneud hawliad. Mater i'r hawlydd fydd sefydlu’r holl ffeithiau hanfodol i wneud yr hawliad dilys hwnnw.

## B. Pynciau o gyfraith

6.4 Mae’r gair ‘pwnc’ yn y cyd-destun hwn yn golygu maes y mae’r partïon yn anghytuno yn ei gylch. O ran 'pwnc o gyfraith’, dyma lle mae gan y partïon mewn achos anghydfod ynghylch unrhyw agwedd ar y gyfraith neu ynghylch cymhwyso’r gyfraith i'w hachos. Mae llawer o achoson yn mynd yn eu blaen heb i bynciau o gyfraith gael eu codi. Er enghraifft, mewn achos lle mae’r hawlydd yn honni iddi fod yn croesi cyffordd a oedd o dan reolaeth goleuadau traffig ac yn cael ei daro gan gar a oedd yn cael ei yrru gan y diffynnydd drwy olau coch, nid yw'n debygol o gwbl y bydd pwnc o gyfraith yn codi. Bydd yr hawliad cyfreithiol ym maes camwedd esgeulustod, oherwydd mae'r gyfraith yn cydnabod bod dyletswydd ar bob gyrrwr i ddefnyddio gofal rhesymol i osgoi achosi niwed i unrhyw un sy'n defnyddio'r ffordd ar yr un pryd. Os yw gyrrwr yn gyrru drwy olau coch ac yn anafu rhywun sy'n croesi'r ffordd, nid oes llawer o bosibilrwydd y gellir dadlau ynghylch sail gyfreithiol yr hawliad. Efallai y gall y gyrrwr amddiffyn yr hawliad ar bwnc ffeithiol, e.e. roedd y golau ar wyrdd mewn gwirionedd ac felly roedd yn croesi'r gyffordd yn ei gar yn gwbl resymol pan gamodd y cerddwr allan o'i flaen. Ond ni fydd pwnc o gyfraith i'w ystyried.

6.5 Ond enghraifft syml yw'r uchod ac efallai na fydd y gyfraith y tu ôl i unrhyw hawliad penodol mor syml. Cyn i hawlydd gychwyn hawliad, bydd angen iddo fodloni’i hun bod ganddo hawliad sy’n cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae gan ddiffynnydd hawl i herio'r hawliad hwnnw naill ai oherwydd nad yw'n hawliad cywir o dan y gyfraith, neu os nad yw'n berthnasol i ffeithiau'r hawliad sy'n cael ei ddwyn. Mae diffynnydd sy’n herio sail gyfreithiol hawliad yr hawlydd yn unrhyw un o’r ffyrdd hyn yn codi ‘pwnc o gyfraith' ynghylch dilysrwydd yr hawlydd.

6.6 Gall hyn fod yn frawychus i rai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae’r gyfraith yn dechnegol a gall swnio hyd yn oed yn fwy technegol nag y mae. Mae cyfreithwyr, fel y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol eraill, yn defnyddio ymadroddion llaw-fer nad ydynt yn hawdd eu deall bob amser. Ond, gan amlaf, nid yw’r ‘gyfraith', o ran beth sy’n gwneud hawliad dilys, yn anodd ei deall. Mae’n hwylus rhannu’r gyfraith yn feysydd penodol sy’n arwain at hawliadau dilys. Y rhai mwyaf cyffredin yw contract, camwedd, cyfraith tir ac ymddiriedolaethau. Bydd unrhyw un sy’n dymuno ystyried a oes ganddo hawliad dilys, ac ymchwilio i hynny, yn gweld bod y rhan fwyaf o werslyfrau'n delio â meysydd cyfraith penodol, oherwydd mae’r gyfraith yn rhy enfawr i’w drafod yn hwylus mewn un gyfrol. Unwaith y pennir y maes cywir o dan y gyfraith, dylai fod yn bosibl nodi’r rhan o'r maes cyfraith hwnnw sy'n delio â ffeithiau unrhyw achos unigol.

6.7 Gellir rhannu pob hawliad sy'n ddilys yn gyfreithiol i’w ‘elfennau’. Mae’n debyg mai’r hawliad mwyaf cyffredin a ddygir yn y llysoedd yw ym maes camwedd esgeulustod. Gellir rhannu’r hawliad hwn yn dair elfen, sef: (1) dyletswydd y diffynnydd at yr hawlydd; (2) y diffynnydd yn torri’r ddyletswydd honno; a (3) y niwed a achoswyd i’r hawlydd (sy’n adferadwy o dan y gyfraith) wrth dorri’r ddyletswydd honno. Rhaid i’r hawlydd sefydlu pob un o’r tair elfen. Efallai y bydd

yr hawlydd yn herio unrhyw un neu'r cyfan o'r elfennau. Gall herio’r ddyletswydd sy’n cael ei honni gan yr hawlydd a haeru nad yw’r gyfraith yn cydnabod bod gan unigolyn yn sefyllfa'r diffynnydd ddyletswydd i unigolyn yn sefyllfa’r hawlydd. Bydd hyn, i bob pwrpas, yn bwnc o gyfraith ond efallai bod y ffeithiau a ddefnyddir i benderfynu ar y pwnc o gyfraith yn bwysig. Felly, efallai y ceir pwnc sy’n gymysg o gyfraith a ffaith. Fel arfer pwnc o ffaith fydd yn berthnasol yng nghyswllt a yw diffynnydd wedi torri dyletswydd sydd ganddo i'r hawlydd neu beidio. Ond, gyda’r drydedd elfen, sef niwed, mae gan y gyfraith gyfyngiadau ar gwmpas y niwed y gellir ei hawlio mewn unrhyw amgylchiadau penodol. Felly, efallai y bydd pynciau o gyfraith yn codi mewn perthynas ag iawndal.

6.8 Does dim modd delio â’r gyfraith yn y Llawlyfr hwn. Rhaid chwilio am hwnnw mewn gwerslyfrau. Gweler hefyd y sylwadau ym mharagraffau 1.19.

## C. Pynciau o ffaith

6.9 Mae pwnc o ffaith, sef anghydfod neu anghytundeb ynghylch yr union ffeithiau sy’n codi mewn hawliad, yn gysyniad hawdd ei ddeall. Pynciau o ffaith yw’r union beth sy’n creu drama mewn ystafell llys. Dyma flociau adeiladu unrhyw achos. Ond, yr hyn sy’n bwysig iawn i’r ymgyfreithiwr, yw ystyried y pynciau ffeithiol hynny sy’n berthnasol ar gyfer dod i benderfyniad ar yr achos, a’r ffeithiau hynny nad ydynt yn berthnasol. Bydd ymgyfreithiwr sy’n treulio amser ac ymdrech yn ymdrin â ffeithiau nad ydynt yn berthnasol i'r penderfyniadau y mae'n rhaid i'r barnwr eu gwneud yn gallu gwylltio pawb oherwydd bod hynny'n gwastraffu amser. Ond, yn bwysicach iddo ef, efallai y bydd yr ymgyfreithiwr sy'n gwneud môr a mynydd o ffeithiau nad ydynt yn berthnasol ar gyfer penderfynu ar yr achos, yn cael ei hun yn cuddio'r ffeithiau hynny sy'n ddefnyddiol ar gyfer ei achos.

6.10 Bydd pa ffeithiau sy’n berthnasol a pha rai nad ydynt yn dibynnu ar amgylchiadau’r achos unigol. Efallai nad yw lliw’r dillad yr oedd hawlydd a oedd yn cerdded ar y ffordd yn ei wisgo mewn achos damwain car yn berthnasol o gwbl i sut roedd y diffynnydd yn gyrru. Ond, os digwyddodd y ddamwain yn y nos a'r hawlydd yn gwisgo dillad tywyll iawn, gallai lliw dillad yr hawlydd fod yn hynod bwysig. Mae lle roedd y gyrrwr yn bwriadu mynd ar ôl iddo groesi’r gyffordd lle digwyddodd y ddamwain yn aml yn gwbl amherthnasol i'r asesiad o’i ffordd o yrru. Ond, gallai fod yn berthnasol iawn os oedd y gyrrwr ar goll ac yn rhoi mwy o sylw i'r ardal o’i gwmpas a llai o sylw i'r ffordd o'i flaen. Neu efallai yr oedd yn hwyr ar gyfer apwyntiad. Rhaid i’r ymgyfreithiwr ddefnyddio’i grebwyll ynghylch beth sydd yn berthnasol neu ddim yn ei achos arbennig ef. Hefyd, dylai’r ymgyfreithiwr bob amser fod yn fodlon derbyn, wrth i achos fynd yn ei flaen, y gallai pwnc o ffaith a oedd yn ymddangos yn bwysig iawn iddo cyn y treial, droi allan i fod yn ddibwys, neu fel arall.

6.11 Mae *bob amser* yn bwysig pennu’r pynciau o ffaith hanfodol cyn i’r treial gychwyn. Dyna bwrpas plediadau (datganiadau achos), gweler pennod 8. Pan fydd cam plediadau’r hawliad wedi’i gwblhau, dylai fod yn bosibl mynd drwy’r plediadau a phennu’r holl bynciau o ffaith hanfodol. Bydd ymgyfreithiwr da yn pennu’r holl bynciau o ffaith hanfodol a ddangosir yn y plediadau fel y gall: (1) sicrhau ei fod yn datgelu’r holl ddogfennau sy’n berthnasol i’r pynciau hynny; (2) ystyried pa

dystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth gan dystion y gall ei chyflwyno yn y treial i gefnogi ei ochr ef o'r pynciau amrywiol; a (3) delio â phob pwnc yn drwyadl yn ei ddatganiadau tyst.

6.12 Mae barnwyr yn rheolaidd yn cyfarwyddo ymgyfreithwyr i baratoi a ffeilio rhestr o bynciau. Ystyriwch hyn yn gyfarwyddyd defnyddiol. Bydd yn gwneud ichi feddwl am y pynciau rydych yn eu codi. Bydd hefyd yn eich galluogi i ddysgu beth yw'r pynciau yn yr achos ym marn eich gwrthwynebydd. Oherwydd ei fod yn ddefnyddiol i'r partïon ac i'r barnwr, efallai y bydd barnwr mewn Cynhadledd Rheoli Achos neu wrandawiad interim arall yn ystyried y rhestr o bynciau gyda'r partïon ac efallai yn rhoi sylwadau a all eich helpu i ychwanegu at eich rhestr neu ei diwygio. Os na fydd y barnwr rheoli achos yn eich achos yn cyfarwyddo rhestr o bynciau, ac y byddai'n well gennych petai'n gwneud, cofiwch ofyn am gyfarwyddyd o'r fath.

# Pennod 7
# Cychwyn achos ac ymateb iddo

A. Cyn cychwyn achos
B. Sut i gychwyn achos
C. Lle i gychwyn achos
D. Sut i ymateb os cewch eich siwio
E. Dyrannu'r achos i drac
F. Cyflwyno dogfennau
G. Plant a phartïon eraill a warchodir
H. Cyfnodau cyfyngu

Penawdau

(1) *Cyn cychwyn achos mae'n hanfodol i ddarpar hawlydd nid yn unig hysbysu'r darpar ddiffynnydd o'i hawliad, ond hefyd ddarparu digon o wybodaeth am yr hawliad i alluogi'r diffynnydd i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch sut orau i weithredu. Dylai diffynnydd sy'n credu fod ganddo ateb i'r hawliad hefyd gyfnewid gwybodaeth gyda'r hawlydd, fel y gall y ddwy ochr asesu'u sefyllfa'n gywir mewn perthynas â'r hawliad arfaethedig.*

(2) *Lle y mae'n amlwg fod hawliad gwirioneddol y gwrthwynebir ar sail gywir, dylai'r ddau barti edrych ar y posibilrwydd o gyrraedd cyfaddawd drwy gyfryngu neu ryw ffordd amgen arall o ddatrys anghydfod.*

(3) *Cyn i chi gychwyn achos am swm o arian, ystyriwch a fydd modd i'r diffynnydd dalu. Fyddwch chi byth yn gwybod i sicrwydd, ond byddwch yn ymwybodol o'r risg o wastraffu arian ar rywbeth na fydd yn llwyddiannus.*

(4) *Gellir cychwyn achos dan Ran 7 (Ffurflen N1), neu, lle nad oes anghytundeb sylweddol ynghylch ffeithiau, dan Ran 8 (Ffurflen N208). Os yw'n ansicr, dylai'r hawlydd gychwyn dan Ran 7. Gellir cael y ffurflenni o swyddfa unrhyw Lys Sirol neu drwy eu llwytho oddi ar www.hmctsformfinder.justice.gov.uk. Ceir nodiadau cyfarwyddyd i gyd-fynd â'r ffurflenni. Mae angen darllen y nodiadau hyn yn ofalus.*

(5) *Mae angen llenwi'r ffurflen berthnasol ar bapur oni fo'r hawliad yn syml yn un am swm o arian yn erbyn dim mwy na dau o bobl, pryd y gellir llenwi'r ffurflen ar-lein yn www.moneyclaim.gov.uk.*

(6) *Bydd ffi cychwyn yn daladwy yn dibynnu ar werth yr hawliad.*

(7) *Caiff pob hawliad llys sirol eu cychwyn bellach mewn canolfan llysoedd cenedlaethol canolog yn Salford. Unwaith y derbynnir amddiffyniad, anfonir 'holiadur cyfarwyddiadau' at y partïon i'w lenwi a'i ddychwelyd i lys lleol. Fel arfer, hwn fydd y llys sy'n gwasanaethu'r ardal lle y mae'r diffynnydd yn byw.*

(8) *Bydd gan ddiffynnydd y cyflwynir ffurflen hawliad iddo 14 diwrnod i benderfynu a fydd yn addef yr hawliad neu yn ei amddiffyn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol a dychwelyd y rhan honno o'r ffurflen sy'n datgan ei fwriad.*

(9) *Unwaith y bydd achos wedi ei anfon i lys sirol lleol, bydd barnwr yn dyrannu'r hawliad i un o dri 'thrac': y trac hawliadau bychain, y trac cyflym neu'r amldrac. Bydd y dyraniad yn seiliedig ar yr atebion i'r holiaduron Cyfarwyddiadau a anfonir i bob parti. Dylai'r ymgyfreithiwr lenwi ei holiadur yn ofalus. Mae gan ddyrannu oblygiadau sylweddol iawn i'r achos, ac os yw ymgyfreithiwr yn bryderus nad yw'r achos wedi'i ddyrannu'n gywir dylai wneud cais i'r llys am ail-ddyraniad.*

(10) *Fel arfer bydd y llys yn cyflwyno'r achos i'r diffynnydd. Unwaith y bydd unigolyn yn barti i'r achos, rhaid iddo ddarparu cyfeiriad ar gyfer cyflwyno. Rhaid i'r holl ddogfennau a gyflwynir yn ystod yr achos gael eu cyflwyno yn y cyfeiriad hwn, boed yn bersonol neu drwy bost dosbarth cyntaf, neu wasanaeth post a chludo DX, neu (ddim ond lle bydd yr ymgyfreithiwr yn cytuno) drwy ffacs neu e-bost.*

## A. Cyn cychwyn achos

7.1 Edrychwch ar ffyrdd eraill yn hytrach nac achos llys. Gall cyfreitha fod yn gostus iawn. Ni ddylid ei ddefnyddio ond fel ateb olaf pan fydd cynnig wedi ei roi ar ddulliau posibl eraill o ddatrys yr anghydfod, a'r rheini wedi methu. Mae'r Llys yn annog y dull hwn o weithredu drwy gyfrwng 'protocolau cyn-gweithredu'. Dylai pob darpar ymgyfreithiwr fynd drwy gam cyn-gweithredu lle y mae'n ceisio cyrraedd cyfaddawd gyda'r 'parti arall' hyd yn oed pan allai'r anghydfod fod wedi bod yn mudlosgi ers peth amser, a bod y partïon yn ôl pob golwg yn gwneud safiad ac yn gwrthod ildio. I lawer o bobl (synhwyrol), un peth yw dweud "wela i chi yn y llys", ond peth arall yn hollol yw mynd drwy'r broses gyfreitha, gyda'r holl amser, cost, ac efallai yn bwysicach na'r cyfan, y straen sy'n gysylltiedig.

7.2 Cyn cychwyn achos dylai'r darpar hawlydd anfon llythyr at y darpar ddiffynnydd yn rhoi manylion llawn yr hawliad gan nodi cyfnod rhesymol ar gyfer ymateb. Atgyfnerthir yr egwyddor hon gan brotocolau cyn-gweithredu penodol ar gyfer gwahanol fathau o hawliad. Ceir cyfanswm o ddeg protocol. Mae'r protocolau hyn yn ffurfio rhan o'r CPR. Maent yn ymdrin â meysydd megis anaf personol, damweiniau ffyrdd gwerth isel, esgeulustod proffesiynol, anghydfodau adeiladu a hawliadau am ddiffyg atgyweirio tai. Mae'r amser ar gyfer caniatáu i ddiffynnydd posibl ymateb yn amrywio o 15 diwrnod gwaith ar gyfer damweiniau ffyrdd gwerth isel hyd at dri mis ar gyfer hawliadau anaf personol. Mae'r protocolau'n uchelgeisiol ac yn hirfaith iawn, yn or-gymhleth ac, yn eu hanfod yn wrthgynhyrchiol. Ond y maent yn rhan o'r Rheolau a dylent gael eu darllen a'u dilyn gan gyfreithwyr, er na fydd y rhan fwyaf o farnwyr yn disgwyl i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain gydymffurfio'n agos â hwy.

7.3 Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sylfaenol wrth wraidd protocolau cyn-gweithredu yn rhai cadarn a dylai pob hawlydd eu dilyn. Gallai methu â dilyn yr egwyddorion hyn olygu canlyniadau difrifol o ran costau. Yr egwyddorion hyn yw y dylai partïon, cyn cychwyn achos, wneud y canlynol:

(1) cyfnewid gwybodaeth ddigonol am y mater i'w galluogi i ddeall safbwyntiau ei gilydd a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch setlo a sut i symud ymlaen; a

(2) gwneud ymgais briodol i ddatrys y mater heb gychwyn achos, ac yn benodol ystyried defnyddio dull priodol arall o ddatrys anghydfod ('ADR') (gweler Pennod 2) er mwyn datrys y mater.

7.4 Dylai darpar ymgyfreithwyr deilwra'r hyn a wnânt i gydymffurfio â'r egwyddorion hyn yn unol ag amgylchiadau eu hachos penodol hwy. Nid oes un dull penodol i'w fabwysiadu ym mhob sefyllfa. Ond bydd y Barnwr yn disgwyl o leiaf gweld bod yr hawlydd cyn cychwyn ei achos wedi egluro'i hawliad yn glir i'r diffynnydd a pham ei fod yn gwneud yr hawliad. Gwneir hyn fel arfer mewn 'llythyr hawlio' yn cynnwys:

(a) crynodeb clir o'r ffeithiau;

(b) pob honiad o fai (boed yn dor-contract, torri dyletswydd neu 'fai' arall);

(c) datganiad o'r swm a hawlir neu'r anaf a'r colledion a ddioddefwyd gan yr hawlydd gyda syniad o'r ffigur a hawlir ar gyfer iawndal; a

(d) (mewn achosion lle y mae'n eglur fod dogfennau pwysig) cynnig i ddarparu copïau o'r dogfennau.

Dylid rhoi amser priodol i'r darpar ddiffynnydd ymateb. Fel arfer dylai hyn fod oddeutu pedair wythnos. Os na dderbynnir ymateb mae'n ddoeth anfon llythyr dilynol cyn cychwyn achos o'r diwedd. Pan fydd y diffynnydd yn rhoi ymateb pendant, dylai'r Hawlydd ystyried yr ymateb hwnnw. Bydd y Barnwr yn disgwyl i'r Hawlydd ysgrifennu llythyr pellach yn egluro pam nad yw'n derbyn yr ymateb, os felly. Y peth pwysig yw bod y partïon yn ymgysylltu ynghylch yr anghydfod; ni ddylent fod yn cyfnewid geiriau sarhaus yn unig.

7.5 Wedi iddynt gyfnewid gwybodaeth, dylai'r partïon ystyried ADR. Ni ddylid cychwyn unrhyw achos tra bo'r posibilrwydd o setlo'n parhau i dderbyn ystyriaeth.

7.6 Os bydd trafodaethau ynghylch setlo'n fethiant, neu fod y darpar ddiffynnydd yn gwrthod cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath, ni fydd dewis ar ôl gennych ond cychwyn achos. Bydd hyn yn cymryd amser ac o bosibl yn hunllefus. Cyn i chi ddechrau, ystyriwch a fydd modd i chi orfodi unrhyw ddyfarniad yn erbyn y diffynnydd. Byddai'n drychineb pe byddech, ar ôl yr holl waith caled yn cael dyfarniad ac yna'n canfod nad oes gan y diffynnydd fodd i dalu. Gwnewch yr hyn a allwch i fodloni eich hun ei bod yn werth siwio'r diffynnydd.

## B. Sut i gychwyn achos

7.7 *Y drefn:* Caiff achos ei gychwyn drwy gyflwyno Ffurflen Hawlio. Bydd y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys anghydfodau sylweddol ynghylch ffeithiau. Fe'u gelwir yn "Achosion Rhan 7" a'r ffurflen berthnasol ar gyfer achosion Rhan 7 yw Ffurflen N1.

Ceir rhai achosion lle nad oes unrhyw wir anghydfod ynghylch ffeithiau, ond fod angen penderfyniad gan y Llys. Gelwir y rhain yn "Achosion Rhan 8". Er eu bod yn llai cyffredin nac achosion Rhan 7, gellir cychwyn amrywiaeth eang o achosion fel hawliad mewn achos Rhan 8 ('Hawliad Rhan 8'). Enghreifftiau yw achosion yn ymwneud â phrofiant, gweinyddu ymddiriedolaethau, ceisiadau dan ddarpariaethau statudol penodol a rhai hawliadau landlord a thenantiaid. Y ffurflen berthnasol ar gyfer achosion Rhan 8 yw Ffurflen N208. Mae achosion Rhan 8 yn arbenigol o ran natur ac yn anaml y maent yn addas i'w defnyddio gan ymgyfreithiwr drosto'i hun nad yw'n gyfreithiwr profiadol. Mae'r Llawlyfr hwn yn cymryd yn ganiataol y byddwch, fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, yn cychwyn neu'n amddiffyn hawliad Rhan 7.

7.8 Gallwch gael Ffurflen N1 o swyddfa unrhyw Lys Sirol neu drwy lwytho'r ffurflen yn www.hmctsformfinder.justice.gov.uk. Ceir canllawiau i gyd-fynd â'r ffurflenni. Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Maent yn egluro sut y dylid llenwi'r ffurflenni. Mae'r ffurflenni hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer y diffynnydd, gan egluro'r broses a'r hyn y mae angen iddo ef ei wneud i addef neu amddiffyn yr hawliad.

7.9 Mae Pennod 8 y Llawlyfr hwn yn darparu canllaw ynghylch yr hyn y dylech ei gynnwys yn Ffurflen N1 a'r angen yn ogystal am Fanylion yr Hawliad.

Mae'r Ffurflen Hawlio'n nodi'n fyr natur eich hawliad a dylai ddatgan yn glir ynghylch beth y mae'r hawliad, pa swm a hawlir a pha rwymedi arall a geisir. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, e.e. hawliadau am iawndal am anafiadau personol, efallai na fydd yn bosibl nodi union swm yr hawliad. Yn lle hynny, yr hyn y dylid ei ddatgan yw'r uchafswm y cyfyngir yr hawliad iddo, e.e. £50,000. Dylai'r ffigur fod yn amcangyfrif realistig o drothwy uchaf yr hawliad. Bydd hefyd, gyda llaw, yn pennu maint y ffi codi y bydd yn rhaid i'r hawlydd ei dalu felly byddai'n annoeth i hawlydd hawlio mwy nac y gall yn rhesymol ddisgwyl gaiff ei ddyfarnu iddo.

7.10 *Llenwi'r ffurflen:* Mae angen llenwi'r ffurflen ar bapur oni fo'r hawliad yn syml yn un am swm o arian yn erbyn dim mwy na dau o bobl, pryd y gellir ei llenwi ar-lein.

7.11 I gychwyn hawliad ar bapur, dylech lenwi'r ffurflen a gwneud digon o lungopïau ohoni a'r canllawiau ar gyfer y llys a phob diffynnydd. Gwnewch gopi ychwanegol i'w gadw i chi'ch hun. Sicrhewch fod gennych system ffeilio y teimlwch yn gyfforddus â hi, a ffeiliwch eich ffurflen hawlio. Gellir cael cymorth i lenwi'r ffurflen gan Ganolfan Cyngor Ar Bopeth. Fe wnaiff staff y llys bopeth a allant i gynorthwyo ond nid ydynt yno i roi cyngor i chi.

7.12 Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen dylech ei chyflwyno i'r llys, gyda digon o gopïau ar gyfer pob diffynnydd, un ai drwy fynd i swyddfa'r llys neu drwy'r post, ynghyd â ffi'r llys, lle bo hynny'n berthnasol. Gellir talu'r ffi mewn arian parod, drwy siec yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM' neu drwy gerdyn debyd.

7.13 Gellir cychwyn hawliad ar-lein yn www.moneyclaim.gov.uk. Caiff ffi'r llys ei gyfrifo'n awtomatig a gellir talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd. Mae'r arweiniad ar-lein yn egluro'r broses ond ceir hefyd ddesg gymorth y gellir cysylltu â hi os ceir problemau. Rhestrir y rhif ar y wefan.

7.14 Wedi i'r achos gael ei gychwyn, bydd y llys yn hysbysu'r Hawlydd fod yr hawliad wedi'i gychwyn drwy anfon 'Hysbysiad Cychwyn Hawliad'. Bydd y llys hefyd yn anfon i bob diffynnydd gopi o'r hawliad ynghyd â chanllawiau. Bydd gan ddiffynyddion yr opsiwn o gyfaddef yr hawliad yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol neu ei amddiffyn.

## C. Lle i gychwyn achos

7.15 *Y Llys Sirol ynteu'r Uchel Lys?:* Y rheol gyffredinol yw bod gan y llys sirol yr un awdurdodaeth â'r Uchel Lys. Y prif eithriad yw'r awdurdodaeth ecwiti lle y ceir terfyn o £30,000 yn y llys sirol, gyda phob hawliad goruwch hynny'n gorfod cychwyn yn yr Uchel Lys, er y gall hawliad, unwaith y bydd wedi ei gychwyn yn yr Uchel Lys, gael ei drosglwyddo i lys sirol waeth beth fo terfyn y llys sirol. Mae achosion ecwiti'n cynnwys achosion yn ymwneud ag ymddiriedolaethau, ystadau, diddymu partneriaethau a cheisiadau am weithredu penodol.

Ni cheir cychwyn achosion yn yr Uchel Lys (un ai yn Llundain yn y Llysoedd Barn Brenhinol neu mewn Cofrestrfa Ddosbarth) ond os yw'r canlynol yn wir am yr hawliad:

(a) disgwylir iddo fod am fwy na £25,000;

(b) ei fod am anafiadau personol a bod gwerth yr hawliad yn £50,000 neu fwy; neu

(c) bod gofyn ei gychwyn yn yr Uchel Lys yn unig.

Pennwyd y ffigurau ar gyfer (a) a (b) uchod beth amser yn ôl, a gall ymgyfreithiwr sy'n cychwyn hawliad yn yr Uchel Lys am lai na £250,000 heb ryw nodwedd arbennig e.e. pwysigrwydd cyhoeddus, cymhlethdod o ran ffeithiau, neu bwynt cyfreithiol anodd, ddisgwyl i'r Uchel Lys drosglwyddo'r achos i ffwrdd i'r llys sirol. Yn y Llys Technoleg ac Adeiladwaith, mae'r barnwyr yn disgwyl i hawliadau sy'n werth llai na £500,000 gael eu cychwyn yn y llys sirol.

7.16 *Pa lys sirol?:* Caiff pob hawliad ei gychwyn bellach mewn canolfan llysoedd cenedlaethol canolog yn Salford. Unwaith y derbynnir Amddiffyniad, anfonir 'holiadur cyfarwyddiadau' at y partïon i'w lenwi a'i ddychwelyd i Lys lleol. Fel arfer, hwn fydd y llys sy'n gwasanaethu'r ardal lle y mae'r Diffynnydd yn

byw, ond os bydd y partïon yn nodi llys o'u dewis yn yr holiadur cyfarwyddiadau, yna dylid ei ddychwelyd i'r llys hwn o'u dewis. Bydd y llys hwn yn ymdrin â rheoli'r achos hyd at y treial, oni wneir cais i drosglwyddo'r achos gan y naill neu'r llall o'r partïon neu'r ddau barti, i lys arall er hwylustod y partïon. Yn y llys sirol gallai achosion priodol gael eu trosglwyddo i restri arbennig o fewn y llys. Y tair rhestr arbenigol yw Rhestr y Siawnsri, y Rhestr Fasnach a'r Rhestr Technoleg ac Adeiladwaith.

7.17 Gall achosion gael eu trosglwyddo rhwng y llys sirol a'r Uchel Lys i sicrhau y byddant yn cael eu gwrando ar y lefel sydd fwyaf priodol i faterion yr achos, a rhwng llysoedd sirol un ai er hwylustod y partïon neu i ddibenion gweinyddol y llys, er enghraifft pan fo angen gosod achos ar restr arbenigol nad yw ar gael yn y llys lle'r anfonwyd yr achos.

## D. Sut i ymateb os cewch eich siwio

7.18 Pan fydd yn derbyn ffurflen hawlio, rhaid i ddiffynnydd benderfynu sut i ymateb. Yr amser a ganiateir ar gyfer hyn yw 14 diwrnod, oni fo'r ffurflen hawlio'n datgan fod manylion yr hawliad i ddilyn. Os digwydd hynny, yna'r amser a ganiateir yw 14 diwrnod o gyflwyno manylion yr hawliad.

7.19 Mae'r dewisiadau fel a ganlyn:

(a) dylai diffynnydd sydd eisiau amddiffyn yr hawliad (yn rhannol neu yn gyfan) ffeilio amddiffyniad gyda'r llys neu, os na all wneud hynny o fewn y cyfyngiad amser o 14 diwrnod, cydnabyddiad cyflwyno.

(b) dylai diffynnydd sy'n addef yr hawliad (yn rhannol neu yn gyfan) ffeilio addefiad; neu

(c) rhaid i ddiffynnydd sy'n ffeilio cydnabyddiad cyflwyno ac sydd eisiau amddiffyn ffeilio amddiffyniad o fewn 28 diwrnod i gyflwyno manylion yr achos.

7.20 Nid yw'n bosibl mewn canllaw sylfaenol fel hyn i ymdrin â'r holl reolau gweithredol. Bwriedir i'r hyn sy'n dilyn ddarparu trosolwg cyffredinol. Mae'r manylion i'w canfod yn adrannau perthnasol y Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR):

| | |
|---|---|
| CPR Rhan 9 | Ymateb i Fanylion yr Hawliad |
| CPR Rhan 10 | Cydnabyddiad Cyflwyno |
| CPR Rhan 14 | Addefiadau |
| CPR Rhan 15 | Amddiffyniad |

7.21 Os bydd diffynnydd yn ffeilio addefiad, mae gan yr hawlydd hawl i gofnodi dyfarniad oni fo'r diffynnydd yn blentyn neu'n barti a warchodir (gweler isod). Unwaith y bydd addefiad wedi'i wneud, dim ond drwy ganiatâd y llys y gellir ei dynnu'n ôl neu ei newid. Pan fo'r hawliad am swm amhenodol o arian, rhoddir dyfarniad am swm fydd i'w bennu'n ddiweddarach gan y llys.

Fodd bynnag, gall diffynnydd sy'n addef cyfrifoldeb i dalu hawliad am swm amhenodol gynnig swm yn daliad i gyflawni'r hawliad [CPR 14.7]. Gall diffynnydd wneud cais am amser i dalu [CPR 14.9]. Gall 'Amser i Dalu' fod yn gyfnod estynedig ar gyfer talu'r swm cyfan sy'n daladwy, e.e. tra bo'r diffynnydd yn trefnu i werthu ei dŷ neu ased arall, neu gallai olygu talu drwy randaliadau. Gall y gyfradd dalu gael ei phennu gan swyddog y llys [CPR 14.11] neu gan Farnwr [CPR 14.12].

## E. Dyrannu'r Achos i Drac

7.22 Lle caiff hawliad ei amddiffyn bydd y llys yn penderfynu'n gynnar yn yr achos i ble i ddyrannu'r achos ar gyfer treial. Caiff achosion eu dyrannu i un o dri "thrac" ar gyfer rheoli achos a threial:

(1) Y trac hawliadau bychain;
(2) Y trac cyflym; a'r
(3) Amldrac

7.23 Yn gyffredinol, y trac hawliadau bychain yw'r trac arferol ar gyfer unrhyw hawliad sydd yn werth ddim mwy na £10,000, y trac cyflym ar gyfer hawliadau â gwerth ddim mwy na £25,000 pan nad yw'r treial yn debygol o barhau'n hwy nac un diwrnod, a'r amldrac ar gyfer pob hawliad arall.

Ni chaiff hawliadau anaf personol eu dyrannu i'r trac hawliadau bychain oni fo gwerth yr hawliad am anafiadau personol yn ddim mwy na £1,000 yn ogystal â bod gwerth yr hawliad yn ei gyfanrwydd yn ddim mwy na £10,000. Ni chaiff hawliadau gan denant eiddo preswyl yn erbyn landlord am orchymyn i wneud gwaith atgyweirio eu dyrannu i'r trac hawliadau bychain oni fo gwerth yr atgyweiriadau yn ddim mwy na £1,000 ac nad yw gwerth unrhyw hawliad arall am iawndal yn mynd y tu hwnt i'r ffigur hwnnw.

7.24 Bwriedir y trac hawliadau bychain ar gyfer achosion y gellir ymdrin â hwy heb yr angen am baratoi sylweddol cyn treial, ac y mae'n fwy anffurfiol. Caiff y drefn ar gyfer paratoi'r achos a chynnal y gwrandawiad ei nodi yn CPR Rhan 27 ac fe'i lluniwyd i'w gwneud yn bosibl i ymgyfreithiwr gynnal ei achos ei hun heb gynrychiolaeth gyfreithiol. Caiff achosion y trac hawliadau bychain eu gwrando gan Farnwyr Rhanbarth. Dim ond gorchmynion cyfyngedig iawn am gostau y gellir eu gwneud mewn achosion trac hawliadau bychain, mewn gwirionedd fe'u cyfyngir i gostau a threuliau sefydlog.

7.25 Bwriedir y trac cyflym ar gyfer achosion y gellir eu gwrando mewn diwrnod ac nad ydynt yn cynnwys nifer fawr o ddogfennau nac ystyriaeth o dystiolaeth gymhleth gan arbenigwyr. Mae Rhan 28 yn nodi'r drefn ar gyfer paratoi'r achos a chynnal y gwrandawiad. Caiff achosion y trac cyflym eu gwrando'n bennaf gan Farnwyr Rhanbarth, ond gallent hefyd gael eu clywed gan Farnwyr Cylchdaith. Mae'r costau a allai gael eu dyfarnu mewn achosion trac cyflym yn dibynnu ar werth yr hawliad, ond ym mhob achos maent yn gyfyngedig iawn [CPR 46.2].

7.26 Bydd rheoli achos a gwrandawiad achos a ddyrennir i'r amldrac fel arfer yn digwydd mewn Canolfan Treialon Sifil. Mae'r amldrac wedi'i neilltuo ar

gyfer achosion mwy sylweddol a chymhleth, a allai fod angen mwy o reoli achosion barnwrol. I’r diben hwn gallai'r llys drefnu cynhadledd rheoli achos i adolygu paratoi’r achosion a rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer symud ymlaen i dreial. Mae CPR Rhan 29 yn nodi'r drefn i’w dilyn ar ôl dyrannu i dreial mewn achosion amldrac. Caiff achosion amldrac eu gwrando fel arfer gan Farnwyr Cylchdaith. Gallai’r achosion mwyaf difrifol a chymhleth gael eu gwrando gan Farnwr Uchel Lys. Mewn amgylchiadau priodol, gall yr achos hefyd gael ei ryddhau i’w glywed gan Farnwr Rhanbarth.

7.27 *Yr Holiadur Cyfarwyddiadau:* Mae dyrannu achosion a amddiffynnir i drac priodol yn fater cychwynnol hanfodol o ran rheoli achosion. Unwaith y bydd amddiffyniad wedi’i ffeilio yn nodi fod yr hawliad yn cael ei amddiffyn bydd y llys yn cyflwyno math o holiadur Cyfarwyddiadau i bob un o’r partïon. Bydd yr holiadur yn datgan erbyn pa ddyddiad y mae angen ei ateb a’i ddychwelyd i’r llys. Mae’n bwysig llenwi’r holiadur yn ofalus.

Unwaith y bydd yr amser a ddarparwyd ar gyfer dychwelyd yr holiadur wedi mynd heibio (oni chaiff ei ymestyn drwy gytundeb) bydd y llys yn mynd ymlaen i ddyrannu’r achos i drac. Cyn gwneud y penderfyniad, os bydd angen, gall y llys orchymyn i barti ddarparu mwy o wybodaeth am ei achos ef/hi.

7.28 *Y dyraniad:* Wrth benderfynu i ba drac i ddyrannu’r hawliad, bydd y llys yn ystyried ystod eang o faterion yn cynnwys –

(1) Gwerth ariannol yr hawliad;
(2) Natur yr hawliad;
(3) A yw’r achos yn debygol o godi materion cymhleth o ran ffaith, cyfraith neu dystiolaeth;
(4) Nifer y partïon sy’n gysylltiedig;
(5) Unrhyw wrth-hawliad, ei werth a chymhlethdod y materion y mae’n eu codi;
(6) Faint o dystiolaeth lafar sy’n debygol o gael ei chlywed yn y treial;
(7) Pwysigrwydd yr hawliad i’r partïon;
(8) Amgylchiadau’r partïon.

Os bydd rhywbeth yn digwydd ar ôl i’r achos gael ei ddyrannu i drac, sy’n newid natur yr achos, gellir gofyn i’r llys adolygu’r dyraniad a’i ail-ddyrannu os yw’n briodol.

## F. Cyflwyno dogfennau

7.29 Mae CPR Rhan 6 a’r ddau gyfarwyddyd ymarfer i Ran 6, yn cynnwys llawer iawn o reolau ynghylch sut y gellir cyflwyno ffurflenni hawlio a dogfennau eraill. Mae’r rheolau hyn yn hynod o bwysig. Mae hyn oherwydd y gallai’r canlyniad fod yn ddifrifol os bydd parti mewn achos yn methu â chymryd rhyw gam penodol. Mae angen i’r llys fod yn fodlon fod parti sydd, fe ymddengys wedi torri un o’i rwymedigaethau dan CPR (h.y. drwy beidio ag ymateb i ffurflen hawlio, neu beidio â chyflwyno manylion ei hawliad ar ôl derbyn cais), mewn gwirionedd wedi derbyn y ddogfen briodol i roi sbardun

i'r ddyletswydd honno. Ceir hefyd reolau arbennig ar gyfer cyflwyno i gwmnïau a phartneriaethau.

7.30 Yn y rhan fwyaf o achosion gall ymgyfreithiwr drosto'i hun ddibynnu ar y llys i gyflwyno ffurflen hawlio. Yr hyn y mae'n rhaid i ymgyfreithiwr ei wneud yw sicrhau ei fod yn rhoi cyfeiriad cywir ar gyfer y diffynnydd. Dylai ymgyfreithiwr sy'n cyflwyno ffurflen hawlio fel arfer ei chyflwyno'n bersonol i'r diffynnydd, neu ei hanfon drwy'r post dosbarth cyntaf, cyfnewidfa ddogfennau, neu ddarparwr gwasanaeth arall sy'n sicrhau danfon ar y diwrnod busnes nesaf [CPR 6.3].

7.31 Unwaith y bydd unigolyn wedi dod yn barti mewn achos, rhaid iddo roi cyfeiriad lle y gellir cyflwyno dogfennau iddo yn ymwneud â'r achos hwnnw [CPR 6.23]. Yna gellir cyflwyno'n bersonol, iddo neu, os bydd y parti'n cytuno, gellir cyflwyno iddo drwy ffacs i rif penodol neu drwy e-bost neu gyfathrebiad electronig arall i gyfeiriad e-bost neu offer adnabod electronig penodol.

7.32 Gall ymgyfreithwyr ddod ar draws diffynyddion sy'n awyddus i osgoi i ddogfennau gael eu cyflwyno iddynt. Mewn achosion o'r fath efallai y bydd angen gwneud cais i'r llys am orchymyn yn caniatáu cyflwyno drwy 'ddull amgen' neu mewn 'lleoliad amgen' fel y nodir yn y gorchymyn. Gall y cais gael ei wneud heb roi rhybudd i'r diffynnydd (yn naturiol) a rhaid iddo gael ei gefnogi gan ddigon o dystiolaeth i fodloni'r llys fod y diffynnydd yn ceisio osgoi i ddogfennau gael eu cyflwyno iddo a bod y dull neu'r lleoliad amgen arfaethedig yn debygol o ddwyn yr achos i'w sylw [CPR 6.15].

## G. Sefyllfa plant neu bartïon eraill a warchodir

7.33 Ni all plant ac unigolion ifanc dan 18 oed ddwyn neu amddiffyn achos ar eu pen eu hunain, oni chaniateir iddynt wneud hynny gan y llys. Rhaid i rywun weithredu ar eu rhan. Gelwir yr unigolyn hwnnw'n 'Gyfaill Cyfreitha'.

Mae'r un peth yn berthnasol i oedolion sydd, oherwydd salwch meddwl neu anabledd yn methu â rheoli eu materion eu hunain. Fe'u gelwir yn 'Bartïon a Warchodir' a rhaid penodi cyfaill cyfreitha i weithredu drostynt.

7.34 Ni ellir cymryd unrhyw gam mewn achos yn erbyn plentyn neu barti a warchodir, ac eithrio cychwyn a chyflwyno ffurflen hawlio, hyd nes y bydd cyfaill cyfreitha wedi'i benodi, ac eithrio gyda chaniatâd y llys. Os bydd yn ymddangos, yn ystod achos, fod diffyg gallu gan barti i gynnal yr achos, ni ellir cymryd unrhyw gam pellach yn yr achos heb ganiatâd y llys hyd nes y bydd gan y parti a warchodir gyfaill cyfreitha.

7.35 Rhaid i'r cyfaill cyfreitha fod yn rhywun a all gynnal yr achos yn deg ac yn fedrus ar ran y plentyn neu'r parti a warchodir ac nad oes ganddo fuddiant croes neu sy'n gwrthdaro. Yn achos plentyn bydd y cyfaill cyfreitha yn aml yn rhiant. Yn achos parti a warchodir, yn aml bydd yn ffrind neu berthynas agos.

7.36 Mae CPR Rhan 21 yn ymdrin â sut y gellir penodi cyfaill cyfreitha. Gallai hyn fod heb orchymyn llys [CPR 21.5], neu drwy orchymyn y llys [CPR 21.6].

7.37 Pan gaiff hawliad ei setlo gan neu ar ran plentyn neu barti a warchodir, rhaid i delerau'r setliad gael eu cymeradwyo gan y llys cyn y gallant ddod i rym [21.10]. Bydd y llys fel arfer yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli unrhyw arian a gaiff ei adennill yn yr achos gan neu ar ran y plentyn neu'r parti a warchodir. Y rheol gyffredinol yw y caiff yr arian ei gadw mewn cronfa, a fuddsoddir yn briodol, hyd nes y bydd y plentyn yn cyrraedd llawn oed neu i'r parti a warchodir adennill ei iechyd, ond gall gwarcheidwad neu unigolyn arall â diddordeb wneud cais i'r llys i ran o'r gronfa gael ei defnyddio i ddibenion penodol er budd y plentyn neu'r parti a warchodir [CPR 21.11 a 21PD.13].

## H. Cyfnodau Cyfyngu

7.38 Mae'r gyfraith yn darparu cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn achosion. Ceir rheolau cyffredinol yn y Ddeddf Cyfyngiadau Achosion 1980, ond ceir llawer o statudau eraill sy'n darparu cyfnodau cyfyngu. Dylai ymgyfreithiwr fod yn ymwybodol fod y rhan fwyaf o'r rheolau hyn yn rhai trefniadol yn hytrach nag yn rhai o sylwedd. Mae hyn yn golygu, fel mater o drefn, fod yn rhaid i hawliad, neu y gall hawliad gael ei wrthod am ei fod allan o amser, yn hytrach na bod sail yr achos yn peidio â bod ar ôl cyfnod o amser, sy'n gyfnod cyfyngu o sylwedd. Ond ceir y gwahaniaeth pwysig hwn. Os nad yw diffynnydd yn dibynnu'n benodol ar gyfnod cyfyngu trefniadol yn ei amddiffyniad caiff yr hawlydd barhau i ddod â'i hawliad hyd yn oed os yw allan o amser. Gyda chyfnod cyfyngu o sylwedd nid yw'r sail yr achos bellach yn bodoli unwaith y bydd y cyfnod wedi mynd heibio. Dylai ymgyfreithiwr drosto'i hun sy'n ddiffynnydd fod yn ofalus i bledio cyfnod cyfyngu trefniadol yn ei amddiffyniad, ac, fel y nodir uchod, mae'r rhan fwyaf o gyfnodau cyfyngu yng nghyfraith Lloegr yn rhai gweithredol.

7.39 Gall y gyfraith yn ymwneud â chyfyngu fod yn ddyrys, ac ni ellir rhoi ond y rheolau mwyaf sylfaenol yma:

(1) 6 blynedd yw'r cyfnod cyfyngu 'safonol' ar gyfer hawliadau o ran contractau, camwedd, neu ar gyfer symiau y gellir eu hadennill dan statud. Mae'r cyfnod yn dechrau pan fydd modd gorfodi sail yr achos. Mewn achosion contractau bydd hyn fel arfer pan fydd y contract wedi ei dorri. Ym maes camwedd, bydd hyn pan fydd yr hawlydd yn dioddef difrod. Mewn hawliad statudol bydd hyn fel arfer pan ddaw'r arian yn daladwy.

(2) 12 mlynedd yw'r cyfnod cyfyngu ar gyfer achosion ar 'arbenigedd' e.e. gweithred neu ddogfen dan sêl megis, yn aml, prydles. Bydd y cyfnod yn cychwyn pan gaiff y rhwymedigaeth dan y ddogfen ei thorri. 12 mlynedd yw'r cyfyngiad amser hefyd ar gyfer adennill arian sy'n daladwy dan forgais neu i adennill elw o werthiant tir.

(3) 3 blynedd yw'r cyfnod cyfyngu ar gyfer hawliadau yng nghyswllt anaf personol neu dan Ddeddf Damweiniau Angheuol 1976. Bydd y cyfnod yn cychwyn o'r dyddiad pryd y gellir gorfodi sail yr achos (y rheol gyffredinol ym maes camwedd) neu, os yn ddiweddarach, o 'ddyddiad gwybodaeth' yr hawlydd, h.y. y dyddiad pryd y gwyddai'r hawlydd fod ei anaf yn sylweddol, pwy yw'r diffynnydd neu'r unigolyn drwy'r hwn y dywedir fod y diffynnydd yn atebol, a bod yr anaf yn un y gellir ei briodoli yn rhannol neu yn gyfan i'r weithred neu'r esgeulustod y datgenir ei bod yn golygu atebolrwydd y diffynnydd.

Hyd yn oed pan fo'r cyfnod cyfyngu wedi dod i ben ar gyfer hawliad anaf personol neu dan Ddeddf Damweiniau Angheuol, mae gan y llys ddisgresiwn i ganiatáu i'r achos fynd rhagddo.

(4) Mewn achos camwedd gall sail achos ddod yn orfodadwy i hawlydd heb iddo fod yn ymwybodol o hynny. Enghreifftiau yw lle bydd hawlydd yn dioddef colled oherwydd bod dogfen wedi'i drafftio'n ddiofal, neu fod cyfrifiadau wedi'u gwneud yn esgeulus, neu fod difrod ffisegol i ran o adeilad na all ei weld yn hawdd. Mewn achosion o'r fath y cyfnod cyfyngu safonol yw 6 blynedd. Fodd bynnag, gall hawlydd, y tu allan i'r cyfnod o 6 blynedd ddwyn achos os bydd yn gwneud hynny cyn pen 3 blynedd i'r 'dyddiad cychwyn' sef y dyddiad pryd yr oedd gan yr hawlydd gyntaf yr wybodaeth angenrheidiol i ddwyn yr hawliad a'r hawl i ddwyn yr hawliad.

(5) 12 mlynedd yw'r cyfyngiad amser ar gyfer camau i adennill tir, ond mae rhent sy'n daladwy ar y tir yn ddarostyngedig i gyfnod cyfyngu o 6 blynedd.

(6) 6 blynedd yw'r cyfyngiad amser ar gyfer gorfodi dyfarniad llys.

7.40 Ceir hefyd reolau arbennig yn y Ddeddf Cyfyngiadau 1980 sy'n gwneud y canlynol: (a) ymestyn y cyfnod pan fo'r hawlydd dan anabledd, h.y. yn blentyn neu'n barti a warchodir, (b) darparu, pan fydd diffynnydd yn cydnabod ei atebolrwydd i dalu dyled y gellir gorfodi sail yr achos ar ddyddiad y gydnabyddiaeth honno, a (c) gohirio cychwyn y cyfnod cyfyngu lle bydd yr achos yn seiliedig ar dwyll y diffynnydd, neu fod unrhyw ffaith berthnasol i hawl yr hawlydd i weithredu wedi ei chuddio'n fwriadol gan y diffynnydd neu fod yr achos yn un am ryddhad o ganlyniadau camgymeriad hyd y dyddiad pryd y mae'r hawlydd yn canfod y twyll, y celu neu'r camgymeriad neu y gallai gyda diwydrwydd rhesymol fod wedi ei ganfod.

7.41 Dylai ymgyfreithwyr hefyd fod yn ymwybodol, lle bo hawliad yn codi o gludiant rhyngwladol, boed dros y môr, drwy'r awyr, ar y ffyrdd neu reilffyrdd, fod rheolau arbennig yn darparu cyfnodau cyfyngu ychydig yn fyrrach na'r cyfnodau safonol dan Ddeddf Cyfyngiadau 1980. Mae'r statudau perthnasol yn ymgorffori'r rheolau a gytunwyd yn ôl confensiwn rhyngwladol, ac mae'r rheolau hyn hefyd yn effeithio ar atebolrwydd y cludydd. Mae'n arbennig o bwysig fod yr ymgyfreithiwr yn dwyn ei hawliad o fewn cyfyngiadau amser y confensiwn. Mae hyn oherwydd fod dull gweithredu

safonol y confensiynau hyn yn darparu pan fydd cyfyngiad amser wedi mynd heibio fod hawl hawlydd i iawndal yn cael ei ddileu, nid yn unig fod ei rwymedi yn cael ei wahardd. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon yn aml fel “cyfnod cyfyngu sylweddol”. Unwaith y bydd y cyfyngiad amser wedi mynd heibio, does dim yn agored i’r llys ei wneud i gynorthwyo’r darpar ymgyfreithiwr.

7.42 Gall cyfyngu fod yn ddyrys iawn i’r rhai nad ydynt yn ymwybodol ohono. Yr unig lwybr diogel, unwaith y byddwch yn gwybod eich bod wedi dioddef anaf neu golled yw i chi fwrw ymlaen â’ch hawliad. Peidiwch ag oedi o gwbl o ran eich hawliau. Dylech fod yn ymwybodol nad oes unrhyw ddyletswydd ar gyfreithiwr neu barti sy'n gwybod y gyfraith i’ch hysbysu y gallai cyfnod cyfyngu ddod i ben cyn bo hir. Nid yw’n adeiladol o gwbl, ond mae’r awduron yn ymwybodol o achosion lle y mae cyfreithiwr wedi bod yn cyfnewid gohebiaeth addawol, neu felly yr ymddangosai gyda darpar ymgyfreithiwr (ond heb wneud unrhyw addefiad ffurfiol), hyd nes i gyfnod cyfyngu ddod i ben, ac yna wedi dweud wrtho fod ei hawliad bellach wedi cael ei ddileu.

# Pennod 8
# Datganiadau o Achos (“Llediadau”)

A. Beth yw plediadau a pham maent yn bwysig?
B. Y Datganiad Gwirionedd
C. Sut i fynd ati i baratoi eich plediad (1) fel Hawlydd yn pledio Ffurflen Hawlio a Manylion yr Hawliad
D. Sut i fynd ati i baratoi eich plediad (2) fel Diffynnydd yn pledio Amddiffyniad (a Gwrth-hawliad)
E. Sut i fynd ati i baratoi eich plediad (3) fel Hawlydd yn pledio Ateb (ac Amddiffyniad i Wrth-hawliad)
F. Paratoi cronoleg

_Penawdau_

*(1) Dogfennau llys ffurfiol yw Datganiadau o Achos, neu ‘blediadau’ sy’n gosod allan achos pob parti. Maent yn ddogfennau pwysig. Maent yn rhoi gwybod i’r holl bartïon eraill ac i’r barnwr beth fydd y parti sy’n pledio yn dadlau yn ei gylch yn y treial.*

*(2) Ni chaiff yr un parti fynd yn groes i'w blediadau, h.y. dadlau achos nad yw'n gyson â'r achos sydd wedi'i ddisgrifio yn ei blediad.*

*(3) Rhaid cymryd plediadau yn wirioneddol o ddifrif. Rhaid i unrhyw blediad y byddwch yn ei gyflwyno gael ei gadarnhau drwy gyfrwng Datganiad Gwirionedd. Os yw'r ffeithiau yn y plediad yn anghywir efallai y byddwch yn euog o ddirmyg llys ac mae’n debyg o effeithio ar farn y barnwr ynghylch eich geirwiredd a'ch dibynadwyedd.*

*(4) Dylech baratoi yn ofalus cyn drafftio plediad. Mae rhestr o bethau i'w gwneud un ai fel Hawlydd neu Ddiffynnydd ar gael ym mharagraffau 8.9 a 8.18 isod*

*(5) Rhaid i bob plediad gychwyn gyda theitl yr achos a diweddu gyda Datganiad Gwirionedd wedi’i lofnodi a’i ddyddio a’ch cyfeiriad ar gyfer cyflwyno unrhyw blediad dilynol.*

**Cyffredinol**

8.1 ‘Plediadau’ oedd y term a arferai gael ei ddefnyddio am Ddatganiadau o Achos o dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR). Mae’r hen enw wedi aros. Mae’n derm sy’n gyfarwydd ac yn ddealladwy i lawer.

8.2 Dyma’r Datganiadau o Achos / Plediadau sy’n cael eu defnyddio'n aml:

(1) Ffurflen Hawlio a Manylion yr Hawliad (yr olaf pan nad yw manylion yr achos wedi’u rhoi yn y Ffurflen Hawlio) – a gyflwynir gan yr Hawlydd

(2) Amddiffyniad (a Gwrth-hawliad) – a gyflwynir gan y Diffynnydd, gyda’r gwrth-hawliad yn cael ei ychwanegu dim ond os yw’r Diffynnydd yn dymuno gwneud ei hawliad ei hun yn erbyn yr Hawlydd (*dylai diffynnydd sydd am wneud gwrth-hawliad wneud yn siŵr fod ganddo sail achos ddilys – pennod 6)*

(3) Ateb (ac Amddiffyniad i’r Gwrth-hawliad) – a gyflwynir gan yr Hawlydd

(4) (Ateb i'r Amddiffyniad i’r Gwrth-hawliad) – a gyflwynir gan y Diffynnydd

Yn draddodiadol, cafwyd plediadau eraill, adwrthebion, ailadwrthebion, gwrthbrofion, adwrthbrofion ac ati, ond erbyn hyn maent yn dod i ddiwedd eu hoes.

8.3 Os oes modd, fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, dylech geisio cyngor gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth, neu rywun sydd â phrofiad o waith llys a dangos iddynt y dogfennau rydych wedi’u paratoi i gael sylwadau ganddynt.

## A. Beth yw plediadau a pham maent yn bwysig?

8.4 Plediadau yw'r dogfennau llys ffurfiol a ddefnyddir gan bob parti yn yr achos i nodi ei achos. Maent yn hanfodol:

(1) fel bo’r ddau barti (neu bob parti os oes mwy na dau) yn gwybod manylion hollbwysig yr achos y mae ei wrthwynebydd yn mynd i’w dadlau yn y treial, a

(2) galluogi'r Barnwr i wybod pa faterion fydd yn destun dadlau ac y bydd angen gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn y dyfarniad ar ddiwedd y treial.

Mae'n bwysig iawn eich bod chi fel ymgyfreithiwr yn nodi eich achos yn iawn yn eich plediadau. Ni chaiff yr un ymgyfreithiwr ddadlau achos gwahanol mewn treial i’r un y mae wedi’i bledio; ni chaiff parti wyro oddi wrth ei blediadau. Felly mae’n hanfodol eich bod yn pledio’ch achos yn iawn. Os gwelwch fod yn rhaid ichi gyflwyno achos gwahanol i'r un rydych wedi'i bledio, bydd yn rhaid i

chi ofyn am ganiatâd y llys i newid eich plediadau, a chael y caniatâd hwnnw. Bydd cael y caniatâd yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau perthnasol ac yn benodol a yw, neu a fydd, eich gwrthwynebydd o dan anfantais os byddwch yn newid eich plediadau. Gyntaf yn y byd y gwnewch gais i newid, mwyaf tebygol y byddwch o gael caniatâd i newid.

## B. Y Datganiad Gwirionedd

8.5 Rhaid cymryd plediadau o ddifrif. Ni ddylech bledio unrhyw beth nad ydych yn ei gredu sy'n wir. (Mae'r dyddiau pan ellid gwneud datganiadau mewn plediadau am resymau tactegol yn unig wedi dod i ben.) Mae’r CPR yn cyflawni hyn drwy fynnu bod pob plediad (a ddisgrifir yn CPR 22.1 fel 'datganiadau o achos' yn cael ei gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob plediad gael ei gadarnhau'n bersonol gan y parti sy'n cyflwyno'r plediad, a hynny drwy'r datganiad canlynol:

“**Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y** (enw’r plediad) **hwn yn wir.”**

Dyma’r ‘datganiad gwirionedd’. Yr arfer bron yn ddieithriad yw cael y datganiad gwirionedd ar ddiwedd y ddogfen sy'n cael ei chadarnhau. Ond mae’r CPR yn caniatáu i’r datganiad gwirionedd gael ei gynnwys mewn dogfen ar wahân ar yr amod bod y ddogfen yn cynnwys teitl yr achos a rhif yr hawliad a bod y ddogfen sy'n cael ei chadarnhau'n cael ei nodi'n briodol [CPR 22PD.2.2.3].

8.6 Caniateir i gyfreithiwr neu gyfaill cyfreitha lofnodi’r datganiad gwirionedd [CPR 22.1(6)], ond dim ond os oes rheswm da pam na all yr ymgyfreithiwr ei lofnodi.

8.7 Mae plediad a gyflwynir heb ddatganiad gwirionedd wedi’i lofnodi yn blediad dilys. Ond gall y llys ei ddileu [CPR 22.2).

8.8 Mae'n bwysig iawn gwneud yn siŵr fod y ffeithiau yn eich plediadau'n gywir. Mae ffeithiau mewn plediad sydd wedi’i gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd yn dystiolaeth yn yr achos. Os bydd parti'n dweud celwydd yn fwriadol mewn plediad neu mewn dogfen arall, gall gael ei erlyn am y trosedd anudoniaeth. Os byddwch yn gwneud camgymeriad mawr, bydd yn rhaid ichi wneud cais i newid y plediad. Gall hyn effeithio ar ddibynadwyedd eich tystiolaeth yng ngolwg y Barnwr a fydd yn gwrando’r achos.

## C. Sut i fynd ati i baratoi eich plediad (1) fel Hawlydd yn pledio Ffurflen Hawlio a Manylion yr Hawliad

8.9 <u>Cyn i chi ddechrau drafftio eich plediadau</u>

(1) Penderfynwch ar ba sail neu seiliau achos rydych am ddibynnu arnynt yn eich hawliad yn erbyn y diffynnydd *(gweler pennod 6 ac atodiad 3).*

(2) Nodwch elfennau sail eich achos a gwnewch yn siŵr eich bod mewn sefyllfa i brofi'r ffeithiau sy'n ofynnol i gadarnhau pob elfen.

(3) Rhestrwch y materion sy'n destun anghydfod rhyngoch chi a'ch gwrthwynebydd. *(Bydd hyn yn eich helpu i nodi'r "materion" yn yr achos, gweler pennod 6, a'r meysydd y bydd angen ichi ganolbwyntio arnynt pan fyddwch yn paratoi eich achos ac yn penderfynu ar ba dystion i'w galw. Efallai na fyddwch yn gallu paratoi rhestr derfynol o faterion, ond os bydd y cam cyn-gyfreitha wedi'i gynnal yn iawn, gweler pennod 7, dylech fod â syniad gweddol dda beth fydd y materion.)*

(4) Rhestrwch yr hyn rydych chi'n ei ddweud mae'ch gwrthwynebydd wedi'i wneud yn anghywir neu heb ei wneud. Gwnewch hyn gan ystyried beth sy'n rhaid ichi ei brofi fel bo sail eich achos yn gadarn *(Bydd y rhestr hon yn eich helpu i bennu manylion esgeulustod neu dor-gontract yn yr achos, a dylai eich helpu i asesu pa mor gryf ydy'ch achos.)*

(5) Rhestrwch beth rydych yn gobeithio ei adfer yn sgil yr achos (e.e. cost nwyddau; maint yr iawndal am ddifrod i nwyddau; maint yr iawndal am anaf personol; adennill tir neu nwyddau).

(6) Paratowch nodiadau manwl am y ffeithiau ynghylch cefndir eich achos a hefyd y ffeithiau a fydd yn profi elfennau sail eich achos. Fel rhan o'r ymarfer hwn, dylech baratoi cronoleg yn nodi'r holl ddigwyddiadau perthnasol (gan gynnwys pob dogfen bwysig) yn ôl eich barn chi amdanynt ac unrhyw fater y mae eich gwrthwynebydd wedi'i godi mewn gohebiaeth cyn-gyfreitha. Gweler paragraff 8.34 isod.

(7) Gan ddefnyddio'r nodiadau hyn, paratowch adroddiad o'r digwyddiadau perthnasol yn nhrefn dyddiad y mae eich hawliad yn deillio ohonynt. Gwnewch yn siŵr eich bod yn delio â'r holl faterion sy'n destun anghydfod rhyngoch chi a'ch gwrthwynebydd. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio drafft cyntaf eich datganiad tyst y bydd yn rhaid i chi ei gyflwyno maes o law.

(8) Casglwch yr holl ddogfennau sydd gennych sy'n gysylltiedig â'r hawliad, eu rhoi yn nhrefn dyddiad a pharatoi rhestr ohonynt. Gwnewch yn siŵr fod eich adroddiad chi o'r digwyddiadau'n cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddogfen bwysig ac nad yw'n anghyson ag unrhyw ddogfen o'r fath, oni bai eich bod yn sicr bod rhywbeth yn anghywir yn y ddogfen. *(Efallai y bydd casglu eich dogfennau at ei gilydd yn dangos ichi nad yw'r holl ddogfennau perthnasol gennych oherwydd, er enghraifft, fod llythyrau o ddilyniant o ohebiaeth ar goll, neu nad yw anfoneb neu dderbynneb gennych neu holl dudalennau anfoneb neu dderbynneb. Pan fydd dogfennau pwysig iawn ar goll, gallwch roi cynnig ar ysgrifennu at eich gwrthwynebydd a gofyn am gopi (gweler Pennod 7.3 – 7.5). Os na fydd yn fodlon darparu copi neu os nad yw'r dogfennau mor bwysig fel y gallwch ofyn am gopi yn ystod y cam*

*cyn-gyfreitha, gallwch nodi'r dogfennau sydd ar goll a gwneud yn siŵr eich bod yn cael copi adeg datgelu, gweler Pennod 10.)*

(9) Os bydd eich achos yn ddibynnol ar dystiolaeth a roddir gan un neu fwy o dystion eraill, gwnewch yn siŵr eich bod wedi siarad â nhw ac wedi paratoi drafft cyntaf o leiaf o ddatganiad y maent yn hyderus yn ei gylch ac y byddant yn glynu wrtho. *(Mae'n werth cofio po agosaf yr ewch at ddyddiad y treial, mwyaf amharod fydd rhai pobl i fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth. Mae'r ymgyfreithiwr doeth yn cael datganiadau wedi'u llofnodi gyda Datganiadau Gwirionedd oddi wrth ei dystion yn gynnar yn yr achos.)*

(10) Peidiwch â brysio i gychwyn eich achos a pharatoi eich plediadau. Os byddwch yn cychwyn heb baratoi'n iawn, efallai y gwelwch y bydd pethau'n mynd o chwith go iawn unwaith y bydd yr achos wedi cychwyn. Efallai fod gennych deimladau cryf am ddrygioni'ch gwrthwynebydd, ac efallai na allwch chi (neu, yn fwy peryglus, aelod o'ch teulu neu ffrind agos) aros i gychwyn yr achos yn erbyn y diffynnydd. Pwyllwch. Paratowch yn ofalus i ddechrau. Gwnewch yn siŵr fod gennych achos da.

8.10 <u>Drafftio eich plediad</u>

(1) Drafftiwch y Ffurflen Hawlio drwy nodi'n gryno natur eich hawliad ar Ffurflen Ymarfer N1. Rhaid ichi ddefnyddio Ffurflen N1 ar gyfer hawliad Rhan 7 (Ffurflen N208 ar gyfer hawliad Rhan 8) [CPR 7APD.3.1], a bydd y ffurflen hon yn eich helpu chi gyda theitl yr achos. *Rhaid* i bob plediad gychwyn gyda theitl yr achos. Mae'r enghreifftiau yn Atodiad X yn dangos ichi sut i osod y teitl.

(2) Drafftiwch Fanylion yr Hawliad drwy nodi, yn gryno, ffeithiau a nodweddion pwysig eich achos gan wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys yr holl ffeithiau sy'n ofynnol i brofi pob elfen sy'n ffurfio sail eich achos. *Os na fyddwch yn pledio'r holl ffeithiau sy'n ofynnol i brofi sail eich achos, efallai y bydd eich hawliad yn cael ei ddileu am 'ddatgelu nad oes sail i'r achos'.*

(3) Gwnewch yn siŵr fod y plediad yn nodi'ch achos yn gywir, gan ystyried yr holl ddeunydd rydych wedi'i gasglu o dan (2) i (9) uchod.

8.11 Cewch gynnwys Manylion yr Hawliad ar eich cyfer yn eich Ffurflen Hawlio. Ond, er bod CPR 16PD.3 yn nodi y dylai manylion yr hawliad, os yw'n ymarferol, gael eu rhoi yn y Ffurflen Hawlio, y cyngor bob amser yw y dylid cynnwys Manylion yr Hawliad yn y Ffurflen Hawlio dim ond os ydych yn gofyn am swm penodol o arian ac y gallwch ddisgrifio'ch hawliad mewn ychydig o frawddegau. Er enghraifft, gall hawliad i adennill dyled ddarllen fel hyn yn syml *"Mae hawliad yr Hawlydd am arian sy'n ddyledus am wasanaethau plymio fel y nodir*

*yn yr Anfonebau amgaeedig, anfonebau 123 a 124, dyddiedig 3 Mehefin a 28 Mehefin 2012 sy'n dod i gyfanswm o £43,450".* Ymhob achos arall, nodwch yn y Ffurflen Hawlio y bydd Manylion yr Hawliad yn dilyn, a pharatoi dogfen ar wahân.

8.12 Wrth ddrafftio Manylion yr Hawliad ar eich cyfer, gwnewch yn siŵr eich bod yn dechrau gyda theitl yr achos a'ch bod yn rhoi eich cyfeiriad ar gyfer cyflwyno [CPR 16PD.3.8]. Mae CPR PD16 paragraffau 4 i 9 yn nodi materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn (a) hawliadau anaf personol, (b) hawliadau deddf damweiniau angheuol, (c) hawliadau hur-bwrcas, (d) hawliadau'n ymwneud â thir, ac (e) hawliadau am arian a fynegir mewn arian tramor. Gwnewch yn siŵr eich bod yn delio â'r pwyntiau a godwyd. Dau bwynt arall:

(1) os yw'r hawliad yn ymwneud ag adennill nwyddau, rhaid ichi gynnwys datganiad yn nodi gwerth y nwyddau dan sylw;

(2) mae rheolau arbennig yn ymwneud â hawliadau contract. Y rhain yw

(a) os ydych yn dibynnu ar gontract ysgrifenedig rhaid i chi bennu'r contract hwnnw yn eich plediad a chysylltu copi o'r contract i'ch plediad;

(b) os ydych yn dibynnu ar gontract llafar, rhaid i Fanylion yr Hawliad nodi'r geiriau contractiol a ddefnyddiwyd a datgan: (i) pwy ddywedodd y geiriau, (ii) wrth bwy, (iii) pryd, a (iv) ymhle y cawsant eu dweud. *Does dim rhaid ichi roi'r geiriau air am air neu fel y cawsant eu llefaru; mae hanfod y geiriau'n ddigon.*

(c) os ydych yn dibynnu ar gontract y cytunwyd iddo ar sail ymddygiad, rhaid i Fanylion yr Hawliad gennych nodi'r ymddygiad y dibynnwyd arno a nodi i) gan bwy, (ii) pryd, a (iii) lle gwnaethpwyd y gweithredoedd a oedd yn golygu'r ymddygiad.

8.13 Defnyddiwch baragraffau byr wedi'u rhifo bob amser. Dylid teipio'r ddogfen. Mae'n debyg y byddwch am hawlio llog ar unrhyw swm a fydd yn cael ei roi ac os felly, rhaid ichi ddweud hynny'n benodol ym Manylion yr Hawliad. Mae CPR 16.4 yn cynnwys rheolau gorfodol ynghylch pledio llog a rhai mathau o iawndal (esiamplaidd, gwaethygedig neu ddarpariaethol – nad ydynt, gyda llaw, yn digwydd yn aml iawn mewn ymarfer) a bydd angen cydymffurfio â'r rhain.

8.14 Ar yr amod eich bod yn disgrifio'ch achos yn unol â'r holl ffeithiau sy'n ofynnol i brofi eich hawliad, bydd eich plediad yn ddigon da. Gwnewch yn siŵr fod eich ffeithiau'n cael eu nodi mewn trefn gronolegol ac nad ydych yn gwneud dim mwy na'u crynhoi. Bydd manylion llawn y ffeithiau perthnasol yn cael eu nodi'n ddiweddarach yn eich datganiadau tystion. Mae'r hen ddywediad '*Facts not law, Facts not evidence*' yr un mor wir heddiw ag erioed. Mae'n golygu nad oes yn rhaid ichi nodi sail gyfreithiol eich hawliad yn eich plediad, dim ond y ffeithiau

sy'n llunio eich hawliad. Hefyd, nid ydych yn nodi'r dystiolaeth, h.y. y manylion, dim ond y ffeithiau sylfaenol sy'n gwneud eich hawliad.

8.15 Peidiwch â disgwyl ei gael yn iawn y tro cyntaf. Rhaid dyfalbarhau gyda phlediadau. Mae llawer o bobl weithiau (bargyfreithwyr hyd yn oed) yn cael trafferth ysgrifennu. Mae tudalen wag yn gallu bod yn ddychryn. Yr ateb fel arfer yw mynd ati i ysgrifennu, hyd yn oed os ydych yn meddwl (neu'n gwybod) y bydd angen ichi ailysgrifennu eich testun yn ddiweddarach. Os bydd Manylion yr Hawliad yn mynd yn hir ac ychydig yn ddigyswllt, dylech ddarllen eto beth rydych wedi'i ysgrifennu a gofyn: 'a oes wir angen cynnwys y darn hwn naill ai i brofi un o elfennau sail fy achos neu i egluro hanfod fy hawliad?'. Os nad oes, dylech ei ddileu.

8.16 Hyd yn oed os oes camgymeriadau o natur dechnegol yn eich plediad fel y cafodd ei gyflwyno, ddylech chi ddim poeni amdano. Y mae myth, sy'n cael ei chredu gan lawer, bod cyfreithwyr yn rhy awyddus o'r hanner i gymryd pwyntiau technegol a bod barnwyr yn barod i benderfynu ar anghydfodau heb gael treial ar y rhinweddau. Efallai mai dyna sut yr oedd hi ganrifoedd yn ôl, ond nid heddiw. Mae cyfreithwyr proffesiynol yn gwneud camgymeriadau'n rheolaidd yn eu plediadau. Efallai y bydd yn rhaid cywiro camgymeriadau (lle mae rheol orfodol y mae'n rhaid cydymffurfio â hi) ond ychydig iawn o farnwyr fydd yn gwneud stŵr am hyn. Pan mae Barnwr yn dweud ei bod yn bwysig i blediad fod yn gywir, mae'n golygu ei bod yn bwysig fod y ffeithiau mewn plediad yn gywir. Nid mater technegol mo hynny, ond mater o hygrededd. Os bydd ymgyfreithiwr yn newid y ffeithiau perthnasol efallai y gwêl na fydd yn cael ei gredu.

8.17 Mae'n anodd iawn rhoi cyngor cyffredinol. Isod awgrymir fformat cyffredinol y bydd angen ichi ei addasu i ffeithiau penodol eich hawliad chi.

(1) Nodwch y berthynas rhwng yr Hawlydd a'r Diffynnydd. Er enghraifft *("Adeiladwr yw'r Diffynnydd a gytunodd i wneud gwaith i Gartref yr Hawlydd yn 25 Broad Road, Y Drenewydd.")*

(2) Mewn trefn gronolegol, nodwch ddyddiadau a manylion yr holl brif ddigwyddiadau er mwyn dangos trefn y digwyddiadau ac ym mha amgylchiadau yr achosodd y Diffynnydd y difrod neu'r golled. Gallai hyn gymryd sawl paragraff byr wedi'u rhifo. Felly, os yw'r hawliad am fethiant i lynu wrth delerau cytundeb, yna dylai nodi telerau'r cytundeb gwreiddiol ac unrhyw newidiadau i'r gwaith i'w wneud o dan y cytundeb neu unrhyw newidiadau neu amrywiadau diweddarach i'r cytundeb gwreiddiol hwnnw fel y gwnaethant ddigwydd. Gall hefyd gynnwys manylion sgyrsiau pwysig rhwng yr Hawlydd a'r Diffynnydd (yn arbennig unrhyw rai a newidiodd y cytundeb). Dylai hefyd nodi manylion unrhyw ddogfennau ysgrifenedig pwysig (megis pryd y cawsant eu hysgrifennu, gan bwy, i bwy ac o dan ba delerau).

(3) Nodwch mewn brawddegau byr wedi'u rhifo beth wnaeth y Diffynnydd yn anghywir neu beth a fethodd ei wneud. Gall hyn olygu nodi'r ffyrdd gwahanol yr oedd y Diffynnydd yn esgeulus mewn hawliad camwedd neu beth a fethodd ei wneud y dylai fod wedi'i wneud mewn hawliad contract. Gallai hyn olygu rhoi rhestr o achosion unigol o dorri dyletswydd gofal neu dorcontract megis gwaith gwael mewn gwahanol rannau o'r gwaith neu restr o ddifrod a gafodd ei achosi gan y gwaith a wnaeth.

(4) Nodwch yn fanwl pa golledion yr ydych wedi'u dioddef neu'n debygol o'u dioddef. Mewn hawliad am ddifrod i eiddo personol (h.y. eiddo heblaw tir neu adeiladau), gall hyn olygu cost atgyweirio neu eiddo newydd. Mewn hawliad am waith gwael i dŷ, nodwch yr hyn y mae wedi'i gostio eisoes ac/neu'n debygol o'i gostio yn y dyfodol i gywiro'r gwaith gwael. Rhowch fanylion a chyfeiriwch at unrhyw anfonebau am symiau yr ydych wedi'u talu neu amcangyfrifon proffesiynol o faint mae wedi'i gostio neu faint fydd yn ei gostio. Os nad oes gennych amcangyfrif proffesiynol, bydd yn rhaid ichi roi eich amcangyfrif eich hun. Ond, yn y sefyllfa hon, cofiwch er y bydd eich amcangyfrif chi yn ddigon ar gyfer pledio, anaml iawn y bydd yn ddigon ar gyfer cael dyfarniad o iawndal.

(5) Ar ddiwedd Manylion yr Hawliad, rhowch baragraff yn nodi beth rydych yn ei hawlio. Er enghraifft

"Mae'r Hawlydd felly'n hawlio:-

(1) Iawndal i'w asesu (wedi'i gyfyngu i £100,000), neu
Y swm o £50,000, neu
Datganiad (o hawl cyfreithiol) (e.e.) bod gan yr Hawlydd hawl i ddefnyddio'r hawl tramwy sydd wedi'i dangos mewn glas ar y cynllun atodedig.
(2) Llog yn unol â statud
(3) Costau"

(6) Yn olaf, rhaid ichi gynnwys y datganiad gwirionedd, wedi'i lofnodi a'i ddyddio, a'r cyfeiriad lle byddwch yn derbyn dogfennau a gyflwynir gan y diffynnydd.

## D. Sut i fynd ati i baratoi eich klediad (2) fel Diffynnydd yn pledio Amddiffyniad (a Gwrth-hawliad)

8.18 Yn gyntaf, gwnewch y gwaith paratoi fel sy'n cael ei awgrymu yn 8.9 uchod:

(i) Ystyriwch beth yw sail neu seiliau'r achos sy'n ffurfio sail yr hawliad yn eich erbyn, a nodwch elfennau sail achos yr Hawlydd (gweler Atodiad Y). Dangoswch fod y ffeithiau o'r fath fel y bydd yn rhaid i achos yr Hawlydd

fethu ar o leiaf un elfen o'r sail achos hwnnw. *Efallai y gwelwch y bydd yn rhaid ichi addef rhan o'r hawliad.*

(ii) Rhestrwch yr holl faterion sy'n destun anghydfod rhyngoch chi a'ch gwrthwynebydd *gweler 8.9(3) uchod).*

(iii) Paratowch nodiadau manwl am y ffeithiau sy'n ffurfio cefndir eich achos ac a fydd yn gwrthbrofi un neu fwy o elfennau sail achos eich gwrthwynebydd.

(iv) Gan ddefnyddio'r nodiadau hyn, paratowch adroddiad o'r digwyddiadau perthnasol y mae hawliad eich gwrthwynebydd yn deillio ohonynt. Gwnewch yn siŵr eich bod yn delio â'r holl faterion sy'n destun anghydfod rhyngoch chi a'ch gwrthwynebydd. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio drafft cyntaf eich datganiad tyst y bydd yn rhaid i chi ei gyflwyno maes o law.

(v) Gwnewch yn siŵr fod gennych gopïau o unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ym Manylion yr Hawliad a gofynnwch am gopïau o unrhyw ddogfen nad yw gennych. Casglwch yr holl ddogfennau sydd gennych sy'n gysylltiedig â'r hawliad, eu rhoi yn nhrefn dyddiad a pharatoi rhestr ohonynt. Gwnewch yn siŵr fod eich adroddiad chi o'r digwyddiadau'n cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddogfen bwysig ac nad yw'n anghyson ag unrhyw ddogfen o'r fath, oni bai eich bod yn sicr bod rhywbeth yn anghywir yn y ddogfen.

(vi) Os bydd eich amddiffyniad yn ddibynnol ar dystiolaeth a roddir gan un neu fwy o dystion eraill, gwnewch yn siŵr eich bod wedi siarad â nhw ac wedi paratoi drafft cyntaf o leiaf o ddatganiad y maent yn hyderus yn ei gylch ac y byddant yn glynu wrtho.

(vii) Os ydych am wneud gwrth-hawliad yn erbyn yr hawlydd, ewch drwy'r pwyntiau a wnaethpwyd yn 8.9 uchod i wneud yn siŵr nad ydych wedi methu dim.

8.19 Cofiwch fod amserlen dynn i gydymffurfio â hi fel na fydd dyfarniad yn cael ei gofnodi yn erbyn y Diffynnydd drwy ddiffyg. Peidiwch ag oedi cyn gwneud y gwaith, pa mor flin bynnag yr ydych o bosib am eich bod yn gorfod gwneud y gwaith o gwbl. Ond cofiwch y gallwch hefyd ofyn am ragor o amser. Yn y lle cyntaf, gofynnwch i'ch gwrthwynebydd gytuno i chi gael mwy o amser. Gwnewch hyn drwy ysgrifennu llythyr yn gofyn am gael tan ddyddiad penodol i gyflwyno'ch amddiffyniad, gyda'r gobaith y cewch lythyr yn ôl y gellir ei ddangos i'r llys yn ddiweddarach os bydd raid. Os na fydd eich gwrthwynebydd yn cytuno i roi rhagor o amser, dylech wneud cais i'r llys yn brydlon iawn, i ofyn am ragor o amser. Rhaid ichi ddefnyddio'r ffurflen briodol (N244 – gweler paragraff 13.13), i wneud cais i'r llys. Os ydych yn gofyn am 14 neu 21 diwrnod yn ychwanegol yn unig, fel arfer bydd nodi bod angen yr amser arnoch yn ddigon. Os oes angen rhagor o amser arnoch dylech egluro yn eich cais pam mae angen yr amser arnoch. Os yw'r Hawlydd wedi dechrau achos heb gydymffurfio â

phrotocol cyn-gyfreitha neu heb anfon llythyr hawliad iawn (gweler pennod 7), dylech ddatgan hyn yn glir oherwydd bydd hyn yn sicr yn cyfiawnhau rhoi estyniad o sawl wythnos ar gyfer eich amddiffyniad.

8.20 Os ydych am wneud gwrth-hawliad yn erbyn yr Hawlydd, cewch wneud hynny yn yr un plediad â'r amddiffyniad. Mae hyn yn rhannol er hwylustod, gweler isod. Ond does dim rhaid cyflwyno gwrth-hawliad gyda'r amddiffyniad ac ni ddylech oedi cyn cyflwyno'ch amddiffyniad ac wynebu dyfarniad yn cael ei gofnodi yn eich erbyn drwy ddiffyg oherwydd nad ydych yn barod i bledio'ch gwrth-hawliad.

8.21 <u>Pledio'r amddiffyniad</u>

Dylech bledio'ch amddiffyniad drwy gyfeirio at y paragraffau sydd wedi'u rhifo ym Manylion yr Hawliad. Os yw'ch gwrthwynebydd yn ymgyfreithiwr drosto'i hun sydd wedi nodi pentwr o destun heb ddefnyddio paragraffau wedi'u rhifo, bydd hyn yn niwsans mawr (i'r Barnwr a chi). Awgrymir eich bod yn gwneud copi o'r ddogfen Manylion yr Hawliad, ei rhannu'n baragraffau hwylus y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer eich plediad, a chyflwyno copi o'ch nodiadau gyda'ch amddiffyniad.

8.22 Ewch yn ofalus drwy bob un o'r paragraffau wedi'u rhifo ym Manylion yr Hawliad a phledio iddo, naill ai drwy ei addef yn llawn, neu ei wadu'n llawn, neu roi addefiad amodol. Byddwch yn ddoeth. Peidiwch â gwadu pethau y gwyddoch eu bod yn iawn, yn enwedig pan mae disgrifio'n unig y maent. Felly gan ystyried yr enghraifft yn 8.17(1) uchod, os ydych yn adeiladwr, plediwch fel hyn: Addefir paragraff 1 o Fanylion yr Hawliad.

8.23 Os oes paragraff ym Manylion yr Hawliad sy'n rhoi adroddiad o ddigwyddiadau ac rydych yn cytuno â rhan yn unig o'r hyn sy'n cael ei ddweud, gallwch ddefnyddio fformiwla megis "Heblaw am y ffaith bod [y Diffynnydd wedi dod i'r safle ar y diwrnod dan sylw i archwilio'r adeilad ond heb gael mynediad i ofod y to], mae paragraff 2 o Fanylion yr Hawliad yn cael ei addef.

8.24 *Rheol bwysig.* Un o reolau'r drefn bledio yw bod pob ffaith a nodir ym Manylion yr Hawliad nad yw'n cael ei wadu yn yr Amddiffyniad yn cael ei ystyried yn ffaith sy'n cael ei addef. Felly, mae'n bwysig eich bod yn gwadu unrhyw ffaith a honnir nad ydych yn ei dderbyn fel ffaith sy'n wir. Gellir gwneud hyn fesul ffaith, ond gall hyn fod yn ddiflas. Gallwch wadu sawl ffaith mewn un paragraff drwy wadu'r paragraff cyfan neu drwy ddefnyddio fformiwla megis "Er bod y Diffynnydd wedi (neu, os yw'n well gennych, "i mi") ymweld â'r eiddo ar 3 Mai 2012 ac wedi gweld a siarad â gwraig yr Hawlydd, mae pob ffaith arall ym mharagraff 2 o Fanylion yr Hawliad yn cael ei wadu". Mae llawer o'r rheini sy'n pledio yn chwarae'n saff drwy ychwanegu ar ddiwedd yr amddiffyniad fformiwla megis:

> "Ac eithrio fel yr addefir yn benodol uchod, mae'r holl ffeithiau a materion a honnir ym Manylion yr Hawliad yn cael eu gwadu".

8.25 Mae'n hollbwysig fod yr Amddiffyniad yn gwadu paragraff neu baragraffau ym Manylion yr Hawliad sy'n pledio bod y Diffynnydd wedi torri'r contract neu wedi bod yn esgeulus neu beth bynnag sy'n codi yn sail achos yr Hawlydd. Oni fydd hyn yn cael ei wneud gallai'r Hawlydd wneud cais am ddyfarniad. Mewn rhai achosion, mae'r Amddiffyniad y mae'r Diffynnydd yn dibynnu arno yn cynnwys profi rhai ffeithiau. Rhaid pledio'r ffeithiau hynny.

8.26 *Pledio gwrth-hawliad* Mae gwrth-hawliad yn hawliad ar wahân ar ei ben ei hun. Gallwch ei bledio yn yr un ddogfen ag amddiffyniad, gan ddefnyddio'r teitl 'Amddiffyniad a Gwrth-hawliad'. Plediwch yr Amddiffyniad i ddechrau. Wedyn, o dan yr is-bennawd 'Gwrth-hawliad', plediwch y gwrth-hawliad. Rhaid i'r holl ffeithiau a materion sy'n ofynnol i gadarnhau sail yr achos yn y gwrth-hawliad gael eu pledio, ac efallai y bydd gwrth-hawliad nad yw'n pledio'r holl ffeithiau gofynnol yn cael ei ddileu am nad yw wedi datgelu sail achos. Ond, os ydych wedi pledio ffeithiau pwysig yn eich amddiffyniad, e.e. contract yr ydych am seilio eich gwrth-hawliad arno, gallwch ddechrau eich gwrth-hawliad drwy bledio: 'Mae'r Diffynnydd yn ailadrodd ei amddiffyniad' ac nid oes raid ichi nodi'r ffeithiau hyn eto. Terfynwch y gwrth-hawliad drwy nodi'r hawliad sy'n cael ei wneud, er enghraifft, "Ac mae'r Diffynnydd yn Gwrth-hawlio Iawndal, a Llog a Chostau" ac wedyn cadarnhau'r plediad gyda Datganiad Gwirionedd.

8.27 *Amddiffyniad drwy osod yn erbyn (set-off).* Mae gosod yn erbyn yn gallu bod yn bwnc technegol anodd iawn, ond gellir sôn yma am y math hawsaf a mwyaf cyffredin o osod yn erbyn. Os oes gan bob parti i gontract hawliadau gwahanol yn erbyn ei gilydd sy'n deillio o'r contract hwnnw, gellir gosod yr hawliadau gwahanol hyn yn erbyn ei gilydd. Felly, er enghraifft, os oes gan ddeiliad tŷ gontract gydag adeiladwr i wneud gwaith am bris penodol a'r adeiladwr yn gwneud y gwaith, bydd deiliad y tŷ (fel arfer) yn gyfrifol am dalu pris y gwaith hwnnw. Ond, os na fydd yr adeiladwr yn gwneud yr holl waith yn iawn, a'r deiliad yn gorfod cyflogi adeiladwr arall i wneud gwaith cywiro, bydd gan y deiliad groes-hawliad am gost y gwaith cywiro. Os bydd yr adeiladwr yn siwio am weddill y pris, gall deiliad y tŷ wrth-hawlio cost y gwaith cywiro a defnyddio'r gwrth-hawliad hwnnw fel amddiffyniad naill i leihau'r swm sy'n ddyledus i'r adeiladwr neu i'w ddileu'n llwyr. Ond, rhaid pledio'r amddiffyniad drwy osod yn erbyn yn yr amddiffyniad. Bydd fformiwla megis 'mae'r Diffynnydd yn gosod ei wrth-hawliad yn erbyn' yn ddigon.

## E. Sut i fynd ati i baratoi eich plediad (3) fel Hawlydd yn pledio Ateb (ac Amddiffyniad i Wrth-hawliad)

8.28 Anaml iawn y bydd yn rhaid pledio Ateb. Mae'r hen reol yn dal yn berthnasol, sef dim ond os yw'r Hawlydd am 'addef ac osgoi' y mae'n rhaid rhoi Ateb. Dyma ffordd hen ffasiwn o ddweud os yw'r Hawlydd yn derbyn bod yr Amddiffyniad wedi rhoi amddiffyniad sydd, neu a allai fod, yn gywir, ond y mae'r Hawlydd yn

haeru fod ganddo ateb iddo os yw’n gywir, dylai’r Hawlydd bledio’r ffeithiau sy’n ateb yr Amddiffyniad mewn Ateb.  Mae hyn yn ei gwneud yn glir y bydd yr Hawlydd yn dibynnu ar y ffeithiau ychwanegol hyn i drechu’r amddiffyniad.

8.29 Mae rhai ymgyfreithwyr yn defnyddio Ateb i gyflwyno dadleuon neu ffeithiau ychwanegol a all wrthbrofi materion a godir yn yr Amddiffyniad er na addefir unrhyw beth a haerir yn yr Amddiffyniad. Tactegol yn unig fydd plediad o’r fath, ond ar yr amod ei fod yn gryno ac i'r pwynt, ni fydd y llys yn ei wrthwynebu.

8.30 Does dim angen i chi fel Hawlydd wadu haeriadau o ffaith a wneir mewn amddiffyniad. Ond, os ydych chi hefyd yn pledio Amddiffyniad i Wrth-hawliad gyda’ch Ateb, mae'r rheol arferol yn berthnasol o ran y cymerir bod y ffeithiau’n wir oni chânt eu gwadu'n benodol. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwadu unrhyw ffaith sy'n cael ei bledio yn y Gwrth-hawliad nad ydych yn cytuno â nhw.

8.31 Os ydych yn Hawlydd a'ch gwrthwynebydd yn gwneud gwrth-hawliad, rhaid ichi wneud yn siŵr eich bod yn pledio amddiffyniad, ac wrth wneud hynny rhaid ichi wneud yn siŵr eich bod yn gwadu’r holl ffeithiau sy’n cael eu pledio yn y gwrth-hawliad nad ydych yn cytuno â nhw. Mae’n sicr bron y bydd yn rhaid ystyried terfynau amser. Os na allwch bledio eich Amddiffyniad i Wrth-hawliad o fewn yr amserlen benodedig, gofynnwch i'ch gwrthwynebydd am fwy o amser. Os bydd yn gwrthod, gwnewch gais i'r llys.

8.32 Mae’r un cyngor yn berthnasol i Amddiffynnydd sy'n drafftio Ateb i Amddiffyniad i Wrth-hawliad ag i Hawlydd yn drafftio Ateb.

8.33 Fel gydag unrhyw blediad arall (Datganiad o Achos), rhaid i Ateb (ac) Amddiffyniad i Wrth-hawliad, ac Ateb i Amddiffyniad i Wrth-hawliad, gael ei gadarnhau gan Ddatganiad Gwirionedd.  Rhaid dyddio pob plediad ac, ar gyfer eu cyflwyno,  rhaid iddynt roi cyfeiriad y parti sy’n eu cyflwyno.

## F. Paratoi cronoleg

8.34 Er mwyn paratoi eich achos yn iawn a chyflwyno eich dadleuon yn y ffordd orau yn y treial, ni ddylech gymryd dim yn ganiataol.  Mae paratoi trwyadl yn gallu bod yn ddiflas a gall ymddangos yn ddiangen, yn enwedig gan y byddwch wedi byw trwy'r digwyddiadau perthnasol eich hun. Ond, os yw'n werth ymladd yr achos, mae'n werth gwneud hynny'n iawn, a rhan o wneud y gwaith yn iawn yw gwirio'ch achos orau gallwch drwy lygad rhywun sy'n ei weld o'r newydd, fel y bydd y barnwr yn ei weld yn y man.

8.35 Anaml iawn y mae hyn yn syml. Ond un ffordd dda iawn o sicrhau eich bod yn edrych ar eich achos mewn ffordd mor wrthrychol â phosibl yw paratoi cronoleg

fanwl. Mae hyn yn golygu gosod allan yr holl ddigwyddiadau sy'n rhan o'r anghydfod mewn trefn gronolegol fel y gallwch weld (neu atgoffa'ch hun) sut y gwnaethant ymddangos ar y pryd. Yn aml mi welwch fod cronoleg dda yn rhoi digwyddiadau mewn persbectif a bydd o gymorth mawr i chi er mwyn gweld lle mae'r bylchau yn eich tystiolaeth a chyflwyno'ch achos orau gallwch.

8.36 Nid oes un ffordd benodol o baratoi cronoleg ddefnyddiol. Ond, oni bai fod dull gwahanol yn awgrymu'i hun, awgrymir eich bod yn defnyddio tair colofn: (1) dyddiad, (2) digwyddiad, (3) cyfeirnod, h.y. lle rydych yn cael y wybodaeth ar gyfer y ddwy golofn gyntaf. Gall ddod o ddogfen (e.e. llythyr, cofnod mewn dyddiadur neu ddogfen arall megis anfoneb neu nodyn danfon), neu o'r hyn rydych chi'n ei gofio neu dyst, rhywbeth a fydd yn rhan o ddatganiad tyst yn y man.

8.37 Wrth i'r achos fynd rhagddo, yn sicr bydd angen ichi ychwanegu at eich cronoleg. Dylech edrych eto ar eich cronoleg ar ôl y cam datgelu pan fydd dogfennau'ch gwrthwynebydd gennych wrth law, wrth ichi baratoi eich datganiadau tyst, a phan fyddwch wedi derbyn datganiadau tyst eich gwrthwynebydd.

# Pennod 9
# Dyfarniad trwy ddiffyg a Sancsiynau am beidio â chydymffurfio

A. Dyfarniad Trwy Ddiffyg
B. Diddymu Dyfarniad Trwy Ddiffyg
C. Sancsiynau a rhyddhad o sancsiynau

Penawdau

(1) *Mae ymgyfreithwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau amser a bennir gan y Rheolau neu mewn cyfarwyddiadau a roddir gan Orchymyn Llys yn debygol o ganfod y gorchmynnir dyfarniad yn eu herbyn neu y rhoddir sancsiwn a allai niweidio'u hachos yn y treial.*

(2) *Os bydd Diffynnydd yn methu ag ymateb i gyflwyno Ffurflen Hawlio neu Fanylion yr Hawliad, gall yr Hawlydd gael dyfarniad yn ei erbyn 'trwy ddiffyg' h.y. heb orfod cael treial.*

(3) *Dylid cydymffurfio â phob Gorchymyn Llys sy'n pennu dyddiad ac amser y mae'n rhaid i'r parti gyflawni cam penodol yn yr achos o'u mewn. Bydd methu â chydymffurfio fel arfer yn golygu gorfod gwneud cais i'r Llys a fydd bron yn sicr yn golygu y caiff y parti orchymyn i dalu costau.*

(4) *Er y bydd y Llys yn aml yn rhoi mwy o amser i ymgyfreithiwr gymryd unrhyw gam yn yr achos lle y ceir rheswm dros hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y Llys yn ymestyn cyfyngiad amser. Mae'r Llys yn annhebygol o ymestyn amser yr eilwaith heb osod sancsiwn.*

(5) *Mae ystod eang o sancsiynau ar gael i'r Llys i'w gosod ar ymgyfreithiwr sy'n methu â chydymffurfio â Gorchymyn Llys, neu ag unrhyw ddarpariaeth yn y CPR neu gyfarwyddyd ymarfer.*

(6) *Gall ymgyfreithiwr wneud cais am ddiddymu dyfarniad trwy ddiffyg neu i gael rhyddhad o sancsiwn. Fodd bynnag, rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath yn ddi-oed. Os bydd unrhyw oedi cyn gwneud y cais rhaid rhoi rheswm da dros yr oedi.*

(7) *Rhaid i gais am ddiddymu dyfarniad trwy ddiffyg neu ddyfarniad am ryddhau o sancsiwn gael ei gefnogi gan ddatganiad llys a gadarnheir gan ddatganiad gwirionedd. Dylai datganiad y tyst egluro pam fod yr ymgyfreithiwr wedi methu â chydymffurfio â'r Rheol, y Gorchymyn neu'r Cyfarwyddyd Ymarfer perthnasol gan roi rhesymau pam y dylid rhoi'r dyfarniad o'r neilltu neu roi rhyddhad o'r sancsiwn. Pan fo'r ymgyfreithiwr yn gwneud cais am ddiddymu dyfarniad trwy ddiffyg dylai datganiad y tyst hefyd nodi natur amddiffyniad yr ymgyfreithiwr a dangos fod ganddo amddiffyniad y mae'n werth dadlau drosto mewn treial.*

(8) *Os byddwch yn sylweddoli ymlaen llaw nad ydych yn debygol o allu cwrdd â'r cyfyngiad amser, dylech wneud cais i'r Llys cyn gynted â phosibl gan ofyn am estyniad amser. Peidiwch ag aros nes bydd y cyfyngiad amser wedi mynd heibio.*

## A. Dyfarniad Trwy Ddiffyg

9.1 'Dyfarniad Trwy Ddiffyg' yw dyfarniad heb dreial neu heb ystyried rhinweddau lle y mae diffynnydd un ai (a) wedi methu â ffeilio cydnabyddiad cyflwyno neu (b) wedi methu â ffeilio amddiffyniad [CPR 12.1]. Pan fo'r hawliad am swm penodol o arian bydd modd i'r hawlydd fel arfer gael cofnodi dyfarniad am y swm a hawlir (ynghyd â llog). Os yw'r hawliad yn un am swm amhenodol (e.e. "iawndal"), mae'r dyfarniad yn derfynol o ran gallu'r Diffynnydd i dalu ond caiff y swm sydd i'w dalu ei bennu gan y Llys mewn gwrandawiad diweddarach (lle y caiff y Diffynnydd gyflwyno tystiolaeth).

9.2 Gellir cofnodi dyfarniad trwy ddiffyg:

(1) os bydd y Diffynnydd yn methu â ffeilio cydnabyddiad cyflwyno o fewn y cyfyngiad amser (14 diwrnod ar ôl cyflwyno; CPR Rhan 10.3) neu
(2) os bydd y Diffynnydd, ar ôl iddo ffeilio cydnabyddiad cyflwyno, yn methu â ffeilio Amddiffyniad o fewn y cyfyngiad amser (28 diwrnod o gyflwyno manylion yr Hawliad, CPR Rhan 15.4)

9.3 Gellir cael Dyfarniad Trwy Ddiffyg pan fo'r hawliad yn un am:

(1) swm penodol o arian;
(2) swm o arian sydd i'w benderfynu gan y llys;
(3) Trosglwyddo nwyddau lle y mae'r ffurflen hawlio'n rhoi dewis amgen i'r Diffynnydd sef talu eu gwerth;
(4) unrhyw gyfuniad o'r uchod; neu
(5) lle bo'r hawliad am un neu fwy o'r rhwymedïau uchod ynghyd â rhwymedïau eraill a bod yr Hawlydd yn rhoi heibio ei hawliadau am rwymedïau eraill yn ei gais am ddyfarniad.

9.4 Nid oes modd cael Dyfarniad Trwy Ddiffyg mewn rhai achosion, megis:

(1) hawliad am drosglwyddo nwyddau dan gytundeb a reoleiddir gan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974;
(2) hawliad a gychwynnwyd dan drefn Rhan 8 (gweler pennod 7);
(3) hawliadau morgais a meddiannu eiddo;
(4) os yw'r Diffynnydd wedi talu'r hawliad cyfan neu wedi ffeilio cyfaddefiad o atebolrwydd i dalu'n llawn ond wedi gofyn am amser i dalu;
(5) os yw'r Diffynnydd wedi gwneud cais am ddileu Manylion Hawliad yr Hawlydd dan CPR 3.4 neu am ddyfarniad diannod dan CPR 29.

9.5 Rhaid i'r Hawlydd wneud cais am ddyfarniad trwy ddiffyg. Ni fydd y llys yn gorchymyn dyfarniad heb gais. Gall Hawlydd gael dyfarniad trwy ddiffyg drwy ffeilio cais yn Ffurflen N205 neu N227.

## B. Diddymu Dyfarniad Trwy Ddiffyg (CPR Rhan 13)

9.6 **Rhaid** i'r Llys ddiddymu dyfarniad trwy dwyll os gellir dangos na chydymffurfiwyd â'r amodau angenrheidiol yn CPR 12 pan gafwyd y dyfarniad.

9.7 Ym mhob achos arall **gall** y Llys ddiddymu neu amrywio'r dyfarniad trwy ddiffyg. Fodd bynnag, ni fydd y Llys yn gwneud hynny ond yn yr amgylchiadau canlynol:-

(1) y gwneir y cais yn ddi-oed (h.y. cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ar ôl i'r Diffynnydd ddod yn ymwybodol o'r dyfarniad trwy ddiffyg) **a**,

(2) **Un ai**
(a) bod gan y Diffynnydd siawns dda o lwyddo i amddiffyn y cyfan (neu ran o'r) hawliad, neu

(b) bod rhyw reswm da arall paham y dylid diddymu neu amrywio'r dyfarniad, neu y dylid caniatáu i'r diffynnydd amddiffyn yr hawliad. [CPR 13.3]

9.8 Os byddwch angen gwneud cais am ddiddymu dyfarniad trwy ddiffyg rhaid i'ch cais gael ei gefnogi gan ddatganiad tyst manwl, wedi'i lofnodi gyda datganiad gwirionedd.

Dylai'r datganiad tyst hwn gynnwys manylion llawn am y canlynol:-

(1) pa bryd a sut y daethoch yn ymwybodol o'r achos,

(2) pa gamau a gymerwyd gennych i baratoi eich amddiffyniad wedi i chi ddod yn ymwybodol o'r hawliad,

(3) pam y bu i chi fethu ag ymateb i'r hawliad mewn pryd,

(4) pa bryd a sut y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r dyfarniad trwy ddiffyg,

(5) yr hyn a wnaethoch wedyn, ac, os bu unrhyw oedi o ran gwneud eich cais, rhaid i chi roi rhesymau manwl am yr oedi hwnnw, a

(6) manylion llawn am natur eich amddiffyniad i'r hawliad (dylai gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl i alluogi'r Llys i farnu a oes rhagolygon rhesymol y bydd eich amddiffyniad yn llwyddo'n gyfan, neu o leiaf yn rhannol). Byddai'n ddoeth i chi baratoi Amddiffyniad drafft (h.y. y ple y byddech yn ei ffeilio pe byddai eich cais y llwyddiannus), a'i atodi i'ch datganiad tyst.

9.9 Os bydd y Llys yn diddymu dyfarniad trwy ddiffyg, gall wneud hynny "ar delerau", megis talu costau, neu dalu i'r Llys swm o arian cyn y gwrandawiad terfynol. Bydd y Llys fel arfer yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch cynnal yr achos yn y dyfodol.

## C. Sancsiynau a rhyddhad o sancsiynau

9.10 Ar wahân i ddyfarniadau trwy ddiffyg, gall y llys osod sancsiynau yn erbyn unrhyw barti am beidio â chydymffurfio â Gorchmynion Llys.

9.11 Bydd y Llys yn gorfodi ei reolaeth ar yr achos drwy orchymyn fod cyfarwyddiadau penodol yn cael eu cyflawni erbyn dyddiad ac amser penodedig. Mae'r Llysoedd yn gosod pwysigrwydd penodol ar gyfyngiadau amser o'r fath gan eu bod yn gosod amserlen lem sy'n symud yr achos ymlaen tuag at dreial yn y pen draw. O ganlyniad ni chaiff y partïon newid neu ddiwygio'r amserlen er eu cyfleuster hwy eu hunain. Rhaid iddynt gael caniatâd y Llys ar gyfer unrhyw newid.

9.12 Mae'n bwysig eich bod yn cymryd cyfarwyddiadau a roddir mewn Gorchymyn Llys o ddifrif. Os nad yw'n debygol y gallwch gwrdd â therfyn amser dylech wneud cais i'r Llys (cyn y dyddiad) am estyniad amser gan nodi'r rhesymau llawn mewn datganiad ar wahân.

9.13 Os byddwch yn methu â chwrdd â therfyn amser fe all eich gwrthwynebydd wneud cais i'r Llys am orchymyn yn eich gorfodi i gydymffurfio, ac os byddwch yn methu â gwneud hynny, gosod sancsiwn am beidio â chydymffurfio, gweler isod. Mae hyn yn berthnasol yn yr un modd i'ch gwrthwynebydd, y gallwch chi wneud cais am orchymyn gyda sancsiwn yn ei erbyn (gorchymyn 'oni bai').

9.14 Gall eich cais chi neu gais eich gwrthwynebydd gael ei wneud am orchymyn heb wrandawiad, neu, mewn achosion mwy difrifol, gyda gwrandawiad. Yn y naill achos neu'r llall bydd y parti sydd mewn diffyg bron yn sicr yn cael gorchymyn i dalu costau'r cais, hyd yn oed os bydd wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd erbyn i'r cais gael ei glywed, er na fydd sancsiwn mewn achos o'r fath ac eithrio yn yr achosion mwyaf difrifol. Pan na fydd y parti sydd mewn diffyg wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd erbyn yr adeg y caiff y cais ei glywed, mae'r Llys yn debygol o orchymyn y bydd yn dioddef sancsiwn oni fydd yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd erbyn dyddiad penodol. Cyfeirir yn aml at y Gorchmynion hyn fel gorchmynion 'oni bai', e.e. 'oni bai fod y Diffynnydd yn cyflwyno'i ddatganiadau tystion erbyn [dyddiad] caiff ei atal rhag cyflwyno tystiolaeth ar unrhyw fater yn ymwneud ag atebolrwydd".

9.15 Gallai'r sancsiwn fod yn drychinebus i'r parti sydd mewn diffyg. Dyma enghreifftiau o'r sancsiynau y gellid eu gosod ar barti sydd mewn diffyg:-

(a) cael ei atal rhag galw tystiolaeth ar fater penodol mewn treial;

(b) cael ei atal rhag galw tyst penodol;

(c) cael ei atal rhag dadlau mater penodol;

(d) rhan o'i hawliad neu ei amddiffyniad yn cael ei ddileu;

(e) cael gorchymyn i dalu swm o arian i'r Llys i'w gadw hyd ganlyniad terfynol yr achos;

(f) hawliad cyfan neu amddiffyniad cyfan yn cael ei ddileu fel bod y parti sydd mewn diffyg yn colli'r achos; neu

(g) gorfod talu unrhyw gostau a achoswyd i'w wrthwynebydd o ganlyniad iddo dorri'r gorchymyn.

9.16 Caiff parti y gwneir Gorchymyn yn ei erbyn gan osod sancsiwn, boed yn sancsiwn uniongyrchol neu drwy orchymyn "oni bai" wneud cais i'r Llys am ryddhad o'r sancsiwn.

Gall y rhyddhad hwn fod yn syml iawn yn estyniad amser ar gyfer cydymffurfio â'r gorchymyn neu i wneud cais y dylid dileu'r gorchymyn yn llwyr am ei bod yn amhosibl cydymffurfio ag ef neu oherwydd ei fod yn sancsiwn afresymol i'w osod yn amgylchiadau penodol yr achos. Fel arall, gallai'r parti wneud cais i'r llys am orchymyn na ddylai'r sancsiwn penodol gael ei osod mwyach gan ei fod wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd, er i hynny fod y tu allan i'r terfyn amser (ar y sail fod y sancsiwn yn gosod cosb anghymesur arno).

9.17 Dylid gwneud unrhyw gais am ryddhad yn erbyn sancsiynau cyn gynted â phosibl. I gyd-fynd â'r cais rhaid cael datganiad tyst manwl [CPR3.9(2)] a gadarnheir gan ddatganiad gwirionedd [CPR 22]. Dylai'r datganiad tyst nodi'n union (ac yn nhrefn amser) pa gamau a gymerwyd gan y parti i gydymffurfio â'r gorchymyn a phaham y bu iddo fethu, pa broblemau a thrafferthion a wynebodd a'r rheswm dros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ryddhad. Yn ei hanfod, rhaid i'r parti arall fodloni'r llys ei fod wedi ceisio cydymffurfio â'r gorchymyn ond ei fod wedi cael ei rwystro gan amgylchiadau a materion y tu hwnt i'w reolaeth ac felly na ddylai gael ei gosbi gan y sancsiwn. Dylai unrhyw ddogfennau sy'n cefnogi datganiad tyst y parti (megis nodyn meddygol) gael eu copïo, dylid cyfeirio atynt yn y datganiad a'i hatodi i'r datganiad.

9.18 Mae CPR 3.9 ("Rhyddhad o sancsiynau") yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys sy'n gwrando ar unrhyw gais am ryddhad o unrhyw sancsiwn a osodwyd am fethu â chydymffurfio ag unrhyw reol, cyfarwyddyd ymarfer neu orchymyn llys ystyried "holl amgylchiadau'r achos, er mwyn ei alluogi i ymdrin yn gyfiawn, gan gynnwys yr angen –

(a) i ymgyfreitha'n effeithlon ac am gost gymesur; a
(b) gorfodi cydymffurfiaeth â rheolau, cyfarwyddiadau ymarfer a gorchmynion."

Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod peth pwyslais ar yr angen i gydymffurfio â sylwedd a therfynau amser mewn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir yn ystod rheolaeth yr achos gan y llys.

9.19 Cyn 1 Ebrill 2013 yr oedd y rheol a reolai ryddhad o sancsiynau yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried yn benodol y naw mater canlynol:

(1) buddiannau gweinyddu cyfiawnder;
(2) a wnaed y cais am ryddhad yn ddi-oed;
(3) a oedd y methu â chydymffurfio yn fwriadol;
(4) a oes rheswm da dros y methiant;
(5) i ba raddau y mae'r parti sydd mewn diffyg wedi cydymffurfio â rheolau, cyfarwyddiadau ymarfer, gorchmynion llys eraill ac unrhyw brotocol perthnasol;
(6) ai'r parti neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol a achosodd iddo fethu â chydymffurfio;
(7) a yw'n dal i fod yn bosibl cynnal achos ar ddyddiad y treial neu ar ddyddiad tebygol y treial os caniateir rhyddhad;
(8) sut yr effeithiwyd ar bob parti yn sgil methiant i gydymffurfio; a
(9) sut yr effeithir ar bob parti yn sgil caniatáu rhyddhad.

Er nad yw'r materion hyn yn rhan o'r rheol mwyach, mae rhai, os nad y cyfan, yn debygol o fod yn berthnasol mewn unrhyw gais am ryddhad yn erbyn sancsiynau. Maent yn darparu rhestr wirio ddefnyddiol o faterion yr hoffech roi sylw iddynt efallai os byddwch angen gwneud cais am ryddhad o sancsiynau, neu os ydych yn gwrthwynebu cais eich gwrthwynebydd am ryddhad.

9.20 Mae'r holl faterion yn y rhestr uchod yn hunan-eglurhaol, ac eithrio o bosibl '(a) buddiannau gweinyddu cyfiawnder'. Y prif fuddiant o ran gweinyddu cyfiawnder yw y dylai pob parti allu cyflwyno'r holl dystiolaeth y mae'n dymuno'n rhesymol ei chyflwyno er mwyn cefnogi ei hawliad neu ei amddiffyniad. I'r graddau hynny bydd y llys yn amharod i adael parti sy'n ddarostyngedig i sancsiwn mewn sefyllfa lle na all gyflwyno'i achos fel y byddai'n dymuno. Ond mae buddiannau gweinyddu cyfiawnder hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyfreithwyr gydymffurfio â gorchmynion llys a pheidio â chymryd amser y llys y gellid ei dreulio'n well ar achosion mwy haeddiannol.

# Pennod 10
# Datgelu ac Archwilio Dogfennau

A. Datgelu dogfennau
B. Y drefn ar gyfer datgeliad safonol
C. Cymerwch eich dyletswydd i ddatgelu o ddifrif
D. Archwilio dogfennau
E. Cyfarwyddiadau ar gyfer datgelu

*<u>Penawdau</u>*

*(1) Mae pob ymgyfreithiwr o dan ddyletswydd i ddatgelu dogfennau sy'n gysylltiedig â'r achos. Mae hwn yn ddyletswydd bwysig ac mae'n parhau tan ddiwedd y broses ymgyfreitha.*

*(2) Mae diffiniad eang i'r gair 'dogfen'. Mae'n cynnwys unrhyw beth y mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi arno - papur neu fformat electronig, sain neu weledol.*

*(3) Mae'r Rheolau'n rhannu datgelu yn ddatgelu 'safonol' a datgelu 'penodol'. Mae'r diffiniad o ddatgeliad safonol yn gymhleth. Dim ond pan mae llawer iawn o ddogfennau'n bodoli mae'r diffiniad hwn yn bwysig. Ym mhob achos arall, dylai ymgyfreithwyr ddilyn y rheol syml y bydd yn rhaid datgelu pob dogfen sy'n berthnasol i'r materion yn yr achos, gan gynnwys dogfennau a allai niweidio achos yr ymgyfreithiwr ei hun.*

*(4) Er mwyn datgelu, rhaid i ymgyfreithiwr ddefnyddio Ffurflen N265. Gellir cael ffurflen oddi wrth werthwr deunydd cyfreithiol neu ar-lein.*

*(5) Cymerwch eich dyletswydd i ddatgelu o ddifrif. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod o hyd i'ch holl ddogfennau ac osgoi unrhyw demtasiwn i gadw dogfennau'n ôl.*

*(6) Rhaid i bob dogfen i'w datgelu gael ei phennu gan ddefnyddio disgrifiad cryno, e.e. 'llythyr oddi wrth C at D 12.04.11' neu 'Derbynneb oddi wrth X Ltd at C dyddiedig 17.09.10'.*

*(7) Rhaid i bob rhestr dogfennau gynnwys datganiad datgelu, wedi'i gwblhau'n briodol, gweler Ffurflen N265.*

*(8) Mae gan ymgyfreithiwr hawl i archwilio (h.y. gweld yn gorfforol) unrhyw ddogfen a ddatgelir gan ei wrthwynebydd, ac i ofyn am gopi. Ond, yn y rhan fwyaf o achosion, does dim angen archwilio'r ddogfen ei hun ac, fel arfer, y cyfan y bydd ymgyfreithwyr yn ei wneud fydd gofyn am gopïau o ddogfennau unigol a ddatgelir gan eu gwrthwynebwyr. Rhaid talu am bob copi am bris rhesymol, 25c y daflen dyweder.*

*(9) Mater i ymgyfreithiwr fydd gwneud cais am orchymyn am ddatgeliad penodol os yw'n credu nad yw ei wrthwynebydd wedi datgelu un neu fwy o ddogfennau a ddylai fod wedi cael eu datgelu neu os nad yw wedi chwilio'n iawn am ddogfennau. Gall ymgyfreithiwr hefyd wneud cais am Orchymyn Datgelu gan Drydydd Parti sy'n mynnu bod unigolyn nad yw'n barti yn yr achos, ond sy'n meddu ar ddogfennau perthnasol, yn datgelu'r dogfennau hynny.*

## A. Datgelu dogfennau

10.1 Mae'r bennod hon yn trafod y broses o ddatgelu ac archwilio dogfennau. Dyma ran hanfodol o'r broses ymgyfreitha. Ei nod yw sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael gan y llys adeg treial yr achos, a hefyd, cyn hynny, sicrhau bod yr holl bartïon yn yr ymgyfreitha'n gallu asesu cryfderau a gwendidau'u hachos yng ngoleuni'r holl ddogfennau, ac yn gallu ystyried y dogfennau wrth baratoi eu hachos ar gyfer treial. Mae'r rheolau manwl am ddatgelu i'w cael yn CPR Rhan 31.

10.2 Mae'n ddyletswydd ar bob ymgyfreithiwr i ddatgelu, a rhaid cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif. Mae'n ddyletswydd sy'n parhau tan ddiwedd yr achos [CPR 31.11]. Felly, os daw dogfen berthnasol i'r wyneb ar ôl i ymgyfreithiwr gyflwyno ei restr dogfennau (gweler isod), hyd yn oed yn ystod y treial, rhaid datgelu'r ddogfen honno.

10.3 Mewn gwirionedd, nid yw datgelu dogfen yn golygu dim mwy na datgan bod y ddogfen yn bodoli neu ei bod wedi bodoli [CPR 31.2]. Unwaith y bydd parti wedi datgelu dogfen, bydd gan bob parti arall yr hawl i archwilio'r ddogfen honno ac eithrio lle nad yw'n bodoli mwyach neu os yw'n ddogfen freintiedig yng nghyswllt archwilio [CPR 31.3]. Ond, mae cyfreithwyr yn aml yn cyfeirio'n gynhwysfawr at 'ddatgelu' fel rhywbeth sy'n golygu bodolaeth dogfen a hefyd sy'n caniatáu i'r partïon eraill archwilio'r gwreiddiol a/neu ddarparu copïau o'r ddogfen.

10.4 Mae 'dogfen' yn golygu unrhyw beth lle mae gwybodaeth o unrhyw fath yn cael ei chofnodi [CPR 31.4]. Mae hyn yn cynnwys: (i) dogfennau papur (llythyrau, anfonebau, biliau, llyfrau busnes, cofnodion meddygol, cofnodion cyflogaeth etc); (ii) 'dogfennau' electronig lle mae gwybodaeth yn cael ei storio ar ffurf electronig (cronfeydd data o bob math, e-byst, negeseuon llais, cof bach etc); a (iii) recordiadau sain neu weledol (recordiadau sain, fideo a theledu cylch cyfyng (CCTV), lluniau, lluniau neu fideos ffonau symudol etc). Bydd unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys gwybodaeth, y mae modd ei hadalw (*retrieve*), yn 'ddogfen' at ddibenion ymgyfreitha.

10.5 Dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ddilyn yr egwyddor gyffredinol bod yn rhaid i bob parti yn yr ymgyfreitha ddatgelu pob dogfen sy'n berthnasol neu sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r materion yn yr achos.

10.6 Fodd bynnag, ceir achosion lle mae cymaint o ddogfennau fel bod datgelu'n cynyddu'r costau ymgyfreitha. Bellach, ymhob hawliad aml-drac, heblaw am hawliadau anaf personol, mae'n rhaid i bartïon ffeilio a chyflwyno adroddiad

datgelu, wedi'i gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd, o leiaf 14 diwrnod cyn y Gynhadledd Rheoli Achos gyntaf [CPR 31.5(3)]. Dylai'r adroddiad hwn:-

(a) disgrifio'n fyr pa ddogfennau sy'n bodoli neu a all fod yn bodoli sy'n berthnasol neu sy'n gallu bod yn berthnasol i'r materion dan sylw yn yr achos;

(b) disgrifio ymhle y mae'r dogfennau hynny a chan bwy neu ymhle y gallant fod;

(c) yn achos dogfennau electronig, nodi sut y maent yn cael eu storio;

(d) amcangyfrif ystod eang y costau a allai fod yn gysylltiedig â darparu datgeliad safonol yn yr achos, gan gynnwys costau chwilio am unrhyw ddogfennau sydd wedi'u storio'n electronig, a'u datgelu;

(e) datgan a yw'r parti yn dymuno cytuno ar gwmpas y datgelu â'i wrthwynebydd neu gael y llys i wneud y gorchymyn datgelu sy'n briodol yn ei farn ef.

Hefyd, o leiaf saith niwrnod cyn y Gynhadledd Rheoli Achos gyntaf (ac ar unrhyw achlysur arall ag a gyfarwyddir gan y llys), rhaid i'r partïon *mewn cyfarfod neu dros y ffôn, drafod a cheisio cytuno ar gynnig yng nghyswllt datgelu sy'n bodloni'r prif amcan* [CPR 31.5(5)].

10.7 Pan fydd yr adroddiadau datgelu wedi'u ffeilio'n briodol, ac ar ôl i'r partïon drafod y posibilrwydd o gytuno ar gynnig datgelu, rhaid i'r llys wedyn benderfynu beth ddylid ei ddatgelu [CPR 31.5(7)]. Gall y llys hepgor datgeliad, gorchymyn mai dim ond dogfennau y mae'r parti'n dibynnu arnynt y dylid eu datgelu, gwneud gorchymyn datgelu ar sail materion, gorchymyn datgeliad safonol neu wneud unrhyw orchymyn arall sy'n briodol ym marn y llys.

10.8 Yn y rhan fwyaf o achosion aml-drac yn y llys sirol, mae cyflwyno'r adroddiad datgelu a'r drafodaeth ddatgelu, heb sôn am yr amser a gymerir mewn Cynhadledd Rheoli Achosi i ystyried yn union pa orchymyn datgelu y dylid ei wneud, yn ymddangos yn ormodol. Cymharol ychydig fydd yr achosion lle bydd y costau a wynebir wrth ddarparu datgeliad safonol yn cyfiawnhau'r gost o baratoi adroddiadau datgelu, cynnal cyfarfod neu sgwrs ffôn i ystyried cynnig datgelu a chynnal Cynhadledd Rheoli Achos neu dreulio mwy o amser mewn cynhadledd o'r fath. Bydd y gofynion hyn yn gosod straen ychwanegol sylweddol ar ymgyfreithiwr drosto'i hun a bydd, yn y mwyafrif helaeth o achosion, yn cynyddu'r costau. Ond mae'r rheolau'n bodoli ac mae'n rhaid cydymffurfio â hwynt. Oni bai eich bod yn ymgyfreithiwr mewn achos sy'n cynnwys nifer mawr o ddogfennau (mil neu fwy), y cyngor gorau yw paratoi ar gyfer datgeliad safonol, dweud wrth y llys mai dyma beth rydych yn ei wneud, a chytuno â'ch gwrthwynebydd i roi datgeliad safonol (gweler 10.7).

10.9 Mae'r CPR yn rhannu datgeliad yn (1) "Datgeliad Safonol" a (2) "Datgeliad Penodol", ac yn y lle cyntaf, er gwaetha'r newidiadau i'r rheolau y cyfeirir atynt uchod, bydd y Llys fel arfer yn gwneud gorchymyn am Ddatgeliad Safonol [CPR 31.6]. Dan orchymyn o'r fath mae'n rhaid i bob parti ddatgelu'r canlynol:

(1) y dogfennau y mae'n dibynnu arnynt; a

(2) y dogfennau sy'n -
   (a) andwyo ei achos ei hun;
   (b) andwyo achos parti arall; neu
   (c) cynorthwyo achos parti arall; a

(3) y dogfennau y mae'n rhaid iddo eu datgelu gan unrhyw gyfarwyddyd ymarfer perthnasol.

Mae hyn i gyd yn gallu bod yn gymhleth ac mae'n cael ei osod allan yn y testun oherwydd mae'n ddigon posibl y bydd yr ymadrodd 'Datgeliad Safonol' yn cael ei ddefnyddio gan y Barnwr sy'n rhoi cyfarwyddiadau er nad oes raid i'r Barnwr ddefnyddio'r ymadrodd hwn; mae gorchymyn i ddatgelu yn orchymyn i roi datgeliad safonol oni bai fod y llys yn cyfarwyddo fel arall [CPR 31.5]. Ond, mae'r cyngor gorau i ymgyfreithiwr drosto'i hun i'w gael ym mharagraff 10.4; h.y. datgelu pob dogfen sy'n berthnasol i'r materion yn yr achos. Dyna oedd y Rheol cyn 1998. I esbonio'n gryno, newidiodd y Rheolau ar ddatgelu yn 1998 i ystyried y ffaith bod datgelu, mewn canran fechan iawn o'r holl hawliadau a gyflwynir yn y llysoedd, yn broses helaeth a drud iawn ac yn cynnwys miloedd o ddogfennau a biliau enfawr gan gyfreithwyr. Os yw achos ymgyfreithiwr drosto'i hun yn cynnwys niferoedd digonol o ddogfennau fel bo'r newid yn y Rheolau yn berthnasol, yn sicr bydd yn rhaid iddo gael cyngor cyfreithiol.

10.10 Gyda "Datgeliad Penodol", mae'r llys yn gorchymyn i'r ymgyfreithiwr ddatgelu dogfennau penodol neu ddogfennau mewn dosbarth penodol neu gynnal chwiliad penodol am ddogfennau a fydd wedyn yn gorfod cael eu datgelu [CPR 31.12]. Bydd y dogfennau, neu'r dosbarth o ddogfennau, i'w datgelu neu'r chwiliad i'w gynnal, yn cael eu nodi yn y gorchymyn. Os nad yw'r ymgyfreithiwr yn sicr beth sy'n rhaid iddo ei ddarparu, dylai ofyn am arweiniad. Mae anwybyddu'r gorchymyn yn debygol o roi'r ymgyfreithiwr mewn dŵr poeth.

## B. Y drefn ar gyfer datgeliad [safonol]

10.11 Mae trefn ar gyfer datgelu i'w chael yn y Rheolau [CPR 31.10]. Rhaid defnyddio ffurflen, sef Ffurflen N265. Mae'r ffurflen hon yn tywys yr ymgyfreithiwr drwy'r drefn, sef:

(1) rhaid i'r ymgyfreithiwr wneud rhestr o ddogfennau yn Ffurflen N265, a chyflwyno'r rhestr hon i bob parti arall;

(2) dylai'r rhestr nodi'r dogfennau mewn trefn hwylus a rhaid disgrifio pob dogfen mewn ffordd mor gryno â phosibl;

(3) rhaid i'r rhestr ddangos y dogfennau hynny y mae'r ymgyfreithiwr yn honni sy'n freintiedig yng nghyswllt archwilio;

(4) rhaid i'r rhestr ddangos y dogfennau hynny nad ydynt bellach o dan reolaeth yr ymgyfreithiwr a beth sydd wedi digwydd i'r dogfennau hynny; a

(5) rhaid i'r rhestr gynnwys datganiad datgelu.

10.12 Cyn ystyried y pum pwynt hyn, gellir nodi bod y Rheolau yn caniatáu i'r partïon gytuno yn ysgrifenedig i beidio â datgelu dogfennau heb wneud rhestr a heb wneud datganiad datgelu [CPR 31.10(8)]. Os yw'r achos yn golygu ychydig yn unig o ddogfennau, ac y gall yr ymgyfreithiwr fod yn hyderus nad oes gan y parti sy'n gwrthwynebu unrhyw ddogfennau a fyddai'n helpu ei achos neu niweidio achos ei wrthwynebydd, mae'n ddoeth manteisio ar y Rheol hon. Gall pob parti gytuno yn ysgrifenedig i ddarparu copïau o'u dogfennau i'r parti arall, neu, yn wir, yn yr achosion mwyaf syml, hepgor datgeliad yn gyfan gwbl. Gall hyn arbed amser a chostau. Ond cyn cytuno i beidio â mynd drwy'r broses ddatgelu, dylai'r ymgyfreithiwr fod yn gwbl siŵr nad yw'r parti arall yn osgoi ei gyfrifoldebau i ddatgelu dogfennau a fydd yn niweidio'i achos neu helpu achos yr ymgyfreithiwr arall. Mewn unrhyw achos lle mae dogfennau perthnasol, yn enwedig dogfennau sy'n gyfoes â'r digwyddiadau y mae anghydfod yn eu cylch, mae datgelu'n arf eithriadol o bwysig i helpu'r Barnwr i ganfod y gwirionedd.

10.13 Dyma rai sylwadau byr ar y pum pwynt ym mharagraff 10.11:

(1) Rhaid defnyddio Ffurflen N265. Mae'r Rheol yn orfodol. Wrth roi datgeliad safonol, rhaid i barti gynnal chwiliad rhesymol am ddogfennau perthnasol. Mae beth sy'n rhesymol yn dibynnu ar ffeithiau'r achos a'r amgylchiadau. Bydd y ffactorau sy'n berthnasol i benderfynu beth sy'n rhesymol yn cynnwys nifer y dogfennau, natur yr achos, pa mor hawdd neu ddrud yw cael gafael ar ddogfen, ac arwyddocâd dogfennau y deuir o hyd iddynt yn ystod y chwiliad.

(2) Bydd pa drefn sy'n 'hwylus' yn dibynnu ar natur yr achos. Fel arfer mae'n amlwg, ond os nad ydyw, y peth gorau i'w wneud yw rhestru pob dogfen mewn trefn gronolegol. Mae 'disgrifiad cryno' yn golygu hynny. Er enghraifft, 'llythyr oddi wrth C at D 12.04.11' neu 'anfoneb oddi wrth D 27.03.09'. Efallai y bydd ymgyfreithiwr drosto'i hun sydd â chyfreithiwr yn wrthwynebydd yn gweld bod y cyfreithiwr yn torri corneli yma, e.e. "gohebiaeth rhwng y partïon... amrywiol". Mae hyn yn digwydd yn aml. Mae'n hwylus i'r cyfreithiwr nad oes yn rhaid iddo wneud ei waith yn iawn, ac mewn sawl achos (rhaid derbyn) nid yw o bwys mawr. Bydd y cyfreithiwr yn datgan, yn gywir, bod hyn yn arbed costau. Ond nid yw'n cydymffurfio â'r Rheolau ac fe fydd sefyllfaoedd pan fydd yn bwysig fod y llys yn gwybod pa ddogfennau y mae ymgyfreithiwr neilltuol wedi'u datgelu.

(3) Nid oes angen datgelu dogfennau sy'n 'freintiedig'. Mae braint yn bwnc cymhleth. Ond, yn ei hanfod, mae pob cyfathrebiad gyda chynghorwyr cyfreithiol at ddibenion cael cyngor neu mewn cysylltiad ag ymgyfreitha yn freintiedig. Gellir 'hepgor' braint. Felly, os dibynnir ar ddogfen

freintiedig (yn hytrach na dim ond cyfeirio ati) mewn datganiad achos neu ddatganiad tyst, neu yn ystod tystiolaeth neu ddadl yn y llys agored, efallai y bydd y llys yn mynnu bod y ddogfen honno (ac yn fwy na thebyg dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r ddogfen honno) yn cael ei datgelu.

(4) Weithiau ni fydd ymgyfreithiwr yn gallu cael ei ddwylo ar ddogfen, naill ai oherwydd nad yw'n gallu dod o hyd iddi, neu oherwydd ei fod wedi'i rhoi i rywun arall. Os yw'r 'rhywun arall' yn berson y gall yr ymgyfreithiwr ei chael yn ôl ganddo (e.e. cynghorydd proffesiynol neu bartner), mae'r ddogfen o dan 'reolaeth' yr ymgyfreithiwr, a rhaid iddo gael y ddogfen yn ôl a'i datgelu. Os nad yw'r ymgyfreithiwr yn gallu cael gafael ar ddogfen neu ddod o hyd iddi, rhaid iddo serch hynny ei chynnwys ar ei restr a datgan nad yw'r ddogfen bellach o dan ei reolaeth. Mae'n bwysig iawn bod ymgyfreithwyr yn rhestru'r cyfryw ddogfennau. Mae dogfennau coll nad oes cyfeiriad atynt yn y rhestr dogfennau yn gallu arwain at amheuaeth o gamymddwyn ac, yn wir, efallai fod sail dda i'r fath amheuon. Ond, os yw'r ymgyfreithiwr wedi colli dogfen go iawn ac yn cael ei gyhuddo gan ei wrthwynebydd o gamymddwyn, bydd y ffaith ei fod wedi rhestru'r ddogfen fel un sydd ar goll yn ei restr dogfennau yn gweithio o blaid yr ymgyfreithiwr na phetai'n dweud am y tro cyntaf wrth roi tystiolaeth yn y llys nad yw'r ddogfen ganddo mwyaf.

(5) Datganiad yw'r datganiad datgelu gan yr ymgyfreithiwr sy'n gwneud y rhestr dogfennau sy'n: (a) nodi i ba raddau y mae wedi chwilio er mwyn dod o hyd i ddogfennau, (b) tystio ei fod yn deall ei ddyletswydd i ddatgelu dogfennau, a (c) tystio ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd honno hyd eithaf ei wybodaeth. Mae Ffurflen N265 yn tywys yr ymgyfreithiwr drwy'r broses hon.

10.14 *Copïau.* Does dim rhaid i ymgyfreithiwr ddatgelu mwy nag un copi o ddogfen. [CPR 31.9]. Ond, os oes unrhyw beth wedi'i ychwanegu at unrhyw gopi o ddogfen (un ai drwy ychwanegu testun neu ddileu testun), dylid trin y copi hwnnw fel dogfen ar wahân a'i datgelu ar wahân, e.e. 'llythyr oddi wrth C at D 12.04.11 gydag ychwanegiadau llawysgrif'.

## C. Cymerwch eich dyletswydd i ddatgelu o ddifrif

10.15 Sicrhewch eich bod yn cymryd eich dyletswydd i ddatgelu o ddifrif. Dau bwynt yma. Yn gyntaf, meddyliwch yn galed am leoliad posibl dogfennau perthnasol a chwiliwch amdanynt yn iawn. Peidiwch ag anghofio'ch dyddiadur personol, os oes un gennych, neu'ch dyddiadur apwyntiadau yn y gwaith. Mae darparu dogfennau yn hwyr yn y dydd yn aml yn gallu edrych yn amheus pa mor ddiniwed bynnag oedd y methiant cychwynnol i'w datgelu. Yn ail, gwrthsefwch unrhyw demtasiwn i gadw dogfennau'n ôl neu eu cuddio. Ar ryw adeg yn ystod y treial, mae'r siawns yn uchel y bydd y ffaith, neu amheuaeth hyd yn oed, nad ydych wedi datgelu dogfennau y dylech fod wedi'u datgelu, yn dod i'r wyneb. Ychydig o ddogfennau sy'n bodoli mewn

gwagle. Pan ddaw'r achos cyfan ynghyd yn y treial, neu'n gynt hyd yn oed, mae'r ffaith bod bylchau yn y dogfennau yn debygol o ddod yn amlwg. Os na fyddwch yn datgelu'r ddogfen pan ddylech fod wedi gwneud hynny, gall yr effaith ar farn y barnwr am eich dibynadwyedd fod yn ddifrifol iawn. Gall hyd yn oed olygu eich bod yn colli'ch achos.

10.16 Ni ddylech ychwaith anwybyddu'ch dyletswydd barhaus i ddatgelu dogfennau sy'n dod i'ch meddiant ar ôl ichi wneud eich rhestr. Gall eich gwrthwynebydd droi anghofrwydd ar eich rhan chi yn feirniadaeth hallt, gydag awgrym o amhriodoldeb a all niweidio'ch achos.

10.17 Gall y llys ar unrhyw bwynt yn yr achos roi cyfarwyddiadau i ddatgelu neu i ddatgelu rhagor [CPR 31.5(8)]. Efallai y bydd yn rhaid ichi edrych eto ar eich datganiad datgelu (gweler 10.13(5) uchod) a chwilio am ragor o ddogfennau. Neu os ydych chi'n credu nad yw eich gwrthwynebydd yn bod yn gwbl onest wrth ddatgelu, gallwch bob amser ofyn i'r llys am orchymyn arall a fydd yn mynnu bod eich gwrthwynebydd yn unioni ei ddiffygion.

## D. Archwilio dogfennau

10.18 Ar ôl i ymgyfreithiwr gyflwyno ei restr dogfennau, mae gan ei wrthwynebydd neu wrthwynebwyr hawl i archwilio'r holl ddogfennau sydd ar y rhestr nad oes braint yn cael ei hawlio ar eu cyfer. Mae 'archwilio' yn golygu dim ond hynny, sef edrych ar y ddogfen dan sylw. Rhaid i ymgyfreithiwr sydd am archwilio dogfennau ei wrthwynebydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r gwrthwynebydd o'i ddymuniad, a rhaid i'r gwrthwynebydd ganiatáu iddo archwilio o fewn 7 niwrnod i ddyddiad derbyn y rhybudd. Mater i'r ymgyfreithwyr fydd penderfynu lle bydd yr archwilio'n digwydd. Yr arfer cyffredin yw i'r parti sy'n archwilio deithio i adeilad neu swyddfa cyfreithiwr y parti sy'n datgelu i wneud yr archwilio.

10.19 Ar ôl archwilio dogfen, gall yr ymgyfreithiwr wneud cais am gopi a rhaid i'r parti sy'n datgelu ddarparu copi o fewn 7 niwrnod i'r cais gyhyd â bod y parti sy'n archwilio naill ai'n talu neu'n addo talu costau copïo rhesymol y parti sy'n datgelu. [mae 25c y copi yn dâl eithaf safonol.]

10.20 Fel arfer dim ond os oes amheuon am ddilysrwydd y ddogfen y bydd angen i ymgyfreithiwr archwilio dogfen yn ffurfiol neu os oes posibilrwydd o rywfaint o farcio (neu absenoldeb rhyw farciau) arni a all fod yn berthnasol i'r achos. Pan na fydd ystyriaethau o'r fath yn codi, y peth doeth i'r ymgyfreithiwr ei wneud yw peidio â mynnu ei hawl i archwilio, ond, yn hytrach, gofyn i'r parti sy'n datgelu ddarparu copïau o unrhyw ddogfen nad yw ganddo ef yn barod.

10.21 *Dogfennau y cyfeirir atynt mewn datganiad achos.* Os cyfeirir at ddogfen yn natganiad achos parti, mae gan bob parti arall hawl i archwilio'r ddogfen honno hyd yn oed cyn i'r parti gyflwyno ei restr dogfennau. [CPR 31.14]. Mae'r un peth yn wir am ddogfennau y cyfeirir atynt mewn datganiadau tyst. Ond gan fod datganiadau tyst yn ddieithriad bron yn dilyn rhestrau dogfennau, dylai unrhyw ddogfen o'r fath fod wedi'i datgelu'n barod.

## E. Cyfarwyddiadau ar gyfer datgelu

10.22 Datgelu yn ddieithriad bron yw'r cam nesaf mewn hawliad ar ôl i'r partïon gyflwyno'u datganiadau o achos, a dylai ymgyfreithwyr ddisgwyl i'r llys roi cyfarwyddyd i ddatgelu o fewn rhyw 28 diwrnod i gyflwyno'r amddiffyniad neu, os oes un, ateb.

10.23 Os yw'r ymgyfreithiwr yn credu nad yw ei wrthwynebydd wedi cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswydd i ddatgelu, gall gyflwyno cais am gyfarwyddyd yn mynnu bod y gwrthwynebydd yn datgelu rhai dogfennau'n benodol, neu ddosbarthiadau penodol o ddogfennau, neu'n cynnal chwiliad arall penodol am ddogfennau. Rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei ategu gan ddatganiad tyst yn esbonio sut mae'r ymgyfreithiwr wedi dod i'r casgliad fod datgeliad ei wrthwynebydd yn ddiffygiol. Gall cais am ddatgeliad penodol gael ei wrthwynebu weithiau ar y sail y byddai'r datgeliad yn anghymesur.

10.24 Yn yr un modd, gall ymgyfreithiwr wneud cais i herio unrhyw hawliad am fraint y bydd ei wrthwynebydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw ddogfennau penodol, ac efallai y bydd y llys yn cyfarwyddo'r gwrthwynebydd i ddatgelu'r ddogfen neu ddogfennau perthnasol.

*Datgeliad cyn-cyfreitha*

10.25 Mewn rhai amgylchiadau, gall y partïon wneud cais am ddatgeliad cyn i'r achos gychwyn [CPR 31.16]. Efallai y bydd y llys yn gwneud gorchymyn am ddatgelu cyn-cyfreitha os yw'r partïon dan sylw'n debygol o fod yn gysylltiedig ag achos dilynol ac y bydd y datgeliad yn fodd i gwblhau achos o'r fath yn deg neu i helpu i ddatrys yr anghydfod heb achos ac i arbed costau.

*Datgeliad Trydydd Parti*

10.26 Gall y llys hefyd wneud gorchymyn datgelu yn erbyn rhywun nad yw'n gysylltiedig â'r ymgyfreitha [CPR 31.17]. Gellir gwneud gorchymyn o'r fath os yw'r unigolyn hwnnw yn dal dogfennau a all gefnogi achos yr ymgyfreithiwr sy'n gwneud y cais neu andwyo un o'r partïon eraill, a bod y llys yn fodlon bod y datgeliad a geisir yn angenrheidiol i ddelio'n deg â'r achos.

10.23 Gwneir ceisiadau am ddatgeliad penodol, datgeliad cyn-cyfreitha, a datgeliad trydydd parti gan ddilyn y rheolau yn CPR Rhan 23. Yn fyr, rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan ddatganiad tyst (wedi'i gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd) sy'n esbonio'n glir pa orchymyn mae'r ymgeisydd yn ei geisio ac ar ba sail y ceisir y gorchymyn. Rhaid cyflwyno'r rhybudd o gais i'r parti y ceisir y gorchymyn yn ei erbyn (atebydd) cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl ei gyflwyno a'i ffeilio yn y llys, a beth bynnag o leiaf tri diwrnod cyn y clywir y cais gan farnwr.

10.24 Yn ymarferol, mae barnwyr yn delio â chyfran dda o geisiadau heb wrandawiad oherwydd bod yr achos a gyflwynir yn y cais yn ddigon cryf i alluogi'r barnwr i benderfynu y dylid gwneud gorchymyn. *Fodd bynnag*, gall unrhyw Orchymyn a wneir heb wrandawiad gael ei herio gan yr atebydd i'r cais gyhyd â'i fod yn cyflwyno ei gais i herio o fewn saith niwrnod i'r dyddiad y derbyniodd y gorchymyn [CPR 23.10]. Mae hyn yn amserlen dynn. Rhaid i ymgeisydd sy'n derbyn Gorchymyn wedi'i wneud yn ei erbyn heb wrandawiad beidio ag oedi, ond cysylltu'n syth â'r llys lle gwnaethpwyd y Gorchymyn i gyflwyno cais i osod y Gorchymyn o'r neilltu neu ei amrywio.

*Ac i gloi…*

10.25 Unwaith y byddwch wedi archwilio dogfennau'ch gwrthwynebydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu unrhyw ffeithiau newydd yr ydych wedi'u dysgu o'r dogfennau hyn neu ddogfen newydd nad oeddech yn gwybod amdani o'r blaen i'ch cronoleg.

# Pennod 11
# Datganiadau Tystion

A. Ffurf datganiad tyst
B. Cynnwys datganiad tyst
C. Datganiad gwirionedd
D. Cyfnewid datganiadau tystion
E. Cyfyngiadau ar ddatganiadau tystion
F. Tystion amharod neu absennol

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Rhoddir tystiolaeth ar lafar gan dystion yn y treial, ond ddim ond y tystion hynny y nodwyd eu tystiolaeth mewn datganiad tyst a ddangoswyd i'r parti sy'n gwrthwynebu fydd fel arfer yn cael rhoi tystiolaeth.*

*(2) Rhaid i bob datganiad tyst gydymffurfio â gofynion ffurfiol CPR 32PD.17-20.*

*(3) Dylai'r datganiad tyst 'ddweud y stori', sef ymdrin â'r holl ffeithiau y gall y tyst sôn amdanynt yn nhrefn amser. Dylid ei gyflwyno gyda pharagraffau wedi'u rhifo ac ar ffurf ddarllenadwy (wedi ei deipio).*

*(4) Os ydych wedi paratoi cronoleg ac yn ei ddiwygio (fel yr argymhellir yn gryf eich bod yn gwneud), bydd o gymorth i gael hwn wrth law wrth i chi baratoi eich datganiadau tystion.*

*(5) Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod eich datganiadau tystion yn ymdrin â'r holl bynciau ffeithiol yn yr achos. Dylech fod wedi gwneud rhestr o faterion a fydd yn helpu gyda'r ymarfer hwn.*

*(6) Mae'n hanfodol fod y datganiad yn cynnwys y gwir a'r gwir yn unig. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud datganiad tyst ei 'gadarnhau' gyda 'Datganiad Gwirionedd' yn y ffurf ganlynol: "Credaf fod y ffeithiau a nodir yn natganiad tyst hwn yn gywir." Os bydd y sawl sy'n gwneud y datganiad tyst yn gwneud datganiad anwir mae'n euog o ddirmyg llys a gellir ei gosbi'n unol â hynny.*

*(7) Mae datganiadau tystion yn ddatganiadau o ffaith. Ni ddylent byth gynnwys datganiadau barn.*

*(8) Bydd y Llys bron yn ddieithriad yn gorchymyn bod y partïon yn cyfnewid datganiadau tystion erbyn dyddiad penodol. Bydd hyn yn atal parti rhag ceisio mantais drwy oedi ei ddatganiadau hyd nes ei fod wedi derbyn datganiadau ei wrthwynebydd.*

*(9) Lle nad oes modd i chi ddarparu datganiad tyst ffurfiol ar gyfer un o'ch tystion am reswm da (e.e. amharodrwydd i roi tystiolaeth, gwaeledd neu absenoldeb mewn gwlad dramor) dylech ddarparu 'crynodeb tyst' yn nodi'r dystiolaeth yr ydych yn disgwyl i'r tyst ei rhoi os caiff ei alw i'r llys.*

(10) *Fel arfer gellir rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo lle na ellir yn rhesymol ddisgwyl i dyst deithio i'r llys. Os ydych yn dymuno defnyddio cyswllt fideo rhaid i chi roi digon o rybudd i'r llys (o leiaf bedair wythnos a dylech egluro pam fod cyswllt fideo'n angenrheidiol).*

**Cefndir**

11.1 Hanfod treial sifil yng nghyfraith Lloegr yw tystiolaeth lafar a roddir gan dystion yn gyhoeddus gerbron Barnwr sy'n gweithredu fel 'barnwr' (yn penderfynu ar y gyfraith) a 'rheithgor' (yn penderfynu ar y ffeithiau) [CPR 32.2].

11.2 Prif nod y CPR yw y dylai partïon ddod i'r llys gan wybod beth yw'r achos y maent yn ei wynebu gan eu gwrthwynebydd/gwrthwynebwyr. Mae'r dyddiau, heb fod ymhell iawn yn ôl, pryd y gallai parti gadw pethau dan ei gap, wedi mynd erbyn hyn. Yn gyson â'r nod hwn mae'n ofynnol i bob parti nodi ei dystiolaeth ffeithiol mewn datganiadau ysgrifenedig gan bob un o'r tystion y mae'n bwriadu eu galw i roi tystiolaeth, a chaiff y datganiadau hyn eu cyfnewid gyda'r parti arall cyn y treial [CPR 32.4].

11.3 Oni cheir rheswm eithriadol o dda dros absenoldeb datganiad tyst, ni fydd Barnwr y Treial, sydd â disgresiwn bob amser ar faterion o'r fath, yn rhoi caniatâd i'r tystion perthnasol gael eu galw i roi tystiolaeth yn y treial.

11.4 Nodir y rheolau sy'n ymwneud â datganiadau tystion yn CPR Rhan 32.

**A. Ffurf Datganiad Tyst**

11.5 Rhaid i ddatganiad tyst gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddyd Ymarfer 32 [CPR 32.8]. Mae CPR 32PD.17-25 yn nodi'r gofynion hyn ac yn darparu y caiff y llys wrthod derbyn datganiad tyst fel tystiolaeth neu wrthod caniatáu costau unrhyw ddatganiad tyst sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn.

11.6 Dylid cydymffurfio â holl ofynion CPR 32PD.17-20, a'r pethau pwysicaf yw y dylai pob datganiad tyst:

(1) fod â theitl yr achos fel pennawd
(2) datgan enw a chyfeiriad llawn y tyst;
(3) rhoi galwedigaeth y tyst, neu os nad oes ganddo alwedigaeth, disgrifiad ohono;
(4) fod wedi ei deipio os yn bosibl, ar un ochr o bapur A4 yn unig;
(5) fod wedi ei rannu'n baragraffau wedi eu rhifo; a
(6) therfynu gyda Datganiad Gwirionedd wedi ei lofnodi a'i ddyddio.

## C. Cynnwys Datganiad Tyst

11.7 Fel ymgyfreithiwr drosto'i hun yn paratoi datganiad tyst ynghylch unrhyw un o'ch tystion, dylech fod yn ofalus eich bod yn glynu at 4 'rheol aur':

(1) dylai'r datganiad tyst 'ddweud y stori' mewn trefn gronolegol;

(2) dylid ymdrin â'r holl faterion ffeithiol yn yr achos;

(3) mae'r datganiad tyst yn ddatganiad o ffaith, nid barn; a

(4) rhaid i'r datganiad tyst fod yn wir.

11.8 *(1) dylai'r datganiad tyst 'ddweud y stori' mewn trefn gronolegol.*

Ni ddylech anghofio y bydd gennych chi (bron yn sicr) wybodaeth bersonol am y digwyddiadau yr ymdrinnir â hwy yn y datganiad tyst. Nid felly'r Barnwr. Mae'n bwysig eich bod yn ymdrin â'r holl gefndir angenrheidiol a'ch bod yn gwneud hynny yn nhrefn amser. Dylech anelu at sicrhau fod y Barnwr yn cael eich ochr chi o'r stori. Er mwyn gwneud hynny, drafftiwch y datganiad mewn iaith glir. Mae datganiad nad yw'n ymdrin â'r deunydd yn nhrefn amser yn debygol o beri dryswch. Os byddwch, fel y cynghorwyd, wedi paratoi cronoleg, bydd hyn o gymorth i chi wrth baratoi eich datganiadau tystion. Ond mae angen disgresiwn. Mae nodi'r cefndir angenrheidiol o gymorth, ond mae cynnwys llawer iawn o ddeunydd nad yw'n hanfodol yn debygol o dynnu oddi ar rannau pwysig y datganiad. Fodd bynnag, mae angen cynnwys popeth a allai fod yn bwysig oherwydd efallai na fydd y Barnwr yn caniatáu i chi roi tystiolaeth am faterion ychwanegol a allai fod wedi cael eu cynnwys yn eich datganiad tyst neu ddatganiadau tyst eich tystion, ond na chynhwyswyd hwy. Defnyddiwch eich disgresiwn. Os yn ansicr, cynhwyswch y deunydd yn y datganiad.

11.9 *(2) dylid ymdrin â'r holl faterion ffeithiol yn yr achos.*

Erbyn yr amser y bydd datganiadau tystion yn cael eu paratoi a'u cyfnewid (i) bydd y plediadau (datganiadau achos) wedi cael eu cwblhau a (ii) bydd datgelu ac archwilio wedi digwydd. Bydd modd i chi weithio allan pa bynciau o ffaith (gweler pennod 6) sy'n bodoli rhyngoch chi a'ch gwrthwynebydd. Adolygwch y materion hynny yng ngoleuni unrhyw ddogfennau newydd a ddaw i'r amlwg drwy ddatgelu. Bydd yr ymgyfreithiwr doeth yn paratoi rhestr o'r pynciau hyn, ac yn sicrhau yr ymdrinnir â'r holl bynciau yn ei dystiolaeth tyst. Ni fydd pob tyst yn gallu ymdrin â phob pwnc, Ond dylai pob tyst a all ymdrin â phwnc wneud hynny yn ei ddatganiad. Os bydd unrhyw bwnc nad ymdrinnir ag ef gan ddatganiad tyst, dylech wneud popeth a alwch i ganfod tyst a all ymdrin â'r mater dan sylw.

11.10 *(3) mae'r datganiad tyst yn ddatganiad o ffaith, nid barn*

Rhaid i ddatganiad tyst fod wedi'i gyfyngu i ddatganiadau o ffaith, heb fynegi barn o gwbl. Dim ond tystion arbenigol a ganiateir i roi tystiolaeth o farn. Yn achlysurol, cynhwysir barn mewn datganiad tyst. Unwaith y canfyddir hyn, ni

chaiff y Barnwr unrhyw drafferth yn tynnu llinell drwyddo yn drosiadol ac yn ymarferol felly does dim angen i chi boeni os bydd ambell farn yn digwydd llithro i mewn i un o'ch datganiadau tyst. Fodd bynnag, gallai barn ddifeddwl gennych chi neu eich tystion weithiau effeithio'n niweidiol ar eich achos. Mae'n well glynu at y rheolau a sicrhau nad oes unrhyw ddatganiadau barn yn unrhyw rai o'r datganiadau tystion y byddwch yn dibynnu arnynt.

11.11 *(4) rhaid i'r datganiad tyst fod yn wir.*

Ym mhob achos ac eithrio achosion eithriadol bydd pob datganiad tyst yn "sefyll fel ei dystiolaeth flaenaf". Drwy hyn golygir, ar yr amod fod y tyst (ar lw neu gadarnhad) yn cadarnhau gwirionedd ei ddatganiad pan elwir ef i roi tystiolaeth yn y treial, bydd y datganiad yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth yn yr achos. Y mae'n hanfodol felly eich bod yn sicrhau bod gwneuthurwr pob datganiad, a chi eich hun fel yr ymgyfreithiwr y gelwir y gwneuthurwr i roi tystiolaeth ar ei ran, yn edrych yn ofalus ar y datganiad (gan groesgyfeirio at y dogfennau a'r datganiadau tystion eraill fel bo angen) cyn llofnodi ei fod yn gywir. Yn rhy aml (yn wir yn llawer rhy aml) bydd tystion y mae datganiadau wedi eu paratoi ar eu rhan gan gyfreithwyr yn dweud wrth y Barnwr nad yw materion yn y datganiad yn gywir; dywedant (yn rhy gredadwy o lawer) na wnaethant ond llofnodi'r hyn yr oedd y cyfreithiwr wedi ei ddrafftio iddynt heb ddarllen y ddogfen drwyddi'n ofalus ac yn feirniadol. Mae hyn yn adlewyrchu'n wael nid yn unig ar y tyst, ond ar yr holl achos a gyflwynir gan y parti sy'n galw'r tyst. O'r herwydd, mae'n hynod bwysig eich bod yn sicrhau, i'r graddau y medrwch, fod pob datganiad tyst yng ngeiriau'r tyst ei hun, ac y caiff ei archwilio'n ofalus iawn cyn y bydd y tyst yn cadarnhau ei fod yn gywir.

11.12 Mae paratoi datganiad tyst da yn waith caled ac yn cymryd llawer o amser. Ni ddylech byth a'i adael tan y funud olaf. Oni fo gwneuthurwr y datganiad yn eithriadol o rugl yn naturiol, byddwch mae'n debyg yn canfod bod angen i ddatganiad fynd drwy sawl drafft cyn cyrraedd sefyllfa lle y mae'n ymdrin â'r holl ddeunydd angenrheidiol mewn modd eglur, a bod y tyst yn hyderus fod y cyfan yn gywir. Mae prosesydd geiriau'n ddefnyddiol iawn yn y cyswllt hwn.

11.13 Pan fo'n ddoeth gwneud hynny, dylech rannu'r datganiad yn adrannau ar wahân pob un gyda'i bennawd a'i is-bennawd ei hun. Er enghraifft, mewn hawliad yn ymwneud ag adeiladu, os ceir problemau gyda'r to, a chyda'r ffenestri, a chyda'r drysau, gallai'r dystiolaeth ynghylch y to gael ei roi dan y pennawd "To" a'r dystiolaeth am y ffenestri a'r drysau dan benawdau ar wahân, sef "Ffenestri" a "Drysau". Mae'n debyg mai'r ffordd orau o ymdrin â phob adran yw mewn trefn gronolegol. Nid oes wahaniaeth y bydd cronolegau'r adrannau unigol yn gorgyffwrdd; mae'r Barnwr yn debygol o ystyried y dystiolaeth dan bob adran ar wahân.

11.14 Mae'n hanfodol i bob datganiad tyst gael ei rannu'n baragraffau wedi'u rhifo. Ni ddylai'r paragraffau fod yn rhy hir, ac mae'n hynod annoeth cynnwys tystiolaeth ar ddau fater ar wahân yn yr un paragraff.

11.15 Gall datganiad tyst gyfeirio at un neu fwy o ddogfennau; mae’n bwysig yn aml iddo wneud hynny. Erbyn dyddiad cyfnewid datganiadau tystion dylai pob dogfen berthnasol fod wedi’i datgelu, ond os bydd datganiad tyst yn cyfeirio at ddogfen nas datgelwyd yn flaenorol, gall y parti sy’n gwrthwynebu fynnu ei bod yn cael ei datgelu. Mae’n arfer cyffredin ymysg cyfreithwyr i roi ynghlwm â’r datganiad tyst gopïau o bob dogfen y cyfeirir ati yn y datganiad tyst hwnnw. Nid oes angen gwneud hyn pan fo’n glir at ba ddogfen y cyfeirir, ac os yw’r parti wedi cyflwyno rhestr briodol o ddogfennau mae’n gwbl synhwyrol arbed y gwaith copïo a chyfeirio, er enghraifft, at ‘dderbynneb rhif 35 yn rhestr ddogfennau'r Hawlydd'.

## D. Datganiad Gwirionedd

11.16 Rhaid i ddatganiad tyst gael ei gadarnhau gan Ddatganiad Gwirionedd [CPR 22.1; 32PD.20]. Rhoddir hwn fel arfer ar ddiwedd y datganiad. Dylai fod ar y ffurf ganlynol:

> “Credaf fod y ffeithiau a nodir yn natganiad tyst hwn yn gywir.”

11.17 Pan nad yw’r tyst yn gallu deall na darllen Saesneg yn hawdd mae’n bwysig i'r datganiad tyst gael ei ddarllen drwyddo iddo, gydag esboniadau lle bo angen. Dylid cofnodi’r ffaith i hyn ddigwydd ar y datganiad tyst yn ogystal â’r Datganiad Gwirionedd:

> “Darllenwyd y datganiad hwn i mi a chafodd [y darnau ym mharagraffau x, y, z] eu hesbonio gan [enw]”

11.18 Lle nad yw’r tyst yn gallu siarad Saesneg, ac y bydd yn rhoi tystiolaeth drwy gyfieithydd, dylai’r datganiad tyst gael ei baratoi yn iaith y tyst ei hun, a’i lofnodi gyda Datganiad Gwirionedd yn yr iaith honno. Yna dylai datganiad y tyst gael ei gyfieithu, a rhaid i’r cyfieithydd baratoi datganiad tyst yn cadarnhau’r cyfieithiad gan ddangos y datganiad gwreiddiol yn yr iaith dramor a’r cyfieithiad.

11.19 Bydd unigolyn sy'n gwneud datganiad anwir a gadarnhawyd gan Ddatganiad Gwirionedd yn cyflawni dirmyg llys a gall gael ei gosbi drwy ddirwy neu, mewn achosion difrifol, cyfnod o garchar [CPR 32.14].

## D. Cyfnewid datganiadau tystion

11.20 Bydd y Llys yn rhoi cyfarwyddyd o ran cyfnewid datganiadau tystion erbyn amser penodol (fel arfer 4 pm) ar ddyddiad penodol. Y drefn arferol yw i’r ddau barti (neu bob un o'r partïon) gytuno i roi eu datganiadau yn y post ar yr un diwrnod.

11.21 Os byddwch yn canfod eich bod yn cael trafferth cwrdd â’r amser ar gyfer cyfnewid a bod angen ychydig o ddyddiau ychwanegol arnoch (dywedwch hyd at wythnos neu ddeg diwrnod) nid yw’n anarferol i bartïon gytuno’n anffurfiol o ymestyn yr amser. Ond os byddwch angen mwy o amser na hyn

dylech gyflwyno cais yn gofyn i'r llys ymestyn yr amser, gan egluro pam nad oes modd i chi gydymffurfio â chyfarwyddyd y llys. A bod yn fanwl gywir, ni all y partïon ymestyn yr amser ar gyfer cydymffurfio â gorchymyn llys drwy gydsyniad, ac fe allwch ganfod y bydd rhai barnwyr yn fwy llym nac eraill ynghylch estyniadau anffurfiol.

11.22 Pan fyddwch chi'n barod i gyfnewid ond nad yw eich gwrthwynebydd yn barod, mae'n agored i chi gyflwyno'ch datganiadau yn unochrog. Fel llawer o ymgyfreithwyr, fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn ddealladwy iawn yn amharod i wneud hynny rhag ofn i'ch gwrthwynebydd deilwra'i ddatganiadau yng ngoleuni eich datganiadau chi. Mae 'cyfnewid' yn golygu yn union hynny. Nid oes yn rhaid i chi gyflwyno'ch datganiadau'n unochrog, ond dylech wneud yn glir mewn gohebiaeth eich bod yn barod i gyfnewid. Os, ar ôl wythnos neu ddwy, dyweder, y byddwch yn canfod nad yw eich gwrthwynebydd byth yn barod neu'n fodlon i gyfnewid dogfennau, dylech (a) ffeilio eich datganiadau yn y llys, a (b) gyflwyno cais am 'orchymyn oni bai' – gweler pennod 9 – yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthwynebydd gyfnewid erbyn dyddiad penodol neu wynebu sancsiwn, e.e. cael ei atal rhag galw ei dystion.

11.23 *Tystiolaeth mewn ymateb:* Bydd achlysuron pan fyddwch yn dymuno cyflwyno mwy o ddatganiadau tystion, un ai oherwydd bod materion newydd wedi codi (e.e. rydych yn hawlydd mewn achos anaf personol ac yn dioddef problemau eto) neu oherwydd, ar ôl gweld datganiadau eich gwrthwynebydd neu ddogfennau pellach a gyflwynwyd ganddo, eich bod yn sylweddoli fod materion y mae angen i chi ymdrin â hwy mewn tystiolaeth y tu hwnt i'r rhai a gynhwysir yn y datganiadau tystion yr ydych eisoes wedi'u cyflwyno. Byddwch angen caniatâd y llys i gyflwyno datganiadau tystion pellach. Bydd y llys fel arfer yn rhoi caniatâd ar gyfer datganiadau pellach, yn enwedig i ymgyfreithiwr drosto'i hun, ar yr amod nad ydych yn oedi gyda'ch cais. Y prif reswm i lys wrthod caniatâd fydd fod y cais yn cael ei wneud mor agos at ddyddiad y treial fel y byddai'n rhaid gohirio'r gwrandawiad i alluogi datganiadau pellach i gael eu cyflwyno a'u hystyried gan yr ochr arall, ac y byddai'n anghywir oedi'r treial. Rheswm arall dros wrthod caniatâd fyddai fod y llys o'r farn y bu parti'n ceisio cael mantais dactegol drwy beidio ag ymdrin â rhai rhannau o dystiolaeth yn y datganiadau tystion a gyfnewidiwyd dan y cyfarwyddyd gwreiddiol. Os ydych o'r farn y bu eich gwrthwynebydd yn gweithredu yn y modd hwn cewch wrthwynebu cais am ganiatâd i gyflwyno datganiadau tystion pellach drwy ddwyn eich pryderon at sylw'r llys.

## E. Cyfyngiadau ar ddatganiadau tystion

11.24 Mae gan y llys rym i roi cyfarwyddiadau [CPR 32.2(3)] i –

(a) ganfod neu gyfyngu ar y materion y gellir cyfeirio tystiolaeth ffeithiol mewn perthynas â hwy;
(b) canfod pwy yw'r tystion a allai gael eu galw neu y gallai eu tystiolaeth gael ei darllen; neu
(c) cyfyngu ar hyd neu fformat datganiadau tystion.

11.25 Mae hwn yn rym defnyddiol. Ceir tueddiad ymysg rhai cyfreithwyr (a rhai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain) i gyflwyno datganiadau tystion sydd yn hynod o hir ac yn ymdrin yn hirfaith â materion cefndir nad oes dadl yn eu cylch. Mae datganiadau o'r fath yn aml yn ddrud i'w cynhyrchu yn nhermau amser cyfreithiwr y gellir codi arian amdano. Nid oes angen i ddatganiad tyst ddweud y stori, a chyflwyno'r cefndir, ond dylid gofalu peidio â gadael i'r datganiad fynd yn rhy hir. Yn achos tystion 'cefnogol' mae fel arfer yn ddiangen iddynt ail-adrodd deunydd yr ymdrinnir ag ef gan y prif dystion. Dylai'r tystion cefnogol gyflwyno datganiadau sydd wedi'u cyfyngu i'r pwynt dan sylw y maent yn ymdrin ag ef. Os byddwch o'r farn fod datganiadau tystion eich gwrthwynebydd yn rhy hir am eu bod yn ymdrin â deunydd amherthnasol, neu ei fod yn bwriadu galw tystion ar faterion nad oes dadl yn eu cylch, neu nad yw'r datganiadau'n eglur, cewch ddwyn hyn i sylw'r llys yn y Gynhadledd Rheoli Achos nesaf, neu wneud cais penodol i ofyn i'r llys gyfyngu un ai ar hyd datganiadau unigol neu ar alw tystion unigol.

11.26 Yn ymarferol, fodd bynnag, nid ydych yn debygol o ddod i wybod fod datganiadau tyst eich gwthwynebydd yn rhy hir neu'n cynnwys deunydd amherthnasol neu'n groes i arfer da mewn rhyw ffordd arall hyd nes iddynt gael eu cyflwyno. Gallai cost gofyn i'r llys ystyried gwneud gorchymyn yn cyfyngu ar y datganiadau tyst mewn rhyw ffordd benodol yn hawdd fod yn anghymesur â'r pwynt y dadleuir yn ei gylch. Cofiwch ei bod bob amser yn bosibl gofyn i farnwr y treial wneud gorchmynion yng nghyswllt tystion, ac i wneud gorchymyn yn gwrthod caniatáu cost datganiad diangen neu ran o gost datganiad sy'n rhy hir.

## F. Tystion Amharod neu Absennol

11.27 Efallai y byddwch yn canfod na allwch gyflwyno datganiad tyst a ddilysir gan Ddatganiad Gwirionedd ar gyfer unigolyn yr ydych yn dymuno ei alw i roi tystiolaeth, un ai oherwydd bod yr unigolyn yn amharod i roi tystiolaeth neu oherwydd, yn syml iawn, nad yw ar gael ar y pryd o achos, er enghraifft, ei fod yn gweithio dramor neu'n wael ar y pryd.

11.28 Mewn achosion o'r fath, os ydych eisiau dibynnu ar dystiolaeth y tyst, rhaid i chi gynhyrchu crynodeb tyst, yn nodi natur y dystiolaeth yr ydych yn disgwyl i'r tyst ei rhoi. Dylech gyflwyno'r crynodeb hwn ynghyd â'ch datganiadau tyst. Fel ymgyfreithiwr gallwch orfodi unigolyn i ddod i'r llys i roi tystiolaeth mewn treial sifil, gweler pennod 15, ond bydd y Barnwr yn disgwyl i grynodeb tyst gael ei gyflwyno yng nghyswllt unrhyw dyst a ddygir i'r llys i roi tystiolaeth.

11.29 Os na all tyst ddod i'r llys, efallai oherwydd nad yw'n ddigon iach, neu ei fod dramor, ac na ellir disgwyl iddo deithio i'r llys, gallwch ofyn i'r llys dderbyn datganiad y tyst fel tystiolaeth yn yr achos 'dan Ddeddf Tystiolaeth Sifil' heb i'r tyst ddod i'r llys. Mater i Farnwr y Treial yw penderfynu a fydd yn derbyn datganiad y tyst fel tystiolaeth, ac ar yr amod fod rheswm dilys pam na all y tyst ddod i'r llys, bydd y Barnwr fel arfer yn gwneud hynny. Fodd bynnag, gallai absenoldeb y tyst o'r treial, a'r ffaith na fydd modd i'r parti arall brofi'r

dystiolaeth honno drwy groesholi, yn hawdd effeithio ar y pwysau a rydd y Barnwr i’r dystiolaeth.

11.30 Mewn rhai amgylchiadau, os na all tyst fod yn bresennol, gall roi ei dystiolaeth drwy gyswllt fideo neu (yn eithriadol iawn) dros y ffôn. Bydd angen rhoi rhybudd da i’r llys er mwyn sefydlu’r cyfleusterau angenrheidiol, ac efallai na fydd yn bosibl gwneud hyn mewn rhai llysoedd. Dylech egluro pam eich bod angen cyswllt fideo, a, phan fydd y tyst dramor dylech atgoffa'r llys o unrhyw wahaniaethau o ran amser a allai effeithio ar roi tystiolaeth. Mae’n debygol y bydd yn rhaid i unrhyw gost ychwanegol gael ei thalu gan yr ymgyfreithiwr sy'n gwneud cais am gyfleusterau fideo.

# Pennod 12
# Tystiolaeth arbenigol

A. Tystiolaeth arbenigol
B. Rhaid cael caniatâd i gyflwyno tystiolaeth arbenigol
C. Y tyst arbenigol
D. Un arbenigwr ar y cyd
E. Cwestiynau i'r arbenigwr/arbenigwyr
F. Cyfarfodydd rhwng arbenigwyr
G. Pŵer y llys i gyfarwyddo parti ag arbenigedd i ddarparu gwybodaeth

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Tystiolaeth barn yw tystiolaeth arbenigol. Dylai gael ei rhoi gan rywun â lefel uchel o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn y maes perthnasol.*

*(2) Gellir rhoi tystiolaeth arbenigol mewn amrywiaeth eang o bynciau. Dyma enghreifftiau cyffredin o arbenigwyr sy'n rhoi tystiolaeth yn y llysoedd – meddygon (ymgynghorwyr fel arfer) mewn achosion anaf, syrfewyr a pheirianwyr mewn achosion adeiladu, priswyr mewn achosion eiddo, ac arbenigwyr ail-greu damweiniau mewn achosion traffig ffordd anodd.*

*(3) Rhaid cael caniatâd y llys bob amser cyn bydd tystiolaeth arbenigol yn dderbyniol. Bydd y llys yn ymateb yn anffafriol i'r broses 'siopa am arbenigwyr', ac os bydd un parti wedi cysylltu â mwy nag un arbenigwr, bydd y llys fel arfer yn mynnu bod y parti hwnnw'n datgelu'r holl safbwyntiau arbenigol y bydd wedi'u derbyn, er y bydd y parti dan sylw efallai am ddibynnu ar un arbenigwr yn unig (ac efallai mai ar un yn unig y caiff ddibynnu).*

*(4) Bydd yn rhaid i dyst arbenigol bob amser ddarparu adroddiad ysgrifenedig a dim ond os yw hynny'n wirioneddol angenrheidiol y caiff roi tystiolaeth ar lafar – bydd hyn yn digwydd fe arfer os yw'r arbenigwyr ar y ddwy ochr yn anghytuno'n sylweddol.*

*(5) Ble bynnag y bo modd, dylai'r partïon gytuno i gyfarwyddo un arbenigwr ar y cyd i fynegi barn am y materion yn yr achos sy'n gofyn am arbenigedd. Mewn hawliadau isel eu gwerth bydd y llys bob amser bron yn mynnu bod Un Arbenigwr ar y Cyd yn cael ei gyfarwyddo gan y ddau barti ar y cyd.*

*(6) Er y bydd un parti yn cyfarwyddo tyst arbenigol ac yn talu iddo, neu'r ddau barti os yw'n Un Arbenigwr ar y Cyd, mae dyletswydd yr arbenigwr i'r llys ac mae'r ddyletswydd honno'n drech nag unrhyw ddyletswydd sydd ganddo i'r parti neu'r partïon sy'n ei gyfarwyddo.*

*(7) Mae darpariaethau manwl yn y Rheolau sy'n delio â chynnwys adroddiad arbenigol, a rhaid i'r adroddiad derfynu gyda datganiad bod yr arbenigwr yn*

*deall ei ddyletswydd i’r llys a'i fod wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd honno. Bydd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol sy’n cynnig gweithredu fel arbenigwyr yn gwybod am y darpariaethau hyn; ni ddylai ymgyfreithiwr drosto'i hun gyfarwyddo arbenigwr nad yw'n gyfarwydd â'r rheolau perthnasol oni bai nad oes dewis arall.*

*(8) Os yw pob parti sy'n gwrthwynebu’i gilydd yn cyfarwyddo arbenigwr, gorchmynnir yr arbenigwyr hynny (heb ymrwymiad) i gynnal trafodaethau, gyda'r nod o ddod i gytundeb ynghylch cynifer â phosibl o faterion a diffinio meysydd lle nad oes cytundeb, gan ddisgrifio'u barnau gwahanol.*

*(9) Gall ymgyfreithiwr gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i arbenigwr i'w hateb yn ysgrifenedig. Bydd yr atebion yn rhan o dystiolaeth yr arbenigwr.*

*(10) Os oes gan un ymgyfreithiwr fynediad at arbenigedd mewnol nad yw ar gael i’w wrthwynebydd, gall y llys fynnu bod yr ymgyfreithiwr hwnnw’n darparu'r wybodaeth arbenigol i’w wrthwynebydd i’w defnyddio ganddo yn yr achos.*

## A. Tystiolaeth arbenigol

12.1 Gall tyst sy’n rhoi tystiolaeth fel “arbenigwr” fynegi barn ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'r achos. Nid yw tystiolaeth barn yn dderbyniol oddi wrth unrhyw dyst arall.

12.2 Mae’r rheolau sy’n ymwneud â thystiolaeth arbenigol i’w cael yn CPR Rhan 35. Does dim diffiniad o ‘arbenigol’ ac, yn ddamcaniaethol o leiaf, gall unrhyw un gael ei alw fel arbenigwr mewn unrhyw beth. Ond, dim ond ar dystiolaeth barn rhywun â lefel uchel o sgiliau a gwybodaeth mewn pwnc penodol yn ei faes arbenigedd y mae'r llys yn debygol o wrando. Felly, wrth ddewis tyst arbenigol, dylai ymgyfreithiwr sicrhau ei fod yn dewis tyst sydd â’r cymwysterau priodol ac, yn bwysicach efallai, y profiad perthnasol.

12.3 Mae tystion arbenigol yn tueddu i fod braidd yn ddrud. Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn codi mwy am eu gwasanaethau fel arbenigwr fforensig nag y maent yn ei godi wrth gyflawni eu gwaith beunyddiol. Mae’r Rheolau’n cyfyngu tystiolaeth arbenigol i’r dystiolaeth sy’n rhesymol ofynnol i ddatrys yr achos [CPR 35.1].

12.4 Rhoddir tystiolaeth arbenigol ar ffurf adroddiad ysgrifenedig. Rhaid ei ddatgelu i bob parti arall ac, oni bai fod y llys yn rhoi caniatâd, ni ellir galw am dystiolaeth arbenigol lafar yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig [CPR 35.5]. Unwaith y bydd un parti wedi datgelu adroddiad arbenigol, gall unrhyw barti ddibynnu ar yr adroddiad hwnnw, neu unrhyw ran ohono, yn y treial [CPR 35.11].

## B. Rhaid cael caniatâd i gyflwyno tystiolaeth arbenigol

12.5 Nid oes modd cyflwyno tystiolaeth arbenigol heb ganiatâd y llys [CPR 35.4(1)]. Rhaid i ymgyfreithiwr y mae angen tystiolaeth arbenigol arno (un ai drwy adroddiad ysgrifenedig heb dystiolaeth lafar neu drwy alw'r arbenigwr i roi tystiolaeth lafar yn y treial) wneud cais i'r llys, ac wrth wneud hynny, rhaid iddo nodi'r maes y mae angen y dystiolaeth arbenigol ar ei gyfer a hefyd, lle bo'n ymarferol, enw'r arbenigwr arfaethedig. Mewn rhai achosion, er enghraifft tystiolaeth feddygol mewn achosion anaf neu dystiolaeth gan beiriannydd neu syrfëwr mewn achosion adeiladu, efallai fod yr angen am dystiolaeth arbenigol yn amlwg. Ond bydd yn rhaid i'r ymgyfreithiwr sy'n gwneud cais am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth arbenigol esbonio yn y dystiolaeth i gefnogi ei gais (a fydd fel arfer mewn datganiad tyst) pam mae angen tystiolaeth arbenigol arno.

12.6 Pwrpas y gofyniad yn y Rheolau i enwi'r arbenigwr arfaethedig, os yw hynny'n ymarferol, yw i atal y broses o 'siopa am arbenigwr'. Mae achosion wedi codi o ymgyfreithwyr, sy'n meddu ar yr adnoddau i wneud hynny, yn mynd o arbenigwr i arbenigwr i ganfod un a fydd yn cefnogi achos yr ymgyfreithiwr. Gallai goblygiadau hyn fod yn ddifrifol. Os bydd ymgyfreithiwr yn canfod bod sawl arbenigwr yn rhoi barn wahanol, mae'r ffaith y bydd yn dod o hyd i arbenigwr yn y pen draw a fydd yn ei gefnogi yn awgrymu na fydd yr arbenigwr hwn o bosibl yn adlewyrchu barn gyffredinol arbenigwyr yn y maes hwnnw. Os bydd ymgyfreithiwr wedi cael adroddiad gan arbenigwr A, ac mae'n dymuno newid i arbenigwr B, efallai y bydd y llys yn gwrthod rhoi caniatâd iddo. Neu, os rhoddir caniatâd, fel arfer bydd yn rhaid i farn arbenigwr A gael ei datgelu i wrthwynebydd yr ymgeisydd yn ogystal â barn arbenigwr B.

12.7 Rhaid i barti sy'n gwneud cais am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth arbenigol ddarparu amcangyfrif o gostau'r dystiolaeth arbenigol arfaethedig a nodi maes y dystiolaeth arbenigol a'r materion y bydd y dystiolaeth arbenigol yn rhoi sylw iddynt [CPR Rhan 35.4(2)]. Lle bo modd, dylid rhoi enw'r arbenigwr arfaethedig. Nod y rheol hon, sydd mewn grym ers 1 Ebrill 2013, yw sicrhau bod partïon yn meddwl yn ofalus am yr angen am dystiolaeth arbenigol a chost cael y dystiolaeth honno. Os bydd y llys yn caniatáu tystiolaeth arbenigol caiff nodi'r materion y dylai'r dystiolaeth arbenigol roi sylw iddynt.

12.8 Y cyngor i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun, fel i unrhyw ymgyfreithiwr, yw cyflwyno tystiolaeth arbenigol dim ond os yw hynny'n hanfodol, ac wedyn cyfyngu'r dystiolaeth a roddir gan yr arbenigwr i'r hyn sy'n angenrheidiol. Wrth wneud cais am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth arbenigol, bydd angen i'r ymgyfreithiwr wybod yn union pa fater neu faterion y bydd yr arbenigwr yn rhoi sylw iddynt. Os bydd yr ymgyfreithiwr yn gwneud cais yn ddiangen, dylai'r barnwr roi gwybod iddo pam nad yw'n angenrheidiol neu pam mai dim ond materion penodol y mae angen rhoi sylw iddynt. Ond, i alluogi'r barnwr i wneud penderfyniad doeth, mae'n bwysig fod yr ymgyfreithiwr yn gallu nodi'r materion yn yr achos a nodi'r mater y mae angen tystiolaeth arbenigol ar ei gyfer.

## C. Y tyst arbenigol

12.9 Er y bydd yr ymgyfreithiwr yn cyfarwyddo, yn talu ac yn galw ar yr arbenigwr i roi tystiolaeth, mae ganddo ddyletswydd drechol i'r llys i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn ddiduedd wrth roi ei dystiolaeth - yn ei adroddiad ysgrifenedig ac wrth roi tystiolaeth ar lafar. Rhaid i arbenigwr ddatgan yn glir pan fydd unrhyw fater a godir gydag ef y tu allan i'w arbenigedd.

12.10 Mae cyfarwyddyd ymarfer manwl ar gael sy'n delio â ffurf a chynnwys adroddiad arbenigwr (PD35]. Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn hefyd yn cynnwys protocol manwl ar gyfer cyfarwyddo arbenigwyr [CPR 35.16-38]. Mae gormod o fanylion i gynnwys crynodeb yma; rhaid i ymgyfreithiwr sydd am gael tystiolaeth arbenigol ddarllen Rheol 35 a Chyfarwyddyd Ymarfer 35 yn ofalus. Fel arall efallai y bydd yn mynd i lawer o drafferth a chostau i ddim pwrpas.

12.11 Rhaid i adroddiad arbenigwr derfynu gyda datganiad yn dweud bod yr arbenigwr yn deall ei ddyletswydd i'r llys ac wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd honno [CPR 35.10(2)]. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol sydd ar gael i roi tystiolaeth arbenigol yn perthyn i gyrff proffesiynol sy'n cynnal cyrsiau i addysgu darpar arbenigwyr am ofynion CPR35. Dylai ymgyfreithiwr fod yn wyliadwrus iawn wrth gyfarwyddo tyst arbenigol nad yw'n gwbl gyfarwydd â dyletswyddau tyst arbenigol. Mae'n debyg y bydd arbenigwr o'r fath yn cael ei ddal allan yn y treial, ac efallai y bydd y Barnwr yn teimlo na all roi unrhyw bwys ar ei dystiolaeth.

## D. Un arbenigwr ar y cyd

12.12 Os oes modd, dylai'r partïon gytuno i benodi un arbenigwr ar y cyd yn hytrach na bod pob parti yn galw ei arbenigwr ei hun. Bydd hyn fel arfer yn arbed llawer o gost. Yn wir, mae gan y llys y pŵer i ddweud bod yn rhaid i dystiolaeth arbenigol gael ei rhoi gan Un Arbenigwr ar y Cyd [CPR 35.7], ac os yw'r hawliad yn un gwerth isel, bydd y rhan fwyaf o lysoedd yn mynnu hyn.

12.13 Dylai Un Arbenigwr ar y Cyd gael ei gyfarwyddo ar y cyd. I wneud hyn, bydd yn rhaid i'r ymgyfreithwyr gytuno ar y materion y dylai'r arbenigwr roi sylw iddynt a pha ddeunydd y dylid ei roi i'r arbenigwr er mwyn iddo ffurfio'i farn. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid gadael i'r arbenigwr gynnal unrhyw archwiliad neu arolygiad gofynnol, ac i wneud hynny mewn amgylchiadau lle na fydd yr un parti yn ceisio dylanwadu arno.

12.14 Rhaid i'r holl gyfarwyddiadau a roddir i'r arbenigwr fod yn ysgrifenedig. Mae hyn yn galluogi'r llys i roi tystiolaeth yr arbenigwr yn ei chyd-destun priodol. Dylai'r partïon geisio cytuno ar y telerau ar gyfer cyfarwyddo'r arbenigwr ac agweddau'r anghydfod y gofynnir i'r arbenigwr ddarparu barn arnynt. Os oes materion penodol y bydd un parti am i'r arbenigwr ddarparu barn arnynt, dylid nodi hyn yn y llythyr cyfarwyddo; e.e. os bydd un parti yn dadlau bod gwaith adeiladu wedi cynyddu gwerth eiddo, yna dylid gofyn i'r arbenigwr a yw hyn

yn wir, a rhoi barn am werth yr eiddo, gyda'r gwelliannau perthnasol a hebddynt.

12.15 Bydd adegau'n codi pan na fydd y partïon yn gallu cytuno ar y dewis o arbenigwr na pha faterion y dylai roi sylw iddynt. Yn y cyfryw achosion efallai y bydd yn rhaid i'r partïon ddod â'r anghydfod gerbron y Llys er mwyn i'r Barnwr roi cyfarwyddiadau. Ond cyn cymryd amser y llys, dylai ymgyfreithwyr gofio bod y rhan fwyaf o gyrff proffesiynol yn cynnig gwasanaeth 'dewis arbenigwr' ac oni bai ei fod yn glir fod un parti yn gofyn i'r arbenigwr ddelio â materion sydd y tu allan i gwmpas yr achos, y peth gorau i'w wneud yw gadael i'r arbenigwr roi sylw i'r holl faterion y mae'r naill barti neu'r llall am iddo roi sylw iddynt, a gadael y dadleuon o ran perthnasedd tan y treial.

12.16 Mewn treialon aml-drac a hawliadau bach, y rheol arferol yw mai dim ond un arbenigwr, a gyfarwyddir gan y ddau barti ar y cyd, fydd yn cael rhoi tystiolaeth. Bydd y dystiolaeth yn cael ei rhoi mewn adroddiad ysgrifenedig a dim ond yn yr achosion mwyaf eithriadol y gelwir ar yr arbenigwr i roi tystiolaeth mewn treial.

## E. Cwestiynau i'r arbenigwr/arbenigwyr

12.17 Mae gan bob parti yr hawl i ofyn cwestiynau i arbenigwr a gyfarwyddir gan barti arall neu Un Arbenigwr ar y Cyd [CPR 35.6]. Rhaid i'r cwestiynau fod yn ysgrifenedig a'u pwrpas fydd esbonio rhagor ar gynnwys yr adroddiad. Rhaid i'r cwestiynau fod yn gymesur a rhaid eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cyflwyno adroddiad yr arbenigwr. Gellir gofyn cwestiynau ar ôl y 28 diwrnod gyda chaniatâd y llys.

12.18 Nid yw'r Rheolau'n ei gwneud yn glir beth a olygir wrth y geiriau 'esbonio rhagor' (*clarification*). Mae'n debyg yr ystyrir bod unrhyw gwestiwn sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r arbenigwr gynnal profion neu ymchwiliadau newydd yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan y Rheol. Fodd bynnag, un o brif amcanion gofyn cwestiynau i arbenigwr yw sicrhau bod yr holl faterion perthnasol yn cael sylw yn yr adroddiad ysgrifenedig, fel na fydd angen galw ar yr arbenigwr i roi tystiolaeth neu, mewn rhai achosion, osgoi'r angen i'r parti sy'n gwrthwynebu gyflwyno ei dystiolaeth arbenigol ei hun. Os bydd ymgyfreithiwr yn teimlo'n gryf nad yw arbenigwr wedi delio ag agwedd pwysig o'r mater ger ei fron, neu wedi methu ag ystyried deunydd pwysig a oedd ar gael yn yr achos, dylai ofyn y cwestiynau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr agwedd honno'n cael sylw neu bod y deunydd yn cael ei ystyried, gan geisio arweiniad gan y llys os bydd raid.

12.19 Bydd ymgyfreithiwr sy'n gofyn cwestiynau fel arfer yn gorfod talu costau'r atebion (yn y lle cyntaf, yn y pen draw efallai y bydd yn rhaid i'r parti sy'n colli yn yr achos ymgyfreitha dalu'r gost) ond (a) mae cost ateb cwestiynau'n debyg o fod gryn dipyn yn llai na'r gost i'r ymgyfreithiwr o gyfarwyddo ei arbenigwr ei hun, a (b) gall cwestiynau wedi'u cyfarwyddo'n dda ddatgelu gwendidau yn achos y gwrthwynebydd a helpu'r partïon i ddod i gytundeb.

12.20 Os na fydd yr arbenigwr yn ateb cwestiwn ysgrifenedig a roddir iddo, gall y llys orchymyn na ellir dibynnu ar ei dystiolaeth a/neu na fydd y parti sy'n cyflwyno'r adroddiad arbenigol yn gallu adennill ffioedd a chostau'r arbenigwr hwnnw oddi wrth unrhyw barti arall.

## F. Cyfarfodydd arbenigwyr

12.21 Pan fydd y llys yn rhoi caniatâd i'r ddwy ochr gyflwyno tystiolaeth arbenigol, bydd bron bob amser yn cyfarwyddo'r arbenigwyr (neu arbenigwyr o 'ddisgyblaethau tebyg' lle mae mwy nag un arbenigwr yn cael ei alw gan bob parti) i gwrdd i gynnal trafodaethau heb ymrwymiad [CPR 35.12]. Y nod yw gweld a all yr arbenigwyr, trwy drafod, gytuno ar dir cyffredin neu o leiaf ddiffinio a chyfyngu ar y meysydd y mae anghytuno yn eu cylch. Bydd cyfarwyddyd y llys yn ei gwneud yn ofynnol i'r arbenigwyr baratoi a chyflwyno datganiad ar y cyd yn nodi'r materion y maent yn cytuno arnynt a'r materion hynny nad ydynt yn cytuno arnynt, ynghyd â chrynodeb o'r rhesymau dros unrhyw anghytuno.

12.22 Mewn achosion Technoleg ac Adeiladwaith, yr arfer yw i'r llys gyfarwyddo'r arbenigwyr i gwrdd yn gyntaf cyn paratoi eu hadroddiadau er mwyn paratoi datganiad ar y cyd. Mae'r adroddiadau unigol wedyn yn cael eu cyfyngu i'r meysydd hynny y mae'r arbenigwyr yn anghytuno arnynt. Mae dwy fantais fawr yn perthyn i hyn. Yn gyntaf, mae arbenigwr nad yw wedi ymrwymo'i hun yn ysgrifenedig yn fwy tebygol o gytuno i ddadlau a thrafod ac ni fydd yn teimlo rheidrwydd i lynu wrth ei farn ysgrifenedig. Yn ail, dylai cost paratoi adroddiad ar y materion sy'n destun anghydfod yn unig fod yn llai nag adroddiad cynhwysfawr sy'n rhoi sylw i faterion nad yw'r ochr arall yn anghytuno â nhw. Does dim rheswm pam na ddylai ymgyfreithiwr ofyn i'r llys wneud cyfarwyddyd o fath Achosion Technoleg ac Adeiladwaith mewn achosion nad ydynt yn gysylltiedig â thechnoleg ac adeiladwaith.

## G. Pŵer y llys i gyfarwyddo parti ag arbenigedd i ddarparu gwybodaeth

12.23 Mae'r Rheolau'n cydnabod bod gan rai ymgyfreithwyr fynediad at arbenigedd nad yw ar gael i eraill. Er enghraifft, bydd awdurdod ysbyty yn gallu cael gafael ar arbenigedd meddygol, neu efallai y bydd gan gwmni adeiladu mawr beirianwyr a syrfewyr meintiau ar ei staff. Bydd gan lawer o gwmnïau technegol arbenigwyr mewnol. Mewn achosion o'r fath, bydd gan yr ymgyfreithiwr ag arbenigedd mewnol fantais dros ei wrthwynebydd nad oes ganddo arbenigedd o'r fath.

12.24 Pan fydd gan un parti fynediad at wybodaeth nad yw ar gael yn rhesymol i'w wrthwynebydd, gall y llys orchymyn i'r parti baratoi dogfen yn cofnodi'r wybodaeth, a'i chyflwyno i'r gwrthwynebydd [CPR 35.9]. Nid yw'n amlwg pam mae'r Rheolau'n cyfeirio at ddogfen yn hytrach nag adroddiad; efallai er mwyn gwahaniaethu rhwng deunydd tystiolaeth a ddarperir gan arbenigwyr mewnol a deunydd mewn adroddiad arbenigwr. Ond dylai'r ddogfen a

gyflwynir fod yn debyg i adroddiad arbenigol. Mae'n amlwg (er nad yw'r Rheol yn datgan hyn yn benodol) y bydd yn rhaid i'r wybodaeth i'w chofnodi yn y ddogfen fod yn berthnasol yn benodol i faterion arbenigol sy'n codi yn yr achos. Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i fynnu bod ymgyfreithiwr yn darparu gwybodaeth amdano ef ei hun neu ei weithdrefnau nad ydynt yn berthnasol i faterion yn yr achos y mae angen arbenigedd i'w datrys.

# Pennod 13
# Rheoli Achosion a Gwrandawiadau Interim eraill

A. Y Llys sy'n gyfrifol am reoli'r achos ar gyfer treial
B. Cyfarwyddiadau
C. Cynadleddau Rheoli Achos
D. Adolygiad Cyn Treial
E. Ceisiadau
F. Ceisiadau penodol
G. Rhwymedïau interim
H. Costau gwrandawiadau interim

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Bydd y llys yn rheoli'r achos hyd at y treial drwy roi cyfarwyddiadau mewn gorchmynion llys y bydd yn rhaid i'r ymgyfreithwyr gydymffurfio â nhw. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y llys yn gwneud cyfarwyddiadau ar ei liwt ei hun, sef heb i'r partïon ofyn iddo wneud hynny. Gall y cyfarwyddiadau fod yn berthnasol i unrhyw gam yn yr achos, gan gynnwys materion megis cyflwyno plediadau neu blediadau diwygiedig, datgelu, darparu rhagor o wybodaeth, cyflwyno datganiadau tystion, cyfarwyddo arbenigwyr, paratoi bwndeli o ddogfennau ar gyfer y treial, cyflwyno dadleuon ysgrifenedig ('fframwaith'), crynodebau o achosion a rhestrau o faterion.*

*(2) Mae gan ymgyfreithiwr sy'n derbyn gorchymyn llys sydd wedi'i wneud heb wrandawiad saith niwrnod i wneud cais i'r llys i amrywio'r gorchymyn neu ei osod o'r neilltu. Dylai'r gorchymyn llys gynnwys datganiad o'r hawl i wneud cais, ond pa un a gyfeirir at hynny neu beidio yn y gorchymyn, caiff unrhyw ymgyfreithiwr wneud cais o'r fath. Mae'r terfyn saith niwrnod yn cychwyn ar y dyddiad y derbyniodd yr ymgyfreithiwr y gorchymyn a rhaid ei gymryd o ddifrif.*

*(3) Bydd y llys fel arfer yn rhoi cyfarwyddyd i gynnal o leiaf un Gynhadledd Rheoli Achos. Yn hwnnw bydd y barnwr yn ystyried beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gyda'r achos ac yn rhoi cyfarwyddiadau a ystyrir yn briodol ganddo. Gall ymgyfreithiwr godi unrhyw fater mewn Cynhadledd Rheoli Achos. Ond, os yw'n gofyn i'r llys wneud cyfarwyddyd penodol dylai hysbysu'r llys a'i wrthwynebydd mewn da bryd. Efallai y gorchmynnir y dylid delio â mater a all gymryd amser i'w ddadlau drwy gyfrwng cais penodol (y bydd yn rhaid talu ffi ar ei gyfer) ac nid yn y Gynhadledd Rheoli Achos.*

*(4) Rhaid gwneud ceisiadau am orchmynion penodol drwy gyfrwng hysbysiad o gais yn Ffurflen N244, a rhaid iddo (1) nodi pa orchymyn y mae'r ceisydd yn ei geisio, (2) esbonio'n fyr pam y ceisir y gorchymyn, a (3) cael ei gadarnhau*

*gan ddatganiad gwirionedd. Os oes angen tystiolaeth fanwl, dylid paratoi a chyflwyno un neu fwy o ddatganiadau tyst (wedi'u cadarnhau gan ddatganiad gwirionedd), gorau oll os gwneir hynny gyda'r hysbysiad o gais, ond o leiaf mewn da bryd cyn y gwrandewir y cais.*

*(5) Dylai'r partïon weithredu'n ddoeth a chytuno ar gyfarwyddiadau pan fo'n briodol gwneud hynny. Bydd gwrthwynebu cais rhesymol am gyfarwyddyd gan wrthwynebydd yn arwain fel arfer at orchymyn anffafriol am gostau.*

*(6) Gall ymgyfreithiwr drosto'i hun wneud gwahanol geisiadau neu bydd yn canfod bod gwahanol geisiadau'n cael eu gwneud gan ei wrthwynebydd. Rhoddir sylw i'r rhai mwyaf cyffredin yn adran 'Ceisiadau Penodol' y bennod hon.*

*(7) Bydd achlysuron yn codi pan fydd y llys yn rhoi rhwymedi cyn y gwrandawiad, gweler adran 'Rhwymedïau Interim' y bennod hon.*

*(8) Y rheol gyffredin yw y bydd costau gwrandawiadau interim sy'n destun dadl yn cael eu dyfarnu yn erbyn y parti sy'n colli a'u hasesu yn y gwrandawiad. Bydd yn rhaid i'r parti sy'n talu dalu unrhyw gostau a ddyfernir yn fuan (14-28 diwrnod) ar ôl y gwrandawiad. Bydd costau Cynadleddau Rheoli Achos yn ddieithriad bron yn cael eu dyfarnu fel 'costau yn yr achos'. Mae hynny'n golygu y bydd y sawl a fydd yn colli'r achos yn sicr bron yn gorfod talu costau'r sawl a fydd yn ennill yn y pen draw.*

## A. Y Llys sy'n gyfrifol am reoli'r achos ar gyfer treial

13.1 Mae'r bennod hon yn delio â'r broses o reoli'r achos gan y llys o gychwyn achos hyd at y treial.

13.2 Caiff pob hawliad ei godi bellach mewn canolfan llysoedd cenedlaethol canolog yn Salford. Unwaith y derbynnir Amddiffyniad, anfonir 'holiadur dyrannu' at y partïon i'w lenwi a'i ddychwelyd i Lys lleol. Fel arfer, hwn fydd y Llys sy'n gwasanaethu'r ardal lle mae'r Diffynnydd yn byw. Y llys hwn fydd yn ymdrin â'r broses o reoli'r achos hyd at y treial, oni fydd y naill neu'r llall o'r partïon neu'r ddau barti yn gwneud cais i drosglwyddo'r achos i lys arall er hwylustod y partïon.

13.3 Y Llys, nid y partïon, sydd â rheolaeth gyffredinol dros reoli achosion ac mae'n gwneud hynny drwy roi cyfarwyddiadau (mewn gorchmynion) a gwneud gorchmynion ar faterion penodol. Bydd unrhyw wrandawiad a gynhelir cyn y treial yn wrandawiad interim ac mae ceisiadau a wneir yn y gwrandawiadau hyn yn geisiadau interim. Mae'r rheolau sy'n berthnasol i'r gwrandawiadau hyn i'w cael yn CPR Rhan 23. Mae rheoli achos ar y cam cychwynnol yn cael sylw yn CPR Rhan 26. Yn y rhan fwyaf o lysoedd, ymdrinnir â chyfarwyddiadau rheoli achos a cheisiadau interim gan Farnwyr Rhanbarth. Mewn canolfannau treial mawr, megis Canolfan Llysoedd Sifil

Canol Llundain, unwaith y bydd achos wedi'i ddyrannu i'r aml-drac, bydd llawer o'r gwaith rheoli achos yn cael ei wneud gan Farnwyr Cylchdaith, gyda Barnwyr Rhanbarth yn gwneud rhywfaint o waith arbenigol a delio â hawliadau bach a hawliadau trac cyflym.

13.4 Unwaith y bydd llys wedi derbyn Amddiffyniad, bydd Holiadur Dyrannu'n cael ei anfon at y partïon, a bydd hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y llys i ddyrannu'r achos i 'drac', gweler pennod 7.

## B. Cyfarwyddiadau

13.5 Unwaith y bydd achos wedi'i ddyrannu i 'drac' (gweler pennod 7), bydd y llys yn rhoi cyfarwyddiadau. I ddechrau, bydd y barnwr fel arfer yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer:

(a) gohirio'r achos fel y gall y partïon geisio setlo'r achos drwy gyfryngu (Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod)

(b) paratoi crynodeb o'r achos (gan yr Hawlydd fel arfer) yn nodi'n fyr iawn y materion y mae anghydfod yn eu cylch rhwng y partïon ac fel arfer rhaid i'r parti arall gytuno iddo

(c) datgelu ac archwilio dogfennau

(d) paratoi a chyflwyno datganiadau tystion

(e) gorchymyn Cynhadledd Rheoli Achos i ystyried beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt yr achos ar ôl datgelu a chyflwyno datganiadau tystion ac i ystyried a yw'r datganiadau o achos (plediadau) a'r datganiadau tystion yn gyflawn at ddibenion treial, a oes angen rhagor o gyfarwyddiadau yn ymwneud â thystiolaeth, ac a yw'r achos yn barod ar gyfer treial.

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn aml yn cael eu rhoi mewn gwaith blwch, h.y. gan y barnwr yn absenoldeb y naill barti neu'r llall. Dylai'r Gorchymyn ddatgan bod gan unrhyw barti yr hawl i wneud cais i'r llys i osod gorchymyn o'r neilltu neu i amrywio gorchymyn a wnaethpwyd gan y barnwr heb wrando ar y partïon. Ond, pa un a yw'n gwneud hynny neu beidio, mae gan bob parti yr hawl i wneud cais o'r fath. Ar ôl derbyn gorchymyn am gyfarwyddiadau, os ydych yn credu nad yw'n realistig ichi fodloni un neu fwy o'r cyfarwyddiadau, dylech wneud cais i'r llys i amrywio'r cyfarwyddyd/cyfarwyddiadau dan sylw. Os ydych yn gofyn am gyfnod byr ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd, byddwch yn aml yn cael yr amser mewn gorchymyn gwaith blwch arall. Ond, os byddwch am wneud newid radical i'r drefn cyfarwyddiadau, bydd y llys yn trefnu i'ch cais gael ei ystyried mewn gwrandawiad llafar.

13.6 Gall y llys wneud gorchmynion eraill naill ar gais parti neu ar ei liwt ei hun ar ôl adolygu'r ffeil. Er enghraifft:

(f) rhoi caniatâd i newid datganiad achos (fel arfer dim ond ar ôl cael cais gan barti) neu i'r Hawlydd gyflwyno Ateb

(g) gorchymyn y dylai mater penodol (er enghraifft, honiad bod yr hawliad wedi'i wahardd ar sail amser) gael ei glywed fel mater rhagarweiniol cyn y prif dreial.

(h) os yw parti wedi cyflwyno cais ysgrifenedig am ragor o wybodaeth yng nghyswllt llediad neu ddogfen neu ddatganiad tyst, gorchymyn i ddarparu'r wybodaeth erbyn dyddiad penodol

(i) caniatâd i gyfarwyddo a galw am dystiolaeth arbenigol yn y treial

Wrth ddrafftio cyfarwyddiadau rheoli achos, mae CPR Rhan 29.1(2) yn nodi'n benodol y dylai'r partïon a'r llys *gymryd fel eu man cychwyn unrhyw gyfarwyddiadau enghreifftiol a chyfarwyddiadau safonol perthnasol y gellir dod o hyd iddynt ar-lein yn* [www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil](www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil) *a'u haddasu fel y bo'n briodol i amgylchiadau'r achos*. Gallwch felly weld beth oedd y man cychwyn cyn i'r barnwr addasu'r cyfarwyddyd i'ch achos chi, ac os yw'n well gennych y cyfarwyddyd man cychwyn, gallwch ddwyn hyn i sylw'r barnwr pan fyddwch yn gwneud eich cais i amrywio'r cyfarwyddiadau a roddwyd neu eich cais i'w gosod o'r neilltu.

13.7 Ni chaiff y partïon amrywio'r amser a roddir gan y llys i gydymffurfio â'i gyfarwyddiadau, er bod yn rhaid dweud bod cyfreithwyr yn aml yn ceisio gwneud hyn ac efallai'n disgwyl i ymgyfreithiwr drosto'i hun gytuno i roi rhagor o amser ar gyfer eu cyfleustra hwy. Gall hyn fod yn gyfleus i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun hefyd, ac efallai mai'r agwedd fydd nad oes fawr y gall Barnwr ei wneud pan fydd y partïon yn cytuno. Mae llawer i'w ddweud am hynny ac mae'r rhan fwyaf o Farnwyr yn gwerthfawrogi eu bod yno er budd y partïon, ac nid fel arall. Ond dylai Barnwyr, ac fe fyddant yn ymateb yn anffafriol os bydd estyniadau amser anffurfiol a diawdurdod yn effeithio ar rediad rhestr y llys ac felly achosion ymgyfreithwyr eraill.

13.8 <u>Monitro cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau</u>

Rhoddir pŵer datganedig i'r llys yn y rheolau i gysylltu â'r partïon o bryd i'w gilydd i fonitro eu cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau. Rhaid i'r partïon ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau o'r fath oddi wrth y llys [CPR 3.1(8)]. Dyma bŵer defnyddiol i'r llys ond, yn anffodus, ychydig iawn o lysoedd fydd â'r adnoddau i fonitro cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau ac eithrio mewn ychydig iawn o achosion.

## C. Cynadleddau Rheoli Achos

13.9 Bydd y rhan fwyaf o achosion yn cael o leiaf un Gynhadledd Rheoli Achos (CRhA), a bydd rhai yn cael dwy neu fwy. Mae gan ganolfannau llysoedd gwahanol a barnwyr gwahanol ffyrdd gwahanol o ddelio â Chynadleddau Rheoli Achos. Fel y nodwyd uchod, pwrpas CRhA yw galluogi barnwr i ystyried y sefyllfa bresennol gyda'r achos ac i wneud unrhyw gyfarwyddiadau

sy'n ofynnol, yn ei farn ef, i symud yr achos yn ei flaen i dreial, neu i annog cyfryngu neu fathau eraill o ddatrysiad y tu allan i'r llys. Bydd llawer o farnwyr yn cyfarwyddo un neu fwy o Gynadleddau Rheoli Achos ychwanegol os ydynt yn teimlo bod ymgyfreithiwr drosto'i hun angen mwy o gymorth i baratoi ar gyfer y treial nag ymgyfreithwyr sy'n cael eu cynrychioli.

13.10 Yn y CRhC gyntaf ac weithiau yn y rhai dilynol, bydd y llys yn ystyried materion rheoli costau, ac efallai y bydd yn gwneud gorchymyn rheoli costau, gweler Pennod 14.

13.11 Mae'r CPR erbyn hyn yn gosod dyletswydd ar bob parti *i geisio cytuno ar gyfarwyddiadau priodol i reoli'r achos, a chyflwyno cyfarwyddiadau y cytunir arnynt, neu eu cynigion eu hunain i'r llys o leiaf saith niwrnod cyn unrhyw Gynhadledd Rheoli Achos. Os bydd y llys yn cymeradwyo'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt, neu'n cyhoeddi ei gyfarwyddiadau ei hun, bydd y llys yn hysbysu'r partïon am hynny a bydd y Gynhadledd Rheoli Achos yn cael ei ddadrestru*.

13.12 Nid yw hon yn ddyletswydd hawdd i ymgyfreithiwr drosto'i hun gydymffurfio â hi os nad oes ganddo brofiad blaenorol o achos llys. O ran ymgyfreithiwr sy'n cael ei gynrychioli, gall ei gyfreithwyr gymryd yr awenau, ond mae'n ddealladwy y bydd ymgyfreithiwr drosto'i hun yn wyliadwrus o dderbyn cyfarwyddiadau sy'n cael eu cynnig gan ei wrthwynebydd. Bydd barnwyr yn ymwybodol o'r anhawster hwn ac ychydig ohonynt, os bydd rhai o gwbl, fydd yn feirniadol o ymgyfreithiwr drosto'i a fydd yn well ganddo adael mater cyfarwyddiadau i'r llys. Yn anffodus, mae mater costau yn bodoli bob amser. Os bydd yr ymgyfreithiwr sy'n cael ei gynrychioli'n gwneud cynigion call y mae'n well gan yr ymgyfreithiwr drosto'i hun beidio â'u derbyn, bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal a fyddai fel arall efallai wedi cael ei osgoi. Oherwydd hyn gallai fod perygl y bydd y parti sy'n cael ei gynrychioli yn gofyn am orchymyn costau yn erbyn yr ymgyfreithiwr drosto'i hun. Onid yw'r achos yn gwbl glir, ni fydd y rhan fwyaf o farnwyr yn gorchymyn costau yn erbyn ymgyfreithiwr drosto'i hun yn yr amgylchiadau hyn, ond ni ellir anwybyddu'r posibilrwydd y gallai ddigwydd.

13.13 Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r Gynhadledd Rheoli Achos ac wedi adolygu'ch achos cyn mynd. Bydd hyn yn golygu awr neu ddwy o waith paratoi ar gyfer y gynhadledd. Bydd disgwyl ichi allu ateb unrhyw gwestiynau y bydd gan y barnwr am eich achos a beth yw'r sefyllfa gyda'ch gwaith paratoi. Mae rhai barnwyr yn gorchymyn paratoi a ffeilio Crynodeb o'r Achos. Dyma ddatganiad byr o'ch achos, ar un ochr A4 gobeithio – does dim angen rhoi adroddiad manwl. Bydd crynodeb achos da yn ddi-gynnen a bydd yn nodi natur yr anghydfod a'r materion sy'n codi yng nghyswllt y plediadau. Ceisiwch gytuno ar grynodeb achos â'ch gwrthwynebydd a'i ffeilio yn y llys cyn y gwrandawid fel y gall y barnwr ei ddarllen ac fel y bydd yn gwybod beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gyda'r achos pan fydd y gwrandawiad yn cychwyn. Peidiwch â bod ofn gofyn i'r barnwr wneud gorchymyn am restr materion neu baratoi a chytuno ar gronoleg os ydych yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cymharu eich rhestr chi o faterion neu eich cronoleg chi â rhai eich gwrthwynebydd sy'n cael ei gynrychioli. Gallwch hefyd ofyn i'r barnwr

orchymyn mai dim ond y materion ar y rhestr materion a gymeradwywyd gan y llys, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, fydd yn cael eu hystyried yn y gwrandawiad. Un fantais fawr i orchymyn o'r fath yw na allwch gael eich dal allan yn y treial gan fater nad ydych wedi rhoi sylw iddo ond y mae eich gwrthwynebydd sy'n cael ei gynrychioli wedi paratoi'n drwyadl ar ei gyfer.

## D. Adolygiad Cyn-Treial

13.14 Mewn llawer o achosion, bydd y llys yn gorchymyn Adolygiad Cyn-Treial a ddylai gael ei gynnal ychydig o wythnosau'n unig cyn dyddiad y treial. Yn yr adolygiad hwn, bydd y llys yn ystyried beth yw'r sefyllfa o ran paratoi'r achos, a delio ag unrhyw faterion trefniadol nad ydynt wedi cael sylw. Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwirio'n ofalus pa mor barod yr ydych ar gyfer treial ac a yw eich gwrthwynebydd wedi gwneud popeth y dylai fod wedi'i wneud i sicrhau bod y treial yn digwydd yn ddidrafferth. Dyma fydd eich cyfle olaf i gael cyfarwyddiadau gan y llys ar unrhyw agwedd ar y dystiolaeth neu'r paratoi ar gyfer y treial. Fel arfer, mae'r Adolygiad Cyn-Treial yn ymarfer defnyddiol iawn ac os nad yw'r llys neu'ch gwrthwynebydd yn awgrymu un, cofiwch ofyn am un eich hun.

13.15 Peidiwch â bod ofn codi unrhyw faterion sy'n eich poeni am yr achos neu'r treial sydd ar ddod. Mae'n llawer gwell trafod materion o'r fath â barnwr cyn y treial pan fydd amser ar gael i unioni pethau na chael eich hun o dan anfantais yn y treial oherwydd nad ydych wedi gwneud rhywbeth y dylech fod wedi'i wneud neu wedi camddeall beth sy'n ddisgwyliedig gennych. Bydd y rhan fwyaf o farnwyr yn barod i helpu. Efallai y byddwch yn dweud rhywbeth wrth y barnwr na ddylai ei wybod. Os gwnewch, bydd yn gallu trefnu i farnwr arall gymryd y treial. Mae hyn yn llawer gwell na gadael i faterion o'r fath ymddangos am y tro cyntaf yn y treial, gyda'r risg o beri embaras i farnwr y treial ac efallai gwastraffu costau.

13.16 Mae rhai barnwyr yn awyddus i gael amserlen wedi'i gosod ar gyfer y treial, gan roi cyfnodau penodol o amser ar gyfer y ddadl agoriadol, pob tyst a'r sylwadau cloi. Fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, efallai na fydd gennych fawr o syniad faint fydd proses y treial yn ei chymryd, a bydd yn rhaid ichi gael eich tywys gan y barnwr.

## E. Ceisiadau

13.17 Er bod modd cael gorchymyn am gyfarwyddyd penodol mewn Cynhadledd Rheoli Achos (gyhyd â bod rhybudd da yn cael ei roi i'r parti arall a'r llys y bydd cais am y cyfarwyddyd yn cael ei wneud), fel arfer bydd yn rhaid i ymgyfreithiwr wneud cais penodol os bydd angen cyfarwyddyd penodol gan y Llys arno i orchymyn ei wrthwynebydd i wneud rhywbeth neu i ddarparu rhywbeth (er enghraifft ateb Cais am Ragor y Wybodaeth, datgelu dogfennau) neu, os yw am gael caniatâd i wneud rhywbeth (er enghraifft cyflwyno tystiolaeth arbenigol neu ddiwygio datganiad achos).

13.18 Rhaid gwneud cais i’r llys lle mae'r achos yn mynd rhagddo (mae hyn yn amlwg efallai ond rhaid ei ddatgan) [CPR 23.2]. Dylid defnyddio Ffurflen N244 (PF244 yn yr Uchel Lys). Rhaid i’r hysbysiad o gais:

(1) datgan pa orchymyn y mae’r ceisydd yn ei geisio;

(2) esbonio’n fyr pam mae'r ceisydd yn ceisio'r gorchymyn;

(3) cael ei gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd [CPR 22].

(1) Mae'n syniad da, ond nid yn hanfodol, cysylltu drafft o'r gorchymyn y gwneir cais amdano i'r hysbysiad o gais. Gall ymgyfreithiwr drosto’i hun sy’n gofyn am orchymyn penodol ofyn i’r barnwr fod yn gyfrifol am ddrafftio’r ffurf derfynol. Ond mae'n bwysig fod yr ymgyfreithiwr yn gwybod ac yn esbonio beth sydd ei angen arno a pham.

(2) rhaid esbonio'n gryno pam y ceisir y gorchymyn ar Ffurflen N244. Ar adegau efallai y bydd yn rhaid esbonio'n fanwl naill ai'r cefndir i'r cais am orchymyn a/neu'r rhesymau pam yr awgrymir y dylid gwneud y gorchymyn. Bryd hynny, dylai’r ceisydd baratoi datganiad tyst ar wahân yn cynnwys y deunydd hwn, yn cael ei gadarnhau gan ddatganiad gwirionedd, a'i gyflwyno gyda'r hysbysiad o gais.

(3) mae’r rhan fwyaf o’r fersiynau o Ffurflen N244 yn cynnwys datganiad gwirionedd i’w lofnodi Rhaid ichi beidio ag anghofio llofnodi datganiad gwirionedd.

13.19 Mae’r Rheolau’n cyfeirio at y ‘ceisydd' ac 'atebydd' i gais sef, a bod yn gywir, y ffordd y dylid cyfeirio at y partïon at ddibenion y cais, pwy bynnag yw’r Hawlydd a’r Diffynnydd yn yr achos. Ond, mae’n llawer haws cadw at yr un teitl a chyfeirio at yr ‘hawlydd’ a’r ‘diffynnydd’ ac mae Ffurflen N244 yn ddoeth iawn yn bwrw ymlaen ar y sail hon.

13.20 Bydd Ffurflen N244 yn gofyn a ydych am i'r cais gael sylw (a) mewn gwrandawiad, (b) heb wrandawiad neu (c) mewn gwrandawiad dros y ffôn. Dim ond os yw'r mater yn syml y dylai ymgyfreithiwr ofyn am orchymyn heb wrandawiad, neu os bydd angen caniatâd y llys arno i gymryd cam yn yr achos a'i wrthwynebydd yn fodlon cytuno i'r gorchymyn gael ei wneud [CPR 23.8]. Mewn gwrandawiad yn y llys y bydd y rhan fwyaf o geisiadau sy'n cynnwys ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cael sylw. Os gwêl ymgyfreithiwr fod y llys wedi gwneud gorchymyn heb wrandawiad, ac yntau am herio'r gorchymyn hwnnw, mae ganddo saith niwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd y gorchymyn iddo i wneud cais i osod y gorchymyn o’r neilltu neu ei amrywio [CPR 23.10].

13.21 Rhaid i’r ceisydd gyflwyno copi o'r hysbysiad o gais i bob ymatebydd [CPR 23.4]. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddo gael ei gyflwyno a’i ffeilio yn y llys. Hefyd, rhaid i unrhyw ddatganiad tyst neu orchymyn drafft sydd wedi'i ffeilio yn llys gael ei gyflwyno hefyd i bob atebydd [CPR 23.7]. Mae ‘cyn gynted ag y bo modd’ yn golygu yn union hynny, ac efallai y bydd ceisydd sy’n oedi cyn cyflwyno copïau o’r hysbysiad wynebu costau.

Mewn unrhyw achos, onid oes amgylchiadau arbennig, rhaid cyflwyno'r copi o'r hysbysiad o leiaf 3 diwrnod clir cyn unrhyw ddyddiad sydd wedi'i bennu ar gyfer gwrando'r cais.

13.22 Bydd dyddiad ac amser gwrandawiad yn cael ei roi i'r cais. Dylai'r partïon geisio cytuno ar y cyfarwyddiadau a hysbysu'r Llys am unrhyw gytundeb cyn gynted ag y bo modd er mwyn osgoi gwastraffu amser gwrando. Os na cheir cytundeb, dylai'r partïon fynychu'r gwrandawiad.

## F. Ceisiadau penodol

Ceisiadau am Ragor o Wybodaeth [CPR 18]

13.23 Gall parti ofyn i barti arall ddarparu rhagor o wybodaeth i esbonio rhagor ar unrhyw fater yn yr achos sy'n destun anghydfod neu ddarparu mwy o wybodaeth am fater o'r fath. Defnyddir 'Cais am Ragor o Wybodaeth' (RFI) i wneud hyn a all fod ar unrhyw ffurf. Fel arfer mae Cais am Ragor o Wybodaeth yn deillio o rywbeth sydd wedi cael ei ddatgan gan y parti sy'n gwrthwynebu yn ei blediad neu ddatganiad tyst, neu lle mae dogfen wedi cael ei datgelu ac nid yw'n glir o dermau'r ddogfen o ble mae wedi dod neu am beth mae'n sôn. Ond, gall Cais am Ragor o Wybodaeth fod yn gysylltiedig ag unrhyw beth sy'n codi yn yr achos.

13.24 Dylid cyflwyno Cais am Ragor o Wybodaeth yn ysgrifenedig ac yn uniongyrchol i'r parti y mae wedi'i gyfeirio ato. Dylai'r cais fod yn glir. Cyflawnir hyn orau drwy nodi'r paragraff yn y plediad neu'r ddogfen neu'r datganiad tyst perthnasol y gwneir y cais yn ei gylch a nodi'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn ceisiadau byr wedi'u rhifo. Dylai'r ceisiadau hyn fod yn gryno ac wedi'u cyfyngu i faterion sy'n rhesymol angenrheidiol i alluogi'r parti i ddeall a delio ag achos ei wrthwynebydd. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 18 y CPR yn gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer gwneud Cais am Ragor y Wybodaeth.

13.25 Rhaid i'r ymateb i gais o'r fath fod yn ysgrifenedig, wedi'i ddyddio a'i lofnodi gan y parti neu ei gynrychiolydd cyfreithiol ynghyd â datganiad gwirionedd [CPR 18.1(3)].

13.26 Os na fydd parti yn ymateb i gais ysgrifenedig am ragor o wybodaeth, gall y parti sy'n gofyn am y wybodaeth gyflwyno cais i'r llys am orchymyn yn mynnu bod y parti yn ateb y cais. Dim ond os yw'r llys yn fodlon bod y cais yn briodol ac yn gymesur yn amgylchiadau'r achos y bydd y llys yn gwneud gorchymyn i'r cais gael ei ateb. Os gwrthwynebir cais am orchymyn, fel arfer bydd y sawl sy'n colli'r cais yn gorfod talu costau'r cais hwnnw a'u talu o fewn wythnosau i'r gwrandawiad hyd yn oed os yw hynny cyn y daw'r achos i dreial.

<u>Sicrhau Costau</u> [CPR 25.12-25.15]

13.27 Rhaid i barti sy'n gorfod 'sicrhau costau' dalu swm o arian i mewn i'r llys neu ddarparu sicrwydd arall i ddiogelu ei wrthwynebydd rhag costau amddiffyn yr achos, os bydd yr hawlydd yn colli yn y pen draw. Dim ond hawlydd fydd yn cael gorchymyn i sicrhau costau, ond mae diffynnydd sy'n dod â gwrth-hawliad yn hawlydd yn y gwrth-hawliad hwnnw ac felly efallai y gellir gorchymyn iddo ef hefyd sicrhau costau'r gwrth-hawliad.

13.28 Mae'r amgylchiadau lle bydd y Llys yn gorchymyn i un parti sicrhau costau yn gyfyngedig iawn. Mae CPR 25.12 a 25.13 yn cynnwys rheolau manwl y dylech eu hastudio'n ofalus, ond yn gryno:-

(1) Rhaid i'r Diffynnydd sy'n gwneud cais am sicrwydd sefydlu un o'r amgylchiadau canlynol:-
   (a) mae'r Hawlydd yn preswylio dramor (h.y. y tu allan i'r UE a rhai gwledydd Ewropeaidd eraill),
   (b) mae'r Hawlydd yn hawlydd nominal ac mae lle i gredu na fydd yn gallu talu costau'r diffynnydd os caiff orchymyn i wneud hynny,
   (c) mae'r Hawlydd yn gwmni ac mae lle i gredu na fydd yn gallu talu costau'r diffynnydd os caiff orchymyn i wneud hynny, neu
   (d) mae'r Hawlydd wedi newid ei gyfeiriad er mwyn osgoi canlyniadau ymgyfreitha neu wedi methu rhoi ei gyfeiriad cywir neu unrhyw gyfeiriad, neu
   (e) mae'r Hawlydd wedi cymryd camau i roi ei asedau allan o gyrraedd fel y bydd yn anodd gorfodi unrhyw orchymyn am gostau (er enghraifft drwy eu trosglwyddo i unigolyn arall neu dramor).

(2) Mae'r llys yn cadw disgresiwn eang a rhaid iddo fodloni ei hun ei bod yn gyfiawn gwneud y gorchymyn yn yr holl amgylchiadau. Mae'r llys hefyd yn cadw disgresiwn eang ynghylch maint unrhyw sicrwydd a'r modd y caiff sicrwydd o'r fath ei roi, a'r amser ar gyfer ei roi.

13.29 Dylai'r diffynnydd wneud cais i'r Llys cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o unrhyw amgylchiadau lle gellid gorchymyn sicrwydd. Oedi yw un mater y bydd y llys yn ei ystyried wrth ystyried a ddylai ddefnyddio ei ddisgresiwn i orchymyn sicrwydd ar gyfer costau. Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig a'i gefnogi gan dystiolaeth sy'n sefydlu'r meini prawf perthnasol. Yn ddelfrydol, dylai hefyd roi manylion unrhyw gostau sydd wedi'u hwynebu eisoes ac amcangyfrif o gostau i ddod hyd at y treial.

13.30 Bydd unrhyw orchymyn yn nodi maint unrhyw sicrwydd a nodi erbyn pryd ac ym mha ffordd y bydd yn cael ei wneud. Bydd methu rhoi'r sicrwydd a fynnir gan y llys fel arfer yn arwain at gofnodi dyfarniad o blaid y diffynnydd yn erbyn yr hawlydd.

<u>Dileu</u> [CPR 3.4]

13.31 Mae gan y Llys y pŵer i ddileu unrhyw ddatganiad achos os yw'n ymddangos i'r llys:

(a) nad yw’r datganiad achos yn rhoi sail resymol dros gyflwyno neu amddiffyn yr achos, neu

(b) bod y datganiad achos yn camddefnyddio proses y llys neu fel arall yn debygol o rwystro’r broses o ddod i benderfyniad cyfiawn ynghylch yr achos, neu

(c) y bu methiant i gydymffurfio â rheol, cyfarwyddyd ymarfer neu orchymyn llys.

13.32 Gall y Llys arfer y pŵer hwn ar ei liwt ei hun neu gall parti wneud cais i’r Llys i ddileu holl achos neu ran o achos ei wrthwynebydd. Yn gyffredinol, dylai cais o’r fath gael ei wneud yn gynnar yn yr achos ond mae’r pŵer i wneud cais o'r fath ar gael unrhyw bryd (hyd yn oed yn ystod treial). Os bydd y datganiad achos yn ei gyfanrwydd yn cael ei ddileu, bydd y gwrthwynebydd yn gallu cael dyfarniad a chostau. Os dilëir rhan yn unig o’r datganiad achos, ni fydd y parti’n gallu dibynnu ar y rhan honno mewn unrhyw dreial wedyn.

13.33 Bydd y llys yn dileu datganiad achos i gyd, neu ran ohono, os yw'n "flinderus", sef bod y datganiad achos yn afresymol o annelwig, yn annealladwy, yn ddifrïol, neu’n amlwg yn ddi-sail. Hefyd, bydd y datganiad achos yn cael ei ddileu os nad yw'n cyflwyno hawliad neu amddiffyniad y gellir ei gydnabod yn gyfreithiol neu os yw parti yn ceisio ail-ymgyfreitha achos y mae llys wedi penderfynu arno yn flaenorol. Os yw un parti yn credu y gellir disgrifio achos ei wrthwynebydd fel achos blinderus neu fel achos anobeithiol o wan neu annheilwng, gellir gwneud cais i’r llys i ddileu’r achos a dyfarnu o’i blaid, i osgoi gwastraffu rhagor o arian ac amser y llys.

13.34 Dim ond os yw’r llys yn fodlon fod yr hawliad neu’r amddiffyniad yn siŵr o fethu y bydd cais o’r fath yn llwyddiannus. Rhaid i geisydd am orchymyn dileu gofio mai hanfod y broses ymgyfreitha sifil yw treial lle bydd tystion yn rhoi tystiolaeth ar lafar. Y dull arferol a ddefnyddir gan Farnwr sy'n derbyn cais i ddileu datganiad achos oherwydd ei fod yn flinderus yw gofyn a yw'r achos, ar y sail y bydd yr holl faterion ffeithiol a haerir gan yr ymgyfreithiwr yn cael eu profi yn y treial, yn dal yn anobeithiol o wan ac yn siŵr o fethu. Ni fydd y Barnwr yn chwilio am ffeithiau. Mae’n gweithredu ar y sail bod y ffeithiau sydd wedi’u pledio yn wir er y gall fod o’r farn nad oes gan yr ymgyfreithiwr fawr o siawns o brofi'r ffeithiau hynny yn y treial.

<u>Dyfarniad Diannod</u> [CPR Rhan 24]

13.35 Mae gan y llys y pŵer i roi dyfarniad diannod (h.y. dyfarniad heb dreial) yn erbyn hawlydd neu ddiffynnydd ar hawliad cyfan neu ar fater penodol a godir yn yr achos. Gellir rhoi dyfarniad yn ddiannod dim ond os yw'r llys yn fodlon naill ai

(1) nad oes gan yr hawlydd unrhyw obaith go iawn o lwyddo gyda’r hawliad neu fater, neu nad oes gan y diffynnydd unrhyw obaith go iawn o amddiffyn yr hawliad neu’r mater yn llwyddiannus, a

(2) nad oes unrhyw reswm cryf arall pam y dylid penderfynu ar yr achos neu’r mater drwy dreial.

13.36 Nid ar chwarae bach y dylid gwneud ceisiadau am ddyfarniad diannod. Rhaid i’r ceisydd fod yn gwbl hyderus bod ei achos yn anatebadwy neu fod achos ei wrthwynebydd yn hollol ddi-ddadl. Dylid gwneud cais am ddyfarniad diannod yn gynnar yn yr achos fel arfer. Ond gall parti, ar ôl adolygu tystiolaeth ei wrthwynebydd, ddod i’r casgliad bod ei wrthwynebydd yn siŵr o golli un ai'r achos cyfan neu fater penodol a gwneud cais am ddyfarniad diannod i arbed costau treial neu gostau yn ystod treial. Dylai ceisydd sy’n gwneud cais am ddyfarniad diannod cyn y broses ddatgelu gofio y bydd y llys am sicrhau nad oes unrhyw anghyfiawnder yn cael ei wneud drwy ystyried y mater cyn datgelu, a dylai gynnwys copïau o'r holl ddogfennau perthnasol yn ei dystiolaeth.

13.37 Bydd ceisydd am ddyfarniad diannod fel arfer yn dymuno dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig drwy gyfwng datganiadau tystion wedi’u cadarnhau gan ddatganiad gwirionedd. Rhaid i’r dystiolaeth honno gael ei ffeilio a’i chyflwyno i’r gwrthwynebydd o leiaf saith niwrnod cyn y gwrandawiad (er y byddai’n well ei chyflwyno gyda’r cais) fel y bydd gan yr atebydd i'r cais gyfle i gyflwyno ei dystiolaeth ei hun.

13.38 Ni fydd y llys sy’n gwrando’r cais am ddyfarniad diannod yn ystyried tystiolaeth fanwl nac yn ymgymryd â dadansoddiad cymhleth o'r ffeithiau. Ni fydd yn cynnal treial bach a dim ond lle mae'r materion yn glir y bydd yn rhoi dyfarniad diannod, ac nad oes gan un parti obaith rhesymol o lwyddo naill ai yng nghyswllt yr achos cyfan neu yng nghyswllt mater penodol. Mewn achosion lle mae’r llys o’r farn bod gan y ceisydd ddadl gref ond bod digon o amheuon i gyfiawnhau gorchymyn bod yr achos yn symud i dreial, gall y Barnwr osod amodau ar yr atebydd ynghylch ar ba sail y gall amddiffyn yr hawliad neu barhau i dreial.

13.39 Dylai ymgyfreithiwr drosto’i hun sy’n wynebu cais am ddyfarniad diannod yn ei erbyn geisio sicrhau ei fod yn cyflwyno ei achos cryfaf yn ei dystiolaeth tyst a dweud wrth y llys lle mae dogfennau ar gael o bosibl, nad ydynt wedi'u datgelu eto, a allai gael effaith bwysig ar ganlyniad treial.

<u>Mater Rhagarweiniol</u>

13.40 Bydd achlysuron yn codi pan fydd un mater penodol mor eithriadol o bwysig i hawliad yr hawlydd (neu amddiffyniad y diffynnydd i’r hawliad) nes, os collir yng nghyswllt y mater hwnnw, mae'n anochel y bydd yr hawliad neu’r amddiffyniad yn colli, beth bynnag fydd penderfyniad y llys ar y materion eraill. Mewn achosion o'r fath gall wneud synnwyr cael treial ar gyfer y mater hwnnw cyn y materion eraill, a dyna’r rheswm am y term 'mater rhagarweiniol'. Nid oes pwrpas i'r ddau barti dreulio amser ac arian yn paratoi ar gyfer y materion sy'n codi os bydd y mater rhagarweiniol yn mynd o blaid yr hawlydd (neu’r diffynnydd) a’r materion eraill yn mynd yn amherthnasol.

13.41 Popeth yn iawn hyd yma. Os yw'n amlwg y bydd mater y gwneir penderfyniad arno mewn un ffordd yn dod â'r achos i ben, yn aml bydd yn syniad da rhoi hwnnw ar brawf yn gyntaf mewn gwrandawiad ar wahân. Ond weithiau, mae partïon yn perswadio'r llys y byddai'n syniad da rhoi un neu fwy o faterion ar brawf cyn y materion eraill dim ond i ganfod nad yw datrys y materion hyn wedi newid dim ar sefyllfa'r partïon. Mae llawer o enghreifftiau o'r Llys Apêl (doeth drannoeth y drin wrth gwrs) yn rhybuddio partïon yn erbyn materion rhagarweiniol ac yn rhybuddio'r llys rhag eu gorchymyn. Serch hynny gall ymddangos yn ddeniadol iawn rhoi mater rhagarweiniol ar brawf fel y gall y partïon wybod a oes angen gwrthwynebu'r materion eraill.

13.42 Mae cynnig neu gytuno i roi mater rhagarweiniol ar brawf yn gallu bod yn anodd iawn ac nid ar chwarae bach y dylid gwneud hyn. Er y gall materion fod yn annibynnol ar ei gilydd, dylid cofio y gall hygrededd tystiolaeth un parti gael ei niweidio'n ddifrifol yng nghyswllt un mater, a gall hyn effeithio ar y penderfyniad y bydd y llys yn ei wneud ar y materion eraill. Dyna pam y mae yswirwyr yn rheolaidd yn gwrthwynebu clywed ceisiadau mewn achosion anaf personol am atebolrwydd cyn mater iawndal. Wrth gwrs, os nad yw'r hawlydd yn gallu sefydlu bod y diffynnydd yn atebol am y ddamwain a achosodd anaf yr hawlydd, nid yw mater dyfarnu iawndal yn codi a bydd y gost a'r drafferth o baratoi ar gyfer materion yng nghyswllt iawndal wedi'i wastraffu i bob golwg. Ond, os bydd y diffynnydd am anghydweld â fersiwn yr hawlydd o'r hyn a ddigwyddodd, efallai y bydd yn llawer haws iddo os nad yw'r llys yn credu'r hawlydd ar faterion iawndal.

13.43 Ar gyfer yr ymgyfreithiwr drosto'i hun, mae'n debyg ei bod yn well gadael i'r llys benderfynu a yw'r achos yn briodol ar gyfer profi un neu fwy o faterion rhagarweiniol a gwrthwynebwch unrhyw gais y bydd eich gwrthwynebydd yn ei wneud o bosibl am ddadl ragarweiniol os ydych yn teimlo y gallai profi'r holl ffeithiau gyda'i gilydd fod yn fanteisiol i chi.

## G. Rhwymedïau interim

13.44 Mewn rhai achosion gellir cael gorchymyn am rwymedi a fydd yn gweithredu tan wrandawiad y treial. Os yw'r hawlydd yn poeni bod y diffynnydd yn parhau i wneud rhywbeth na ddylai fod yn ei wneud, ac y bydd yn gwneud pethau'n waeth erbyn y daw'r achos i dreial, gall y llys wneud gorchymyn i gadw'r sefyllfa fel y mae tan y treial. Mae llawer o'r gorchmynion hyn ar ffurf 'gwaharddebau', sef gorchymyn yn gwahardd parti rhag gwneud rhywbeth (neu, yn achlysurol, gorchymyn sy'n mynnu bod parti yn gwneud rhywbeth). Ond nid dim ond gwaharddebau mae llys yn gallu'u rhoi fel rhwymedi interim. Mae enghreifftiau o rwymedïau interim yn cynnwys gorchmynion i wneud y canlynol:

(a) peidio â gwneud rhywbeth tan ar ôl y gwrandawiad terfynol (e.e. stopio gwaith adeiladu ar dir y mae'r hawlydd yn haeru sy'n eiddo iddo ef);

(b) cadw a diogelu gwrthrych y mae'r partïon yn ymgyfreitha yn ei gylch (e.e. car neu ased gwerthfawr arall);

(c) peidio â delio ag asedau neilltuol neu beidio â'u symud o'r awdurdodaeth (gwaharddeb rhewi - dim ond barnwr Uchel Lys all roi gorchymyn o'r fath cyn y treial);

(d) talu rhywfaint o iawndal i'r Hawlydd cyn y gwrandawiad terfynol (gorchymyn a wneir dim ond os yw'n amlwg y bydd iawndal yn cael ei dalu gan y Diffynnydd ond bod y partïon yn anghydweld â'r swm);

(e) ffeilio cyfrifon busnes (e.e. mewn anghydfod yng nghyswllt cyfranddalwyr neu bartneriaeth);

(f) talu arian a dderbyniwyd yng nghwrs busnes neu wrth ddefnyddio ased i gyfrif enwebedig neu i'r llys (gorchymyn arall a allai fod yn briodol mewn anghydfod dros fusnes).

13.45 Rhaid i barti sy'n ceisio gorchymyn am rwymedi interim gyflwyno cais gyda datganiadau tystion ysgrifenedig a dogfennau perthnasol i gefnogi. Dyma faes anodd i ymgyfreithiwr drosto'i hun. Ond mewn rhai achosion efallai ei fod yn hanfodol cadw'r sefyllfa fel yr oedd cyn y treial oherwydd, heb y fath amddiffyniad, efallai y bydd yr ymgyfreithiwr yn cael ei adael gyda buddugoliaeth wag ar ddiwedd y treial.

13.46 Mae gorchmynion am rwymedïau interim yn cael eu gwneud bod amser yn ôl disgresiwn y Llys. Y rheol gyffredinol yw bod yn rhaid i'r parti sy'n gwneud cais am rwymedi interim ddangos dau beth sef:

(1) bod cwestiwn difrifol i'w brofi

(2) bod y cydbwysedd o ran cyfleustra yn ffafrio gwneud gorchymyn interim.

Nodwyd yr egwyddorion hyn mewn achos yn Nhŷ'r Arglwyddi *American Cyanamid Co (No.1) v Ethicon Ltd* [1975] AC 396 ac efallai y bydd ymgyfreithiwr drosto'i'hun yn clywed cyfreithwyr a'r barnwr yn cyfeirio at egwyddorion 'American Cyanamid'. Mae dau bwynt pwysig yn deillio o'r achos. Yn gyntaf, does dim rhaid i'r hawlydd ddangos bod ganddo achos da neu ei fod yn debygol o ennill yn y treial. Mae'n ddigon ei fod yn dangos bod ganddo achos priodol, nad yw'n amlwg yn anobeithiol. Yn ail, rhaid i'r Barnwr ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a phenderfynu a yw'r 'cydbwysedd o ran cyfleustra' yn ffafrio gwneud y gorchymyn a geisir neu beidio. I ddweud y gwir, dim ond i waharddebau interim y mae egwyddorion American Cyanmid yn berthnasol, ond maent yn dangos y dull cyffredinol y bydd y llys yn ei ddefnyddio yng nghyswllt unrhyw gais am rwymedïau interim.

13.47 Bydd y Barnwr sy'n gwneud gorchymyn rhwymedi interim (y cyfeirir ato'n aml fel 'ymwared interim') bob amser yn ymwybodol y gall barnwr y treial yn y gwrandawiad pan gaiff ei gynnal benderfynu nad oes gan yr Hawlydd achos da, ac felly gallai gwneud y rhwymedi interim fod wedi gwneud drwg i'r Diffynnydd e.e. ei atal rhag gwneud rhywbeth yr oedd ganddo hawl ei wneud. Yn ddieithriad bron, bydd y Barnwr sy'n rhoi ymwared interim yn gwneud

hynny dim ond os bydd yr Hawlydd yn rhoi ‘croesymgymeriad yng nghyswllt iawndal’, h.y. yn gwneud addewid gorfodadwy i ddigolledu’r Diffynnydd am unrhyw golledion (y llys i benderfynu arnynt) y bydd y Diffynnydd o bosibl wedi’u hwynebu wrth iddo gydymffurfio â’r gorchymyn rhwymedi interim.

13.48 Mae’n dilyn y dylai ymgyfreithiwr sy'n gwneud cais am ymwared interim fel arfer gynnig rhoi croesymgymeriad yng nghyswllt iawndal ac (yn bwysig iawn) ffeilio tystiolaeth i ddangos bod ganddo asedau digonol i fodloni unrhyw orchymyn am iawndal a allai gael ei wneud o dan y croesymgymeriad. Oherwydd hyn, efallai na fydd ymwared interim ar gael i ymgyfreithiwr sydd ag ychydig o asedau mewn amgylchiadau lle byddai ymgyfreithiwr cyfoethog yn cael ymwared. Does dim modd osgoi’r sefyllfa. Ond, mewn achosion priodol, bydd y llysoedd yn gwneud yr hyn a allant i ddiogelu ymgyfreithwyr wrth ddisgwyl am y treial.

## H. Costau gwrandawiadau interim

13.49 Pan fydd y llys yn cynnal Cynhadledd Rheoli Achos neu Adolygiad Cyn-Treial i ystyried y sefyllfa gyda'r achos ac a ddylid gwneud cyfarwyddiadau a pha rai, y gorchymyn arferol ar gyfer costau yw 'costau yn yr achos'. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bwy bynnag sy’n colli’r achos ar ddiwedd y dydd dalu costau’r parti llwyddiannus oni bai y bydd barnwr y treial yn gorchymyn fel arall.

13.50 Gyda phob cais arall, bydd y llys yn gwneud gorchymyn am gostau a ystyrir yn briodol gan y barnwr. Os oedd y cais yn cael ei wrthwynebu, y gorchymyn arferol yw bod y sawl sy’n colli’n talu costau’r enillydd. Ond gellir gwneud gorchymyn gwahanol os yw'r Barnwr, yn amgylchiadau'r achos, yn ystyried bod modd cyfiawnhau gorchymyn arall. Weithiau nid yw’n hawdd bod yn sicr pa barti sydd wedi bod yn llwyddiannus, ac efallai y bydd y Barnwr yn gorchymyn costau yn yr achos.

13.51 O dan CPR, yr egwyddor gyffredinol (yn wahanol i arfer blaenorol) yw y dylai costau gwrandawiad interim (a) cael eu hasesu’n ddiannod gan y barnwr sy'n clywed cais, a hefyd (b) cael eu talu yn fuan iawn ar ôl y gwrandawiad (14 – 28 diwrnod) a pheidio ag aros tan ddiwedd yr achos. I helpu’r barnwr i asesu costau yn y gwrandawiad, dylai pob ymgyfreithiwr sy’n gobeithio cael gorchymyn am gostau ffeilio rhestr costau yn nodi pa gostau y bydd yn eu hawlio.

13.52 Dim ond cyfle bach iawn sydd gan ymgyfreithiwr drosto’i hun i hawlio costau (gweler pennod 17) ond dylai barhau i ffeilio rhestr. Pan fydd ymgyfreithiwr drosto'i hun yn wynebu rhestr costau cyfreithiwr wedi’i ffeilio gan wrthwynebydd efallai y bydd yn ei chael yn anodd iawn herio'r costau sy'n cael eu hawlio. Ond, dylai’r Barnwr sy’n gwrando’r cais allu asesu’r costau a lleihau'r bil os yw hynny'n briodol heb i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun orfod dadlau'r mater. Bellach bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyfeirio at y gyllideb costau y mae’n rhaid i barti a gynrychiolir ei chyflwyno erbyn hyn at ddibenion rheoli costau, gweler Pennod 14.

# Pennod 14
# Rheoli Costau

A. Diwygiadau 'Jackson'
B. Yr effaith ar Ymgyfreithwyr drostynt eu hunain
C. Rheoli costau mewn achosion amldrac
D. Capio costau

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Ers 1 Ebrill 2013 mae newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil. Bwriad y newidiadau yw galluogi'r llys i reoli, a gobeithio, leihau'r costau y gall parti a gynrychiolir ac sy'n llwyddiannus eu hadennill oddi wrth ei wrthwynebydd pa un a yw'n cael ei gynrychioli neu'n ymgyfreithiwr drosto'i hun.*

*(2) Mae gan y llys ddyletswydd i ddelio ag achosion "yn gyfiawn ac ar gost gymesur". Mae hyn yn golygu na all y costau y gall ymgyfreithiwr llwyddiannus eu hadennill fod yn fwy na'r hyn sy'n haeddiannol yng nghyswllt yr achos, gan ystyried maint y swm yn y fantol neu werth unrhyw rwymedi anariannol a ddyfernir a chymhlethdod yr achos unigol.*

*(3) Ymhob achos amldrac, rhaid i bartïon a gynrychiolir ddarparu cyllidebau yn dangos y costau y maent wedi'u hwynebu a'r costau y maent yn debygol o'u hwynebu wrth fwrw ymlaen â'r ymgyfreitha. Rhaid defnyddio ffurflen 'Precedent H' ar gyfer y cyllidebau hyn.*

*(4) Does dim rhaid i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ddarparu cyllideb.*

*(5) Bydd y llys yn cynnal un neu fwy o Gynadleddau Rheoli Costau i ystyried cyllideb ymgyfreithiwr sy'n cael ei gynrychioli. Oni bai fod yr ymgyfreithiwr drosto'i hun yn cytuno â chyllideb ei wrthwynebydd, gall y llys ddiwygio cyllideb os yw'r barnwr yn teimlo ei bod yn anghymesur.*

*(6) Ni ddylai ymgyfreithiwr drosto'i hun gytuno â chyllideb ei wrthwynebydd sy'n cael ei gynrychioli oni bai ei fod yn siŵr ei bod yn rhesymol. Mae'n well gadael i'r barnwr benderfynu a yw'r costau sy'n cael eu cynnig yn gymesur.*

(7) *Caiff ymgyfreithiwr drosto'i hun wneud cais am orchymyn capio costau sy'n cyfyngu ar y swm y gall yr ymgyfreithiwr sy'n cael ei gynrychioli ei adennill os bydd yn llwyddiannus.*

(8) *Mae darpariaethau'r CPR yn ei gwneud yn anodd cael gorchymyn capio costau, ond dylech ystyried hyn.*

## A. 'Diwygiadau Jackson'

14.1 Ar ôl cyflwyno'r Rheolau Trefniadaeth Sifil [CPR] yn dilyn adroddiad terfynol ymchwiliad 'Access to Justice' yr Arglwydd Woolf, y gobaith oedd y byddai costau cyfreithiol yn gostwng mewn achosion sifil. Ond ni wireddwyd gobeithion o'r fath, a pharhaodd costau cyfreithiol i godi, yn gynt o bosibl nag yn flaenorol. Yn 2008, gofynnwyd i Syr Rupert Jackson, Arglwydd Ustus Apêl, baratoi adroddiad am gostau ymgyfreitha sifil ac agweddau cysylltiedig ar ariannu mewn achosion sifil. Mae ei Adroddiad Terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, yn dilyn ymarfer ymgynghori eang, yn waith enfawr sy'n adlewyrchu brwdfrydedd ac egni'r awdur.

14.2 Er bod yr Adroddiad Terfynol yn argymell cyflwyno system o reoli costau mewn achosion sifil, roedd Syr Rupert yn cydnabod y byddai gan system o'r fath elfennau cadarnhaol a negyddol. Ymysg y ffactorau negyddol fyddai costau ychwanegol yn sgil cyflwyno gweithdrefnau newydd i'r broses ymgyfreitha, a'r gofynion ychwanegol ar adnoddau llys cyfyngedig iawn sydd eisoes yn cael eu defnyddio i'r eithaf yn sgil cyflwyno system rheolau costau. Serch hynny, roedd Syr Rupert o'r farn y byddai'n ddoeth i'r llys ystyried cost wrth reoli achos a theimlai y byddai rheoli costau, petai'n cael ei wneud yn iawn, yn arbed mwy o gostau nag yr oedd yn eu cynhyrchu.

14.3 Canlyniad adroddiad Jackson yw strwythur Rheoli Costau sy'n seiliedig ar bedair elfen hanfodol:

(1) rhaid i'r partïon baratoi a chyfnewid cyllidebau ymgyfreitha a all gael eu diwygio wrth i'r achos fynd rhagddo;
(2) rhaid i'r llys ystyried y cyllidebau a datgan i ba raddau y'u cymeradwyir;
(3) hyd y bo modd, rhaid i'r llys reoli'r achos fel ei fod yn mynd rhagddo o fewn y cyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo;
(4) ar ddiwedd yr ymgyfreitha, bydd y costau y gall y parti llwyddiannus eu hadennill yn cael eu hasesu yn unol â'r gyllideb a gafodd ei chymeradwyo.

Mae'r strwythur newydd hwn mewn grym ar gyfer pob achos amldrac a gychwynnir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2013 mewn unrhyw lys sirol neu yn Adrannau Siawnsri neu Fainc y Frenhines yr Uchel Lys ac eithrio Llysoedd y Morlys a'r Llysoedd Masnachol ac mewn achosion Difenwi. Dyma ran o becyn o ddiwygiadau a ddaeth i rym o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a

Chosbi Troseddwyr 2012. Nid yw trafod y pecyn diwygiadau hwn yn rhan o gwmpas y gwaith hwn, ond mae'n cynnwys dileu gallu ymgyfreithwyr i adennill ffioedd llwyddo sy'n daladwy o dan gytundebau ffioedd amodol a chost premiymau i ariannu polisïau yswiriant ar-ôl-y-digwyddiad. Yn y pecyn hefyd, bydd dyfarniadau ar gyfer iawndal cyffredinol mewn hawliadau anaf personol yn cynyddu 10% ar ôl 1 Ebrill 2013.

14.4 Mae'r strwythur rheoli costau newydd yn cael ei roi ar waith drwy ddiwygiadau i'r CPR. Mae'r diwygiadau hyn yn fwy na dim ond cyflwyno rheolau sy'n darparu ar gyfer rheoli costau. Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r diffiniad o'r Prif Amcan [CPR1.1], y rheol ar gyfer rhyddhad o sancsiynau [CPR 3.9], cyflwyno 'Holiadur Cyfarwyddiadau' yn lle'r hen Holiadur Dyrannu [CPR 26.3], y rheolau'n ymwneud â Datgelu [CPR 31.5], a'r rheolau'n ymwneud â datganiadau tystion [CPR 32.2]. Mae'n bwysig nodi bod unrhyw destun neu esboniad sydd gennych sydd wedi'i gyhoeddi cyn mis Mawrth 2013 yn sicr bron o fod yn hen yng nghyswllt y rhain. Mae'r newidiadau perthnasol i'r CPR wedi cael eu hymgorffori yn nhestun y Llawlyfr hwn fel y bo'n briodol.

## B. Yr effaith ar ymgyfreithwyr drostynt eu hunain

14.5 Does dim rhaid i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain baratoi a ffeilio cyllideb costau [CPR 3.13]. Ond, mae'n rhaid i ymgyfreithiwr sy'n cael ei gynrychioli sy'n gwrthwynebu ymgyfreithiwr drosto'i hun ffeilio cyllideb costau a bydd yn rhaid ei gyflwyno i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun oni fydd y llys yn gorchymyn fel arall [CPR 3.13]. Pan fydd y llys yn cynnal cynhadledd rheoli costau, mater i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun fydd cyflwyno sylwadau am faint cyllideb ei wrthwynebydd. Gall hyn fod yn dasg anodd i ymgyfreithiwr nad oes ganddo brofiad o asesu costau cyfreithwyr, a bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o ymgyfreithwyr ddibynnu ar y barnwr i ystyried pa mor rhesymol yw'r gyllideb a'i chadw dan reolaeth. Bydd y rhan fwyaf o Farnwyr Rhanbarth wedi bod yn gyfreithwyr mewn practis preifat cyn dod yn farnwyr a byddant mewn sefyllfa dda i asesu pa mor rhesymol yw'r gyllideb.

14.6 Prif fantais y broses rheoli costau i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun yw y bydd ganddo syniad gwell o beth fydd cost colli'r ymgyfreitha nag a oedd ganddo cyn cyflwyno'r broses rheoli costau. O gam cynnar yn yr ymgyfreitha, bydd yn rhaid i gyfreithiwr y parti sy'n cael ei gynrychioli ddarparu amcangyfrifon o'r holl gostau a fydd yn cael eu hysgwyddo yn yr ymgyfreitha, ac er y bydd modd cynyddu neu leihau rhywfaint ar yr amcangyfrifon hyn os ceir datblygiadau pwysig yn yr ymgyfreitha, bydd yr ymgyfreithiwr drosto'i hun yn gwybod ymhell cyn y treial beth fydd cost debygol colli'r achos.

## C. Rheoli costau mewn achosion amldrac

14.7 Pwrpas rheoli costau yw sicrhau bod y llys yn rheoli'r camau i'w cymryd a'r costau i'w hwynebu gan y partïon mewn unrhyw achos er mwyn hyrwyddo'r prif amcan [CPR 3.13(2)]. Y prif amcan yw *galluogi'r llys i ddelio ag achosion yn gyfiawn ac ar gost gymesur* [CPR 1.1]. Felly, bydd yn rhaid i'r llys ystyried y swm sydd yn y fantol neu, yn achos rhwymedi anariannol, gwerth y rhwymedi hwnnw, wrth asesu'r costau y mae parti a gynrychiolir yn awgrymu y bydd yn eu hysgwyddo wrth ymladd yr achos. Ond, nid dim ond y swm yn y fantol fydd yr unig faen prawf. Rhaid i'r llys hefyd ystyried cymhlethdod yr hawliad neu unrhyw amddiffyniad i'r hawliad. Wrth gymharu dau achos sy'n ymwneud â'r un swm o arian, bydd yn gymesur i'r partïon wynebu mwy o gostau yn yr achos sy'n fwy cymhleth ac sydd â'r nifer mwyaf o faterion.

14.8 Yn greiddiol i'r broses rheoli costau yw'r gyllideb costau neu'r gyllideb. Caiff ei ddiffinio yn rhestr termau'r CPR fel hyn: "An estimate of the reasonable and proportionate costs (including disbursements) which a party intends to incur in the proceedings". Rhaid cynnwys cyllideb yn y ffurflen Precedent H [CPR PD3E.1], y ceir copi ohoni yn atodiad A. Mae hon yn ffurflen hir sy'n rhannu'r broses ymgyfreitha'n gamau. Rhaid darparu amcangyfrifon o gostau ar gyfer pob cam. Ond, mewn achosion lle nad yw'r costau sydd wedi'u cyllidebu gan barti yn fwy na £25,000, dim ond tudalen gyntaf Precedent H y bydd angen i'r parti hwnnw ei llenwi.

14.9 Rhaid i barti a gynrychiolir ffeilio ei gyllideb yn y llys, a'i rhoi i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun erbyn y dyddiad, os o gwbl, a bennir yn yr Holiadur Cyfarwyddiadau (gweler 7.27). Os na roddir dyddiad, rhaid ffeilio'r gyllideb cyn pen saith niwrnod i'r gynhadledd rheoli costau gyntaf. Ymdrinnir yn llym â methiant i ffeilio cyllideb - bydd y parti nad yw wedi ffeilio cyllideb yn cael ei drin fel petai wedi ffeilio cyllideb sy'n cynnwys y ffioedd llys perthnasol yn unig [CPR 3.14].Mewn geiriau eraill, ni fydd y parti'n cael hawlio dim o'i gostau cyfreithiol neu daliadau heblaw am ffioedd y llys.

14.10 Unwaith y bydd pob parti a gynrychiolir wedi ffeilio cyllideb, y llys wedyn fydd yn rheoli'r costau. I wneud hyn, mae'r llys yn gwneud Gorchymyn Rheoli Costau [CPR 3.15]. Mae partïon a gynrychiolir yn cael eu hannog i gytuno ar eu cyllidebau costau ac os byddant yn cytuno, yr unig beth y bydd y Gorchymyn Rheoli Costau yn ei wneud fydd cofnodi'r cytundebau. Nid oes gan y llys bŵer i ddrysu'r cytundeb; y cyfan y bydd barnwr sy'n teimlo bod y costau y cytunwyd arnynt yn rhy uchel yn ei wneud fydd cofnodi ei bryderon yn y gorchymyn. Ond, os na fydd y partïon yn dod i gytundeb ar y cyllidebau, bydd y llys yn ystyried y gyllideb/cyllidebau, a gall newid unrhyw agwedd ar gyllideb sydd yn anghymesur ym marn y barnwr. Fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, anaml iawn, os byth, y dylech chi gytuno ar gyllideb eich gwrthwynebydd a gynrychiolir, oni chewch gyngor gan ffynhonnell ddibynadwy fod y gyllideb yn rhesymol.

14.11 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y llys yn gwneud Gorchymyn Rheoli Costau mewn Cynhadledd Rheoli Achos (gweler 13.7). Ond efallai y bydd y barnwr yn penderfynu cynnal gwrandawiad dim ond i ystyried costau, a bydd hwn yn cael ei alw'n Gynhadledd Rheoli Costau. O dan CPR 3.15(2), dylid cynnal Cynadleddau Rheoli Costau dros y ffôn neu ar bapur lle bo'n hynny ymarferol.

14.12 Fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, does dim rhaid ichi ddod yn gysylltiedig â phroses rheoli costau eich gwrthwynebydd a gynrychiolir. Ond gallai fod o fudd ichi sicrhau na fydd eich gwrthwynebydd yn ceisio cyfiawnhau costau uwch na'r costau sy'n haeddiannol yn yr achos drwy orbwysleisio cymhlethdod y materion neu wneud i'r achos edrych yn fwy cymhleth nag ydyw mewn gwirionedd drwy ffyrdd eraill. Gan gofio hyn, mae'n bwysig nad ydych yn gwrthwynebu materion am ddim rheswm. Bydd angen ichi gael syniad clir o'r materion (neu ddarpar faterion) yn yr achos (gweler Pennod 6). Po leiaf nifer y materion, lleiaf cymhleth fydd yr achos a lleiaf fydd maint y costau a fydd yn gymesur i'r parti a gynrychiolir eu hwynebu. Mae dim ond gwrthwynebu'r materion hynny yr ydych yn gwybod y gellir eu gwrthwynebu'n iawn yn gyngor da. Mae hyn bob amser yn gyngor da, oherwydd mae perygl y bydd ymgyfreithiwr sy'n gwrthwynebu pwyntiau na ddylai eu gwrthwynebu ar y dystiolaeth sydd ar gael iddo yn ymddangos i'r Barnwr fel ymgyfreithiwr sydd ag achos gwan. Efallai y bydd eich pwyntiau da'n cael eu cuddio gan eich pwyntiau gwael. Bellach, gyda'r broses rheoli costau, mae ail reswm da dros beidio â chodi materion yn ddiangen.

14.13 Pa un a fydd y llys yn gwneud Gorchymyn Rheoli Costau ar gyfer yr achos cyfan yn y Gynhadledd Rheoli Achos gyntaf, neu'n gwneud cyfres o Orchmynion Rheoli Costau wrth i'r achos fynd drwy ei gamau amrywiol, bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau a chymhlethdodau'r achos. Mewn achosion lle nad ydych yn sicr faint o ddogfennau y bydd eich gwrthwynebydd yn eu datgelu (Pennod 10) neu faint o dystion y bydd yn eu galw i roi tystiolaeth, dylech ystyried gwahodd y llys i gyfyngu ar gamau'r ymgyfreitha y bydd yn gwneud Gorchymyn Rheolau Costau ar eu cyfer ar y sail y gall yr ymgyfreitha ymddangos yn llai cymhleth ar ôl i un o'r camau hyn neu ar ôl i'r ddau gam gael eu cwblhau.

14.14 Er mwyn sicrhau na fydd y costau sy'n gysylltiedig â rheoli achosion yn dod yn anghymesur eu hunain, mae'r CPR [CPR PD 3E.2) yn datgan fel a ganlyn: Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol:

(a) rhaid i'r costau y gellir eu hadennill yng nghyswllt cwblhau Precedent H i gychwyn beidio â bod yn uwch na £1,000 neu 1% o'r gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo, pa un bynnag sydd fwyaf a

(b) rhaid i holl gostau eraill y broses gyllidebu a rheoli costau y gellir eu hadennill beidio â bod yn fwy na 2% o'r gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo.

Felly, oni fydd y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo yn dod â'r costau y gellir eu hadennill gan barti llwyddiannus a oedd yn cael ei gynrychioli i lawr 3% o leiaf (ac fe ddylai wneud hyn, ond rhaid aros i weld) mae'n bosibl y bydd

ymgyfreithiwr drosto'i hun sy'n aflwyddiannus yn gorfod talu mwy o gostau i'r ymgyfreithiwr llwyddiannus a oedd yn cael ei gynrychioli nag yr oedd yn ei wneud cyn rhoi diwygiadau Jackson ar waith.

## D. Capio costau

14.15 Mae gan y llys y pŵer i gyfyngu ar faint o gostau y gall parti a gynrychiolir eu hwynebu yn y dyfodol [CPR 3.19]. Gall hwn fod yn bŵer pwysig i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun. Dylech gofio mai dim ond costau sydd heb eu hwynebu eto y gall y llys eu capio. Os ydych am i'r llys gapio costau eich gwrthwynebydd, peidiwch ag oedi cyn gwneud eich cais. Ond gellir gwneud gorchymyn capio costau ar unrhyw gam yn yr achos. Felly peidiwch â phenderfynu peidio â gwneud cais priodol dim ond oherwydd y gallech fod wedi gwneud y cais yn gynharach. Ond, po hwyraf y gwnewch y cais, lleiaf tebygol yw hi y bydd y llys yn gwneud gorchymyn.

14.16 Gellir gwneud gorchymyn capio costau yng nghyswllt y broses ymgyfreitha gyfan neu yng nghyswllt unrhyw faterion y mae'r llys yn gorchymyn iddynt gael sylw ar wahân [CPR 3.19(4)]. (Materion rhagarweiniol).

14.17 Gorchymyn dewisol yw gorchymyn capio costau. Gall y barnwr sy'n rheoli'r achos wneud y gorchymyn pan yw o'r farn:

(1) bod gwneud hynny er budd cyfiawnder;

(2) bod risg sylweddol y bydd y costau'n anghymesur os na wneir gorchymyn; a

(3) na ellir rheoli'r risg hon yn ddigonol drwy gyfarwyddiadau rheoli achos neu asesiad manwl o gostau [CPR 3.19(5)].

Mae'r gofyniad olaf hwn yn rhwystr mawr i ymgeisydd ei oresgyn. Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o farnwyr yn ystyried y dylai cyfarwyddiadau rheoli achos ac asesiad manwl o gostau gan farnwr costau profiadol fod yn ddigon i gadw'r costau dan reolaeth. Ond nid dyna sut y bu hi bob amser yn y gorffennol, ac os ydych yn wynebu ymgyfreithiwr a gynrychiolir sy'n gweithredu, neu sy'n ymddangos fel petai'n gweithredu, ni waeth am y gost wrth ymladd yr achos, dyma gais y dylech ystyried ei wneud.

14.18 Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn capio costau neu beidio, rhaid i'r llys ystyried holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys:

(1) a oes anghydbwysedd sylweddol rhwng sefyllfa ariannol y partïon;

(2) a yw costau pennu maint y cap yn debygol o fod yn gymesur â chostau cyffredinol yr ymgyfreitha;

(3) ar ba gam y mae’r achos; a

(4) y costau sydd wedi’u hysgwyddo hyd yma a chostau i'r dyfodol.

Unwaith y gwneir gorchymyn capio costau, bydd yn cyfyngu ar y costau y gall y parti llwyddiannus eu hadennill i’r hyn a nodir yn y gorchymyn. Ond gall y parti y mae ei gostau’n cael eu capio wneud cais i amrywio’r gorchymyn os (a dim ond os) *oes newid sylweddol a perthnasol wedi bod yn yr amgylchiadau ers dyddiad gwneud y gorchymyn* neu os oes rhyw reswm pwysig arall pam y dylid amrywio'r gorchymyn presennol [CPR 3.19(7)].

14.19 Mae’r gorchmynion capio costau hyn ‘ar ôl Jackson’ yn newydd. (Mae'r broses capio costau wedi bod ar gael am gyfnod byr, ond bydd y llysoedd yn mabwysiadu dull newydd ar ôl 1 Ebrill 2013.) Felly, nid oes modd rhoi cyngor ynghylch sut y bydd y barnwyr yn delio â chapio costau ochr yn ochr â rheoli costau. Y cyngor gorau ar hyn o bryd i ymgyfreithiwr drosto'i hun yw mynychu'r gynhadledd rheoli costau gyntaf, a chodi unrhyw ddadleuon a allai fod yn ddefnyddiol yn eich barn chi i ddarbwyllo’r barnwr i gyfyngu ar gostau’ch gwrthwynebydd a gynrychiolir. Os ydych yn credu bod eich gwrthwynebydd yn llawer mwy cyfoethog na chi (h.y. bod anghydbwysedd sylweddol rhwng sefyllfa ariannol y partïon, gweler 14.18), dylech ddwyn hyn i sylw’r barnwr. Os ydych yn teimlo bod y risg o orchymyn anffafriol i dalu costau ymgyfreitha wedi cael ei ddefnyddio’n amhriodol gan eich gwrthwynebydd fel bygythiad i’ch cael i beidio â dod ag achos neu i beidio ag amddiffyn achos, neu bod eich gwrthwynebydd wedi bod yn gorbwysleisio cymhlethdod yr anghydfod yn fwriadol, gellir dwyn hynny hefyd i sylw’r barnwr. Dylech gael syniad o beth yw barn y barnwr am gyllideb eich gwrthwynebydd, a dylai hynny eich helpu i benderfynu a ddylid gwneud cais am orchymyn capio costau neu beidio. Os ydych yn gwneud cais ac yn colli, cofiwch ei bod yn debygol y bydd y llys yn gorchymyn i chi dalu costau’ch gwrthwynebydd yng nghyswllt y cais, sy’n gallu bod yn filoedd o bunnoedd.

*Cais am orchymyn capio costau*

14.20 Rhaid i unrhyw gais am orchymyn capio costau gael ei wneud yn unol â CPR Rhan 23 (gweler 13.13) [CPR 3.20(1)], a bydd yn mynd rhagddo yn yr un ffordd fwy neu lai ag unrhyw gais arall. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael trefn ar eich dadleuon ymlaen llaw. Disgyblaeth dda yw paratoi ‘dadl fframwaith' sy'n crynhoi eich dadleuon ar bapur pa un a ydych yn anfon y ddadl fframwaith at y barnwr neu beidio. Oni allwch ddarparu dadl effeithiol ar bapur yn gryno, ni ddylech fod yn gwneud y cais.

14.21 Rhaid i’ch rhybudd o gais:

(1) nodi pam yr ydych yn gofyn am orchymyn capio costau ar gyfer y broses ymgyfreitha gyfan neu dim ond ar gyfer mater penodol y gorchmynnir iddo gael ei roi ar brawf ar wahân;

(2) esbonio pam y dylid gwneud gorchymyn capio costau;

(3) cynnwys cyllideb yn nodi’r costau a’r taliadau sydd wedi'u hysgwyddo gennych eisoes a’r costau a'r taliadau yr ydych yn debygol o'u hysgwyddo yn y dyfodol yng nghyswllt yr achos.

Efallai y gwelwch y bydd y llys yn bwrw iddi i restru'ch cais ar gyfer gwrandawiad yn syth, neu’n rhoi cyfarwyddiadau yn mynnu bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu gan y naill barti neu'r llall. Dylech gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau. Ond, gan dybio bod y cyfarwyddiadau wedi’u rhoi ar bapur heb wrandawiad, gallwch wneud cais i’r barnwr amrywio’r cyfarwyddiadau os oes gennych reswm da dros wneud hynny, gyhyd â'ch bod yn gwneud cais o fewn yr amserlen a bennir, 7 niwrnod fel arfer.

# Pennod 15
# Paratoi ar gyfer eich Gwrandawiad

A. Cyflwyniad
B. Paratoi Sylfaenol
C. Cyfarwyddiadau'r Llys
D. Cronoleg gyflawn
E. Y materion a thystiolaeth bellach
F. Eich tystion
G. Paratoi eich tystion
H. Tystiolaeth Ysgrifenedig – Bwndel y Treial
I. Paratoi i ofyn cwestiynau i'ch gwrthwynebydd a'i dystion
J. Dadl Fframwaith
K. A oes angen i mi fynd i dreial neu a ellir setlo'r achos?

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Peidiwch ag oedi wrth baratoi eich achos ar gyfer treial. Pan ddeuwch i baratoi efallai y byddwch yn canfod fod bylchau yn eich tystiolaeth a fydd yn cymryd amser i'w llenwi.*

*(2) Bydd rhai llysoedd yn mynnu eich bod yn llenwi rhestr wirio cyn treial (neu holiadur rhestru) yn Ffurflen 170.*

*(3) Gwiriwch eich bod chi (a'ch gwrthwynebydd) wedi cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau'r llys. Os bydd angen gwnewch gais i'r llys i ymestyn yr amser, neu gofynnwch am osod sancsiwn ar eich gwrthwynebydd.*

*(4) Sicrhewch fod gennych gronoleg lawn a rhestr o faterion o'ch blaen pan fyddwch yn paratoi ar gyfer treial.*

*(5) Os nad ydych wedi ymdrin â'r holl faterion pwysig yn eich tystiolaeth tyst dylech wneud cais am ganiatâd i gyflwyno datganiad tyst pellach cyn gynted ag y medrwch.*

*(6) Sicrhewch fod eich tystion yn gwybod pa bryd ac yn lle y bydd y treial yn cael ei gynnal. Holwch i sicrhau y byddant yn dod o'u gwirfodd; os bydd angen cyhoeddwch wŷs tystio i'w gorfodi i fod yn bresennol.*

*(7) Caniateir i chi baratoi tyst, drwy fynd ag ef drwy ei ddatganiad, gan ddangos iddo ddatganiadau tyst eich gwrthwynebydd lle y maent yn anghytuno â'i ddatganiad ef, gan fynd ag ef drwy'r dogfennau perthnasol. Chewch chi ddim 'hyfforddi' tyst, hynny yw dweud wrtho sut i ateb cwestiynau penodol mewn unrhyw ffordd wahanol i'w eiriau ei hun.*

*(8) Os ydych chi'n gyfrifol am baratoi bwndel y treial cofiwch fod hon yn dasg sy'n cymryd llawer o amser a bod yn rhaid ei chymryd o ddifrif. Sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â CPR APD.3.*

*(9) Nodwch i lawr yr holl faterion y mae angen i chi eu herio yn natganiadau tyst eich gwrthwynebydd fel y gallwch gwestiynu'r tyst yn y treial.*

*(10) Aseswch gryfder eich achos, a chyda'r asesiad hwn mewn cof ceisiwch gyfaddawdu'r achos gyda'ch gwrthwynebydd. Gyda threial ar fin digwydd efallai y bydd yn fwy parod i gyfaddawdu nag y byddai wedi bod ynghynt yn yr achos.*

## A. Cyflwyniad

15.1 Ceir bob amser gyfnod rhwng dyddiad cyhoeddi'r cyfarwyddyd olaf ynghylch tystiolaeth â dyddiad y treial. Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r amser hwn yn gynhyrchiol. Drwy aros tan y funud olaf i baratoi eich achos mae perygl y byddwch yn canfod fod bylchau pwysig yn eich achos na ellir eu llenwi yn yr amser sydd ar gael neu eich bod yn cyrraedd y gwrandawiad heb fod mewn sefyllfa i wneud cyfiawnder â chi'ch hun un ai wrth gwestiynu tystion eich gwrthwynebydd neu wrth ddadlau'r pwyntiau y dymunwch eu cyfleu i'r barnwr.

15.2 Yn y rhan fwyaf o achosion amldrac cynhelir adolygiad cyn treial oddeutu pedair wythnos cyn y treial. Dylech anelu at wneud eich holl baratoi sylfaenol cyn yr adolygiad cyn treial fel eich bod mewn sefyllfa i hysbysu'r barnwr beth yw eich sefyllfa o ran bod yn barod ac os bydd angen, gofyn am gyfarwyddiadau ychwanegol.

15.3 Mewn llawer o lysoedd byddwch yn cael cyfarwyddyd i lenwi holiadur rhestru neu restr wirio cyn treial. Y nod yw helpu'r llys i bennu dyddiad y treial, ac i gasglu ffi. Nid yw'n rhestr wirio sy'n cynorthwyo parti i baratoi ar gyfer treial. Mae'r rhestr wirio cyn treial yn ffurflen tair tudalen sy'n gofyn i'r partïon ddatgan y canlynol:

A a ydynt wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys, ac os nad ydynt, i nodi pa rai na chydymffurfiwyd â hwy eto a pha bryd y cydymffurfir â hwy ynghyd ag unrhyw gyfarwyddiadau eraill yr ydych yn dymuno'u ceisio;

B. enwau eu tystion ac a oes dyddiadau y mae angen eu hosgoi wrth restru'r mater ar gyfer treial, ac a oes angen unrhyw gyfleusterau arbennig ar gyfer unrhyw dyst;

C. enw unrhyw arbenigwr a fydd yn rhoi tystiolaeth arbenigol, a ydyw wedi cwrdd ag arbenigwr yr ochr arall ai peidio, ac os yw'n rhoi tystiolaeth ar lafar, a oes ganddo unrhyw ddyddiadau i'w hosgoi;

D. pwy fydd yn cyflwyno'r achos yn y treial;

E. yr amcangyfrif amser ar gyfer y treial

F. amserlen arfaethedig ar gyfer y treial, ac amcangyfrif o'r costau a'r ffi rhestru (ar gyfer hawlydd), ynghyd ag unrhyw gais a ffi ar gyfer cyfarwyddiadau ychwanegol.

Nid yw'r rheol sy'n rheoli rhestrau gwirio cyn-treial [CPR 29.6] yn orfodol ac er bod llawer o lysoedd yn eu mynnu, mae llawer o rai eraill yn eu hepgor. Ychydig o lysoedd sirol sydd â'r adnoddau i alluogi barnwr neu aelod profiadol o staff gweinyddol i edrych drwy'r rhestr wirio a thynnu sylw at faterion sydd angen sylw. Peidiwch â synnu os na fydd neb hyd yn oed yn ystyried eich rhestr wirio.

15.4 Mae'r cwestiwn a fydd rhestr wirio cyn-treial o gymorth yn dibynnu llawer iawn ar y drefn a fabwysiedir gan eich llys sirol i bennu dyddiad y treial. Mae'r rhan fwyaf o lysoedd yn defnyddio system 'ffenestr treial'. Bydd y Barnwr sy'n rhoi cyfarwyddiadau yn pennu 'ffenestr' (cyfnod o unrhyw hyd rhwng oddeutu 2 wythnos a 3 mis) pryd y mae'n rhaid i'r treial gael ei gynnal. Yna bydd pob parti'n hysbysu'r rheolwr rhestru, drwy'r post neu e-bost, pa ddyddiadau sy'n addas a ddim yn addas o fewn y ffenestr treial honno a bydd y rheolwr yn trefnu'r dyddiad. Os na fydd unrhyw ddyddiadau'n gyfleus ar gyfer pob parti efallai y bydd angen cael gwrandawiad rhestru gerbron Barnwr a fydd yn penderfynu pa bryd y bydd y treial yn cael ei gynnal. Amrywiad ar y system hon, e.e. yn Llys Sirol Canol Llundain, yw apwyntiad rhestru dros y ffôn pan fydd pob parti yn cymryd rhan mewn galwad cynadledda i benderfynu pa bryd y dylai'r treial ddigwydd o fewn y ffenestr treial. Rhaid i bob parti fod yn barod cyn yr alwad, gyda'r holl ddyddiadau y gall ac na all fod yn bresennol arnynt. Anogir y partïon i gytuno ar ddyddiad ymlaen llaw, cyn yr alwad, ac fel arfer bydd modd pennu'r treial ar gyfer y dyddiad hwnnw. Mewn canolfannau llysoedd llai, fodd bynnag, gallai hyn fod yn anodd ei drefnu, a bydd yn rhaid i'r partïon negodi gyda'r llys pa bryd y bydd y treial yn cael ei gynnal ac os bydd angen, cynhelir gwrandawiad gerbron y barnwr.

15.5 Cyfrifoldeb y barnwr yw pob mater o ran rhestru. Os oes gennych reswm da iawn dros ofyn am wrandawiad ar ddiwrnod penodol gallwch ofyn i'r barnwr bennu dyddiad, un ai wrth i chi ymddangos ger ei fron i wneud cais neu mewn cynhadledd rheoli achos, neu wrth wneud cais yn benodol i ddibenion pennu dyddiad. Os byddwch wedi cael cytundeb eich gwrthwynebydd ar gyfer dyddiad penodol gallwch ofyn i'r barnwr bennu'r dyddiad hwn ar gais heb gynnal gwrandawiad, ond bydd cytuno i hynny'n dibynnu ar y pwysau sydd ar y llys o achosion eraill.

## B. Paratoi Sylfaenol

15.6 Mae nifer o gwestiynau y dylech eu gofyn i chi eich hun:

(1) A ydw i wedi dilyn y cyfarwyddiadau llys a wnaed eisoes yn yr achos?
(2) A yw'r partïon eraill (neu'r parti arall) yn yr achos wedi dilyn y cyfarwyddiadau a wnaed hyd yma gan y llys?
(3) A oes gen i gronoleg gyflawn?
(4) Beth yw'r materion (sydd ar ôl) i'w penderfynu yn y treial?
(5) Pa dystiolaeth lafar fydda i ei heisiau i brofi'r materion hynny?
(6) Pa dystiolaeth ysgrifenedig fydda i ei heisiau i brofi'r materion hynny?
(7) Beth fydd y llys ei angen er mwyn deall y materion a'r dystiolaeth yn y gwrandawiad?

(8) A oes angen i mi fynd i'r llys neu a yw'n bosibl setlo'r achos mewn ffordd sy'n fy modloni i a'r parti arall neu'r partïon eraill yn yr achos?
(9) Beth yw'r risg os byddaf yn mynd i'r llys?

## C. Cyfarwyddiadau'r Llys

15.7 Mae'n bwysig iawn fod pob parti wedi dilyn y cyfarwyddiadau rheoli achos a fydd wedi eu rhoi gan un neu fwy o farnwyr ynghynt wrth i'r achos fynd drwy ei gamau interim. Er ei bod yn bosibl i'r partïon gytuno'n ysgrifenedig i amrywio'r dyddiadau ar gyfer cydymffurfio â chyfarwyddiadau o ran tystiolaeth, e.e. y dyddiad ar gyfer cyfnewid datganiadau tystion, mae'n llys yn parhau i reoli'r achos yn gyffredinol a bydd wedi rhoi cyfarwyddiadau y bydd eu hangen ar gyfer cwblhau'r achos yn effeithlon. Efallai na fydd y partïon yn cytuno i amrywio'r dyddiad a bennwyd gan y llys ar gyfer dychwelyd y rhestr cyn-treial, y treial neu gyfnod y treial, neu, yn achos treial amldrac, y dyddiad ar gyfer cynhadledd rheoli achos neu adolygiad cyn-treial.

15.8 Os ydych chi wedi methu â dilyn cyfarwyddyd a bod risg y bydd y llys yn gosod sancsiwn, neu yn fwy difrifol, fod y llys wedi gosod sancsiwn arnoch sy'n effeithio'n ddifrifol ar eich achos, efallai y bydd angen i chi wneud cais i'r llys eich rhyddhau o ganlyniadau'r sancsiwn. Dylech wneud cais brys i'r llys drwy roi rhybudd o gais.

15.9 Os bydd y parti arall neu'r partïon eraill yn yr achos wedi methu â dilyn cyfarwyddyd pwysig gan y llys a'ch bod yn ystyried fod eich achos wedi ei danseilio neu y gallai gael ei danseilio o ganlyniad, efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais brys i'r llys un ai i orchymyn i'r parti arall gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, neu osod sancsiwn ar y parti arall am fethu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

## D. Cronoleg gyflawn

15.10 Os ydych chi wedi dilyn y cyngor a roddwyd ym Mhennod 8 ynghylch plediadau bydd gennych gronoleg eisoes, a byddwch wedi ei diweddaru yn dilyn datgeliad, gweler Pennod 11 ar ddatganiadau tystion. Os nad oes gennych gronoleg, paratowch un yn awr. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cronoleg. Ffolineb fyddai cymryd rhan mewn cyfreitha a ymleddir heb gronoleg. Efallai eich bod yn meddwl eich bod yn gwybod popeth am yr achos, ac yn wir efallai eich bod, ond mae paratoi cronoleg yn rhoi popeth mewn cyd-destun. Yn aml bydd cronoleg yn eich helpu i ddeall y digwyddiadau sy'n sail i'r achos mewn ffordd lawer mwy cydlynol nag yr oeddech o'r blaen. Os ydych angen cyngor ar baratoi cronoleg, gweler paragraff 8.34 uchod.

15.11 Bydd y rhan fwyaf o farnwyr yn paratoi eu cronoleg eu hunain os nad yw yr un parti wedi gwneud hynny. Bu sawl achos yn hanes yr awduron, pan yr oedd

yn ymddangos, ar ôl iddynt baratoi cronoleg o'r prif ffeithiau cyn y gwrandawiad, fod ganddynt afael llawer mwy cadarn ar yr achos a pherthnasedd y gwahanol faterion nac a oedd gan y partïon a'u cynrychiolwyr. Profiad ar waith yw hyn, yn hytrach na gallu. Mae risg bob amser i barti neu ei gynrychiolwyr wrth baratoi ar gyfer treial, golli golwg ar y darlun cyfan a methu â gweld pethau'n glir. Mae cronoleg gynhwysfawr yn helpu i gadw ffocws ar y darlun. Mae hefyd yn eich cynorthwyo chi fel ymgyfreithiwr i edrych ar ddigwyddiadau'n wrthrychol, rhywbeth sy'n anodd iawn ei wneud, deallwn hynny, pan fo cyswllt mor agos rhyngoch chi â'r digwyddiadau.

## E. Y materion a thystiolaeth bellach

15.12 Ar derfyn y plediadau, byddwch wedi sylweddoli beth yw'r materion o ran ffeithiau a'r gyfraith. Byddwch wedi nodi pa faterion a gytunwyd. Ar ôl datgeliad, byddwch wedi gwirio a yw unrhyw rai o'r dogfennau a ddatgelwyd gan eich gwrthwynebydd wedi achosi i chi adolygu'r materion a'ch asesiad chi ohonynt. Dylai eich datganiadau tystion (ac adroddiadau arbenigwyr os bydd angen) fod wedi ymdrin â'r materion, fel yr adolygwyd hwy yn dilyn datgelu.

15.13 Dylech yn awr edrych drwy'r plediadau a'r datgeliadau eto i sicrhau nad ydych wedi methu dim byd. Dylech wneud (neu ail-wneud) rhestr o faterion y dadleuir amdanynt. Gofynnwch i chi'ch hun a ydych wedi methu pwynt, ac os felly, a yw tystiolaeth eich tystion, neu'r wybodaeth ddogfennol yn ymdrin â'r pwynt dan sylw. Os nad ymdrinnir â'r pwynt rhaid i chi ystyried a oes angen i chi gyflwyno tystiolaeth bellach, ac os felly, sut yr ydych am wneud hynny. Os yw'r pwynt yn un gwirioneddol ddifrifol efallai y bydd angen i chi ystyried sut orau i wneud cynigion difrifol i'ch gwrthwynebydd i setlo'r achos.

15.14 Anaml iawn y bydd pwynt o bwysigrwydd mawr yn cael ei fethu gan unrhyw un sydd wedi cymryd yr amser i baratoi rhestr o faterion ar ôl i'r plediadau gau ac sydd wedi sicrhau fod datganiadau ei dystion yn ymdrin â'r holl faterion ffeithiol yn yr achos. Os oes yna faterion y teimlwch eich bod wedi eu methu o'r blaen, mae'n debygol iawn y gallwch ymdrin â hwy eich hun neu y gall eich tystion presennol wneud hynny. Weithiau, fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi ganfod tystion pellach.

*Tystiolaeth bellach gan dystion*

15.15 Os byddwch yn canfod fod angen i chi ymdrin â phwyntiau newydd yn eich datganiadau tyst, gallwch wneud hyn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, y ffordd ffurfiol yw paratoi un neu fwy o ddatganiadau tyst pellach a gwneud cais i'r llys am ganiatâd i'w cyflwyno fel rhan o'ch tystiolaeth. Bydd yn rhaid i'ch cais egluro pam na fu i chi ymdrin â'r pwynt o'r blaen. Ond os mai'r gwir yw i chi fethu ymdrin â'r pwynt, y peth gorau i chi ei wneud yw dweud hynny. Bydd y rhan fwyaf o farnwyr yn cydymdeimlo ag ymgyfreithiwr drosto'i hun. Oni bai fod (a) eich gwrthwynebydd yn cael ei niweidio'n ddifrifol iawn, a dim ond yn anaml ac mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn digwydd (e.e. bod tyst a allai ymateb i'ch pwyntiau newydd wedi marw) neu (b) eich bod wedi gadael y peth mor hwyr fel y bydd dyddiad y treial yn cael ei golli, yna byddwch bron yn sicr o gael caniatâd. Mae'n bosibl y byddwch yn

wynebu cosb o ran costau os gall eich gwrthwynebydd ddangos eich bod wedi achosi cost ychwanegol iddo drwy gyflwyno tystiolaeth tyst yn hwyr. Hyd yn oed pan fydd eich gwrthwynebydd yn cael ei niweidio neu y caiff dyddiad y treial ei golli, gall y llys ddod i'r casgliad y caiff buddiannau cyfiawnder eu sicrhau'n well drwy ganiatáu i chi gyflwyno tystiolaeth ychwanegol yn hytrach na gwrthod eich cais.

*Tystiolaeth 'flaenaf' ychwanegol*

15.16 Yr ail ffordd i chi ymdrin â phwyntiau newydd yw drwy i chi eich hun neu unrhyw rai o'ch tystion roi tystiolaeth lafar am y pwyntiau newydd yn y treial. Y rheol safonol yw y saif datganiad tyst fel ei 'dystiolaeth flaenaf' (sy'n golygu'r dystiolaeth y mae'r parti sy'n galw'r tyst yn ei gyflwyno yn y treial) ac na ellir rhoi unrhyw dystiolaeth ychwanegol heb ganiatâd y llys. Fel arfer ni fydd y Barnwr yn rhoi caniatâd pan fydd y dystiolaeth ychwanegol yn sylweddol a/neu yn debygol o ddal y gwrthwynebydd yn annisgwyl a'i roi mewn sefyllfa lle na fydd efallai'n gallu ymdrin â'r mater drwy ddwyn tystiolaeth ei hun. Yn y cyswllt hwn, dull defnyddiol o weithredu yw hysbysu eich gwrthwynebydd ymlaen llaw o'ch bwriad i ofyn i'r llys roi caniatâd i chi ymdrin â materion ychwanegol drwy dystiolaeth lafar yn y treial. Os byddwch yn anfon crynodeb i'ch gwrthwynebydd o'r dystiolaeth ychwanegol yr ydych eisiau ei galw mewn da bryd iddo allu meddwl amdani, ac ystyried pa ymateb y gall ef ei roi iddi, byddwch yn cynyddu'n sylweddol y posibilrwydd i farnwr y treial roi caniatâd i chi. Bydd llawer yn dibynnu ar arwyddocâd y materion dan sylw. Os nad ydynt yn mynd at galon yr achos ac nad ydynt yn golygu newid yr achos ar eich rhan chi, ni ddylai fod unrhyw drafferth. Fodd bynnag, pan fydd y materion ychwanegol yn mynd at graidd yr anghydfod dylech ddefnyddio'r dull ffurfiol a cheisio caniatâd y llys i gyflwyno datganiad tyst pellach yn ymdrin â'r materion ychwanegol cyn y treial mewn cais ar wahân.

15.17 Cofiwch ofyn i'ch gwrthwynebydd yn gyntaf bob amser a yw'n gwrthwynebu eich tystiolaeth bellach. Efallai y byddwch yn canfod yn aml ei fod yntau hefyd eisiau cyflwyno tystiolaeth bellach a'i fod yn hapus i gytuno.

15.18 Peidiwch byth ag oedi. Po gynharaf y gwnewch gais am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth bellach neu hysbysu eich gwrthwynebydd o faterion ychwanegol yr ydych yn dymuno'u codi, y gorau fydd eich siawns o gael y caniatâd yr ydych ei angen.

15.19 Yn y cyswllt hwn, ac yn gyffredinol, bod yn agored yw'r polisi gorau yn ddiau. Peidiwch â cheisio cael mantais drwy beidio â datgelu tystiolaeth cyn y treial. Y mae bron yn sicr y gwrthodir caniatâd i chi ddibynnu arni, ac yn waeth byth o bosibl, fe allai'r barnwr fod ag amheuon ynghylch eich gonestrwydd.

## F. Eich tystion

15.20 Cysylltwch â'ch tystion a'u hysbysu o ddyddiad, amser a lleoliad y treial neu'r gwrandawiad. Os ydynt yn anfodlon bod yn bresennol, neu yn fodlon ond yn bryderus ynghylch agwedd eu cyflogwr, rhaid i chi wneud cais i'r Llys i godi

a chyflwyno i’ch tyst wŷs yn gorchymyn iddo ef neu hi fod yn bresennol yn y treial.

15.21 Gallai fod wedi mynd yn amhosibl i un neu fwy o’ch tystion fod yn bresennol yn y treial. Fe allent fod wedi mynd dramor, yn wael, neu wedi marw, neu efallai eich bod wedi colli cysylltiad â hwy. Os ydych yn parhau i fod eisiau dibynnu ar eu tystiolaeth, a’i bod wedi’i chynnwys mewn datganiad tyst, rhaid i chi roi gwybod i’r partïon eraill am eich dymuniad i ddibynnu ar dystiolaeth eich tyst cyn gynted ag y byddwch yn gwybod fod problem, neu y gallai fod problem ynghylch eu presenoldeb. Dywedwch wrth eich gwrthwynebydd pam nad oes modd i’r tyst fynychu’r treial. Yn gyffredinol, os byddwch wedi rhoi rhybudd digonol, bydd modd i chi ddibynnu ar y dystiolaeth. Rydych yn wynebu risg y gallai'r barnwr roi llai o bwys ar y dystiolaeth honno, na fydd y partïon eraill yn gallu ei phrofi drwy groesholi, ond ni allwch helpu hynny.

15.22 Cofiwch mai'r Llys bob amser sy'n rheoli pa dystiolaeth a gyflwynir mewn treial a chaiff wahardd tystiolaeth, hyd yn oed pan fyddai modd fel arfer i'r dystiolaeth honno gael ei rhoi yn y treial. Caiff y Llys gyfyngu ar dystiolaeth lle bo’r barnwr yn penderfynu nad yw ef neu hi eisiau clywed tystiolaeth ar fater penodol, neu fod digon o dystiolaeth unrhyw un mater.

## G. Paratoi eich tystion

15.23 Rhaid gwahaniaethu rhwng paratoi tyst i roi tystiolaeth a ‘hyfforddi’ tyst. Mae hyfforddi’n golygu dweud wrth dyst beth i’w ddweud wrth ateb rhai cwestiynau neu agweddau ar groesholi. Mae hyfforddi’n amlwg yn anghywir gan ei fod yn awgrymu gofyn i dyst ddweud rhywbeth ar wahân i’r dystiolaeth y mae’r tyst ei hun yn credu sy’n wir. Mae hyn yn debygol iawn o chwalu yn wyneb y parti dan sylw. Cofiwch fod y mwyafrif llethol o Farnwyr Cylchdaith, y barnwr sy'n debygol o fod yn gwrando ar eich achos amldrac, wedi ymarfer wrth y Bar am dros 25 mlynedd. Os caiff eich achos ei glywed gan Gofiadur, bydd ef neu hi yn farnwr rhan-amser sy’n ymarfer yn rheolaidd wrth y Bar a bydd wedi bod yn gwneud hynny am o leiaf 20 mlynedd. Bydd barnwr o’r fath yn sylwi’n gyflym iawn ar dyst sydd wedi cael ei hyfforddi. Gyda llaw, bydd tyst sydd wedi ei hyfforddi yn amlwg i bawb fel arfer.

15.24 Fodd bynnag, y mae’n beth doeth paratoi eich tystion. Mae paratoi tyst yn gyfreithlon yn cynnwys:

(a) mynd ag ef drwy’i ddatganiad (eto!),

(b) mynd ag ef at ddatganiadau tystion eich gwrthwynebydd lle y maent yn effeithio ar dystiolaeth eich tyst chi, a gofyn iddo ystyried pa mor hyderus ydyw ei fod yn gywir yn yr hyn a ddywed,

(c) mynd ag ef drwy’r dogfennau ym mwndel y treial, a'i holi i sicrhau ei fod yn cofio’r dogfennau hynny yr oedd yn ymwneud â hwy, a gofyn iddo gofio’r amgylchiadau pan baratowyd y ddogfen. Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cofio dogfennau arwyddocaol, ond efallai y byddant angen amser i feddwl amdanynt. Gall fod yn anodd cofio holl amgylchiadau

perthnasol dogfen a pham y crëwyd hi wrth i gwestiynau gael ei gofyn yn y blwch tystion pan fo'r ddogfen wedi bodoli ers sawl blwyddyn ac nad yw'r tyst wedi meddwl fawr ddim amdani ers dyddiad ei chreu.

(d) gyda dogfennau pwysig iawn, mae'n gwneud synnwyr mynd drwyddynt fesul llinell gyda'ch tyst. Gallwn i gyd feddwl ein bod yn gwybod beth sydd mewn dogfen, heb fod yn glir ynghylch ein meddyliau. Gall eich gwrthwynebydd (yn enwedig os yw'n cael ei gynrychioli gan fargyfreithiwr) fynd â'ch tyst drwy ddogfen bwysig fesul brawddeg. Os yw eich tyst yn mynd i ddweud rhywbeth anffodus i'ch achos wrth i hyn ddigwydd, mae'n llawer iawn gwell i chi wybod ymlaen llaw na dod i wybod drwy'r ffordd galetaf yng nghanol treial.

## H. Tystiolaeth Ysgrifenedig – Bwndel y Treial

15.25 Rhaid cael bwndel treial ym mhob achos. Mae bwndel y treial (a all gynnwys sawl ffeil lifer neu ffeil fodrwy) yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol yn yr achos. Mae'n hanfodol cymryd gofal i baratoi bwndel y treial yn iawn. Gall cynnal treial heb fwndel iawn fod yn hunllefus; yn wir bydd llawer o farnwyr (yn hollol iawn) yn gwrthod dechrau treial hyd nes y ceir bwndel gyda'r tudalennau wedi'u rhifo a'u mynegeio'n gywir.

15.26 Bydd y Llys, bron yn sicr, wedi rhoi cyfarwyddiadau ynghylch paratoi bwndel treial i'w ddefnyddio gan y llys a chan y partïon a'r tystion. Os nad yw'r Llys wedi rhoi cyfarwyddyd penodol, mae'r Rheolau'n berthnasol [CPR 39.5] a rhaid i'r Hawlydd baratoi a ffeilio bwndel treial "yn cynnwys dogfennau sy'n ofynnol dan (a) gyfarwyddyd ymarfer perthnasol, a (b) unrhyw orchymyn llys" yn ddim cynt na 7 diwrnod a dim llai na 3 diwrnod cyn diwrnod cyntaf y treial.

15.27 Cyfarwyddyd arferol y llys, yn gyson â'r Rheol, yw mai cyfrifoldeb yr Hawlydd yw paratoi bwndel y treial. Fodd bynnag, pan fo'r Hawlydd yn ymgyfreithiwr drosto'i hun a bod gan y Diffynnydd gynrychiolaeth, bydd y llys yn aml yn gorchymyn y Diffynnydd i baratoi bwndel y treial gan y bydd y cyfreithwyr yn fwy cyfarwydd â gwneud hynny. (Fodd bynnag, mae'n ffaith drist fod llawer o gyfreithwyr sy'n ymarfer nad ydynt mewn gwirionedd yn gwybod sut i baratoi bwndel treial da). Os nad oes gennych lungopïwr da neu fynediad at un, efallai mai'r peth gorau fydd gadael i Ddiffynnydd â chynrychiolaeth baratoi'r bwndel. Os bydd raid i chi baratoi bwndel eich hun, edrychwch o gwmpas am argraffwr lleol neu siop llungopïo sydd â chyfleuster bwydo awtomatig.

15.28 Y cyfarwyddyd ymarfer perthnasol yw CPR 39APD.3. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn darparu ar gyfer y dogfennau a ddylai fod yn y bwndel ond nid yw'n nodi ym mha drefn. Oni fo rheswm rhagorol dros ddefnyddio trefn wahanol, paratowch eich bwndel fel a ganlyn:

(1) Mynegai – rhaid i hwn fod yn fynegai manwl yn rhestru pob un ddogfen yn y drefn y mae’n ymddangos a rhoi rhif y dudalen. Rhaid i rifau tudalennau fod yn ddilynol drwy’r bwndel cyfan. Mae hyn yn bwysig. Ni ddylai'r un ddwy dudalen fod â’r un rhif, faint bynnag o ffeiliau a ddefnyddir gennych, a faint bynnag o raniadau a roddwch yn y ffeiliau hynny. Nodyn: mae paratoi mynegai bwndel treial yn waith caled. Peidiwch â’i osgoi.

(2) Crynodeb o’r achos, cronoleg a dadleuon fframwaith - mae'r rhain yn aml yn cael eu gorchymyn, ac efallai y bu gofyn i chi gytuno ar grynodeb a chronoleg gyda'ch gwrthwynebydd. Dylai crynodeb o achos fod yn grynodeb gwirioneddol, fel arfer yn ddim mwy nac un ochr A4. Dylai egluro am beth y mae’r achos a gwneud hynny mewn ffordd nad oes dadl yn ei chylch. Mae’n bwysig yng ngham interim y treial, nid yn gymaint yn y treial eu hun. Os ydych wedi mynd cyn belled â pharatoi bwndel treial heb gael gorchymyn i wneud hynny, does dim angen i chi fynd i’r drafferth o baratoi un yn awr. Mae cronoleg, fodd bynnag, yn fater arall. Oni fo’r achos yn un syml iawn, dylech gael cronoleg bob amser. Dylai hwnnw hefyd fod yn un na ddadleuir yn ei gylch, cyn belled â phosibl. Mae dadleuon fframwaith yn gwbl wahanol. Byddant yn cynnwys dadl y parti a byddant yn ddadleuol dros ben. Yn anaml y byddant yn cael eu paratoi’n ddigon buan i gael eu rhoi ym mwndel y treial, fodd bynnag. Byddant fel arfer yn cael eu cyflwyno ar wahân dan delerau cyfarwyddyd llys.

(3) Datganiadau achos, y plediadau. Dylai’r holl blediadau fod yn eu trefn, h.y. ffurflen hawlio, manylion yr hawliad, amddiffyniad (a gwrth-hawliad), ymateb (ac amddiffyniad i'r gwrth-hawliad) ac yn y blaen. Os bydd un parti wedi gwneud cais am wybodaeth bellach, dylai’r cais hwnnw a’r atebion gael eu cynnwys yn y rhan hon o’r bwndel. Rhowch y rhain ar ddiwedd yr adran plediadau oni fo’r cais yn ymwneud ag un plediad penodol yn unig. Yn yr achos hwnnw byddai’n gyfleus i chi roi’r cais a’r ateb yn union ar ôl y plediad.

(4) Yr holl orchmynion llys a wnaed hyd at ddyddiad y bwndel. Nid oes yn rhaid i chi gynnwys yr hysbysiadau o wrandawiad a anfonwyd gan y llys, ond yn achlysurol efallai y bydd parti’n dymuno gwneud hynny fel ei fod yn rhagweld dadl am gyfarwyddiadau a roddwyd yn absenoldeb y parti arall.

(5) Datganiadau tystion yr Hawlydd. Dylai’r Hawlydd ei hun (neu’r prif dyst lle y mae’r Hawlydd yn gwmni) fynd gyntaf. Anaml iawn y mae unrhyw wahaniaeth ym mha drefn y bydd datganiadau tystion eraill yn ymddangos. Os bydd datganiad tyst wedi ei gyflwyno gyda dogfennau ategol <u>peidiwch</u> â chynnwys y dogfennau yn y rhan ar gyfer datganiadau tystion. Dylent fynd i’r adran ddogfennau, a’r adran honno yn unig.

(6) Datganiadau tystion y Diffynnydd. Fel yr uchod, y diffynnydd gyntaf. Peidiwch â chynnwys dogfennau ategol.

(7) Unrhyw adroddiadau arbenigwyr yn yr achos, gan gynnwys adroddiadau arbenigwyr meddygol.

(8) Unrhyw gynlluniau neu ffotograffau y dibynnir arnynt yn y treial.

(9) Yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r materion y dadleuir amdanynt yn yr achos. Rhad i'r rhain fod mewn trefn gronolegol, gyda'r cynharaf yn gyntaf. Weithiau mae angen rhoi gwahanol gopïau o'r un ddogfen yn y bwndel, oherwydd, er enghraifft, fod llawysgrifen ar un neu fwy o gopïau o'r ddogfen sy'n bwysig i'r materion yn yr achos. Rhowch y copïau hyn yn y bwndel yn dilyn ei gilydd, gydag unrhyw gopi 'glân' yn gyntaf a chydag unrhyw gopi ardystiedig nesaf iddo. Os oes dogfen mewn llawysgrifen a allai fod yn anodd ei darllen, rhowch fersiwn wedi'i deipio nesaf iddo.

(10) Gohebiaeth yr ymgyfreitha. Rhaid i chi ddefnyddio'ch doethineb yma. Mae'n weddol anarferol i'r barnwr gael ei arwain at ohebiaeth a aeth yn ôl a blaen rhwng y partïon o'r llythyr cyn gweithredu ymlaen. Ond gall fod yn bwysig lle, er enghraifft, y mae'r ymgyfreithiwr neu ei gyfreithiwr wedi gwneud honiad neu roi eglurhad am fater perthnasol sy'n anghyson â'r achos a blediwyd gan y parti hwnnw neu lle yr ymddengys ei fod wedi newid ei feddwl yn ystod y cyfnod yn arwain at y treial. Gallai hyn daflu amheuaeth ar ddibynadwyedd yr ymgyfreithiwr, ac, ar yr amod nad ysgrifennwyd yr ohebiaeth fel rhan o ymdrech i setlo'r achos (gohebiaeth 'heb ragfarn') mae'n gwbl gyfreithiol defnyddio'r deunydd hwn i'r pwrpas hwn.

15.29 Rhaid i fwndel y treial gael ei baratoi o gopïau o ddogfennau, nid byth y dogfennau gwreiddiol. Fodd bynnag, rhaid i bob ochr ddod â'u dogfennau gwreiddiol i'r llys [CPR 39APD 3.3] rhag ofn y bydd angen edrych arnynt.

15.30 Dylai bwndel y treial fod wedi'i gynnwys mewn ffeil fodrwy neu ffeil lifer. [CPR 39APD 3.6] Mae hyn yn ei gwneud yn llawer haws ychwanegu dogfennau at y rhan briodol o'r bwndel. Os oes gormod o dudalennau i fynd i un rhwymydd neu ffeil, defnyddiwch eich disgresiwn o ran y modd y cânt eu rhannu. Mae o gymorth fel arfer i gael y dogfennau perthnasol [h.y. (9) uchod] mewn ffeil ar wahân. Os bydd eich achos yn cynnwys adroddiadau hirfaith gan arbenigwyr gallai fod yn ddoeth cael ffeil ar wahân o adroddiadau arbenigwyr.

15.31 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer [CPR 39APD 3.5] yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio rhanwyr wedi'u rhifo lle y mae'r bwndel yn fwy na 100 llinell o hyd. Mae fel arfer yn gwneud synnwyr defnyddio rhanwyr rhwng pob un o'r deg adran a restrir uchod. Peidiwch, ar unrhyw gyfrif, ail-ddechrau rhifo'r tudalennau ar ôl pob rhannwr. Rhaid i'r rhifo barhau mewn trefn drwy fwndel y treial waeth faint o ranwyr a ddefnyddir (a gall gormod o ranwyr fod yn niwsans) a waeth faint o ffeiliau neu feindars sydd eu hangen i gynnwys yr holl ddogfennau.

15.32 Rhaid i gynnwys bwndel treial gael ei gytuno. Mae hyn yn syml. Dylai'r parti sy'n gyfrifol am y bwndel baratoi mynegai drafft a'i anfon i'w wrthwynebydd. Dylai'r gwrthwynebydd edrych yn ofalus iawn i weld a yw'r holl ddogfennau y mae ef eu heisiau yn y bwndel wedi'u rhestru yn y mynegai, ac os nad ydynt, dylai hysbysu'r parti cyntaf ei fod yn dymuno cael dogfennau pellach yn y bwndel (mae fel arfer yn ddefnyddiol diwygio'r mynegai). Yna rhaid i'r parti cyntaf gynnwys y dogfennau. Does dim lle i drechafwriaeth.

15.33 Bydd achlysuron pan fydd un parti'n gwrthwynebu cynnwys dogfennau penodol un ai ar sail perthnasedd neu ar sail braint. A bod yn onest, does fawr ddim pwrpas mewn dadlau am berthnasedd. Os bydd yr ochr arall yn mynnu, rhowch y ddogfen yn y bwndel. (Os oes llawer o ddogfennau o'r fath efallai y bydd modd dadlau am y gost gysylltiedig yn ddiweddarach). Mae dogfennau 'breintiedig' yn fater arall yn llwyr. Os bu gohebiaeth rhwng y partïon mewn ymgais i gyfaddawdu achos, gan gynnwys wrth gwrs, cynigion Rhan 36, ni ddylai gohebiaeth o'r fath fod yn y bwndel. Mae'n arferol marcio 'heb ragfarn' ar lythyrau a anfonir mewn ymdrech i setlo' achos ond nid yw'r gyfeireb heb ragfarn yn hanfodol nac yn bendant o ran a yw'r llythyr dan sylw'n freintiedig ai peidio.

15.34 Lle y ceir dadl ynghylch priodoldeb rhoi dogfen ym mwndel y treial, dylid paratoi'r bwndeli ac yna dynnu'r dogfennau hynny o'r bwndeli a anfonir i'r llys i'w defnyddio gan y barnwr a'r tyst. Ar ddechrau'r treial dylid codi'r mater gerbron y barnwr am benderfyniad ganddo. Weithiau mae'n angenrheidiol i'r barnwr drosglwyddo'r mater penodol hwnnw i gydweithiwr barnwrol i'w benderfynu fel nad yw ef yn dod yn ymwybodol o gynnwys y dogfennau y dadleuir yn eu cylch.

15.35 Caiff pob dogfen ym mwndel y treial ei thrin fel dogfen ddilys (ac ni fydd raid ei phrofi'n ffurfiol) oni fo'r naill barti neu'r llall yn nodi'n glir nad yw unrhyw ddogfen benodol yn cael ei derbyn fel dogfen ddilys. Drwy ddweud ei bod yn 'ddilys' golygir fod y ddogfen benodol honno wedi ei chreu ar y dyddiad a nodwyd, os o gwbl, ac yn cynnwys y geiriau sy'n ymddangos arni. Nid oes unrhyw ragdybiaeth fod y materion a nodir yn y ddogfen yn gywir; rhaid i gywirdeb cynnwys unrhyw ddogfen gael ei brofi gan y parti sy'n dibynnu arni.

15.36 Os byddwch yn herio dilysrwydd dogfen dylech fod wedi gwneud hynny pan gafodd ei datgelu, ond y gallai fod trafferthion o ran herio'n ddiweddarach, dylech godi'r mater cyn gynted â phosibl gyda'ch gwrthwynebydd ac esbonio'ch sefyllfa'n glir i farnwr y treial.

## I. Paratoi i ofyn cwestiynau i'ch gwrthwynebydd a'i dystion.

15.37 *Croesholi.* Dyma'r union beth sy'n creu drama mewn ystafell llys. Efallai eich bod wedi gweld croesholi ar deledu neu fideo, yn enwedig ar raglenni Americanaidd. O gymharu â hynny, gall eich achos chi yn y llys sirol ymddangos yn ddienaid iawn. Ond wrth gwrs achos sifil ydyw ac nid treial troseddol, ac felly ni fydd rheithgor (ac eithrio mewn rai achosion penodol yn erbyn yr heddlu neu swyddogion carchar), ac mae'n benderfyniad

gwirioneddol a difrifol ar anghydfod; nid oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwneud y peth yn gyffrous nac yn ddifyr.

15.38 Nid oes unrhyw reolau aur o ran croesholi, dim ond rhai sylfaenol. Ewch drwy ddatganiadau tyst eich gwrthwynebydd, fesul paragraff, ac os bydd angen, fesul llinell. Nodwch i lawr yn erbyn pob tyst yr hyn nad ydych yn ei dderbyn sy'n gywir, fel y gallwch ofyn cwestiynau i herio'r hyn a ddywedir. Rhowch sylw penodol i'r dogfennau cyfredol. A yw'r hyn a ddywed y tyst yn ei ddatganiad yn cytuno â'r hyn a ysgrifennodd ef ac eraill ar y pryd? A yw'r hyn a ddywed yn gwneud synnwyr yn erbyn cyd-destun y digwyddiadau fel yr oeddynt yn bodoli ar y pryd? Gall eich cronoleg fod o gymorth mawr yma. A yw'r tyst wedi ail-greu'r sefyllfa yn dilyn y digwyddiad?

15.39 Cadwch eich cwestiynau'n fyr. Wrth groesholi caniateir i chi awgrymu ateb, a gall fod yn demtasiwn mawr i lunio eich cwestiynau fel eu bod yn awgrymu'r ateb yr ydych eisiau i'r tyst ei roi. Ond gall cwestiynau diduedd, byr, yn aml fod yn llwybr sicrach tuag at yr amcan yr ydych yn dymuno'i gyflawni. Os byddwch yn canfod anghysondeb rhwng tyst A a thyst B, gallwch ofyn i A a yw'n sicr o'r hyn a ddywed, ac yna fynd ag ef at yr hyn a ddywed tyst B, gan ofyn iddo a yw'n parhau'n sicr. Oni allai tyst B fod yn gywir? Ni efallai eich bod yn ystyried nad yw'r hyn a ddywed eich gwrthwynebydd yn gyson a'r llythyrau a ysgrifennodd ar y pryd. Ewch ag ef drwy'r hyn a ddywed yn awr. Awgrymwch ei fod yn gweld pethau ychydig yn wahanol yr adeg hynny. Cyfeiriwch ef at y llythyrau a ysgrifennodd bryd hynny. Sut y mae'n egluro'r anghysondeb neu'r gwahaniaeth o ran pwyslais? Cofiwch mai eich nod yw codi amheuon ym meddwl y barnwr o ran dibynadwyedd tystiolaeth y tyst, nid gwthio'r tyst i gornel a'i falu'n racs.

15.40 Yn y dyddiau cyn CPR a datganiadau tystion, yr oedd yn rheol ymarfer i'r diffynnydd gyflwyno holl nodweddion hanfodol ei achos i'r pleintydd a'i dystion, fel y bo'n briodol, yn ystod croesholi. Yr oedd hynny oherwydd yn absenoldeb cyfnewid datganiadau tystion, yr oedd yn bosibl i dystion gadw nifer o bethau dan eu cap, a'i bod yn angenrheidiol i'r barnwr wybod beth oedd ymateb y pleintydd i unrhyw honiad a wnaed yn ddiweddarach gan y diffynnydd, ac i'r pleintydd gael cyfle i ymdrin â thystiolaeth y diffynnydd wrth iddo roi ei dystiolaeth. Yn awr mae pethau'n eithaf gwahanol. Mae pob parti ynghyd â'r Barnwr yn gwybod beth fydd unrhyw dyst yn ei ddweud ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n ddisgyblaeth dda o hyd i'r Diffynnydd herio tystion yr Hawlydd ar unrhyw beth o bwys sy'n destun dadl. Mae hefyd yn ddoeth i'r Hawlydd herio tystion y Diffynnydd ar bob mater pwysig o ffaith y mae dadl amdano.

15.41 Un pwynt i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun fod yn ymwybodol ohono pan fydd gan yr ochr arall gyfreithwyr yw'r datganiadau tyst a luniwyd gan gyfreithiwr. Gall y rhain fod yn boen enaid i farnwr yn y llys sirol. Bydd tystion yn llofnodi ac yna'n cadarnhau gwirionedd datganiadau a ysgrifennir mewn rhyddiaith ragorol (o leiaf o safbwynt cyfreithiwr), sy'n ymdrin yn berffaith â holl faterion yr achos o safbwynt yr ymgyfreithiwr. Mae'r iaith yn amlwg yn hollol wahanol i unrhyw beth a ddefnyddir gan y tyst mewn bywyd go iawn. Yn llawer rhy aml bydd tystion yn dweud wrth y llys mai'r cwbl a wnaethant

oedd llofnodi'r hyn a roddwyd ger eu bron gan y cyfreithiwr, ac nad yw rhannau o'r datganiad mewn gwirionedd yn wir. Dull syml, sy'n aml yn effeithiol, yw cymryd rhan o'r dilyniant digwyddiadau, gofyn i'r tyst a yw'n cofio'r digwyddiadau yn annibynnol ar y datganiad tyst ac yna, gan gymryd ei fod yn deud ei fod yn cofio, gofynnwch iddo ddweud wrth y llys yn ei eiriau ei hun beth ddigwyddodd. Efallai wedyn y bydd yn rhoi disgrifiad eithaf gwahanol i'r hyn yr hoffai'r cyfreithwyr iddo wneud!

## J. Dadl Fframwaith

15.42 Yn y rhan fwyaf o lysoedd, cyfarwyddir pob parti i 'ffeilio' (h.y. anfon i mewn i'r llys) a 'chyflwyno' (h.y. anfon i'r partïon eraill) 'ddadl fframwaith'. Fe'i disgrifir felly oherwydd mai'r bwriad yw iddo fod yn fyr. Bydd llawer o fargyfreithwyr yn rhoi tipyn go lew o gig ar eu fframweithiau. Nid ydynt fymryn gwell oherwydd hynny. Peidiwch â phryderu os bydd eich gwrthwynebydd sydd â chynrychiolaeth gyfreithiol yn paratoi dadl fframwaith lawer mwy na'ch un chi.

15.43 Diben y ddadl fframwaith yw hysbysu'r barnwr ymlaen llaw beth yw eich achos a beth fydd eich prif ddadleuon. Bydd hyn yn helpu'r barnwr wrth baratoi am yr achos. Dylai eich dadl fframwaith anelu at wneud dau beth.

Yn gyntaf dylai'r ddadl fframwaith esbonio'n fyr ynghylch beth y mae'r achos yn eich barn chi. Os byddwch wedi paratoi crynodeb o'r achos caniateir i chi ddefnyddio'r deunydd sydd ynddo. Ond er y dylai crynodeb o achos geisio cyflwyno pethau'n ddiduedd, cewch fod mor blwyfol (partisan) ag y dymunwch yn eich dadl fframwaith felly efallai y byddwch eisiau ail-ysgrifennu eich crynodeb o'r achos. Esboniwch yr achos o'ch safbwynt chi.

Yn ail, dylai'r ddadl fframwaith nodi'r holl faterion (ffeithiol a chyfreithiol) y mae angen iddynt gael eu penderfynu gan y llys yn eich barn chi, a nodwch beth yw eich dadl ar bob mater yn unigol. Fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, efallai y byddwch yn pryderu beth i'w ddweud am faterion cyfreithiol, er y dylai fod gennych, erbyn yr adeg hon yn yr achos, syniad eithaf clir ynghylch beth y maent yn debygol o fod, os yn wir, y ceir unrhyw faterion cyfreithiol o gwbl. Peidiwch â phoeni os oes gennych wrthwynebydd sy'n fargyfreithiwr ac yn nodi achosion ('awdurdod') i'r barnwr. Mae gan fargyfreithwyr ddyletswydd i ddwyn sylw'r barnwr at yr holl achosion sy'n berthnasol i unrhyw fater cyfreithiol y mae'n rhaid i'r barnwr benderfynu arno, ac mewn achos prin sy'n seiliedig ar fater cyfreithiol, dylech allu dibynnu ar y barnwr i nodi'r mater hwnnw, ei egluro i chi, ac ymdrin yn briodol ag ef. Dylech roi eich sylw pennaf i'r materion ffeithiol. Byddwch eisoes wedi paratoi rhestr o faterion ffeithiol ac wedi meddwl am y dystiolaeth y byddwch yn ei dwyn i'r llys i brofi eich haeriadau o ffaith. Bydd nodi eich dadleuon ar bob mater ffeithiol ar bapur nid yn unig yn helpu'r barnwr, bydd hefyd o gymorth i chi roi trefn ar eich meddyliau a mireinio'ch dadleuon.

15.44 Sicrhewch eich bod yn anfon eich dadl fframwaith i'r llys mewn pryd i'r barnwr ei darllen gyda'r papurau. Fe allai'r gorchymyn llys gyfarwyddo amser penodol, ond os nad oes unrhyw gyfarwyddyd penodol ynghylch pa bryd y

dylech ffeilio'ch fframwaith, anfonwch eich fframwaith i'r llys 3 diwrnod cyn y mae'r achos i fod i gael ei gynnal. Hyd yn oed os nad yw'n ofynnol i chi, drwy orchymyn llys, ffeilio dadl fframwaith, mae'n syniad da paratoi un a'i hanfon i'r barnwr. Po gynted y gallwch gael y barnwr i feddwl fel yr ydych chi'n dymuno, gorau oll. Holwch ym mha ffurf y mae'r llys eisiau'r ddadl fframwaith. Fel arfer bydd angen i chi ei hanfon ar ffurf copi caled, ond bydd rhai llysoedd yn derbyn, ac yn wir yn annog anfon fframweithiau i mewn drwy e-bost.

## K. A oes angen i mi fynd i dreial neu a ellir setlo'r achos?

15.45 I bartïon mewn achos, dylai mynd i'r llys ar gyfer gwrandawiad neu dreial i ddatrys y materion rhyngddynt fod yn ddewis olaf. Mae'n llawer gwell i bartïon ddatrys eu materion drwy gytundeb. Dim ond pan nad yw hynny'n bosibl y mae'n rhaid i'r Llys benderfynu'r achos. Yn anffodus, mae'n cymryd dau i setlo achos, ac mae'n gwbl amhosibl cael gwared â'r elfen o drechafwriaeth o drafodaethau setlo na chwaith mabwysiadu safiad caled yn y gobaith y bydd yr ochr arall yn rhoi'r ffidil yn y to.

15.46 Pery'n bosibl hyd at y treial (ac yn wir, a siarad yn gyffredinol, hyd yr amser pryd y bydd y Barnwr yn dechrau ei ddyfarniad yn yr achos), i'r partïon setlo'r achos, hynny yw, dod i gytundeb derbyniol ynghylch yr achos. Mae'n well i drafodaethau am setlo achosion ddigwydd yn ysgrifenedig mewn llythyrau neu drwy e-bost rhwng y partïon fel bod tystiolaeth glir o'r hyn sydd wedi'i gytuno. Os ydych chi'n ysgrifennu llythyr sy'n cynnwys cynigion gennych chi i setlo achos, mae'n ddoeth roi'r pennawd "Heb Ragfarn" ar y llythyr. Mae hyn yn gwneud yn glir na fwriedir i'ch cynigion gael eu darllen gan y Barnwr yn y treial, ac yn eich galluogi i fod yn agored a gonest yn eich cynigion. Ar yr amod fod y llythyr yn cynnwys cynigion ar gyfer setlo, neu wedi ei ysgrifennu'n eglur gyda golwg ar gyfaddawdu'r achos, ni fydd y Barnwr yn edrych ar y llythyrau cyn penderfynu'r achos. Efallai y bydd yn edrych arnynt ar ôl iddo ddod i'w benderfyniad oherwydd fe allai'r cynigion a wnaed gan un parti i'r llall i setlo'r achos fod yn ystyriaeth berthnasol o ran dyfarnu costau. Os ydych chi'n ysgrifennu llythyr yn cynnig telerau setlo mae'n beth doeth sicrhau nad yw'n cynnwys dim arall fel y gellir yn gyfleus ei gadw allan o fwndel y treial.

15.47 Dylai cytundebau rhwng y partïon gynnwys cytundeb ynghylch costau'r achos. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl i'r partïon gytuno i ganiatáu i'r llys benderfynu pwy ddylai dalu pa gostau, ond mae cytundeb o'r fath yn rhoi'r barnwr mewn sefyllfa anodd gan na fydd ef wedi clywed yr holl dystiolaeth yn yr achos, a bydd yn rhaid iddo mae'n debyg gynnal rhyw fath o ymchwiliad ffeithiol cyn y gall ddod i benderfyniad.

15.48 Mae pennod ddiweddarach yn y llawlyfr hwn yn ymdrin â chynigion ffurfiol i setlo a wneir gan un parti i barti arall, sydd â chanlyniadau arbennig o ran costau'r achos (Cynigion Rhan 36").

15.49 Rhaid i chi gadw mewn cof yr hyn yr ydych yn ei beryglu wrth fynd i dreial. Fe allech golli, a gallai hyn fod yn ddrud iawn os oes gan y parti arall gynrychiolaeth. Mae rhywun bron yn sicr o golli ym mhob achos. Rhaid i'r Barnwr wneud penderfyniad gwrthrychol am y materion ffeithiol yn yr achos, gan ddefnyddio'r gyfraith y penderfyna'r barnwr ddylai gael ei defnyddio yn yr achos. Weithiau, efallai y bydd yn rhaid i'r Barnwr benderfynu pwy sy'n dweud y gwir am ffeithiau sy'n hanfodol i lwyddiant neu fethiant achos.

15.50 Os byddwch yn colli'r achos, neu'n colli materion pwysig yn yr achos, yna fe allech fod yn atebol i dalu costau'r parti arall neu'r partïon eraill yn yr achos, a gallai'r costau hyn fod yn sylweddol. Dyna'r rheol sylfaenol, ond mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Barnwr ymarfer ei ddisgresiwn i beidio â dyfarnu ei gostau i'r parti llwyddiannus, neu benderfynu amddifadu parti llwyddiannus o beth o'i gostau. Mae'n bwysig eich bod yn cydbwyso risgiau'r achos yn erbyn y manteision posibl.

# Pennod 16
# Cynnal y Treial

A. Pryd a ble y cynhelir y treial?
B. Sut le ydy ystafell llys?
C. Pwy yw’r barnwr a sut y dylwn ei gyfarch?
D. Beth yw diben y barnwr yn y llys?
E. Ymddwyn yn y Llys.
F. A gaf gymorth yn y Llys?
G. Pwy sy’n mynd gyntaf a beth yw trefn y dystiolaeth a’r areithiau yn y treial?
H. Sut mae gofyn cwestiynau?
I. Beth sy’n digwydd pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth?
J. Sylwadau Terfynol. Beth ddylwn ei ddweud mewn araith?
K. Dyfarniad y barnwr.
L. Dyfarniad neu orchymyn y llys.
M. Costau achos.
N. A gaf i apelio a beth ddylwn ei wneud ynghylch apelio pan fydd yr achos wedi dod i ben?

*<u>Penawdau</u>*

*Nid oes penawdau i'r bennod hon. Dylech ei darllen i gyd.*

**A. Pryd a ble y cynhelir y treial?**

16.1 Byddwch wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y Llys yn dweud wrthych pryd a ble y bydd eich treial yn cael ei gynnal. Bydd yr hysbysiad hwnnw'n rhoi cyfeiriad y llys ichi ond mae'n debyg na fydd yn rhoi rhif yr ystafell llys lle bydd y treial yn cael ei gynnal. Yng nghyntedd y llys, fe welwch restrau o ba achosion sy’n cael eu cynnal ym mha lysoedd, enw'r barnwr sy'n gwrando'r achosion mewn llys penodol ynghyd â’i deitl barnwrol, ac amser a lleoliad yr achosion.

16.2 Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae’r Llys a sut i gyrraedd yno. Caniatewch ddigon o amser i barcio, os ydych yn defnyddio car, a gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd y llys mewn da bryd cyn y mae’r Llys i fod i gychwyn. Efallai y bydd angen ichi siarad â'r parti neu’r partïon eraill cyn i’r achos gychwyn neu efallai y byddant hwy eisiau siarad â chi. Os yw’r parti neu bartïon eraill yn cael eu cynrychioli gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr, byddant yn cyflwyno'u hunain. Nid yn unig y mae cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn cynrychioli buddiannau’u cleient maent hefyd yn “swyddogion y llys”. Felly, mae ganddynt ddyletswyddau i’r llys, gan gynnwys dyletswydd i beidio â chamarwain y llys ac i beidio â’ch camarwain chi, y parti sy’n gwrthwynebu. Dylech allu ymddiried yn yr hyn y byddant yn ei ddweud wrthych. Os byddant yn eich camarwain yn fwriadol, mae gennych hawl i gwyno am eu hymddygiad wrth eu sefydliad proffesiynol.

16.3 Os yw cyfreithiwr neu fargyfreithiwr yn dibynnu ar awdurdod cyfreithiol (achos y mae llys wedi penderfynu arno a'i gofnodi) neu ar ddarpariaeth statudol, neu ar destun o werslyfr cyfreithiol, dylai roi copi ichi. Os bydd y cyfreithiwr yn cyfeirio'r barnwr at ddefnydd o'r fath heb roi copi i chi, dywedwch hynny wrth y barnwr fel y gall sicrhau y byddwch yn cael copi. Dylech anelu at roi copïau o unrhyw statudau, achosion, gwerslyfrau neu ddeunydd tebyg arall i'ch gwrthwynebydd.

## B. Sut le ydy ystafell llys?

16.4 Mae'r Llawlyfr hwn yn y bôn ar gyfer ymgyfreithwyr mewn treialon amldrac, ond mae'r cyngor ynddo yn berthnasol i dreialon trac cyflym hefyd. Fel arfer caiff hawliadau trac cyflym eu gwrando gan Farnwr Rhanbarth. Gall y treial gael ei gynnal mewn ystafell llys neu yn siambrau Barnwr Rhanbarth. Os bydd yn cael ei gynnal mewn siambrau, bydd y barnwr yn eistedd ar un ochr i fwrdd a'r partïon a'u cynrychiolwyr (os oes rhai) ar yr ochr arall.

16.5 Bydd treial amldrac yn cael ei gynnal mewn ystafell llys. Bydd y barnwr yn eistedd gyferbyn â'r partïon ac fel arfer bydd ar lefel uwch na lefel y partïon a'u cynrychiolwyr. Bydd rhes flaen yr ardal lle mae'r partïon a'u cynrychiolwyr (os oes rhai) yn eistedd wedi'i neilltuo ar gyfer yr adfocadau a fydd yn cynnwys yr ymgyfreithwyr hynny sy'n cynrychioli'u hunain. Efallai y bydd bwrdd i'r tystion eistedd wrtho i roi eu tystiolaeth neu efallai y bydd blwch tystion pwrpasol lle bydd tyst yn sefyll neu'n eistedd i roi tystiolaeth. Fel arfer bydd ardal wedi'i neilltuo ar gyfer y wasg a bydd ardal ar gyfer y cyhoedd. Gall eich teulu neu ffrindiau eistedd yn yr ardal gyhoeddus.

16.6 Fel arfer, bydd tystion y partïon yn eistedd yn yr ystafell llys neu'r siambrau tra bydd y tystion eraill yn rhoi eu tystiolaeth. Mae hyn yn wahanol i dreial troseddol lle nad oes yr un tyst yn clywed tystiolaeth unrhyw dyst sy'n mynd o'i flaen. Ond, mewn treial sifil, os oes rheswm da dros wneud hynny, gall y barnwr orchymyn tystion i aros y tu allan i'r llys nes y byddant yn rhoi eu tystiolaeth. Gall unrhyw barti ofyn i'r barnwr wneud gorchymyn o'r fath y gellir ei wneud pan fydd mater ffeithiol pwysig iawn rhwng y partïon a bod mwy nag un tyst ar ran un parti yn rhoi tystiolaeth ar y mater ffeithiol hwnnw.

## C. Pwy yw'r barnwr a sut y dylwn ei gyfarch?

16.7 Bydd y treial (neu wrandawiad) yn cael ei wrando naill ai gan Farnwr Cylchdaith neu Farnwr Rhanbarth neu Farnwr rhan amser a fydd yn Gofiadur, neu, mewn treialon trac cyflym, gall fod yn ddirprwy Farnwr Rhanbarth. Gwrandewir ar dreialon trac cyflym fel arfer gan Farnwr Rhanbarth neu ddirprwy Farnwr Rhanbarth a gwrandewir ar dreialon amldrac fel arfer gan Farnwr Cylchdaith neu Gofiadur. Bydd Barnwr Uchel Lys neu ddirprwy Farnwr Uchel Lys yn gallu gwrando rhai treialon o bwysigrwydd neu werth mawr.

16.8 Fe welwch enw a theitl y Barnwr ar restr y llys yng nghyntedd adeilad y llys ac fel arfer hefyd y tu allan i ystafell y llys neu'r siambrau. Dylai fod tywysyddion neu swyddogion llys eraill ar gael i'ch helpu.

Cyfeirir at Farnwr Rhanbarth ar y rhestrau fel "Barnwr Rhanbarth.....". Cyfeirir at ddirprwy Farnwr Rhanbarth fel "Dirprwy Farnwr Rhanbarth.....". Cyfeirir at Gofiadur fel "Mr (Mrs, Miss) Cofiadur ..... neu dim ond y "Cofiadur.....". Cyfeirir at Farnwr Cylchdaith fel "Ei Anrhydedd y Barnwr......" neu "Ei Hanrhydedd y Barnwr.......". Cyfeirir at Farnwr Uchel Lys fel "Mr Ustus...." neu "Mrs Ustus......". Weithiau, efallai y bydd Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur yn eistedd fel dirprwy Farnwr Uchel Lys. Os felly, bydd hynny'n cael ei nodi ar y rhestr.

16.9 Yn y llys, un ai mewn ystafell llys neu yn Siambrau'r Barnwr, dylech gyfarch Barnwr Rhanbarth neu ddirprwy Farnwr Rhanbarth fel "Syr" neu "Madam" fel y bo'n briodol. Gelwir Cofiadur neu Farnwr Cylchdaith yn "Eich Anrhydedd" neu "Ei Anrhydedd" neu "Ei Hanrhydedd". Cyfeirir at Farnwr Uchel Lys yn uniongyrchol fel "F'Arglwydd" neu "F'Arglwyddes" fel y bo'n briodol neu, yn anuniongyrchol, fel "Ei Arglwyddiaeth" neu "Ei Harglwyddiaeth". Pan fydd Cofiadur neu Farnwr Cylchdaith yn eistedd yn yr Uchel Lys fel dirprwy Farnwr Uchel Lys, cyfeirir ato ef hefyd fel "F'Arglwydd" neu "F'Arglwyddes".

Peidiwch â phoeni os byddwch yn anghofio sut i gyfarch barnwr. Cyn belled â'ch bod yn gwrtais ac yn barchus, ni fyddwch yn tramgwyddo'r un barnwr!

## D. Beth yw diben y barnwr yn y llys?

16.10 Mae gan y barnwr dair rôl i'w cyflawni. Mae'n farnwr y ffeithiau (yn wreiddiol rôl y rheithgor), mae'n farnwr y gyfraith (sef ei rôl erioed) ac mae'n llywyddu dros y treial, yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn drefnus, ac yn dyfarnu ar faterion cyfraith a pha mor dderbyniol yw'r dystiolaeth yn ystod y treial.

16.11 Mae'r barnwr yn gwrando ar y tystion a'r dystiolaeth ac yn asesu dibynadwyedd a hygrededd y tystion a'r dystiolaeth mewn ffordd gwbl wrthrychol heb ymrwymiad na chydymdeimlad. Bydd yn gwneud nodyn o'r dystiolaeth at ei ddibenion ei hun. Mae rhai barnwyr yn teipio'u nodiadau ar gyfrifiadur, mae eraill yn ysgrifennu mewn llyfr nodiadau, weithiau'n araf iawn. Bydd angen ichi fod yn amyneddgar. Pan fydd y dystiolaeth yn gyflawn, bydd y barnwr yn gwrando ar ddadleuon y partïon yng nghyswllt y ffeithiau a'r gyfraith. Mae ganddo hawl i ofyn cwestiynau i'r tystion a'r partïon ac mae'n gwneud hynny'n aml. Ond, nid ei waith ef yw cynorthwyo'r naill ochr na'r llall.

16.12 Y barnwr sy'n llwyr reoli'r treial. Os yw'n teimlo bod hynny'n briodol, gall wneud cyfarwyddiadau sy'n anghyson â chyfarwyddiadau a roddwyd cyn y treial, er enghraifft, ynghylch galw tyst neu'r materion y gall tyst roi tystiolaeth yn eu cylch. Rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir yn ystod treial gael eu gwneud gan roi sylw dyledus i fuddiannau pob parti. Ond dylech ddeall na ellir rhagweld cwrs unrhyw dreial yn sicr ymlaen llaw, ac efallai y bydd yn rhaid i'r barnwr wneud cyfarwyddiadau i ystyried amgylchiadau sydd wedi newid lle bydd hynny er budd cyfiawnder.

16.13 Enghraifft dda o adeg pan allai fod angen i farnwr treial roi cyfarwyddiadau sy'n gwrthdaro â chyfarwyddiadau blaenorol yw amserlen treial. Efallai y bydd barnwr wedi gosod amserlen ar gyfer y treial mewn Cynhadledd Rheoli Achos [CPR 28.6 (trac cyflym) CPR 29.8 (amldrac)]. Bydd wedi gwneud hynny mewn ymgynghoriad â'r partïon [CPR 39.4]. Ond allwch chi ddim disgwyl i farnwr y treial lynu'n gaeth wrth amserlen treial. Efallai y bydd materion newydd yn codi sy'n golygu y bydd yn rhaid i dyst dreulio llawer mwy o amser na'r disgwyl yn y blwch tystion, neu mae tyst yn canfod na all ddod i'r llys ar ddiwrnod penodol a rhaid rhoi amser arall iddo. Neu mewn achos lle nad oes amserlen wedi'i phennu, efallai y bydd barnwr y treial yn penderfynu y dylai'r achos gael un. Rhaid ichi fod yn barod i fod yn hyblyg.

16.14 Ar ôl gwrando ar y dystiolaeth a dadleuon y partïon bydd y barnwr yn penderfynu pa ffeithiau sydd wedi cael eu profi gan y parti sydd â'r baich o brofi'r materion amrywiol yn yr achos (fel arfer yr Hawlydd) ac yn dod i ddyfarniad ynghylch a yw'r parti hwnnw wedi profi ei achos - mewn geiriau eraill, penderfynu pwy sydd wedi ennill yr achos. Bydd y barnwr yn penderfynu ar y materion ar sail yr hyn sy'n fwy tebygol o fod yn gywir na pheidio – "yn ôl pwysau tebygolrwydd". Efallai y bydd yn rhaid penderfynu ar faterion gwahanol ac mae'n bosibl y bydd parti yn ennill rhai materion ond yn colli eraill.

## E. Ymddwyn yn y Llys

16.15 Mae'n hynod bwysig fod pawb sy'n bresennol mewn llys sifil, un ai mewn gwrandawiad mewn ystafell llys neu yn siambrau barnwr, yn ymddwyn yn ddistaw, yn gwrtais ac yn barchus. Mae bargyfreithwyr a chyfreithwyr yn cael hyfforddiant ymarferol ar sut i wisgo ac ymddwyn yn y llys. Mae'n syniad da iawn ymweld â llys a gwylio gwrandawiad cyn diwrnod eich treial neu wrandawiad chi a gweld sut mae treial yn cael ei gynnal a sut mae bargyfreithiwr neu gyfreithiwr yn ymddwyn yn y llys. Does dim disgwyl ichi wisgo fel bargyfreithiwr neu gyfreithiwr. Ond mae gwrandawiad mewn llys yn fater pwysig a difrifol a dylid gwisgo dillad call a thaclus a dylech osgoi gwisgo siorts neu wisg amhriodol arall.

16.16 Bydd pob barnwr yn ceisio trin pob ymgyfreithiwr yn deg, yn gwrtais ac yn gyfartal. Os byddwch yn teimlo nad yw'r barnwr yn eich trin yn unol â'r egwyddorion hyn neu os nad yw'n eich deall chi a'ch pryderon mewn rhyw ffordd, dylech ddweud hynny a rhoi gwybod iddo pa bryderon sydd gennych. Dylech chithau ddefnyddio egwyddorion tebyg yn eich ymwneud â'r partïon eraill yn eich achos ac i'w tystion. Cofiwch hefyd fod gennych ddyletswydd i fwrw ymlaen â'r achos a pheidio â gwastraffu amser y llys. Mae llawer o ymgyfreithwyr eraill sydd am i'w hachosion gael eu clywed, pob un ohonynt yr un mor bryderus â chi am eu hachos.

16.17 Mae pob barnwr yn gwybod bod treialon a gwrandawiadau'n gallu achosi straen mawr a'u bod yn aml yn achlysuron emosiynol. Gall y materion sy'n cael sylw fod o bwysigrwydd mawr, ac o bwysigrwydd aruthrol weithiau i'r partïon. Dyna pam mae'n bwysig fod pawb yn y llys yn ymdrechu'n galed i ymddwyn yn briodol er

mwyn i bob parti gael yr un cyfle i gyflwyno'u hachosion. Bydd y barnwr modern yn ceisio gweinyddu cyfiawnder heb fod yn rhy ffurfiol, gan gofio y gall gormod o ffurfioldeb godi arswyd ar rai ymgyfreithwyr, yn enwedig ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, gan achosi iddynt beidio â dweud popeth y mae angen iddynt ei ddweud wrth roi tystiolaeth neu gyflwyno dadl. Ond peidiwch â manteisio ar unrhyw anffurfioldeb. Rhaid i'r achos aros yn drefnus. Dim ond un unigolyn ddylai siarad ar y tro. Bydd y barnwr yn sicrhau bod pobl yn siarad yn eu tro ac yn drefnus.

16.18 Gall camymddwyn difrifol neu barhaus mewn ystafell llys neu siambrau fod yn ddirmyg llys a all arwain at gosb o hyd at 2 flynedd dan glo.

## F. A gaf gymorth yn y Llys?

16.19 Os oes gennych anabledd corfforol neu feddyliol, efallai y bydd angen cymorth arnoch i fynd i ystafell y llys neu'r siambrau. Neu efallai y bydd angen gwneud rhai addasiadau ar eich cyfer yn adeilad y llys neu yn ystafell y llys neu'r siambrau i sicrhau y gallwch gymryd rhan lawn a chyfartal yn yr achos. Byddai'n ddefnyddiol iawn petaech yn gadael i staff y llys wybod ymlaen llaw os oes angen addasiadau neu gymorth arnoch oherwydd eich anabledd. Ond os na fyddwch yn gallu gwneud hynny, dywedwch wrth aelod o staff y llys pan fyddwch yn cyrraedd.

16.20 Mewn nifer bach o Ganolfannau Llysoedd (yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain ac yng Nghanolfan Llysoedd Sifil Caerdydd, er enghraifft), mae canghennau o'r Uned Cymorth Personol (PSU), mudiad elusennol sy'n rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol heb fod yn gyfreithiol i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, tystion, aelodau'r teulu a chefnogwyr eraill.

16.21 Efallai y bydd y Barnwr yn caniatáu i chi gael cymorth yn y llys oddi wrth ffrind neu gefnogwr - a elwir yn "Ffrind McKenzie" (ac fel arfer byddwch yn cael caniatâd). Gall yr unigolyn hwnnw fod yn gefn i chi, gall gymryd nodiadau, helpu gyda phapurau'ch achos, a rhoi cyngor ichi yn ddistaw ar unrhyw agwedd o gwrs yr achos. Ond, ni chaiff yr unigolyn hwnnw annerch y llys, rhoi cyflwyniadau llafar na holi tystion ar eich rhan. Ni chaiff ychwaith weithredu fel eich asiant yng nghyswllt yr achos na rheoli'ch achos y tu allan i'r llys, e.e. drwy lofnodi dogfennau llys.

16.22 Gall y Barnwr wrthod rhoi caniatâd ichi ddefnyddio ffrind McKenzie os yw'r Barnwr yn fodlon, mewn achos penodol, nad oes angen y fath gymorth arnoch er budd cyfiawnder a thegwch.

16.23 Os ydych yn awyddus i gael ffrind McKenzie gyda chi yn y llys, dylech ddweud wrth y barnwr cyn gynted â phosibl gan nodi pwy fydd y ffrind hwnnw. Efallai y gofynnir i'r ffrind McKenzie ddarparu curriculum vitae byr neu ddatganiad arall yn rhoi ei brofiad perthnasol, gan gadarnhau nad oes ganddo fudd yn yr achos a'i fod yn deall rôl ffrind McKenzie a'r ddyletswydd cyfrinachedd i chi.

16.24 Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd y Llys yn rhoi hawl i unigolyn lleyg (sef rhywun nad yw'n gyfreithiwr neu fargyfreithiwr cymwys) siarad ar eich rhan mewn gwrandawiad. Gallai roi caniatâd os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud yn anodd ichi siarad drosoch eich hun. Os ydych yn meddwl y dylech fod â hawl i gael unigolyn lleyg i siarad ar eich rhan, dywedwch y rheswm wrth y barnwr ar ddechrau'r achos fel y gall benderfynu ar y mater.

## G. Cymorth gan y barnwr

16.25 Mae rhai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cael gwybod gan weithwyr cyngor y bydd y barnwr yn eu helpu. Maent yn siomedig pan welant nad yw'n rhoi'r holl gymorth y mae ei angen arnynt iddynt. Ystyriwch y mater o safbwynt y barnwr. Bydd am weld y treial yn mynd rhagddo'n ddidrafferth ac am wneud yn siŵr fod pob parti'n cael y cyfle gorau posibl i gyflwyno'u tystiolaeth a'u dadleuon, sy'n gyson â'r broses o reoli treial yn briodol. Os nad yw ymgyfreithiwr drosto'i hun yn sicr ynghylch trefn y llys, bydd y barnwr yn dweud wrtho beth ddylai ddigwydd nesaf, megis galw tyst, cyflwyno sylwadau ac ati, ac yn helpu'r ymgyfreithiwr yn gyffredinol gyda materion trefniadol.

16.26 Ond dim ond hyn a hyn y gall barnwr ei wneud. Rhaid i bob barnwr dyngu llw barnwrol gan addo gwneud "iawn i bob math o bobl yn ôl deddfau ac arferion y deyrnas hon, heb ofn, na ffafr, hoffter na drwgdeimlad". Petai barnwr yn helpu ymgyfreithiwr drosto'i hun drwy, er enghraifft, roi cyngor ar y gyfraith, awgrymu dadleuon cyfreithiol a allai gael eu cyflwyno, neu holi tystion ar ran yr ymgyfreithiwr drosto'i hun, byddai perygl go iawn nad oedd yn gwneud iawn â'r parti sy'n gwrthwynebu. Yn gam neu'n gymwys, efallai y byddai'r parti sy'n gwrthwynebu yn teimlo bod y barnwr yn dod yn gysylltiedig ag achos yr ymgyfreithiwr drosto'i hun. Rhaid i farnwr fod yn ofalus iawn rhag ymddangos fel petai'n ffafrio'r naill barti neu'r llall. Ni ddylai'r un barnwr ddod yn gysylltiedig ag achos mewn unrhyw ffordd sy'n ymddangos fel petai'n ffafrio un ochr pa mor deilwng bynnag yw'r cymhelliad dros gysylltiad o'r fath.

## H. Pwy sy'n mynd gyntaf a beth yw trefn y dystiolaeth a'r areithiau yn y treial?

16.27 Fel arfer, bydd yr Hawlydd yn rhoi araith agoriadol fer i gyflwyno'r achos a'r materion i'r barnwr. Gall fod yn ddefnyddiol dwyn sylw'r barnwr at unrhyw ddogfennau ym mwndel y treial yr ydych yn rhoi pwys mawr arnynt. Peidiwch â synnu os bydd y barnwr yn gofyn cwestiynau ichi yn ystod eich araith agoriadol neu yn ystod y dystiolaeth. Os ydych yn teimlo na allwch ateb cwestiwn yn syth dylech ddweud hynny a gwneud nodyn efallai i gael yr ateb yn ystod yr egwyl nesaf. Ond dylech baratoi eich achos yn drwyadl er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau y bydd y barnwr yn eu gofyn i chi. Bydd y cwestiynau yn siŵr o fod yn berthnasol iawn i'r hyn y bydd yn rhaid i'r barnwr benderfynu arno. Os ydych yn meddwl nad yw cwestiwn yn berthnasol, bod y barnwr hyd yn oed efallai wedi methu'r pwynt, peidiwch â bod ofn dweud hynny. Nid yw'n anodd gwneud hynny. Gallech ddweud "Y pwynt rwy'n ei wneud yw..." ond efallai y byddai rhywbeth mwy cwrtais fel hyn yn well: "Rwy'n ymddiheuro os nad wyf wedi esbonio fy hun yn iawn, ond y pwynt rwyf am ei wneud eich anrhydedd yw...".

16.28 Bydd yr Hawlydd wedyn fel arfer yn cyflwyno'i dystiolaeth, gan alw ar ei dystion mewn trefn o'i ddewis ef. Gall y partïon eraill ofyn cwestiynau i bob tyst, drwy eu cynrychiolwyr os oes ganddynt rai. Unwaith y bydd tystiolaeth yr Hawlydd yn gyflawn, bydd y Diffynnydd yn galw'i dystion. Os oes mwy nag un Diffynnydd, y drefn a ddefnyddir ar gyfer rhoi tystiolaeth fydd y drefn ar y plediadau, ond gellir newid hyn naill ai drwy gytundeb neu bydd y barnwr yn dweud ym mha drefn y bydd y tystion yn cael eu galw.

16.29 Fe welwch y bydd y barnwr yn hyblyg, yn sicr cyn belled ag y bydd yr amgylchiadau yn caniatáu. Gall tyst gael ei alw allan o drefn ("rhyngosod") os oes raid oherwydd ymrwymiadau'r tyst. Bydd tyst sy'n cael trafferth yn y blwch tystion yn cael ychydig o funudau i ymdawelu. Gall barnwr godi'n fuan os oes angen cael gafael ar ddogfen hanfodol, neu eistedd yn hwyr os oes angen gorffen gyda thyst ar ddiwrnod arbennig oherwydd ymrwymiadau eraill.

16.30 Os oes arbenigwyr gan y ddwy ochr, mae'n arferol i'r arbenigwyr gael eu galw ar ôl ei gilydd. Mae hyn yn helpu'r barnwr, sy'n clywed yr holl dystiolaeth arbenigol gyda'i gilydd. Bydd hefyd yn helpu'r partïon. Mae'n ddoeth cael eich arbenigwr chi yn y llys pan fydd arbenigwr eich gwrthwynebydd yn rhoi tystiolaeth, i roi ei farn ef am yr hyn sy'n cael ei ddweud ac i ddweud wrthych lle gall arbenigwr yr ochr arall fod yn anghywir ac y dylai gael ei herio. Gall presenoldeb arbenigwr yn y llys fod yn gostus. Os bydd yr arbenigwyr yn cael eu galw gyda'i gilydd, dylai hynny gadw'r ffioedd presenoldeb cyn ised â phosibl.

16.31 Ar ddiwedd y cam tystiolaeth, bydd pob parti yn cael cyfle i annerch y barnwr a dadlau ei achos yn ei 'sylwadau terfynol' neu ei 'araith derfynol'. Dyma gyfle'r parti i ddarbwyllo'r barnwr i ddyfarnu o'i blaid yng ngoleuni'r holl dystiolaeth, ysgrifenedig a llafar, a gafodd ei chyflwyno gerbron y barnwr. Yr arfer cyffredin yw i'r Diffynnydd fynd yn gyntaf a'r Hawlydd yn olaf, oherwydd gan yr Hawlydd fel arfer fydd y baich profi. Ond gall yr arfer fod yn wahanol rhwng achosion. Mewn achosion yn y Llys masnachol a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith, mae'r Hawlydd yn aml yn mynd yn gyntaf a'r Diffynnydd yn olaf. Gall trefn yr areithiau amrywio os oes mwy na dau barti neu'n dibynnu a oes tystiolaeth yn cael ei galw gan y Diffynnydd. Caiff y partïon gytuno ar drefn yr areithiau a chynnig hyn i'r barnwr. Yn y pen draw, y Barnwr fydd yn penderfynu ar y drefn. Peidiwch â phryderu am drefn yr areithiau. Ni fydd y gair olaf yn dylanwadu ar farnwyr.

## I. Sut mae gofyn cwestiynau?

16.32 Bydd datganiad ysgrifenedig tyst fel arfer yn cael ei ystyried yn brif dystiolaeth y tyst ar ran y parti sy'n galw'r tyst hwnnw ('y dystiolaeth flaenaf'). Does dim angen i'r tyst ailadrodd ar lafar beth oedd wedi'i ddweud yn y datganiad. Gall barnwr ganiatáu i ymgyfreithiwr sy'n galw tyst ofyn rhagor o gwestiynau iddo. Gall y rhain ddelio â materion a godir yn natganiadau tystion y partïon eraill, neu faterion sydd wedi codi ers i'w ddatganiad tyst gael ei gyflwyno, neu faterion y mae rhybudd wedi'i roi ar eu cyfer, gweler para 14.16. Mae'n debyg y bydd y barnwr yn cyfyngu'n llym ar gwestiynau ychwanegol.

16.33 Pan fyddwch yn gofyn cwestiynau i'ch tyst eich hun ni chewch ofyn 'cwestiynau arweiniol', h.y. cwestiynau a roddir mewn ffordd sy'n awgrymu'r ateb yr hoffech ei gael gan y tyst.

16.34 Gallwch brofi tystiolaeth tystion y parti neu'r partïon eraill drwy ofyn cwestiynau iddynt (gan gynnwys cwestiynau arweiniol). Ond, cofiwch mai'r amser i roi areithiau yw ar ddiwedd y dystiolaeth.

## J. Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth?

16.35 I ddechrau, gofynnir ichi dyngu llw crefyddol neu roi eich cadarnhad. Bydd llw (addewid crefyddol i ddweud y gwir) yn amrywio yn ôl pa grefydd yr ydych yn ei harddel. Dylai'r llys fod â chardiau sy'n cynnwys nifer o wahanol fathau o lwon crefyddol a dylai hefyd fod â nifer o lyfrau sanctaidd ar gyfer llwon crefyddol gwahanol. Mae gennych hawl i dyngu llw yn unol â'ch cred grefyddol eich hun. Os nad ydych yn grefyddol neu os nad yw eich credoau crefyddol yn caniatáu ichi dyngu llw crefyddol, gallwch gadarnhau, math o addewid heb fod yn grefyddol i ddweud y gwir. Bydd clerc neu dywysydd y llys fel arfer yn gofyn ichi cyn y treial restru eich tystion a datgan a fyddant yn tyngu llw, ac ar ba lyfr sanctaidd, neu'n cadarnhau.

16.36 Rhaid i dyst gofio bod tyngu llw neu gadarnhau yn fater difrifol. Dylai'r llys fod yn hollol ddistaw pan fydd hyn yn digwydd. Ni chaniateir siarad na symudiad yn y llys hyd yn oed pan dyngir llw neu pan gadarnheir.

16.37 Pa un a ydych yn tyngu llw neu'n cadarnhau, rydych wedyn yn rhwym i roi'r gwir, yr holl wir a'r gwir yn unig. Os byddwch yn dweud anwiredd ar ôl tyngu llw, rydych yn cyflawni dirmyg llys a all arwain at gosb o hyd at ddwy flynedd o garchar. Neu efallai y cewch eich erlyn am anudoniaeth, trosedd difrifol y gallech gael eich anfon i'r carchar am ei gyflawni. Mae dweud anwiredd mewn datganiad tyst, neu ddibynnu ar ddatganiad tyst a chithau'n gwybod ei fod yn cynnwys gwybodaeth anwir hefyd yn ddirmyg llys ac yn drosedd sy'n gallu arwain at gosb o garchar.

## K. Sylwadau terfynol

16.38 Mae'ch sylwadau terfynol yn bwysig. Dyma'ch cyfle i ddarbwyllo'r Barnwr i gymryd eich safbwynt chi. Os ydych wedi paratoi dadl fframwaith, fel y'ch cynghorir i wneud, gall hwnnw fod yn sail i'ch sylwadau terfynol. Sut bynnag yr ydych yn delio â'ch sylwadau terfynol, peidiwch â dim ond siarad â'r barnwr. Mae'n ddefnyddiol i farnwr bob amser wybod pa fater rydych yn delio ag ef ar unrhyw bwynt yn eich sylwadau, fel y gall roi'r hyn rydych yn ei ddweud yn ei gyd-destun. O ran y materion ffeithiol, rydych yn debygol o wynebu adroddiadau gwahanol am yr un digwyddiadau rhwng eich tystion a'r ochr arall. Esboniwch i'r barnwr pam mai eich safbwynt chi sydd orau; beth ynghylch tystion yr ochr arall sy'n awgrymu y gallant fod yn annibynadwy.

16.39 Yn ystod y treial, efallai nad yw'r dystiolaeth wedi dod i'r amlwg fel yr oeddech yn ei ddisgwyl. Efallai y bydd yn rhaid ichi addasu eich dadleuon i ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn hytrach na'r datganiadau ysgrifenedig. Gwnewch hynny. Ni fydd dim ond ailadrodd y ddadl wreiddiol a gafwyd yn eich dadl fframwaith yn eich helpu os yw bellach yn amlwg yn anghynaladwy.

16.40 Dylai areithiau fod mor fyr ag sydd raid a delio â materion cyfoes yn yr achos. Ni ddylid cynnal dadansoddiad hir neu fanwl o'r dystiolaeth. Weithiau, ond yn anaml iawn, efallai y byddwch am sicrhau bod y barnwr yn gwerthfawrogi sut mae'r dystiolaeth i gyd yn cysylltu â'i gilydd i gefnogi'ch achos a bydd dadansoddiad o'r dystiolaeth yn briodol. Ond gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi trefn ar hyn yn ofalus ymlaen llaw.

16.41 Mewn achos hir, byddai teipio rhestr o bwyntiau bwled yn crynhoi beth, yn eich barn chi, yw cryfderau'ch achos neu wendidau achos y partïon eraill yn helpu'r barnwr. Efallai y byddai'n well gennych droi eich dadl fframwaith yn ddogfen yn nodi sail eich cyflwyniadau terfynol. Efallai y clywch gynrychiolydd cyfreithiol yn cyfeirio at 'nodyn llafar' a dyna beth yw hwn fel arfer.

16.42 Yr arfer cyffredin yw mynd yn syth o'r tyst olaf i'r cyflwyniadau terfynol. Efallai na fyddwch yn teimlo'n barod i gymathu'r holl ddeunydd a darparu sylwadau terfynol da. Peidiwch byth â bod ofn gofyn i'r barnwr am amser i roi trefn ar eich meddyliau.

16.43 Bydd rhai barnwyr yn eistedd yn ddistaw ac yn gwrando ar y sylwadau heb ddweud gair. Bydd eraill yn torri ar draws ac yn gofyn cwestiynau i gael esboniad am bwyntiau sy'n eu pryderu, neu ddweud wrthych am beidio â dadlau pwynt arbennig oherwydd eu bod yn cytuno â chi arno. Bydd yn rhaid ichi wneud orau gallwch gyda'r barnwr sy'n cael ei ddyrannu i'ch achos. Pan fydd barnwr yn gofyn ichi ddelio â mater penodol, mae'n amlwg yn rhywbeth sy'n ei bryderu. Bydd delio â hwnnw er budd ichi ac, yn ddelfrydol, dylech roi sylw iddo'n syth. Ond os oes gennych drefn pwyntiau wedi'i pharatoi, a'r barnwr yn gofyn cwestiwn y byddwch yn cyfeirio ato'n ddiweddarach, dywedwch wrtho y byddwch yn rhoi sylw i'w gwestiwn ond y byddai'n well gennych wneud hynny yn y drefn rydych wedi'i pharatoi.

16.44 Bydd pwy bynnag sy'n mynd yn gyntaf yn cael ymateb i unrhyw faterion cyfraith a godir gan wrthwynebydd sy'n cyflwyno'i sylwadau'n ddiweddarach. Disgwylir i'r partïon ddelio â'r holl faterion ffeithiol mewn un araith. Ond os byddwch yn cofio am bwynt na wnaethoch sôn amdano yn ystod eich araith, bydd y barnwr fel arfer yn cytuno i gais cwrtais i gael gwneud y pwynt.

## L. Dyfarniad y Barnwr

16.45 Gall y Barnwr roi dyfarniad llafar yn syth ar ôl yr areithiau terfynol. Neu gall fynd i siambrau'r Barnwr am gyfnod byr i ystyried yr achos ac wedyn rhoi ei ddyfarniad. Neu gall ohirio'r achos tan ddyddiad arall i baratoi dyfarniad a fydd wedyn yn cael ei roi yn ysgrifenedig neu ar lafar ("neilltuo dyfarniad").

16.46 Bydd y dyfarniad yn rhoi cefndir yr achos, beth yw'r materion cyfreithiol a ffeithiol, beth yw'r dystiolaeth bwysig ar y materion hynny, pa ganfyddiadau ffeithiol mae'r barnwr yn eu gwneud, pa egwyddorion cyfreithiol sydd wedi'u defnyddio a rhoi casgliad y barnwr am yr holl ddeunydd hwnnw ynghyd â rhesymau. Rhaid i bod dyfarniad fod yn rhesymedig. Dylid penderfynu ar bob mater ffeithiol pwysig a, lle bo angen, dylid esbonio'r gyfraith sydd wedi'i chymhwyso i'r achos, weithiau gyda dyfyniadau o statudau neu achosion y penderfynwyd arnynt mewn llysoedd uwch.

## L. Y Gorchymyn Llys

16.47 Bydd y Barnwr yn gweithredu'i ddyfarniad drwy wneud Gorchymyn. Bydd hwn yn cael ei selio â sêl y llys a'i gyflwyno i bob parti. Fel arfer, y llys fydd yn gyfrifol am lunio'r gorchymyn. Ond, mewn achosion mwy cymhleth, yn enwedig os oes angen gwneud cyfarwyddiadau penodol ar gyfer gweithredu gorchymyn, gall y barnwr ofyn i'r cwnsler baratoi 'cofnod o orchymyn' i'w ystyried, ei gymeradwyo neu ei ddiwygio ganddo fel y bo'r angen. Fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, ni fydd disgwyl ichi baratoi cofnod o orchymyn, ond os bydd cwnsler eich gwrthwynebydd yn paratoi cofnod o'r fath, dylai afon copi o'i ddrafft atoch a gofyn ichi am unrhyw sylwadau a all fod gennych.

16.48 Anfonir copi o'r Gorchymyn atoch fel mater o drefn. Os bydd angen trawsgrifiad o'r dyfarniad arnoch, sef esboniad llawn y barnwr ynghylch pam y daeth i'r penderfyniad yn yr achos, bydd angen ichi wneud cais am un oddi wrth gofnodwr llaw-fer swyddogol. Bydd swyddfa'r llys yn rhoi ffurflen i chi. Oni bai eich bod wedi'ch eithrio rhag talu ffioedd, bydd angen ichi dalu ffi'r cofnodwr llaw-fer i gael y trawsgrifiad.

## M. Costau'r achos

16.49 Bydd y barnwr fel arfer yn gwneud gorchymyn ar gyfer costau yn syth ar ôl rhoi ei ddyfarniad. Rhoddir sylw i gostau mewn pennod arall. Gall barnwr wneud amrywiaeth eang o orchmynion, yng nghyswllt pwy ddylai dalu a beth ddylai gael ei dalu. Ond yn y rhan fwyaf o achosion mae 'costau'n dilyn y digwyddiad', h.y. gorchmynnir y sawl sydd wedi colli i dalu costau'r sawl sydd wedi ennill.

16.50 Os yw'r achos wedi'i ddyrannu i'r trac cyflym neu os nad yw'r gwrandawiad wedi para mwy na diwrnod, y rheol gyffredin yw y bydd y barnwr yn gwneud asesiad diannod o gostau'r achos. Bydd y llys nid yn unig yn penderfynu mewn egwyddor pwy ddylai dalu costau'r achos cyfan neu unrhyw rannau o'r achos, bydd hefyd yn asesu faint fydd y costau hynny. Er mwyn helpu'r barnwr gyda'r broses hon, dylai pob parti fod wedi ffeilio Datganiad Costau yn y llys ac wedi'i roi i'r partïon eraill. Dylai datganiad costau fod ar ffurflen enghreifftiol. Os na fydd y barnwr yn gwneud asesiad diannod o'r costau, bydd yn gorchymyn asesiad manwl o gostau'r parti sy'n derbyn.

**N. A gaf i apelio? Beth ddylwn ei wneud ynghylch apelio pan fydd yr achos wedi dod i ben?**

16.51 Os ydych yn teimlo y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad y barnwr, dylech ofyn iddo am ganiatâd i apelio ar ddiwedd y gwrandawiad. Dylech roi rhesymau byr pam rydych yn credu bod penderfyniad y barnwr yn anghywir neu resymau eraill pam y dylai eich apêl gael ei chlywed. Os na fyddwch yn gofyn i'r barnwr ar lafar yn y gwrandawiad lle rhoddwyd y dyfarniad, rhaid ichi ofyn yn ysgrifenedig am ganiatâd naill oddi wrth y barnwr yr ydych am apelio yn erbyn ei ddyfarniad neu oddi wrth y llys apêl priodol. Y cyfnod arferol ar gyfer ffeilio rhybudd o apêl yw cyn pen 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn. Ceir arweiniad mwy manwl am apeliadau ym Mhennod 19.

# Pennod 17
# Dirwyn i ben

A. Dirwyn hawliad i ben
B. Y drefn ar gyfer dirwyn i ben
C. Pan fydd angen cael caniatâd y llys
D. Atebolrwydd i dalu costau
E. Achosion Dilynol

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Gall hawlydd ddod â'i hawliad, neu ran o'i hawliad, i ben unrhyw bryd drwy gyflwyno 'hysbysiad dirwyn i ben'.*

*(2) Nid oes raid cael caniatâd y llys i ddirwyn hawliad i ben onid yw'r llys wedi rhoi gwaharddeb interim neu wedi derbyn ymgymeriad yng nghyswllt yr hawliad sydd i'w ddirwyn i ben.*

*(3) Bydd yn rhaid i hawlydd sy'n dirwyn ei hawliad i ben orfod talu costau'r diffynnydd ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.*

*(4) Unwaith y bydd hawlydd wedi dirwyn ei hawliad i ben, ni fydd yn cael cychwyn hawliad newydd neu hawliad tebyg ar sail yr un ffeithiau heb ganiatâd y llys.*

## A. Dirwyn hawliad neu ran o hawliad i ben

17.1 Mae dirwyn hawliad i ben yn golygu terfynu hawliad, neu ran o hawliad, cyn y bydd yn dod i dreial neu cyn i'r llys ddelio â'r hawliad fel arall. Gall hawliad a gyflwynir gan hawlydd neu wrth-hawliad a gyflwynir gan ddiffynnydd i'r hawliad gael ei ddirwyn i ben unrhyw bryd [CPR 38.2(1)].

17.2 Mae sawl rheswm posibl dros ddirwyn hawliad i ben. Efallai y bydd yr hawlydd yn sylweddoli nad oes gan ei hawliad fawr o obaith o lwyddo, neu efallai ei fod yn poeni am gynnydd yn y costau, neu efallai ei fod wedi blino ar y broses ymgyfreitha. Does dim rhaid rhoi rheswm am ddirwyn hawliad i ben.

17.3 Pan ddygir yr hawliad yn erbyn dau neu fwy o ddiffynyddion gall yr hawlydd ddirwyn yr hawliad i ben yng nghyswllt un neu fwy o ddiffynyddion a pharhau â'i hawliad yn erbyn diffynyddion eraill. Does dim rhaid dirwyn i ben yng nghyswllt pob un o sawl diffynnydd.

17.4 Efallai y bydd yr hawlydd am ddirwyn rhan yn unig o'r hawliad i ben. Mae hyn yn anghyffredin, ond dyma'r peth priodol i'w wneud os yw hawlydd wedi cyflwyno dau hawliad neu fwy sy'n wahanol i'w gilydd, o ran nad yw'r ffeithiau'n gorgyffwrdd yn yr hawliadau, a'r hawlydd yn poeni y bydd un neu

fwy o'r hawliadau hyn yn aflwyddiannus. Os bydd hawlydd yn dod â hawliadau gwahanol yn yr un achos, ac mae'n ennill un neu fwy ac yn colli eraill, mae perygl mawr y bydd y llys yn gorchymyn yr hawlydd i dalu costau'r diffynnydd yn amddiffyn yn llwyddiannus yr hawliadau y mae'r hawlydd yn eu colli. Yn dibynnu ar faint o waith mae hyn yn ei olygu, gall y costau hyn fod yn sylweddol. Drwy ddirwyn hawliadau gwael i ben yn gynnar, bydd yr hawlydd yn lleihau'i risg o wynebu gorchymyn anffafriol am gostau.

17.5 Os oes mwy nag un hawlydd, ni chaiff un o'r hawlwyr hynny ddirwyn hawliad neu ran o hawliad i ben heb ganiatâd ysgrifenedig yr holl hawlwyr eraill. Ond gweler paragraff 17.11 isod.

## B. Y drefn ar gyfer dirwyn i ben

17.6 I ddirwyn hawliad neu ran o hawliad i ben, rhaid i'r hawlydd ffeilio 'hysbysiad dirwyn i ben' mewn llys a chyflwyno copi o'r hysbysiad hwnnw i bob parti arall [CPR 38.3]. Rhaid i'r hysbysiad fod ar Ffurflen N279. Dyma ffurflen syml lle bydd yr hawlydd yn datgan ei fod yn dirwyn ei hawliad cyfan i ben (neu wrth-hawliad) neu ran benodol o'i hawliad (neu wrth-hawliad). Rhaid i'r hawlydd dystio yn ei hysbysiad ei fod wedi cyflwyno'r hysbysiad i bob parti arall. Ni fydd angen rhoi rheswm. Nid oes yn rhaid iddo ychwaith gael caniatâd y llys ac eithrio mewn amgylchiadau penodol.

17.7 Bydd dirwyn i ben yn erbyn unrhyw ddiffynnydd yn dod i rym ar y dyddiad y bydd yr hysbysiad dirwyn i ben yn cael ei gyflwyno i'r diffynnydd hwnnw [CPR 38.4] neu, os bydd angen caniatâd y llys i ddirwyn i ben, pan fydd y llys yn gorchymyn iddo ddod i rym.

17.8 Gall diffynnydd wneud cais i roi hysbysiad dirwyn i ben o'r neilltu os bydd yn gwneud cais o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad iddo [CPR 38.4]. Byddai'n rhaid i'r amgylchiadau fod yn eithriadol iawn i'r llys fynnu bod yr hawlydd yn parhau â'i hawliad.

## C. Pan fydd angen cael caniatâd y llys

17.9 Rhaid cael caniatâd y llys pan fydd hawlydd yn dymuno dirwyn hawliad neu ran o hawliad i ben yng nghyswllt hawliad y mae'r llys wedi rhoi gwaharddeb interim neu wedi derbyn ymgymeriad yn lle rhoi gwaharddeb [CPR 38.2(2)]. Mae gofyn i'r llys roi gwaharddeb interim (h.y. gwaharddeb cyn y treial) yn fater difrifol ac, fel arfer, bydd yn gwneud hynny dim ond os bydd yr hawlydd yn rhoi "croesymgymeriad yng nghyswllt iawndal" h.y. cytuno i dalu iawndal i'r diffynnydd os deuir yn hysbys yn ddiweddarach na ddylai'r waharddeb fod wedi cael ei rhoi. Mae'r rheol hon yn gadael i'r llys fonitro hawliadau lle mae gwaharddebau wedi cael eu rhoi cyn treial.

17.10 Os bydd hawlydd wedi derbyn taliad interim (h.y. taliad cyn y treial) yng nghyswllt hawliad, rhaid i'r hawlydd gael caniatâd ysgrifenedig y diffynnydd i

ddirwyn i ben. Os bydd y diffynnydd yn gwrthod rhoi ei ganiatâd yn afresymol, gall y llys roi caniatâd i'r hawlydd ddirwyn i ben.

17.11 Os oes mwy nag un hawlydd, rhaid i un hawlydd sy'n dymuno dirwyn i ben gael caniatâd ysgrifenedig yr hawlwyr eraill i wneud hynny. Os bydd yr hawlydd neu hawlwyr eraill yn gwrthod rhoi eu caniatâd yn afresymol, gall y llys roi caniatâd i ddirwyn i ben.

## D. Atebolrwydd i dalu costau

17.12 Bydd hawlydd sy'n dirwyn hawliad neu ran o hawliad i ben yn atebol am dalu costau unrhyw ddiffynnydd y mae'n dirwyn i ben yn ei erbyn, sef y costau a ysgwyddir cyn y cyflwynir yr hysbysiad yng nghyswllt yr hawliad neu ran o hawliad sy'n cael ei ddirwyn i ben [CPR 38.6].

17.13 Mae gan y llys ddisgresiwn i orchymyn na ddylai'r diffynnydd gael y cyfan neu ran o'i gostau yng nghyswllt hawliad sy'n cael ei ddirwyn i ben. Dyma ddisgresiwn digyfyngiad, a gall hawlydd godi unrhyw fater sy'n briodol yn ei farn ef i osgoi talu costau'r diffynnydd. Ond bydd angen rheswm da iawn ar yr hawlydd i osgoi talu costau. Dyma enghreifftiau o reswm da – y diffynnydd wedi camarwain yr hawlydd am y ffeithiau yr oedd wedi seilio'i hawliad arnynt, neu lle mae'r amgylchiadau wedi newid fel nad oes angen hawliad da. Mae costau diffynyddion wedi cael eu lleihau am iddynt beidio â chydymffurfio â phrotocol cyn-cyfreitha neu am fabwysiadu safiad afresymol a digyfiawnhad mewn trafodaethau i geisio setlo.

## E. Achosion Dilynol

17.14 Efallai y bydd hawlydd sydd wedi dirwyn hawliad i ben yn difaru gwneud hynny. Os yw'r hawliad yn dal o fewn y cyfnod cyfyngu (gweler paragraff 7.38 uchod), gall yr hawlydd gyflwyno achos newydd. Ond, os yw hawlydd wedi dirwyn hawliad i ben ar ôl i amddiffyniad gael ei ffeilio, rhaid iddo yn gyntaf gael caniatâd y llys cyn iddo ddod â hawliad arall yn erbyn yr un diffynnydd lle mae'r hawliad newydd yn deillio o ffeithiau sydd yr un fath neu fwy neu lai yr un fath â'r ffeithiau yn ymwneud â'r hawliad sydd wedi'i ddirwyn i ben [CPR 38.7]. I gael caniatâd y llys, bydd yn rhaid i'r hawlydd esbonio pam y gwnaeth ddirwyn yr hawliad cyntaf i ben a rhoi rheswm da am ddechrau eto. Yn sicr bron bydd yn rhaid iddo dalu unrhyw gostau sy'n ddyledus i'r diffynnydd yng nghyswllt yr achos cyntaf cyn y bydd yn cael dechrau achos newydd.

# Pennod 18
# CPR Rhan 36 a Chostau

A. CPR Rhan 36 : Cynigion i Setlo
B. Sut i wneud Cynnig Rhan 36
C. Esbonio Cynnig Rhan 36
D. Derbyn Cynnig Rhan 36
E. Cynigion y tu allan i CPR Rhan 36
F. Cyfyngu ar ddatgelu cynnig Rhan 36
G. Costau
H. Costau ymgyfreithiwr drosto'i hun

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Cynnig ffurfiol i setlo'r achos yw cynnig 'Rhan 36' a wneir gan y naill barti neu'r llall. I'r diffynnydd, mae'n ffordd ddefnyddiol o ddiogelu ei hun rhag gorfod talu costau lle mae'r hawlydd yn gwneud hawliad am swm gormodol. Os ydych yn hawlydd, mae'n ffordd o annog partïon i setlo drwy ddangos i'r diffynnydd y byddwch yn setlo am lai na'ch hawliad llawn chi.*

*(2) Os byddwch yn derbyn cynnig Rhan 36, ystyriwch ei delerau'n ofalus iawn. Os na fyddwch yn derbyn y cynnig, ac yn penderfynu mynd i dreial, ac wedyn ddim yn gwneud yn well na'r cynnig ar ddiwedd y treial, rydych yn debygol o wynebu cosbau ariannol megis gorfod talu 10% yn ychwanegol ar y swm/symiau a ddyfernir yn eich erbyn a symiau uwch ar gyfer costau a llog ar gostau.*

*(3) Dylech bob amser ystyried a ddylid gwneud cynnig Rhan 36 neu beidio ar ôl ichi asesu rhinweddau'ch achos ar ôl i'r dogfennau gael eu datgelu ac ar ôl i ddatganiadau'r tystion gael eu cyfnewid.*

*(4) Rhaid i gynnig Rhan 36 effeithiol fodloni'r gofynion a bennir yn y Rheolau.*

*(5) Os derbynnir cynnig Rhan 36 mae'r achos yn cael ei atal (ei stopio) ac eithrio er mwyn gorfodi'r cytundeb a wnaethpwyd yn nhelerau'r cynnig.*

*(6) Ni ddylech chi na'ch gwrthwynebydd ddweud wrth y Barnwr hyd yn oed bod cynnig Rhan 36 wedi'i wneud heb sôn am delerau'r cynnig. Os gwnewch hyn, efallai y gwelwch y bydd yn rhaid gohirio'r treial a chi fydd yn gyfrifol am gost hynny.*

*(7) Ar ddiwedd y treial, bydd y barnwr yn gwneud gorchmynion costau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i un parti dalu holl gostau neu ran o gostau parti arall. Gellir*

*dyfarnu costau ar y 'sail safonol’ neu ar y 'sail indemniad'. Yr olaf yw'r sail fwy hael.*

*(8) Yr egwyddor gyffredinol yw bod y sawl sy’n colli yn talu holl gostau'r sawl sy'n ennill. Ond, mewn achosion priodol, yn arbennig lle mae'r enillydd wedi colli rhai rhannau o'r achos, gall y barnwr wneud gorchymyn costau ar sail y materion a enillwyd ac a gollwyd neu, yn fwy tebygol, didynnu canran o'r costau y gall yr enillydd eu hadennill i adlewyrchu cost ymladd y materion y mae wedi'u colli. Gall y barnwr hefyd gosbi parti mewn costau os nad yw wedi ymddwyn yn briodol yn ystod yr ymgyfreitha. Gall hynny ddigwydd drwy leihau'r costau a ddyfernir i barti sydd wedi ennill, neu drwy fynnu bod y parti sydd wedi colli yn talu costau'r enillydd ar y sail indemniad yn hytrach na'r sail safonol.*

*(9) Mae rheolau penodol yn rheoli’r costau y gall ymgyfreithiwr drosto’i hun llwyddiannus eu hadennill.*

## A. CPR Rhan 36 : Cynigion i Setlo

18.1 Y rheol arferol yw bod y sawl sy’n colli’n gorfod talu costau cyfreithiol y sawl sy'n ennill. Mae goblygiadau hyn i’r sawl sy’n colli’n ddifrifol hyd yn oed pan nad oes ganddo gostau cyfreithiol ei hun. Mae'r CPR yn cydnabod y gall achlysuron godi pan fydd gan barti bryderon go iawn ynghylch canlyniad achos, ond nad yw'r pryderon hynny mor ddifrifol i’w atal rhag gwrthwynebu'r achos. Yr enghraifft orau yw diffynnydd sy’n derbyn ei fod yn atebol, neu fwy na thebyg yn atebol i dalu arian i'r hawlydd ond nid y fath swm ag y mae'r hawlydd yn ofyn amdano yn ei Ffurflen Hawlio.

18.2 Mae CPR Rhan 36 yn rhoi'r cyfle i'r naill barti neu'r llall yn yr achos wneud cynnig ffurfiol i setlo a fydd yn amddiffyn y parti sy'n gwneud y cynnig rhag gorchymyn anffafriol am gostau petai’r parti arall yn parhau â’r achos ar ôl i’r cynnig gael ei wneud. Er enghraifft, gall diffynnydd sy’n derbyn bod gan yr hawlydd hawl i £25,000, ond nid i’r £75,000 y mae’n ei hawlio, gynnig setlo’r achos am £25,000. Os bydd yr hawlydd yn gwrthod y cynnig ac yn parhau i dreial lle mae’n ennill yr achos ond dim ond yn cael £25,000, bydd y llys fel arfer yn dyfarnu’r costau a wynebwyd ar ôl i’r cynnig gael ei wneud i’r diffynnydd, ac nid i’r hawlydd sydd wedi ennill. Hefyd, bydd y costau’n cael eu dyfarnu’n aml ar y sail (indemniad) fwy hael na’r sail safonol a ddefnyddir fel arfer wrth ddyfarnu costau ar ddiwedd treial.

18.3 Un o nodau pwysig y CPR yw annog ymgyfreithwyr i setlo’u hachosion yn hytrach na bwrw ymlaen i dreial. Felly, mae CPR 36 nid yn unig yn galluogi diffynyddion i wneud cynigion lle maent yn teimlo bod yr hawlydd yn prisio’i hawliad yn rhy uchel, mae hefyd yn galluogi hawlwyr i wneud cynigion i ddiffynyddion i dderbyn llai na gwerth datganedig llawn yr hawliad fel anogaeth i

setlo. Mae diffynnydd nad yw’n derbyn cynnig yr hawlydd i setlo, ac sy’n ddiweddarach yn derbyn gorchymyn i dalu gymaint â chynnig yr hawlydd, neu fwy, yn gallu wynebu sancsiwn difrifol iawn o orfod talu i’r hawlydd:

(1) 10% yn ychwanegol o unrhyw swm ariannol a ddyfernir yn ei erbyn;

(2) costau'r hawlydd ar y sail indemniad fwy hael; a

(3) cyfradd llog gosbol (hyd at 10% uwchben y gyfradd sail) ar y costau indemniad hynny.

At y dibenion hyn, cofiwch fod diffynnydd sy’n dwyn gwrth-hawliad yn hawlydd yng nghyswllt y gwrth-hawliad hwnnw ac felly’n gallu adennill y buddion ychwanegol hyn os bydd y diffynnydd i'r gwrth-hawliad (h.y. yr hawlydd) yn methu curo Cynnig Rhan 36 y mae wedi'i wrthod.

Dan y rheol [CPR 36.15(3)] rhaid i’r llys ddyfarnu’r buddion ychwanegol hyn i’r hawlydd *oni bai ei fod yn teimlo bod gwneud hynny’n anghyfiawn.*

18.4 Oherwydd nad yw canlyniad ymgyfreitha byth yn sicr, mae’r posibilrwydd y bydd y dyfarniad ariannol yn cael ei gynyddu 10%, y bydd gorchymyn costau’n cael ei wneud ar y sail indemniad yn hytrach na’r sail safonol ac y gallai cyfradd llog gosbol gael ei rhoi ar ôl i Gynnig Rhan 36 gael ei wneud a'i wrthod, yn ychwanegu at yr hyn sy’n gallu ymddangos yn elfen ‘gamblo’ mewn ymgyfreitha sifil. Mae hyn yn cael ei gydnabod, ond mae’r egwyddor na ddylai’r un parti allu parhau i dreial gan greu mwy a mwy o gostau heb fod gwrthfesur o ryw fath ar gael i’w wrthwynebydd yn bwysicach na lleihau’r ansicrwydd sy’n gynhenid mewn ymgyfreitha.

18.5 Mae darpariaethau CPR Rhan 36 yn dechnegol iawn a rhaid bod yn eithriadol o ofalus wrth wneud cynnig Rhan 36 neu wrth ystyried sut i ymateb i gynnig Rhan 36 a wneir gan eich gwrthwynebydd.

## B. Sut i wneud Cynnig Rhan 36

18.6 Mae CPR Rhan 36.2 yn nodi pum gofyniad sy’n gorfod cael eu bodloni ar gyfer Cynnig Rhan 36 dilys, sef bod yn rhaid i’r cynnig:

(1) fod yn ysgrifenedig;

(2) datgan yn benodol mai Cynnig Rhan 36 ydyw ac y bwriedir i’r cynnig gael canlyniadau Adran I Rhan 36;

(3) pennu cyfnod o 21 diwrnod o leiaf lle bydd y diffynnydd yn atebol am gostau’r hawlydd yn unol â CPR 36.10;

(4) datgan a yw’n berthnasol i’r hawliad cyfan neu ran ohono neu i fater sy'n codi ynddo ac, os felly, pa ran neu fater;

(5) nodi a yw’n cymryd unrhyw wrth-hawliad i ystyriaeth.

Ceir darpariaethau ychwanegol sy'n berthnasol i hawliadau anaf personol lle mae'r hawliadau hynny'n cynnwys (a) colled ariannol yn y dyfodol, [CPR 36.5], neu (b) hawliad am iawndal dros dro, [CPR 36.6], neu (c) didynnu budd-daliadau nawdd cymdeithasol, [CPR 36.15].

18.7 Mae gofyniad (3) yn golygu y dylai cynnig Rhan 36 gael ei wneud o leiaf 21 diwrnod cyn y treial. Mae'r Rheolau'n caniatáu cynnig Rhan 36 o fewn tair wythnos i dreial, ond efallai y bydd y parti sy'n gwneud cynnig hwyr nad yw'n cael ei dderbyn yn gweld na fydd y llys yn rhoi'r holl gostau a fyddai'n cael eu rhoi gyda chynnig wedi'i wneud mewn pryd.

18.8 Pan fydd diffynnydd yn gwneud cynnig Rhan 36 i dalu swm o arian, rhaid i'r cynnig fod yn un i dalu un swm o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y cynnig [CPR 36.4]. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn atal diffynnydd rhag gwneud cynnig i dalu mewn rhandaliadau nac yn atal hawlydd rhag derbyn cynnig o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan 36. Ond ni fydd cynnig i dalu mewn rhandaliadau nad yw'n cael ei dderbyn gan yr hawlydd yn arwain at ganlyniadau cynnig Rhan 36 yn awtomatig, mewn geiriau eraill, ni fydd o anghenraid yn diogelu'r diffynnydd rhag gorchymyn am gostau yn ei erbyn. Mater y bydd y barnwr yn ei ystyried fydd hwn wrth benderfynu pa orchymyn i'w wneud.

18.9 Cymerir bod cynnig i dalu swm penodol o arian, neu dderbyn swm penodol o arian, yn cynnwys unrhyw log sy'n daladwy hyd at y dyddiad a bennir o dan ofyniad (3) uchod, sydd fel arfer yr isafswm cyfnod o 21 diwrnod a bennir yn y Rheolau, [CPR 36.3(3)].

18.10 Nid oes modd tynnu cynnig Rhan 36 yn ôl na'i wneud yn llai manteisiol yn ystod y cyfnod a bennir yn y cynnig ar gyfer derbyn, heb gael caniatâd y llys. [CPR 36.3(5)]. Ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, gall cynnig Rhan 36 nad yw wedi cael ei dderbyn gael ei dynnu'n ôl neu ei newid heb ganiatâd y llys [CPR 36.3(6)]. Rhaid i gynnig a dynnir yn ôl neu ei newid fod yn ysgrifenedig.

## C. Esbonio Cynnig Rhan 36

18.11 Mae gan barti sy'n derbyn cynnig Rhan 36 (sef y derbyniwr yn y CPR) hawl i ofyn i'r cynigiwr, sef y parti sy'n gwneud y cynnig Rhan 36, esbonio rhagor ar y cynnig. Rhaid iddo wneud ei gais cyn pen 7 diwrnod i dderbyn y cynnig [CPR 36.8]. Nid yw'r CPR yn glir o gwbl ynghylch i ba raddau y gall y derbyniwr ofyn am eglurhad. Mae'n amlwg y bydd yn berthnasol i achosion lle nad yw geiriad y cynnig yn glir a diamwys. Ond efallai y bydd angen cael rhagor o esboniad a chynnwys darparu gwybodaeth a fyddai'n galluogi'r derbyniwr i asesu gwerth y cynnig yn iawn. Er enghraifft, os gwneir cynnig Rhan 36 cyn mae'r cynigiwr wedi datgelu dogfennau mewn achos lle gall dogfennau penodol fod wrth wraidd yr achos, gall y derbyniwr ofyn a yw'r gwreiddiol gan y cynigiwr neu gopïau o ddogfennau penodol ac am fanylion y cynnwys.

18.12 Os na fydd y cynigiwr yn rhoi'r esboniad y gofynnwyd amdano, gall y derbyniwr wneud cais am orchymyn iddo wneud hynny. I wneud hyn, bydd yn rhaid i'r derbyniwr gyflwyno cais i'r llys o dan CPR Rhan 23.

## D. Derbyn Cynnig Rhan 36

18.13 Rhaid derbyn cynnig Rhan 36 ar ffurf ysgrifenedig [CRP 36.9]. Pan dderbynnir y cynnig mae'r hawliad yn cael ei atal ar delerau'r cynnig, ac os yw'r cynnig yn berthnasol i ran yn unig o'r hawliad, mae'r rhan honno'n cael ei hatal [CPR 36.11]. Does dim angen caniatâd y llys i dderbyn cynnig Rhan 36, ac eithrio pan mae'r treial eisoes wedi cychwyn (cynnig hwyr) neu pan wneir y cynnig gan un o sawl cyd-ddiffynnydd, a'r cynigiwr yn dymuno parhau yn erbyn y diffynyddion eraill, neu mewn rhai sefyllfaoedd mewn achosion anaf personol neu achosion o dan y Ddeddf Damweiniau Angheuol.

18.14 Unwaith y bydd yn cael ei dderbyn, mae cynnig Rhan 36 yn dod yn gytundeb rhwng y partïon. Bydd y llys yn gorfodi'r cytundeb hwn heb yr angen am ragor o weithredu yn yr achos. Bydd y llys hefyd yn delio â chwestiynau costau [CPR 36.11(5)(8)].

18.15 Os yw'r cynnig yn un i dalu neu dderbyn swm llai o arian na'r swm a oedd yn cael ei hawlio, mae'n bwysig nodi y bydd y cytundeb rhwng y partïon ar gyfer talu'r swm llai hwnnw. Os na fydd y diffynnydd (y cynigiwr) yn talu'r swm y cytunir arno, gall yr hawlydd (y derbyniwr) gyflwyno dyfarniad am y swm llai, a dim ond y swm llai hwnnw y gellir ei adennill. Os yw hawlydd yn fodlon derbyn swm llai dim ond ar y sail bydd yn cael ei dalu mewn 14 diwrnod ar ôl i'r cynnig gael ei dderbyn (14 diwrnod yw'r amser ar gyfer talu'r swm o dan y Rheolau), mae'n bwysig ei fod yn pwysleisio hyn wrth iddo dderbyn cynnig diffynnydd neu yn ei gynnig ef i'r diffynnydd, a'i gwneud yn glir, os na fydd yr arian yn cael ei dalu o fewn y cyfnod hwnnw, y bydd ganddo hawl i fynd i dreial yng nghyswllt y swm cyfan sy'n cael ei hawlio.

## E. Cynigion y tu allan i CPR Rhan 36

18.16 Mae gan barti hawl i wneud unrhyw gynnig i setlo hawliad ar unrhyw adeg heb ddefnyddio gweithdrefn Rhan 36. Wrth i'r llys ystyried gorchmynion costau ar ddiwedd yr achos, gallai ystyried unrhyw gynigion i setlo na chawsant eu derbyn, ac os yw'r llys yn teimlo nad yw'r derbyniwr wedi derbyn cynnig rhesymol i setlo, gall hynny ddylanwadu ar y gorchmynion am gostau. Ond mae llawer o farnwyr yn disgwyl bod rheswm da pam nad yw'r parti sy'n gwneud y cynnig yn defnyddio Rhan 36. Os nad oes rheswm da ni fydd yn rhoi dim neu fawr ddim o sylw i'r ffaith bod cynnig wedi'i wneud.

## F. Cyfyngu ar ddatgelu cynnig Rhan 36

18.17 Ystyrir bod cynnig Rhan 36 yn cael ei wneud *heb ymrwymiad heblaw yng nghyswllt costau*. Ni ddylid rhoi gwybod i'r barnwr bod cynnig Rhan 36 wedi'i wneud [CPR 36.13]. Mae'r un peth yn wir am gynigion a wneir y tu allan i Ran 36 onid ydynt yn cael eu gwneud yn benodol fel 'cynigion agored'.

18.18 Mae'n bwysig iawn fod ymgyfreithwyr yn cadw pob cynnig (heblaw am gynigion agored) yn gyfrinachol nes y bydd y barnwr wedi rhoi ei ddyfarniad. Rhaid i gynnig sy'n cael ei wneud beidio â dylanwadu ar, neu ni ddylid teimlo ei fod wedi dylanwadu ar, y barnwr sy'n penderfynu'r achos. Os bydd ymgyfreithiwr yn datgelu'r ffaith bod cynnig wedi'i wneud pan na ddylai fod wedi gwneud hynny, efallai y bydd yn rhaid i'r barnwr ohirio'r achos er mwyn i farnwr arall gymryd drosodd, a bydd yn rhaid i'r costau a wastreffir drwy gael ail dreial gael eu talu gan yr ymgyfreithiwr dan sylw.

## G. Costau

18.19 Mae'r rheolau sy'n ymwneud â chostau i'w cael yn CPR Rhannau 44 i 48. Mae costau'n destun llawer rhy sylweddol i wneud dim ond rhoi sylwadau byr arnynt yn y Llawlyfr hwn.

18.20 Bydd barnwr y treial yn gwneud dyfarniadau egwyddor; pa barti ddylai dalu costau i ba barti arall ac ar ba sail. Ymhob achos heblaw rhai syml, dyfernir ynghylch y costau i'w talu, a benderfynir arnynt gan gyfeirio at fil costau, gan farnwr arbenigol, a elwir yn Farnwr Costau. Gelwir hyn yn "asesiad manwl".

18.21 Yr egwyddor sylfaenol yw bod y sawl sy'n colli'n talu costau'r sawl sy'n ennill, a'r rheol arferol yw bod y costau hyn yn cael eu talu ar y 'sail safonol'. Ond mae gan y llys ddisgresiwn llwyr wrth ddyfarnu costau. Mewn achosion priodol, gall barnwr y treial wneud gorchymyn costau seiliedig ar faterion lle bydd yn rhaid i bartïon gwahanol dalu costau materion gwahanol. Neu gall adlewyrchu'r ffaith nad yw'r parti sydd wedi ennill wedi llwyddo yn ei holl hawliadau neu ar yr holl faterion yr oedd wedi'u codi drwy wneud gorchymyn mai dim ond canran o'i gostau y bydd yn gallu'u hadennill. Mewn unrhyw achos unigol, mae gan y llys y pŵer i amddifadu parti o'i holl gostau neu ran o'i gostau, neu fynnu bod yn rhaid i enillydd dalu rhai costau i'r sawl sydd wedi colli, lle mae'r parti hwnnw wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol neu annerbyniol yn ystod y broses ymgyfreitha.

18.22 Os yw’r llys o’r farn bod parti wedi cyflwyno hawliad na ddylai fod wedi’i gyflwyno, neu bod amddiffyniad cwbl amhriodol wedi’i gyflwyno i wrthwynebu hawliad da, gall y llys orchymyn costau ar y ‘sail indemniad', a fydd fel arfer yn golygu y gellir adennill mwy o gostau nag ar y sail safonol. Fel arfer dyfernir costau ar y sail indemniad i barti sydd wedi gwneud cynnig Rhan 36 na chafodd ei dderbyn ond a oedd yn fwy manteisiol i’r derbyniwr na'r canlyniad yn y pen draw, ac fe’u dyfernir o’r dyddiad y daeth y cynnig yn weithredol, fel arfer 21 diwrnod ar ôl gwneud y cynnig.

18.23 Ar ddiwedd y treial, yn niffyg cytundeb, bydd y llys fel arfer yn gorchymyn i farnwr costau gynnal asesiad manwl o'r costau i’w talu gan y parti sy’n talu. Ond, ar ddiwedd cais interim, mae'r CPR yn annog y barnwr i wneud asesiad cryno o'r costau heb yr angen am asesiad manwl, a gorchymyn i'r parti sy'n talu dalu'r costau mewn cyfnod byr (14 neu 21 diwrnod) ar ôl penderfynu ar y cais. Dylai parti mewn cais interim fel arfer baratoi bil costau cryno i'w ystyried gan y llys ar ddiwedd y cais.

## H. Costau ymgyfreithiwr drosto’i hun

18.24 Mae rheolau arbennig yn berthnasol lle gorchmynnir parti i dalu costau ymgyfreithiwr drosto'i hun [CPR 48.6 a 48PD.3]. Gweler hefyd Deddf Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (Costau a Threuliau) 1975 a'r Gorchmynion a wnaethpwyd o dan Ddeddf 1975.

18.25 Fel ymgyfreithiwr drosoch eich hun, mae gennych hawl i hawlio:

(a) costau am waith sydd wedi’i wneud a thaliadau a ysgwyddwyd yn yr un categorïau â phetai’r gwaith wedi’i wneud gan gynrychiolydd cyfreithiol;

(b) taliadau rhesymol a wnaethoch am wasanaethau cyfreithiol yn ymwneud â chynnal yr achos;

(c) unrhyw gostau a wynebir gennych wrth gael cymorth arbenigol i asesu’r hawliad am gostau.

18.26 O Dan (a), codi am eich gwaith eich hun, mae'r swm y gallwch ei godi wedi’i gyfyngu i gyfradd fesul awr a bennir yn y Rheolau, £18.00 yr awr ar hyn o bryd, oni allwch ddangos eich bod wedi dioddef colled ariannol wrth wneud eich gwaith ar yr achos. Yn y sefyllfa hon, gallwch hawlio swm eich colled ariannol am amser a dreuliwyd yn rhesymol yn gwneud y gwaith [CPR 48.6(4)]. Ond, mae eich hawliad chi am eich costau eich hun yn cael ei gapio i ddwy ran o dair o’r swm a fyddai wedi cael ei ganiatáu petaech wedi cael eich cynrychioli gan gynrychiolydd cyfreithiol. Gallwch hawlio’n llawn am wariadau (*disbursements*), sef symiau sy'n cael eu talu i trydydd partïon fel costau copïo, postio a chostau teithio, ac yr amod eu bod wedi'u hwynebu'n briodol. Dim ond i gost eich gwaith chi eich hun mae’r cap dwy ran o dair yn berthnasol.

18.27 O dan (b) gallwch hawlio ffioedd unrhyw gyfreithwyr neu fargyfreithwyr yr ydych wedi'u hwynebu'n rhesymol wrth gael cyngor am eich hawliad, ei baratoi a'i gyflwyno.

18.28 O dan (c) gallwch hawlio am symiau a dalwyd am gymorth arbenigol i asesu'r hawliad am gostau gyhyd â bod yr arbenigwr yn un o'r unigolion a bennir yn y cyfarwyddyd ymarfer [48PD.3]. Rhaid i'r arbenigwr sy'n darparu'r cymorth fod yn un o'r canlynol: bargyfreithiwr, cyfreithiwr, Cymrawd Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol, Cymrawd Cymdeithas Drafftsmyn Costau'r Gyfraith, drafftsmon costau'r gyfraith sy'n aelod o'r Academi Arbenigwyr neu ddrafftsmon costau'r gyfraith sy'n aelod o'r Sefydliad Tystion Arbenigol.

# Pennod 19
# Gorfodi

A. Dulliau gorfodi
B. Cael gwybodaeth
C. Gwarantau i Weithredu
D. Gorchymyn Atafaelu Enillion
E. Gorchymyn Dyled Trydydd Parti
F. Gorchymyn Arwystlo
G. Dulliau gorfodi eraill

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Dim ond y cam cyntaf yw cael dyfarniad. Os na fydd y diffynnydd yn talu, bydd yn rhaid ichi orfodi'ch dyled. Eich cyfrifoldeb chi yw hynny. Ni fydd y llys yn gwneud hyn ar eich rhan.*

*(2) Mae dulliau amrywiol ar gael i orfodi dyled sydd wedi'u teilwra ar gyfer asedau gwahanol:*

*Os oes gan y dyledwr nwyddau digonol, drwy warant i weithredu*

*Os yw'n gyflogai, drwy orchymyn atafaelu enillion*

*Os oes ganddo gynilion, drwy orchymyn dyled trydydd parti*

*Os yw'n berchen ar dir neu dŷ, drwy orchymyn arwystlo.*

*(3) Mae gan y llys daflenni sy'n rhoi manylion pob un o'r dulliau gorfodi hyn ac sy'n esbonio'r drefn ar gyfer pob un yn fwy manwl.*

*(4) Gallwch wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n mynnu bod y dyledwr yn rhoi gwybodaeth am ei asedau a'i fodd. Gall hyn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau o fynd ati i orfodi eich dyled.*

## A. Dulliau gorfodi

19.1 Os byddwch yn llwyddo i gael dyfarniad ariannol yn erbyn y diffynnydd, bydd Gorchymyn Llys yn cael ei roi a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo dalu'r arian sydd wedi'i ddyfarnu o'ch plaid chi. Bydd y Gorchymyn fel arfer yn dweud erbyn pryd y bydd yn rhaid iddo dalu'r arian. Os nad oes dyddiad penodol yn cael ei roi, mae gan y diffynnydd 14 diwrnod i dalu [CPR 40.11]. Fel arfer, bydd llog yn daladwy ar unrhyw arian sydd heb ei dalu ar 'gyfradd llog dyfarniad', sef 8% y flwyddyn ar hyn o bryd [CPR 40.8].

19.2 Os na fydd y diffynnydd ('y dyledwr') yn talu ichi, bydd yn rhaid ichi ddod o hyd i ffordd o orfodi'ch dyfarniad. Ni fydd y llys yn gwneud hyn ar eich rhan. Rhaid ichi wneud cais am un neu fwy o ffyrdd penodol o orfodi.

19.3 Yn gyntaf, dylech benderfynu a yw'n werth mynd ar ôl y dyledwr (gan gofio y bydd yr achos gorfodi yn golygu mwy o ffioedd (onid ydych yn ymgyfreithiwr sydd wedi'i esemptio rhag talu ffioedd)) ac a oes gan y dyledwr unrhyw asedau neu incwm y gellir eu defnyddio i dalu'r ddyled. Ni all y Llys warantu y bydd y ddyled yn cael ei thalu. Rydych ar eich pen eich hun wrth geisio adennill y ddyled.

19.4 Yn ail, bydd angen ichi ystyried pa ddull gorfodi sy'n fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus. Dyma ddulliau posibl o orfodi dyfarniad:

(1) Gwarant i Weithredu – cyfarwyddo Beili i gymryd nwyddau o'r un gwerth â'r ddyled

(2) Gorchymyn atafaelu enillion - lle mae'r Llys yn disgwyl i gyflogwr y dyledwr dynnu symiau rheolaidd o arian o gyflog y dyledwr

(3) Gorchymyn Dyled Trydydd Parit – sy'n rhewi Cyfrif Banc neu Gyfrif Cymdeithas Adeiladu nes mae'r arian sy'n ddyledus yn cael ei dalu

(4) Gorchymyn Arwystlo – sy'n atal dyledwr rhag gwerthu asedau (tŷ, tir neu gyfranddaliadau) heb dalu'r ddyled i'r credydwr

(5) Gwneud dyledwr unigol yn fethdalwr, neu ddirwyn dyledwr cwmni i ben, lle mae'r swm dyledus yn fwy na £750. Dyma ddull arbenigol a drud, a dim ond ar ôl ystyried hyn yn ofalus ac, os oes modd, ar ôl cael cyngor, y dylai credydwr ddefnyddio'r dull hwn.

## B. Cael gwybodaeth

19.5 Wrth benderfynu a yw achos gorfodi yn debyg o lwyddo, bydd angen i'r Credydwr ystyried y canlynol:-

- ydy'r dyledwr mewn dyled i bobl eraill neu a oes ganddo ddyfarniadau llys eraill yn ei erbyn
- ydy'r dyledwr yn berchen ar unrhyw nwyddau neu asedau y gellir eu cymryd a'u gwerthu mewn ocsiwn
- ydy'r dyledwr yn gweithio i gyflogwr
- oes gan y dyledwr incwm arall (o bensiynau neu fuddsoddiadau ac ati)
- oes gan y dyledwr gyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu neu gyfrif arall
- ydy'r dyledwr yn berchen ar dŷ, tir neu eiddo arall
- ydy'r dyledwr yn rhedeg ei fusnes ei hun
- oes rhywun arall mewn dyled i'r dyledwr.

19.6 Fel credydwr, gallwch chwilio drwy'r Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon i weld a oes gan y dyledwr unrhyw ddyledion neu ddirwyon o ddyfarniadau nad ydynt wedi cael eu talu. Cedwir dyfarniadau ar y ffeil am chwe blynedd a dirwyon am bum mlynedd. Mae ffi'n daladwy am bob enw y bydd chwiliad yn cael ei gynnal ar ei gyfer. Gellir gwneud cais i chwilio ar-lein yn www.registry-trust.org.uk neu yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol -

Registry Trust Ltd. 173-175 Cleveland Street, Llundain WIT 6QR (Ffôn 020 7380 0133).

19.7 Gallwch hefyd wneud cais i'r llys am orchymyn yn mynnu bod y dyledwr (neu swyddog dyledwr cwmni) yn mynychu’r llys i ddarparu gwybodaeth am ei fodd neu am unrhyw fater y mae angen gwybodaeth yn ei gylch i orfodi dyfarniad [CPR 71.2]. Mae'r gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r dyledwr fynychu'r llys i gael ei holi gan swyddog yn y llys ac i ddarparu manylion dan lw am ei incwm, ei gynilion, ei eiddo ac asedau eraill. Mae’r gorchymyn hefyd yn mynnu bod y dyledwr yn darparu dogfennau perthnasol. Gallwch chi fynychu’r sesiwn holi a gofyn cwestiynau eich hun [CPR 71.6]. Does dim rhaid i chi fynychu. Byddwch yn gallu cael copi o’r cofnod o'r holi a ddylai eich helpu i benderfynu a ddylech geisio gorfodi'r dyfarniad ac, os felly, pa ddull gorfodi fydd fwyaf tebygol o lwyddo.

19.8 I gael gorchymyn, bydd angen ichi wneud cais gan ddefnyddio Ffurflen N316 ar gyfer dyledwr unigol neu Ffurflen N316A ar gyfer swyddog dyledwr corfforaethol. (Gellir canfod enwau swyddogion cwmni drwy chwilio’r Gofrestr Cwmnïau yn Companies House yn Llundain (Ffôn 02920 388588). Ar ôl derbyn y cais, bydd y llys yn anfon Ffurflen N39 yn gorchymyn y dyledwr i fynychu i gael ei holi. Rhaid i’r N39 gael ei chyflwyno'n bersonol i’r dyledwr (ond os yw’r credydwr yn unigolyn nad yw'n gweithredu drwy gyfreithiwr, bydd beili'r llys yn cyflwyno'r N39 i'r dyledwr). Gallai dyledwr gael ei anfon i’r carchar am beidio â mynychu i gael ei holi.

## C. Gwarantau i Weithredu

19.9 Mae gwarant i weithredu yn addas pan ydych yn eithaf hyderus fod gan y dyledwr asedau digonol mewn cyfeiriad hysbys, neu, os ydych yn credu bod y dyledwr yn cuddio'i arian, pan ydych yn meddwl bod ganddo ddigon o arian i dalu'r ddyled a stopio'i nwyddau rhag cael eu gwerthu. Rhaid i’r credydwr gynnwys y cyfeiriad lle mae’r warant i’w weithredu yn ei gais. Ar gyfer dyledion hyd at £600 rhaid i'r warant gael ei chodi yn y llys sirol. Ar gyfer dyledion sy’n fwy na £5000, rhaid trosglwyddo’r dyfarniad i'r Uchel Lys (y tu allan i Lundain mae hwn yn aml yn yr un adeilad â'r llys sirol) er mwyn i'r Swyddog Gorfodi orfodi'r dyfarniad (Ffurflen N293A) (Sylwer bod rheol arbennig yn berthnasol i ddyledion o dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974).

19.10 Ar gyfer dyledion rhwng £600 a £5000, mae gan y credydwr ddewis o godi gwarant yn y llys sirol neu drosglwyddo'r ddyled i'r Uchel Lys. Mae'r Uchel Lys yn ddrutach ac yn fwy cymhleth a dylai'r credydwr ystyried cymryd cyngor oddi wrth gyfreithiwr neu Cyngor ar Bopeth.

Dylech fod yn ymwybodol na all y beili atafaelu ar gyfer gwerthu:

- eitemau y mae’r dyledwr eu hangen ar gyfer ei waith (megis offer crefftwr)
- eitemau hanfodol y cartref megis dillad neu ddillad gwely
- eitemau ar hurbwrcas, neu sy'n cael eu rhentu neu eu prydlesu

Felly, ni fydd y beili fel arfer yn atafaelu eitemau megis dodrefn ail-law neu eitemau trydanol nad ydynt yn debygol o wneud fawr o arian mewn ocsiwn.

19.11 Bydd yn rhaid ichi ddarparu cyfeiriad neu gyfeiriadau lle mae'r dyledwr yn byw neu gyfeiriad lle mae'n masnachu. Bydd y beili fel arfer yn anfon llythyr at y dyledwr yn rhoi saith niwrnod iddo dalu'r ddyled a'r costau. Os na fydd yn talu, bydd y beili'n galw yn y cyfeiriad(au) a roddwyd a cheisio pennu nwyddau y gellir eu gwerthu mewn ocsiwn i dalu'r ddyled a'r costau (neu gasglu'r arian gan y dyledwr). Os cymerir nwyddau, byddant yn cael eu gwerthu, ac ar ôl talu costau'r ocsiwn a'r costau storio, bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei dalu i'r credydwr.

19.12 Os nad oes gan y dyledwr ddigon o nwyddau neu arian i dalu'r ddyled a'r costau, bydd y credydwr yn cael gwybod. Ond ni fydd y llys yn ceisio dod o hyd i ddyledwr na'i asedau, ac mae'n gwbl ddibynnol ar y wybodaeth y byddwch chi, y credydwr, yn ei darparu iddo.

## D. Gorchymyn Atafaelu Enillion

19.13 Os yw'r dyledwr yn cael ei gyflogi, efallai y bydd modd cael gorchymyn atafaelu enillion os yw dyled y dyledwr yn fwy na £50 ac ar ei hôl hi gydag o leiaf un o'r taliadau rheolaidd yr addawodd eu gwneud yn flaenorol [CPR cc27]. Ni ellir cael gorchymyn o'r fath os yw'r dyledwr yn ffyrm neu'n gwmni cyfyngedig. Os yw'n aelod o'r lluoedd arfog neu'n llongwr ar long fasnach, mae gweithdrefn arbennig yn berthnasol a dylai'r credydwr ofyn i staff y llys am fanylion.

19.14 Dylai'r gorchymyn i gael gwybodaeth roi gwybod i'r credydwr a yw'r dyledwr yn gyflogedig neu beidio. Gallwch chwilio eto drwy fynegai'r holl orchmynion atafaelu enillion yn yr ardal lle mae'r dyledwr yn byw a fydd yn dangos a oes gan y dyledwr unrhyw orchmynion eraill tebyg yn ei erbyn. Os oes ganddo, gallwch ofyn i'r llys gyfuno'r ddyled sy'n ddyledus i chi gyda dyledion presennol y Dyledwr.

19.15 Mae manylion y dull o wneud cais am orchymyn a'r ffurflenni i'w llenwi ar gael mewn taflenni a gyhoeddir gan swyddfa'r llys. Bydd y llys yn mynnu bod y dyledwr yn rhoi manylion ei incwm (a gall godi gwarant i'w arestio os na fydd yn cydymffurfio â'r gorchymyn). Bydd y llys yn penderfynu ar faint unrhyw ddidyniad ar sail datganiad modd y dyledwr. Caniateir arian digonol i'r dyledwr o'i incwm i ddarparu ar gyfer ei anghenion ef (ac anghenion ei deulu) (sef ei "enillion a warchodir") a rhoddir gorchymyn dim ond ar gyfer incwm sy'n ychwanegol at y swm gwarchodedig hwnnw. Os yw'r dyledwr ar gyflog isel, efallai na fydd yn bosibl cyflwyno gorchymyn atafaelu enillion. Dylid cofio hefyd y bydd y gorchymyn yn darfod os bydd y dyledwr yn dod yn ddi-waith neu'n gadael y gwaith sy'n cael ei enwi yn y gorchymyn. Dylai'r credydwr hysbysu'r llys os oes gan ddyledwr gyflogwr newydd a gellir ailgyflwyno'r gorchymyn yn erbyn y cyflogwr newydd.

## E. Gorchymyn Dyled Trydydd Parti

19.16 Gyda gorchymyn dyled trydydd parti terfynol, gallwch chi fel credydwr dyfarniad orfodi eich dyled yn uniongyrchol yn erbyn unigolyn arall neu gwmni (yn arbennig sefydliadau ariannol fel banc neu gymdeithas adeiladu) y mae arnynt arian i ddyledwr y dyfarniad [CPR 72.2, 72.9]. Yr enw blaenorol ar y gorchmynion hyn oedd gorchmynion garnisio.

19.17 Rhaid ichi yn gyntaf wneud cais am orchymyn dyled trydydd parti interim drwy ffeilio hysbysiad o gais ar Ffurflen Ymarfer N349 yn y llys a wnaeth y dyfarniad neu'r gorchymyn yr ydych yn ceisio'i orfodi. Mae’r wybodaeth sy’n ofynnol yn glir o'r Ffurflen, sy'n gorfod cael ei chadarnhau gan ddatganiad gwirionedd [CPR 72.3]. Does dim rhaid ichi roi hysbysiad i ddyledwr y dyfarniad.

19.18 Gyhyd â bod y Barnwr yn fodlon bod dyfarniad nad yw wedi cael ei dalu’n llawn a bod y manylion yn y ffurflen gais wedi'u llenwi'n briodol, bydd yn gwneud gorchymyn dyled trydydd parti interim ar gyfer swm penodol. Mae hwn yn rhwymo’r trydydd parti pan gaiff ei gyflwyno iddo, a rhaid iddo beidio â thalu’r swm a bennir yn y gorchymyn i'r dyledwr. Os yw’r trydydd parti yn fanc neu’n gymdeithas adeiladu, rhaid iddo [CPR 72.6] gynnal chwiliad i ganfod yr holl gyfrifon sydd gan y dyledwr yn y banc neu’r gymdeithas adeiladu ac, o fewn 7 niwrnod i dderbyn y gorchymyn, rhaid iddo ddweud wrth y llys pa gyfrifon sydd gan y dyledwr a'r balans ymhob cyfrif. Gall dyledwr wneud cais i’r llys am orchymyn i rywfaint neu’r cyfan o’r arian gael ei dalu iddo ar sail caledi wrth dalu costau byw arferol [CPR 72.7].

19.19 Os yw’r dyledwr neu’r trydydd parti yn gwrthwynebu gwneud gorchymyn terfynol, rhaid i’r gwrthwynebydd ffeilio a chyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi sail ei wrthwynebiad. Rhaid i’r dystiolaeth hon nodi unrhyw unigolyn y datganir bod ganddo fudd yn y cronfeydd dan sylw. Bydd y llys wedyn yn cynnal gwrandawiad ac yn penderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn interim yn orchymyn terfynol neu beidio [CPR 72.8]. Os nad oes gwrthwynebiad, gall y llys wneud gorchymyn terfynol heb wrandawiad.

## F. Gorchymyn Arwystlo

19.20 Dyma orchymyn sy’n rhoi arwystl ar eiddo sy’n perthyn i’r dyledwr am swm y ddyled. Mae eiddo'n cynnwys tir, tai, stociau a chyfranddaliadau. Nid yw’r arian yn cael ei dalu’n syth i chi fel credydwr y dyfarniad. Ond os gwerthir yr eiddo a phan fydd hynny’n digwydd (ac fel credydwr dyfarniad gallwch wneud cais i’r eiddo gael ei werthu) bydd unrhyw falans sydd ar ôl yn cael ei dalu ichi hyd at swm eich dyled (ar ôl talu costau gwerthu a morgeisi cynharach neu fenthyciadau sydd wedi'u sicrhau ar yr eiddo). Gall y credydwr fel arfer gael manylion unrhyw dir sy’n cael ei ddal gan y dyledwr oddi wrth Gofrestrfa Tir EM (www.landreg.gov.uk <http://www.landreg.gov.uk>) a dylid hysbysu’r Gofrestrfa Arwystlon Tir pan wneir gorchymyn arwystlo terfynol.

19.21 Fel credydwr y dyfarniad, rhaid ichi wneud cais am orchymyn arwystlo terfynol gan ddefnyddio Ffurflen Ymarfer N379 os yw'r cais yn ymwneud â thir a Ffurflen Ymarfer N380 os yw'r cais yn ymwneud â gwarantau [CPR 73.3]. Am resymau amlwg, does dim rhaid ichi hysbysu'r dyledwr. Ar yr amod bod y cais yn briodol, bydd y barnwr yn gwneud gorchymyn arwystlo interim heb wrandawiad [CPR 73.4]. Mae'r gorchymyn arwystlo interim yn gosod arwystl dros dro ar yr eiddo dan sylw. Mae hynny'n golygu na effeithir yn andwyol arnoch os bydd y dyledwr yn cael gwared â'r eiddo [CPR 73.6].

19.22 Bydd y gorchymyn arwystlo interim yn pennu dyddiad pan fydd y llys yn ystyried gwneud y gorchymyn terfynol. Rhaid cyflwyno'r gorchymyn interim o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad hwn i unigolion penodedig a all fod â budd yn yr eiddo [CPR 73.5]. Gall unrhyw un y cyflwynir gorchymyn interim iddo ffeilio gwrthwynebiadau o leiaf 7 niwrnod cyn y gwrandawiad ac ymddangos yn y gwrandawiad i wrthwynebu gwneud gorchymyn terfynol. Dylech chi fel credydwr y dyfarniad fynychu'r gwrandawiad. Os yw'r cais yn briodol a'r llys yn fodlon nad oes gan drydydd parti fudd yn yr eiddo, bydd gorchymyn arwystlo terfynol yn cael ei wneud. Nid yw'r ffaith bod credydwyr eraill ar gael a fydd yn dioddef os dowch yn gredydwr sicredig yn rheswm dros wrthod gorchymyn. Dyna holl bwrpas cael gorchymyn arwystlo.

19.23 Os ydych am wneud cais am orchymyn i werthu, bydd angen ichi gychwyn achos arall yn y llys a wnaeth y gorchymyn arwystlo. Rhaid ichi ddefnyddio gweithdrefn Rhan 8 [CPR 73.10].

## G. Dulliau gorfodi eraill

19.24 *Ansolfedd:* Os yw'r ddyled sy'n ddyledus i chi dros £750, cewch gyflwyno hawliad (*demand*) statudol o dan adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986 cyn cyflwyno deiseb methdalu yn erbyn dyledwr unigol, neu hawliad ysgrifenedig o dan adran 123 o'r Ddeddf Ansolfedd cyn cyflwyno deiseb dirwyn i ben yn erbyn dyledwr cwmni. Mae cyfraith ansolfedd yn eithaf technegol a byddai'n ddoeth i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain gael cyngor arbenigol cyn cychwyn deiseb i wneud y dyledwr yn ansolfent. Os gallwch ddod drwy achos amldrac yn llwyddiannus efallai y byddwch yn awyddus i roi cynnig arni! Ond gair i gall. Mae anfantais cost a budd go iawn i ansolfedd. Mae deisebu am ansolfedd yn ddrud, ac os gwneir y dyledwr yn ansolfent, mae'r holl gredydwyr yn cael cyfran gyfartal o'i ystad. Does dim mantais bod y credydwr sy'n deisebu pan fydd yr ystad yn cael ei rhannu.

19.25 Gellir gorfodi gorchmynion terfynol eraill y Llys drwy achosion eraill yn y llys drwy orchymyn atal neu waharddeb gyda rhybudd cosb yn bygwth dirwy neu garchar hyd yn oed os na fydd y Diffynnydd yn cydymffurfio. Dylai'r Hawlydd sy'n ceisio gorfodi gorchmynion o'r fath gael cyngor penodol cyn gwneud cais i'r llys.

# Pennod 20
# Apeliadau

A. Rhesymau dros apelio
B. Caniatâd i apelio
C. Y llys apêl
D. Y drefn ar gyfer apelio
E. Gohirio gweithredu
F. Costau

*Mae'r bennod hon yn ymwneud ag apeliadau mewn achosion sifil. Mae'n delio â'r canlynol:*

*(A) Am ba reswm y gallwch herio penderfyniad llys drwy gyfrwng apêl*
*(B) Pryd y mae angen caniatâd i apelio, a sut i gael y caniatâd hwnnw*
*(C) Pa un yw'r llys priodol i wrando ar eich apêl*
*(D) Sut y dylech fynd ati i apelio; a*
*(E) Gohirio gweithredu tra bo apêl yn yr arfaeth*

*Dim ond amlinelliad byr o'r arfer sy'n rheoli apeliadau mewn materion sifil y gall yr arweiniad byr hwn ei roi. I gael gwybodaeth fanylach, dylech ddarllen Rhan 52 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil - Apeliadau a Chyfarwyddiadau Ymarfer 52A – 52E.*

*Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 52A yn cynnwys darpariaethau cyffredinol.*

*Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 52B yn delio gydag apeliadau yn y Llysoedd Sirol a'r Uchel Lys.*

*Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 52C yn delio gydag apeliadau i'r Llys Apêl.*

*Mae'n debyg na fydd Cyfarwyddyd Ymarfer 52D (sy'n delio gydag apeliadau statudol ac apeliadau dan ddarpariaeth arbennig) a Chyfarwyddyd Ymarfer 52E (delio gydag apeliadau trwy achos datganedig) yn berthnasol i'r rheini sy'n darllen yr arweiniad hwn.*

*Mae taflen EX340, "I want to appeal – what should I do?" yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am apelio*.

## A. Rhesymau dros apelio

20.1 Heblaw am eithriadau prin iawn, y rheol gyffredinol yw bod apêl yn cael ei chyfyngu i adolygiad o benderfyniad y llys is; a bydd y llys apêl yn ailwrando ar achos dim ond os yw o'r farn, dan amgylchiadau'r apêl unigol, y byddai cynnal ailwrandawiad er budd cyfiawnder. Nid yw methiant syml i gyflwyno'ch achos gerbron y llys is fel arfer yn ddigon i gyfiawnhau ailwrandawiad.

20.2 Ni fydd y llys apêl fel arfer yn derbyn tystiolaeth na chafodd ei chyflwyno gerbron y llys is. Felly bydd apêl yn mynd rhagddo fel arfer ar sail y dystiolaeth fel yr oedd gerbron y llys is. Yn gyffredinol, caniateir tystiolaeth newydd dim ond (a) pan na fyddid wedi gallu cael gafael ar y dystiolaeth drwy arfer diwydrwydd rhesymol ar gyfer ei defnyddio yn y treial; *a* (b) lle y byddai'r dystiolaeth, petai wedi cael ei rhoi i'r llys is, wedi cael dylanwad pwysig mae'n debyg ar ganlyniad yr achos, er na fyddai wedi gorfod bod yn bendant; *ac* (c) rhaid i'r dystiolaeth fod yn gredadwy i bob golwg, er nad oes angen iddi fod yn ddiymwad.

20.3 Bydd y llys apêl yn caniatáu apêl dim ond os oedd penderfyniad y llys is naill ai (a) yn anghywir **neu** (b) yn anghyfiawn oherwydd afreoleidd-dra gweithdrefnol neu arall difrifol yn yr achos yn y llys is.

20.4 Gall penderfyniad fod yn "anghywir" oherwydd bod y llys is (a) wedi gwneud gwall cyfreithiol, *neu* (b) wedi gwneud gwall ffeithiol, *neu* (c) wedi bod yn amryfus (i'r graddau priodol) wrth arfer disgresiwn.

20.5 Gelwir yr ymgyfreithiwr sy'n apelio yn 'apelydd' pa un ai ef oedd yr hawlydd neu'r diffynnydd yn y llys lle cafodd yr achos ei glywed. Y term am yr ymgyfreithiwr sy'n gwrthwynebu yw'r 'atebydd'. Mae apêl yn cael ei chychwyn drwy gyflwyno hysbysiad apelydd. Rhaid i hysbysiad yr apelydd nodi'r rhesymau dros apelio ar ddalen ar wahân wedi'i hatodi i hysbysiad yr apelydd. Gydag apeliadau i'r Llys Sirol a'r Uchel Lys, rhaid i'r rhesymau hyn nodi, mewn iaith syml, ac yn glir a chryno, pam oedd gorchymyn y llys is yn anghywir neu'n anghyfiawn oherwydd afreoleidd-dra gweithdrefnol neu arall difrifol. Yn achos apeliadau i'r Llys Apêl, lle mae'n rhaid i bob apelydd (a'r rhan fwyaf o atebwyr) ddarparu dadleuon fframwaith, rhaid i'r rhesymau dros apelio nodi mor gryno â phosibl ym mha ffordd y mae dyfarniad y llys is yn anghywir neu'n anghyfiawn oherwydd afreoleidd-dra gweithdrefnol neu arall difrifol; ond rhaid peidio â chynnwys y rhesymau dros hyn yn y rhesymau dros apelio a rhaid eu cyfyngu i'r ddadl fframwaith. Ni cheir diwygio hysbysiad apelydd heb ganiatâd y llys apêl. Yn y gwrandawiad apêl, ni chaiff yr apelydd ddibynnu ar fater nad yw wedi'i gynnwys yn ei hysbysiad apelydd oni fydd y llys apêl yn rhoi caniatâd.

20.6 Mae'n debyg y bydd y llys apêl yn amharod i wrthdroi canfyddiadau ffeithiol sylfaenol a wnaethpwyd gan farnwr treial sydd wedi gweld y tystion yn rhoi tystiolaeth mewn achos lle roedd problem gyda hygrededd y tystion. Fodd bynnag, os yw'r her i werthusiad y barnwr o'r ffeithiau, neu'r casgliadau y daeth iddynt ar ôl ystyried y ffeithiau hynny, efallai y bydd llys apêl yn fwy parod i ymyrryd â'i ganfyddiadau ffeithiol.

20.7 Ni fydd y llys apêl yn ymyrryd â llys is wrth iddo arfer ei ddisgresiwn oni bai fod y barnwr naill ai (a) wedi bod yn amryfus mewn egwyddor wrth weithredu, neu (b) heb ystyried rhywbeth y dylai fod wedi'i ystyried, neu (c) wedi ystyried rhyw ffactor na ddylai fod wedi'i ystyried, neu (d) bod ei benderfyniad yn hollol anghywir oherwydd gorfodir y llys apêl i'r casgliad nad yw wedi cydbwyso'r ffactorau amrywiol yn deg ar y glorian. Ni fydd llys apêl yn ymyrryd â barnwr wrth iddo arfer ei ddisgresiwn oni bai y bydd ei

benderfyniad y tu allan i’r amrywiaeth hael o benderfyniadau o fewn yr hyn y mae anghytundeb rhesymol yn bosibl.

20.8 Ac eithrio lle mae'r hawliad wedi'i ddyrannu i'r trac hawliadau bach, bydd angen i'r apelydd ymhob apêl gael nodyn neu drawsgript wedi'i gymeradwyo o ddyfarniad y llys is yn rhoi'r rhesymau am ei benderfyniad neu (lle mae'r dyfarniad sy’n destun apêl wedi'i roi yn ysgrifenedig) copi o'r dyfarniad ysgrifenedig, a ffeilio’r rheini gyda’r llys. Os yw’r dyfarniad wedi’i gofnodi’n swyddogol, rhaid i’r apelydd wneud cais am drawsgript wedi’i gymeradwyo cyn gynted â phosibl ac yn sicr cyn pen 7 niwrnod i ddyddiad ffeilio hysbysiad yr apelydd. Os yw'r apêl yn honni bod rhyw afreoleidd-dra wedi digwydd yn ystod y gwrandawiad yn y llys is, mae’n debyg y bydd angen trawsgript o’r gwrandawiad llawn hefyd.

## B. Caniatâd i apelio

20.9 Mae angen caniatâd i apelio ymhob achos bron, ac eithrio lle mae'r apêl yn erbyn gorchymyn traddodi. Bydd caniatâd i apelio yn cael ei roi dim ond (a) os yw'r llys yn ystyried y byddai gan yr apêl siawns go iawn o lwyddo, *neu* (b) os oes rheswm cryf arall pam y dylai'r apêl gael ei chlywed. Pan geisir caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad rheoli achos, gall y llys sy’n delio â’r cais ystyried (i) a yw’r mater o arwyddocâd digonol i gyfiawnhau costau apêl, (ii) a yw canlyniadau trefniadol apêl yn bwysicach nag arwyddocâd y penderfyniad rheoli achos, a (iii) a fyddai'n fwy cyfleus penderfynu ar y mater mewn treial neu ar ôl treial.

20.10 Dylid gwneud cais am ganiatâd i apelio ar lafar yn y gwrandawiad lle gwneir y penderfyniad sydd i fod yn destun yr apêl. Lle gofynnir i’r llys is am ganiatâd i apelio, bydd y barnwr yn llenwi *Ffurflen N460* gan roi ei resymau am ganiatáu neu wrthod caniatâd i apelio, a darparu gwybodaeth am lwybrau apelio. Bydd copi o’r ffurflen a gwblhawyd yn cael ei roi i'r partïon. Os na wneir cais am ganiatâd i apelio yn y gwrandawiad yn y llys is, neu bod y llys hwnnw’n gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio i'r llys apêl yn hysbysiad yr apelydd.

20.11 I ddechrau, bydd y llys apêl yn ystyried y cais am ganiatâd i apelio ar bapur. Os caiff ei wrthod heb wrandawiad, bydd gan yr apelydd fel arfer yr hawl, cyn pen 7 niwrnod ar ôl cyflwyno’r hysbysiad bod caniatâd wedi’i wrthod, i ofyn am gael ailystyried y penderfyniad mewn gwrandawiad llafar, lle gall yr apelydd ymddangos a herio'r rhesymau a roddwyd am wrthod caniatâd i apelio. Bydd yr atebydd yn derbyn hysbysiad bod y gwrandawiad hwnnw’n cael ei gynnal. Ond does dim rhaid iddo ymddangos (ac fel arfer ni fydd yn cael costau am wneud hynny).

20.12 Os bydd y llys apêl yn gwrthod caniatâd i apelio, pa un ar bapur neu (lle mae’r apelydd wedi gofyn am ailystyried penderfyniad ar bapur i wrthod caniatâd) ar ôl gwrandawiad llafar, dyna ddiwedd arni: does dim hawl apelio arall pan fydd caniatâd i apelio wedi'i wrthod.

20.13 Rhaid i unrhyw gais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys neu lys sirol a gafodd ei wneud ar apêl gael ei wneud i'r Llys Apêl. Bydd y llys hwnnw dim ond yn rhoi caniatâd os yw o'r farn (a) y byddai'r apêl yn codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer; *neu* b) bod rhyw reswm pwysig arall pam y dylai'r Llys Apêl wrando'r apêl. Os rhoddir caniatâd am ail apêl, y Llys Apêl fydd yn gwrando'r apêl.

## C. Y llys apêl

20.14 Mae'r rhan fwyaf o apeliadau sy'n deillio o benderfyniad barnwr rhanbarth yn eistedd yn y Llys Sirol yn mynd gerbron barnwr cylchdaith. Y prif eithriadau yw y bydd unrhyw apêl sy'n deillio o (1) penderfyniad terfynol barnwr rhanbarth sy'n gwrando hawliad Rhan 7 sydd wedi'i ddyrannu i'r amldrac yn mynd gerbron y Llys Apêl; (2) penderfyniad terfynol barnwr rhanbarth mewn achosion arbenigol (o dan y Deddfau Cwmnïau, neu drwy hawliad Profiant, y Llys Technoleg ac Adeiladwaith, Cymrodeddu, Patentau neu Eiddo Deallusol arall) yn mynd gerbron y Llys Apêl; a (3) penderfyniad barnwr rhanbarth mewn achos ansolfedd yn mynd gerbron un o farnwyr yr Uchel Lys.

20.15 Mae'r rhan fwyaf o apeliadau sy'n deillio o benderfyniad barnwr cylchdaith yn eistedd yn y Llys Sirol yn mynd gerbron un o farnwyr yr Uchel Lys. Y prif eithriadau yw y bydd pob apêl sy'n deillio o (1) penderfyniad terfynol barnwr cylchdaith sy'n gwrando hawliad Rhan 7 sydd wedi'i ddyrannu i'r amldrac yn mynd gerbron y Llys Apêl; (2) penderfyniad terfynol barnwr cylchdaith mewn achosion arbenigol (o dan y Deddfau Cwmnïau, neu drwy hawliad Profiant, y Llys Technoleg ac Adeiladwaith, Cymrodeddu, Patentau neu Eiddo Deallusol arall); a (3) gorchymyn a wneir gan farnwr cylchdaith yn eistedd mewn apêl o lys is yn mynd gerbron un o farnwr yr Uchel Lys.

20.16 Mae'r rhan fwyaf o apeliadau sy'n deillio o benderfyniad meistr, cofrestrydd neu farnwr rhanbarth yn eistedd yn yr Uchel Lys yn mynd gerbron un o farnwyr yr Uchel Lys. Y prif eithriadau yw y bydd unrhyw apêl sy'n deillio o (1) penderfyniad terfynol meistr neu farnwr rhanbarth sy'n gwrando hawliad Rhan 7 sydd wedi'i ddyrannu i'r amldrac yn mynd gerbron y Llys Apêl; a (2) penderfyniad terfynol meistr neu farnwr rhanbarth mewn achosion arbenigol (o dan y Deddfau Cwmnïau, neu drwy hawliad Profiant, y Llys Technoleg ac Adeiladwaith, Cymrodeddu, Patentau neu Eiddo Deallusol arall) yn mynd gerbron y Llys Apêl.

20.17 Bydd pob apêl sy'n deillio o benderfyniad barnwr Uchel Lys yn mynd i'r Llys Apêl.

20.18 Rhaid i apeliadau yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys gael eu cyflwyno yn y Ganolfan Apêl briodol ac ni fydd hwn o anghenraid yr un lle â'r llys lle mae'r apêl wedi cychwyn. Mae'r tablau ar ddiwedd *Cyfarwyddyd Ymarfer 52B* yn nodi'r Canolfannau Apêl ar gyfer pob un o'r chwe Chylchdaith Llysoedd.

## D. Y drefn ar gyfer apelio

20.19 Pan fydd y barnwr yn rhoi ei ddyfarniad yn eich achos, dylech ystyried a oes sail i wneud apêl (gweler A uchod) ac, os oes, dylech ofyn i'r barnwr am ganiatâd i apelio (gweler B uchod). Os na wneir cais am ganiatâd i apelio yn y gwrandawiad yn y llys is, neu bod y llys hwnnw'n gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio i'r llys apêl yn hysbysiad yr apelydd.

20.20 Os ydych am fwrw ymlaen ag apêl, rhaid ichi ffeilio hysbysiad apelydd yn y llys apêl (gweler C uchod). Dylai hysbysiad yr apelydd fod ar *Ffurflen N161* ar gyfer achosion a ddyrennir i'r amldrac a'r trac cyflym ac ar *Ffurflen N164* ar gyfer achosion a ddyrennir i'r trac hawliadau bach. Dylid defnyddio'r ffurflenni hyn hefyd ar gyfer apêl sy'n deillio o benderfyniad llys sirol neu gofrestrydd yr Uchel Lys mewn achosion ansolfedd, a fydd ymhob achos yn apêl i Farnwr yn yr Uchel Lys. Mae nodiadau canllaw ar lenwi'r hysbysiad apelydd ar gael yn *Ffurflen N161A.* Rhaid cynnwys y ffi briodol gyda hysbysiad yr apelydd neu, os yw'n briodol, tystysgrif dileu ffi.

20.21 Oni bai fod y llys is yn pennu rhyw gyfnod arall, yr amser a ganiateir ar gyfer ffeilio hysbysiad apelydd yw 21 diwrnod ar ôl dyddiad penderfyniad y llys yr ydych am apelio yn ei erbyn (hyd yn oed os cafodd y gorchymyn ei lunio'n ddiweddarach). Os yw'r amser ar gyfer ffeilio hysbysiad apelydd wedi dod i ben, rhaid i'r apelydd gynnwys cais am estyniad amser yn hysbysiad yr apelydd, a nodi'r rhesymau am yr oedi a'r camau a gymerwyd cyn i'r cais gael ei wneud. Os oes angen caniatâd arnoch i apelio, rhaid gofyn am hyn yn hysbysiad yr apelydd. Os oes angen ichi atal gweithrediad gorchymyn y llys is, dylid gofyn am hyn hefyd yn hysbysiad yr apelydd.

20.22 Bydd angen ffeilio nifer o ddogfennau gyda hysbysiad yr apelydd. Nodir y rhain ym mharagraff 4.2 o *Gyfarwyddyd Ymarfer 52B* (ar gyfer apeliadau yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys) a pharagraff 3(3) o *Gyfarwyddyd Ymarfer 52C* (ar gyfer apeliadau i'r Llys Apêl). Os nad yw pob un o'r dogfennau hyn ar gael, ni ddylech oedi cyn ffeilio'ch hysbysiad apelydd. Yn hytrach, dylech nodi pa ddogfennau sydd ar goll a'r rhesymau pam nad ydynt ar gael ar hyn o bryd. Rhaid ichi nodi hefyd pryd y byddwch yn debygol o allu'u darparu. Wedyn, dylech eu ffeilio cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Cyn gynted ag y bo modd, ond yn sicr cyn pen 35 diwrnod i ffeilio hysbysiad apelydd yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys, rhaid i'r apelydd ffeilio bwndel yr apêl yn cynnwys y dogfennau a nodir ym mharagraff 6.4 o *Gyfarwyddyd Ymarfer 52B.* Ar gyfer apeliadau i'r Llys Apêl, mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno bwndel yr apêl yn cael ei nodi ym mharagraff 21, a chynnwys bwndel yr apêl ym mharagraff 27 o *Gyfarwyddyd Ymarfer 52C.* Ymhob achos, rhaid i fwndel yr apêl gynnwys mynegai a rhaid rhifo'r tudalennau a dylai gynnwys dim ond y dogfennau sy'n berthnasol i'r apêl.

20.23 Helpu'r llys yw pwrpas dadl fframwaith drwy nodi mewn ffordd mor gryno ag y bo modd y dadleuon y mae parti'n bwriadu dibynnu arnynt. Rhaid i unrhyw ddadl fframwaith gydymffurfio â darpariaethau Adran 5 o *Gyfarwyddyd Ymarfer 52A* ac (yn achos apeliadau i'r Llys Apêl) paragraff 31 o

*Gyfarwyddyd Ymarfer 52C*. Gydag apeliadau i'r Llys Sirol neu i'r Uchel Lys, yn amodol ar unrhyw orchymyn gan y llys, dylai'r partïon i'r apêl ffeilio a chyflwyno dadleuon fframwaith dim ond (a) os yw cymhlethdod y materion ffeithiol neu gyfreithiol yn yr apêl yn eu cyfiawnhau, neu (b) os byddai'r dadleuon fframwaith yn helpu'r llys mewn ffyrdd nad ydynt yn gwbl amlwg o'r papurau yn yr apêl. Yn achos apeliadau i'r Llys Apêl, rhaid i'r apelydd gyflwyno dadl fframwaith i gefnogi'r apêl gyda hysbysiad yr apelydd. Rhaid i atebydd i apêl o'r fath sy'n ffeilio hysbysiad atebydd gyflwyno dadl fframwaith cyn pen 14 diwrnod i ffeilio hysbysiad yr atebydd. Os nad oes hysbysiad atebydd, rhaid i'r atebydd gyflwyno dadl fframwaith (yn unol â'r amserlen yn Rhan I o'r Amserlen yn Adran 5 o *Gyfarwyddyd Ymarfer 52C*) ymhob achos lle mae gan yr atebydd gynrychiolaeth gyfreithiol ac yn bwriadu annerch y llys.

20.24 Onid ydych yn apelio yn erbyn hawliad wedi'i ddyrannu i'r trac hawliadau bach, neu bod y dyfarniad sy'n destun yr apêl wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig, bydd angen nodyn neu drawsgript wedi'i gymeradwyo arnoch o ddyfarniad y llys is. Os ydych yn haeru bod rhyw afreoleidd-dra wedi digwydd yn yr achos yn y llys is, efallai hefyd y bydd angen ichi gael trawsgript cyflawn o'r achos hwnnw. Os yw'r llys is neu'r llys apêl yn fodlon fod gennych hawl i gael y ffioedd wedi'u dileu, efallai y bydd y llys yn ardystio y dylai cost cael trawsgript swyddogol gael ei thalu o arian cyhoeddus. Fel arall, bydd yn rhaid ichi dalu'r gost eich hun. Os byddwch yn gofyn am drawsgript swyddogol o'r dystiolaeth neu'r achos (yn ogystal â rhesymau'r llys a'i benderfyniad) a hwnnw i'w dalu amdano drwy arian cyhoeddus, efallai y bydd angen i'r llys fodloni'i hun bod sail resymol i'r apêl. Lle bo modd, dylid gwneud cais am drawsgript y telir amdano drwy arian cyhoeddus i'r llys is pan fyddwch yn gofyn iddo am ganiatâd i apelio. Fel arall, dylid cynnwys cais o'r fath yn hysbysiad yr apelydd.

20.25 Oni bai fod y llys apêl yn gorchymyn fel arall, rhaid i'r apelydd gyflwyno hysbysiad yr apelydd i bob atebydd yn yr apêl cyn gynted â phosibl ac, yn sicr, cyn pen 7 niwrnod ar ôl ei ffeilio. Dylid rhoi copi o fwndel yr apêl i bob atebydd gyda hysbysiad yr apelydd os yw'r llys is wedi rhoi caniatâd i apelio. Os bydd y llys apêl yn rhoi caniatâd i apelio, rhaid cyflwyno copi o fwndel yr apêl cyn gynted ag y bo modd ar ôl cael gwybod hynny ac, yn sicr, cyn pen 14 diwrnod ar ôl rhoi'r caniatâd. Os yw'r llys apêl yn rhoi cyfarwyddyd y bydd y cais am ganiatâd i apelio yn cael ei glywed yr un pryd â'r apêl, bydd rhaid cyflwyno copi o fwndel yr apêl i'r atebydd cyn gynted â phosibl ac, yn sicr cyn pen 14 diwrnod ar ôl cael gwybod am ddyddiad y gwrandawiad. Oni fydd y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, does dim angen i atebydd gymryd unrhyw gamau nes y'i hysbysir bod caniatâd i apelio wedi'i roi; a bydd unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd ar ei risg ei hun o ran costau.

20.26 Rhaid i atebydd ffeilio hysbysiad atebydd os bydd (a) yn ceisio caniatâd i apelio gan y llys apêl **neu** (b) os bydd am ofyn i'r llys apêl gadarnhau gorchymyn y llys is am resymau gwahanol i'r rhai a roddwyd gan y llys is neu

am resymau eraill. Dylai hysbysiad yr atebydd fod ar *Ffurflen N162*. Mae nodiadau canllaw ar lenwi hysbysiad yr atebydd ar gael yn *Ffurflen N1612A.* Os bydd atebydd yn gofyn am ganiatâd i apelio gan y llys apêl, rhaid gofyn am hynny yn hysbysiad yr atebydd.

20.27 Oni bai fod y llys is yn nodi rhyw gyfnod arall, yr amser ar gyfer ffeilio hysbysiad atebydd yw 14 diwrnod ar ôl (a) y dyddiad y cyflwynwyd hysbysiad yr apelydd i'r atebydd lle rhoddwyd caniatâd i apelio gan y llys is neu lle nad oedd angen caniatâd, *neu* (b) y dyddiad yr hysbyswyd yr atebydd bod y llys apêl wedi rhoi caniatâd i'r apelydd apelio, *neu* (c) y dyddiad yr hysbyswyd yr atebydd y bydd cais am ganiatâd i apelio a'r apêl ei hun yn cael eu clywed gyda'i gilydd.

20.28 Oni bai fod y llys apêl yn gorchymyn fel arall, rhaid cyflwyno hysbysiad yr atebydd i'r apelydd ac i unrhyw atebydd arall yn yr apêl cyn gynted â phosibl ac, yn sicr, cyn pen 7 niwrnod ar ôl ei ffeilio.

## E. Gohirio gweithredu

20.29 Nid yw rhoi caniatâd i apelio na ffeilio hysbysiad apelydd yn gohirio effaith na gorfodadwyedd gorchymyn neu benderfyniad y llys is sy'n destun yr apêl. Os yw'r apelydd am ohirio'r gorchymyn, rhaid iddo wneud cais penodol am ohiriad tra bo apêl yn yr arfaeth. Gellir gwneud y cais ar lafar yn y llys is yn y gwrandawiad lle mae'r penderfyniad sy'n destun yr apêl yn cael ei wneud. Os na wneir cais i ohirio yn y gwrandawiad hwnnw neu os yw'r llys is yn gwrthod gohiriad, gellir gwneud cais i ohirio i'r llys apêl yn hysbysiad yr apelydd.

20.30 Rhaid i'r apelydd gyflwyno sail gadarn ar gyfer rhoi gohiriad. Yn gyffredinol, oherwydd na ddylai'r parti llwyddiannus gael ei amddifadu o ffrwyth ei fuddugoliaeth yn yr ymgyfreitha tra bo apêl yn yr arfaeth, eithriad yn hytrach na'r rheol yw gohiriad; a rhaid i'r apelydd ddwyn sylw at ryw fath o niwed na ellid mo'i adfer pe na fyddai gohiriad yn cael ei ganiatáu. Rhaid i'r llys wedyn gydbwyso'r holl elfennau, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos, ystyried y risgiau a fyddai'n gysylltiedig â chaniatáu gohiriad yn erbyn y risgiau a fyddai'n gysylltiedig â gwrthod gohiriad, a gofyn iddo'i hun lle mae'r cydbwysedd anghyfiawnder yng nghyswllt y partïon petai'n caniatáu neu'n gwrthod gohiriad.

## F. Costau

20.31 Bydd y llys apêl fel arfer yn gwneud gorchymyn am gostau ar ddiwedd yr apêl. Y gorchymyn safonol yw bod y sawl sy'n colli yn talu costau'r sawl sy'n ennill. Os caniateir yr apêl, bydd y sawl sy'n colli fel arfer yn cael gorchymyn i dalu costau'r enillydd nid dim ond yn y llys apêl ond yn y llys gwreiddiol ('y llys isod'). Ond caiff y llys apêl wneud gorchymyn gwahanol am gostau mewn amgylchiadau priodol. Os oes gorchymyn capio costau neu reoli costau wedi'i wneud yn y llys isod, neu os yw'n arferol i un neu fwy o orchmynion o'r fath

gael eu gwneud, gall y llys apêl wneud gorchymyn i gostau apêl y gellir eu hadennill gael eu cyfyngu i swm a bennir gan y llys [CPR Rhan 52.9A].

# Pennod 21
# Gorchmynion Atal Sifil

A. Y Gorchymyn Atal Sifil
B. Gorchymyn Atal Sifil Cyfyngedig
C. Gorchymyn Atal Sifil Estynedig
D. Gorchymyn Atal Sifil Cyffredinol

<u>*Penawdau*</u>

*(1) Gall ymgyfreithwyr sy'n gwneud ceisiadau annheilwng niferus ganfod eu hunain yn destun Gorchymyn Atal Sifil ('CRO'). Effaith y gorchymyn yw atal yr ymgyfreithiwr rhag cychwyn hawliad neu gais o fewn hawliad heb yn gyntaf iddo gael caniatâd Barnwr. Ni roddir caniatâd ond i geisiadau synhwyrol sydd â rhagolygon rhesymol o lwyddo.*

*(2) Mae CRO cyfyngedig yn berthnasol yn syml iawn i geisiadau o fewn un hawliad penodol. Mae CRO estynedig yn berthnasol i geisiadau ac i hawliadau newydd yn ymwneud â phwnc yr achos gwreiddiol. Bydd CRO cyffredinol yn berthnasol i unrhyw achos yn unrhyw lys am unrhyw fater bwnc.*

*(3) Mae hyd cyfyngedig i bob CRO, a phennir hynny yn y Gorchymyn, yn ddarostyngedig i uchafswm o ddwy flynedd.*

## A. Y Gorchymyn Atal Sifil

21.1 Mae'r bennod hon hyn ymdrin â Gorchmynion Atal Sifil (CRO). Efallai eich bod wedi clywed am y term "Ymgyfreithiwr Blinderus", a ddefnyddir i ddisgrifio unigolyn sy'n gyson a di-baid a heb achos rhesymol wedi cychwyn achosion niferus neu wneud ceisiadau annheilwng niferus mewn achosion o'r fath. Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil bellach yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud Gorchmynion Atal Sifil yn erbyn ymgyfreithwyr sy'n dal ati i wneud hawliadau mewn achosion, a'r rheini'n rhai cwbl annheilwng. Mae'r rheolau manwl ynghylch CRO wedi'u cynnwys yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 3C y CPR.

21.2 Mae'n ofynnol i'r llys ystyried gwneud CRO a chaiff wneud un, pan fo achos, neu gais, neu apêl wedi eu gwrthod, neu eu dileu fel rhywbeth cwbl annheilwng [CPR 3.3(7); 3.4(6); 23.12; 52.10(6)]. Gellir caniatáu CRO ar gais gan barti i'r achos, neu gellir ei wneud ar benderfyniad y Llys ei hun.

21.3 Dylech fod yn ymwybodol, os byddwch yn derbyn gorchymyn yn dileu hawliad, neu'n gwrthod cais, sy'n datgan fod yr hawliad neu'r cais yn gyfan gwbl annheilwng, yna mae posibilrwydd y bydd CRO yn cael ei ystyried gan y llys.

21.4 Ceir 3 math o CRO. CRO Cyfyngedig, CRO Estynedig a CRO Cyffredinol. Bwriedir y cyfan i warchod teuluoedd rhag costau ac anghyfleustra ymateb i achosion llys neu geisiadau nad ydynt yn rhai teilwng. Fe'u gwneir hefyd i atal unigolyn rhag camddefnyddio proses y Llys a gosod baich rhy drom ar adnoddau'r Llys drwy greu achosion neu geisiadau annheilwng.

21.5 Gall torri unrhyw un o'r gorchmynion hyn, os gwneir ceisiadau neu y cychwynnir achosion heb ganiatâd, gael ei drin fel dirmyg llys a'i gosbi'n unol â hynny.

## B. Gorchymyn Atal Sifil Cyfyngedig

21.6 Gall y gorchymyn hwn gael ei wneud gan farnwr ar unrhyw lefel lle y mae parti wedi gwneud 2 neu fwy o geisiadau sydd wedi cael eu gwrthod fel rhai sy'n gyfan gwbl annheilwng. Bydd y gorchymyn yn cyfyngu ar geisiadau pellach yn yr achos lle y gwnaed y gorchymyn, heb gael caniatâd barnwr.

21.7 Os gwneir cais heb ganiatâd caiff ei wrthod yn awtomatig. Os bydd parti sy'n destun PRO Cyfyngedig yn gwneud ceisiadau niferus am ganiatâd i wneud cais, caiff y llys gyfarwyddo y bydd penderfyniadau i wrthod cais o'r fath yn derfynol, heb unrhyw hawl i apelio.

21.8 Pery'r gorchymyn mewn grym gydol yr achos.

21.9 Rhaid i unrhyw gais am ganiatâd dan y rheol gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i gyflwyno i'r holl bartïon eraill. Fel arfer, ymdrinnir â chais o'r fath heb wrandawiad.

## C. Gorchymyn Atal Sifil Estynedig

21.10 Ni ellir gwneud y gorchymyn hwn ond yn y Llys Sirol gan y Barnwr Sifil Dynodedig (DCJ) neu farnwr a ddirprwywyd yn benodol i wneud gorchymyn o'r fath gan y DCJ, neu gan Farnwr Uchel Lys neu'r Llys Apêl.

21.11 Mae'r gorchymyn yn cael yr un effaith â'r CRO Cyfyngedig o ran gwahardd ceisiadau pellach. Nid i'r achos <u>gwreiddiol</u> yn unig y mae'n berthnasol. Bydd hefyd yn atal y parti sy'n destun y CRO Estynedig rhag cychwyn hawliadau pellach *ynghylch unrhyw fater yn ymwneud â'r achos lle y gwnaed y gorchymyn.*

21.12 Mae'r darpariaethau ar gyfer gwneud ceisiadau am ganiatâd yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol i CRO Cyfyngedig.

21.13 Bydd y gorchymyn yn parhau mewn grym am y cyfnod penodedig, a fydd yn ddim hwy na 2 flynedd. Gellir ei ymestyn os bydd hynny'n briodol ym marn y llys.

## D. Gorchymyn Atal Sifil Cyffredinol

21.14 Gall y gorchymyn hwn gael ei wneud gan farnwyr sydd â'r grym i wneud CRO Estynedig. Caiff CRO Cyffredinol ei wneud lle nad yw CRO Estynedig yn ddigonol neu'n briodol. Bydd y gorchymyn yn atal parti y gwneir y gorchymyn yn ei erbyn rhag cychwyn unrhyw achos mewn unrhyw lys, os caiff ei wneud gan y Llys Apêl neu gan Farnwr Uchel Lys ac yn unrhyw Lys Sirol a bennir gan y gorchymyn, os gwneir ef gan DCJ.

21.15 Mae'r darpariaethau ar gyfer gwneud ceisiadau am ganiatâd yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol i CRO Cyfyngedig.

21.16 Bydd y gorchymyn yn parhau mewn grym am y cyfnod penodedig, a fydd yn ddim hwy na 2 flynedd. Gellir ei ymestyn os bydd hynny'n briodol ym marn y llys.

# Pennod 22
# Cynnal Achosion Cyfreithiol yn y Gymraeg

22.1 Mae Adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu fel hyn:

> *"Mewn unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru gall yr iaith Gymraeg gael ei siarad gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno ei defnyddio, yn amodol ar adegau pan fydd yr achos yn cael ei gynnal mewn llys nad yw'n Llys Ynadon bod rhybudd digonol yn cael ei roi ymlaen llaw fel sy'n ofynnol gan reolau llys; ac fe wneir unrhyw ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer cyfieithu, yn unol â hynny."*

22.2 O ganlyniad, mae gennych yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achos cyfreithiol yng Nghymru. Bydd llysoedd sirol yng Nghymru yn anfon pob hysbysiad ar ffurf ddwyieithog. Pan fydd y llys yn anfon y dogfennau cyntaf mewn achos at berson (gan gynnwys pan gychwynnwyd achos mewn llys yn Lloegr a'i drosglwyddo i lys yng Nghymru) bydd yn cynnwys nodyn yn rhoi manylion am wasanaethau iaith Gymraeg y llys. Bydd yr hysbysiad yn esbonio y caiff rhywun siarad Cymraeg neu Saesneg yn yr achos ac yn eich gwahodd i roi gwybod i'r Llys ymlaen llaw pa iaith y dymunwch ei defnyddio. Unwaith i chi roi gwybod i'r Llys beth yw eich dewis iaith, bydd y Llys yn parchu'r dewis hwnnw wrth anfon ffurflenni a gohebiaeth i chi ar ôl hynny.

22.3 Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, lluniwyd Cyfarwyddiadau Ymarfer ar gyfer Llys y Goron a Llysoedd Sifil yng Nghymru. Mae manylion y Cyfarwyddiadau Ymarfer hyn i'w gweld ar y Rhyngrwyd yn:

http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/welshpd

22.4 Bydd copïau o gardiau tyngu llw a chadarnhau dwyieithog ar gael yn hwylus; a bydd Beiblau Cymraeg a Saesneg ar gael ym mhob llys.

22.5 Gallwch gychwyn achos llys yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Os byddwch chi'n gofyn am hynny, bydd y llys yn cyfieithu i'r Gymraeg neu i'r Saesneg ddogfennau cychwynnol y llys, gorchmynion llys a dogfennau llys a baratowyd yn benodol ar gyfer yr achos ac sydd i'w defnyddio mewn gwrandawiadau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau achosion a drosglwyddir i lys yn Lloegr lle mae'r Barnwr wedi caniatáu defnyddio'r Gymraeg. Bydd y Llys yn gyfrifol am unrhyw gostau cyfieithu.

22.6 Mae gennych hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad llysoedd sirol yng Nghymru. Pan hysbysir y Llys eich bod chi neu rywun cysylltiedig â'ch achos yn dymuno siarad Cymraeg mewn gwrandawiad bydd y llys yn cymryd camau i sicrhau y bydd modd i chi wneud hynny. Mewn achosion sifil yn y llys sirol mae'r Holiadur Cyfarwyddiadau a'r Rhestr Wirio Cyn Treial yn cynnwys cwestiynau ynghylch dewis iaith y dylid eu hateb. Oni ddarperir y wybodaeth hon i'r llys yn awtomatig, drwy gyfrwng yr holiaduron, bydd angen rhybudd

rhesymol ymlaen llaw, 5 diwrnod gwaith yn ddelfrydol, fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol.

22.7 Os yw’n bosibl y gallai’r iaith Gymraeg gael ei defnyddio gan unrhyw barti neu dyst yn eich achos (neu yn unrhyw ddogfen allai gael ei chyflwyno gerbron y llys), rhaid i chi hysbysu'r llys o’r ffaith honno fel y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli a rhestru’r achos.

22.8 Os bydd yn golygu costau o ganlyniad i chi fethu â chydymffurfio â’r cyfarwyddiadau hyn, gellir gwneud gorchymyn costau yn eich erbyn.

22.9 Bydd y llys yn sicrhau drwy ei bolisi rhestru y caiff achos lle y defnyddir yr iaith Gymraeg ei restru:

(a) lle bynnag y bo'n ymarferol gerbron barnwr sy'n siarad Cymraeg; a

(b) lle bydd angen cyfleusterau cyfieithu, mwn llys sy’n cynnwys cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

22.10 Pan fydd pob tyst yn cael ei alw, bydd swyddog y llys sy’n gweinyddu’r llw neu’r cadarnhad yn hysbysu’r tyst y caiff ef neu hi dyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dymuniad.

22.11 Pan gynhelir achos gyda rheithgor, bydd swyddog y llys sy'n trefnu i'r rheithgor dyngu llw yn hysbysu'r rheithwyr mewn llys agored y caiff pob rheithiwr dyngu llw neu gadarnhau yn y Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl ei ddymuniad. Nid yw’n bosibl gwneud cais am reithgor cwbl ddwyieithog.

22.12 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi’r hawl i ddefnyddio’r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru ond nid yw’n rhoi’r hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad y tu allan i Gymru. Mater i'r barnwr sy'n llywyddu yn y treial yw penderfynu a ddylid caniatáu siarad Cymraeg mewn llys y tu allan i Gymru ai peidio. Lle bydd y barnwr yn caniatáu siarad Cymraeg, bydd GLlTEM yn trefnu cyfleusterau cyfieithu mor rhwydd ac mor hwylus ag a wneir mewn llysoedd yng Nghymru.

22.13 Os yw achos wedi cychwyn mewn llys yng Nghymru ac wedi'i drosglwyddo i lys yn Lloegr, a bod y barnwr wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio’r Gymraeg, bydd GLlTEM yn trefnu i hwyluso’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn y llys yn Lloegr.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| Hawliad ychwanegol | gweler Hawliad Trydydd Parti |
| Affidafid | Datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth a dyngwyd gerbron cyfreithiwr neu gomisiynydd llwon, bellach wedi ei ddisodli gan fwyaf gan ddatganiad tyst a gadarnheir gan ddatganiad gwirionedd. |
| Dyrannu | Y broses a ddefnyddir gan y barnwr i benderfynu ar ba un o'r 3 trac (trac hawliadau bychain, trac cyflym neu amldrac), y dylai'r hawliad fod. |
| Holiadur dyrannu | Y ffurflen a anfonir gan y llys i'r holl bartïon ei llenwi ar ddechrau'r achos ac a fydd yn cynorthwyo'r barnwr i benderfynu ar ba drac y dylid rhoi'r hawliad (dyrannu). Ceir tair ffurflen. Ffurflen 149 pan fydd achos wedi cychwyn yn y llys hawliadau bychain, Ffurflen 150 pan fydd yr hawliad am swm penodedig, a Ffurflen 151 pan fydd yr hawliad yn un amhenodedig (h.y. hawliad am iawndal lle bydd y llys yn asesu'r cyfan neu ran o unrhyw ddyfarniad. Ceir nodiadau ar bob ffurflen i helpu'r ymgyfreithiwr ei llenwi'n gywir. |
| ADR | Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod – term sy'n cwmpasu unrhyw ddull o ddatrys anghydfodau ar wahân i ymgyfreitha. Y ffurf fwyaf cyffredin ar ADR yw cyfryngu. |
| Cyflafareddu | Setlo anghydfodau drwy eu cyfeirio at un neu fwy o unigolion yn gweithredu fel cyflafareddwyr, sydd fel arfer yn arbenigwyr yn y maes lle y cododd yr anghydfod, ond a allai fod yn gyfreithwyr neu'n unigolion addas eraill. |
| Asesiad | Y broses a ddefnyddir i bennu swm y costau y gall parti ei hawlio gan barti arall dan delerau gorchymyn llys. Gellir cael 'asesid manwl' neu 'asesiad cryno'. |
| Bargyfreithiwr | Cyfreithiwr proffesiynol sydd wedi cael ei alw i'r Bar gan un o bedwar Ysbyty'r Brawdlys ar ôl llwyddo yn ei arholiadau proffesiynol, ac sydd wedi ymgymryd â chyfnod o hyfforddiant a elwir yn 'gyfnod disgybledd'. |
| Cyfradd sylfaenol | Y gyfradd llog a bennir gan Fanc Lloegr. |

| | |
|---|---|
| Perchen llesiannol | Term a ddefnyddir yn bennaf mewn cyfraith eiddo (tir) i nodi unigolyn sy'n cael y cyfan neu gyfran o fudd eiddo yn cynnwys tir (gan gynnwys yr hawl i unrhyw incwm a gynhyrchir gan yr eiddo a'r hawl i elw gwerthiant) boed yr unigolyn hwnnw hefyd yn berchennog cyfreithiol ar yr eiddo ai peidio. Cyfyd buddiannau llesiannol mewn ecwiti (ac o'r herwydd gellir eu galw'n fuddiannau ecwitïol) o ganlyniad i ymddiriedolaeth. Gall ymddiriedolaethau fod yn ddatganedig, goblygedig, dychweledig neu ddehongliadol. Mae hwn yn faes pwysig o'r gyfraith lle y mae gan ddau neu fwy o unigolion nad ydynt yn briod (boed yn cyd-fyw mewn perthynas rywiol ai peidio) fuddiannau yn yr un eiddo. |
| Gwaith blwch | Y disgrifiad a roddir i benderfyniadau a wneir gan farnwr, o ba lefel bynnag, heb wrandawiad, hynny yw yn absenoldeb y partïon. Yn ymron bob achos gall ymgyfreithiwr ofyn i farnwr adolygu penderfyniad a wnaed mewn gwaith blwch ar ôl clywed dadleuon (argymhellion) gan y partïon. |
| Cyllideb | Amcangyfrif o'r costau rhesymol a chymesur (gan gynnwys gwariadau) y mae parti'n bwriadu eu gwario yn yr achos. |
| Rheoli Achos | Y broses a ddefnyddir gan farnwr, barnwr rhanbarth fel arfer) i roi cyfarwyddiadau i bartïon baratoi'r achos ar gyfer treial. Rhoddir cyfarwyddiadau drwy Orchymyn Llys, a gallai methiant i gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau fod yn destun sancsiynau. |
| Hawlydd | Yr ymgyfreithiwr sy'n cychwyn yr achos drwy wneud hawliad. Fe'i galwyd yn flaenorol yn Bleintydd. |
| Cyfraniad | Y swm y mae'n rhaid i drydydd person ei dalu tuag at atebolrwydd diffynnydd i hawlydd. Gall yr atebolrwydd godi mewn contract, tort, neu dan statud, a gall fod yn rhan o atebolrwydd y diffynnydd neu'r cyfan ohono (ac os felly fe'i gelwir yn 'gyfraniad sydd gyfwerth ag indemniad'). |
| Cwnsler | Bargyfreithiwr. |
| Gwrth-hawliad | Hawliad a ddygir yn erbyn yr Hawlydd gan y Diffynnydd yn yr un achos cyfreithiol â hawliad yr Hawlydd. Fe'i gelwir weithiau'n hawliad 'Rhan 20' oherwydd y rheolir ef gan CPR Rhan 20 ond gall hyn achosi dryswch oherwydd |

| | |
|---|---|
| | bod CPR Rhan 20 hefyd yn rheoli hawliadau a wneir yn erbyn partïon ychwanegol. |
| Y Gwasanaeth Llys | Y term byr am Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM), asiantaeth y llywodraeth sy'n gyfrifol am reoli'r llysoedd sy'n atebol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. |
| CPR | Rheolau Trefniadaeth Sifil. Mae'r Rheolau hyn yn rheoli pob achos sifil ac mae ganddynt rym cyfraith. Maent yn dyddio'n ôl i 1998 pan fu iddynt gymryd lle hen Reolau'r Llys Sirol 1984. Mae'r CPR wedi'u rhannu'n 'Rannau' ac mae gan bron bob un ohonynt Gyfarwyddiadau Ymarfer cysylltiedig. |
| Croesholi | Holi tyst a elwir gan barti yn yr achos ar wahân i'r parti a alwodd y tyst. |
| Iawndal | Swm o arian a ddyfernir gan y llys fel iawndal. Gall iawndal fod fel a ganlyn:<br>*Cyffredinol* – a ddyfernir yn ôl disgresiwn y llys (er yn unol â chanllawiau sefydledig, er enghraifft iawndal am boen neu anaf a ddioddefwyd mewn damwain neu am ofid oherwydd gwyliau a ddifethwyd);<br>*Arbennig* – asesir gan y llys ymlaen llaw yn unol ag egwyddor sefydledig (er enghraifft hawliadau am golli enillion neu atgyweirio eiddo a ddifrodwyd mewn damwain);<br>*Gwaethygedig* – iawndal ychwanegol a ddyfernir am ymddygiad annerbyniol gan y Diffynnydd i'r Hawlydd;<br>*Esiamplaidd* – iawndal goruwch gwir golled y Diffynnydd a ddyfernir i ddangos anghymeradwyaeth y llys am ymddygiad y Diffynnydd. |
| Cytundebau seiliedig ar iawndal | Cytundeb seiliedig ar iawndal yw cytundeb sy'n cydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau Cytundebau Seiliedig ar Iawndal 2013 sy'n caniatáu i gyfreithiwr sy'n gweithredu mewn achos cyfreitha gael ei wobrwyo â chyfran o iawndal yr ymgyfreithiwr hyd at 25% mewn achosion anaf personol a 50% ym mhob achos arall. |
| Dyfarniad trwy ddiffyg | Dyfarniad a gofnodir heb dreial oherwydd bod y diffynnydd wedi methu â chydymffurfio â'r rheolau yn ei |

| | |
|---|---|
| | gwneud yn ofynnol iddo gydnabod cyflwyno neu ffeilio amddiffyniad neu gydymffurfio â gorchymyn llys. |
| Diffynnydd | Yr ymgyfreithiwr y gwneir yr hawliad yn ei erbyn. |
| Dirprwy Farnwr Rhanbarth | Barnwr rhanbarth rhan-amser, gan amlaf cyfreithiwr neu fargyfreithiwr mewn practis preifat. |
| Asesiad manwl | Asesiad o'r costau sy'n daladwy gan un ymgyfreithiwr i un arall yn cynnwys paratoi bil manwl gan y parti sy'n derbyn a anfonir i'r parti sy'n talu a gaiff wrthwynebu eitemau ar y bil. Os na all y partïon ddod i gytundeb caiff y swm sy'n daladwy dan y bil ei asesu gan farnwr costau neu farnwr rhanbarth ar ôl ystyried argymhellion ysgrifenedig neu wrando argymhellion llafar gan y partïon. |
| Cyfarwyddiadau | Gorchmynion trefniadol a wneir gan y llys wrth reoli achos tuag at dreial. |
| Datgelu | Drwy'r broses hon y mae pob parti yn hysbysu'r lleill am unrhyw ddogfennau sydd gan y parti, neu a fu ganddo dan ei reolaeth ac y mae'n rhaid iddo'i ddatgelu dan CPR Rhan 31 [gweler pennod 10]. |
| Gwrandawiad penderfynu | Gwrandawiad ar ôl i ddyfarniad ar atebolrwydd gael ei roi pan fydd y swm taladwy dan benderfyniad y llys yn cael ei benderfynu gan y llys. |
| Barnwr Rhanbarth | Aelod o'r farnwriaeth sy'n cynnal achosion yn y llys sirol, yn bennaf achosion trac cyflym neu hawliadau bychain, ac sy'n defnyddio pwerau rheoli achos mewn achosion amldrac. Bydd y rhan fwyaf o Farnwyr Rhanbarth wedi bod yn gyfreithwyr mewn practis preifat am flynyddoedd lawer cyn derbyn y penodiad. |
| Dogfen | Mae 'dogfen' yn golygu unrhyw beth lle y cofnodir gwybodaeth o unrhyw fath [CPR Rhan 31.4]. Yn unol â hynny, mae'r term yn cynnwys dogfennau electronig (unrhyw ddogfen wedi'i storio ar ffurf electronig gan gynnwys e-byst, negeseuon testun, lleisbost, ffeiliau prosesu geiriau, cronfeydd data, ffeiliau a storir ar gofau bach (memory sticks), ffonau symudol, gweinyddion a systemau wrth gefn). |
| Tystiolaeth | Unrhyw ddulliau a ganiateir i brofi ffaith neu farn arbenigol. Mae dulliau o'r fath yn cynnwys tystiolaeth lafar, datganiad |

| | |
|---|---|
| | tyst a gefnogir gan ddatganiad gwirionedd, dogfen, cofnod cyhoeddus neu affidafid. |
| Tystiolaeth flaenaf | Y dystiolaeth a roddir gan dyst ar ran y parti sy'n ei alw. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd datganiad ysgrifenedig y tyst a gyflwynwyd yn unol â chyfarwyddyd rheoli achos yn cael ei drin fel tystiolaeth flaenaf y tyst ar ôl i'r tyst gadarnhau gwirionedd y datganiad (gydag unrhyw newid y gallai'r tyst ddymuno ei wneud) ar ôl tyngu llw neu gadarnhau yn y blwch tystion. Ni chaniateir tystiolaeth flaenaf ar lafar yn ychwanegol at y datganiad tyst ond gyda chaniatâd barnwr y treial, ac ni chaniateir tystiolaeth am faterion newydd ad ymdriniwyd â hwy yn y datganiad tyst, ond os oes rheswm da iddi beidio â chael ei chynnwys yn y datganiad tyst. |
| Trac cyflym | Trac rheoli achosion. Achosion gwerth hyd at £25,000 sy'n uwch na therfyn y trac hawliadau bychain ac y gellir eu gwrando mewn un diwrnod neu lai. Fel arfer dyfernir costau i enillydd achos trac cyflym, ond mae'r swm y bydd modd ei adfer yn cael ei gyfyngu gan y Rheolau. |
| Ffeilio | Darparu dogfen i swyddfa'r llys (lle bydd y staff yn rhoi'r ddogfen ar ffeil y llys). Gellir danfon dogfennau i'w ffeilio i'r llys â llaw, eu hanfon drwy'r post neu (gan ganiateir yn benodol) drwy e-bost. |
| Indemnio | Ymrwymiad trydydd parti i gwrdd â'r holl swm y mae'n rhaid i'r diffynnydd ei dalu i'r hawlydd. Bydd ymrwymiad o'r fath fel arfer yn codi dan gontract. |
| Gwaharddeb | Gorchymyn llys yn gwahardd neu atal unigolyn rhag gwneud rhywbeth (fe'i gelwir weithiau'n waharddeb negyddol) neu'n gorchymyn unigolyn i wneud rhywbeth (gwaharddeb orfodol). |
| Atebolrwydd ar y cyd | Pan fo dau neu fwy o bartïon yn atebol ar y cyd i rannu atebolrwydd unigol a bod atebolrwydd pob un ohonynt yn dibynnu ar atebolrwydd y lleill (yn wahanol i 'atebolrwydd unigol'). |
| Gweithredwr cyfreithiol | Cyfreithiwr wedi cymhwyso'n broffesiynol dan Reolau Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol. Bydd gweithredwyr cyfreithiol fel arfer yn gweithio i gwmnïau o gyfreithwyr. |
| Perchennog cyfreithiol | Perchennog eiddo a gydnabyddir dan gyfraith a all fod yn berchennog yr eiddo ei hun neu fel ymddiriedolwr dros eraill. |

| | |
|---|---|
| | Gall y perchennog cyfreithiol fod yn berchen llesiannol ar yr eiddo neu ddim. |
| Cynrychiolydd cyfreithiol | Bargyfreithiwr neu gyfreithiwr (gan gynnwys gweithredwyr cyfreithiol a chyflogeion eraill mewn cwmni cyfreithwyr) a gyfarwyddwyd i weithredu ar ran parti mewn achos. |
| Cyfnod cyfyngu | Y cyfnod a bennwyd gan y senedd o fewn pryd y mae'n rhaid i unigolyn sydd â'r hawl i ddwyn hawliad yn erbyn rhywun arall ddechrau achos llys os yw'n dymuno adennill dyfarniad ar yr hawliad hwnnw. Mae Deddf Cyfyngiadau Achosion 1980 yn nodi cyfnodau cyfyngu cyffredinol sy'n berthnasol i rai categorïau penodol o hawliadau, ond mae statudau eraill yn nodi cyfnodau cyfyngu penodol ar gyfer rhai dosbarthiadau penodol o achosion. Bydd y cyfnodau cyfyngu penodol hyn (yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl yn achos hawliadau yn codi o gludiant, boed ar y ffyrdd, ar reilffyrdd, dros y môr neu drwy'r awyr) yn fyrrach na'r cyfnod cyfyngu cyffredinol a fyddai fel arall yn berthnasol a bydd y cyfnod byrrach penodol yn drech na'r cyfnod cyfyngu cyffredinol. Mae'n bwysig nodi fod terfyn cyfnod cyfyngu dan Ddeddf Cyfyngiadau Achosion 1980 (yn wahanol i ddarpariaethau cyfyngu dan statudau eraill) yn gwahardd y rhwymedi, ond nid yw'n dileu'r hawliad. Os yw diffynnydd yn dymuno dibynnu ar gyfnod cyfyngu mae'n hanfodol pledio hyn yn yr amddiffyniad. Mewn achosion anaf personol a damweiniau angheuol (a hefyd mewn achosion difenwi ac anwiredd maleisus) mae gan y llys hawl dewisol (cyfyngedig) i ddiystyru'r cyfnod cyfyngu er budd cyfiawnder. |
| Rhestr | I ddibenion gweinyddol caiff achosion eu haseinio i wahanol restrau yn dibynnu ar fater yr achos. Mae achosion ar restrau arbenigol (e.e. Siawnsri, Apeliadau'r Ddeddf Tai, Rhestrau'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith) yn debygol o gael eu gwrando gan farnwyr gyda gwybodaeth arbenigol, a gallant fod yn destun trefn wahanol i achosion ar y rhestr gyffredinol. |
| Ymgyfreithiwr drosto'i hun | Parti mewn achos sy'n gweithredu drosto'i hun heb ddefnyddio cynrychiolydd cyfreithiol. Fe'i gelwir hefyd yn Ymgyfreithiwr sy'n Cynrychioli'i Hun. |
| Cyfaill cyfreitha | Unigolyn a awdurdodwyd gan y llys i weithredu mewn achos ar ran ymgyfreithiwr sydd un ai yn blentyn (dan 18 oed) neu'n barti a warchodir, hynny yw parti sydd heb allu o fewn ystyr Deddf Gallu Meddyliol 2005 i gynnal achosion cyfreithiol. |

| | |
|---|---|
| Cyfaill McKenzie | Unigolyn sy'n cynorthwyo ymgyfreithiwr yn y llys yn ystod treial neu wrandawiad arall ond nad oes ganddo hawl i annerch y barnwr. |
| Cyfryngu | Proses amgen o ddatrys anghydfod, gweler pennod 2. |
| Amldrac | Trac rheoli achosion ar gyfer achosion gwerth mwy na £25,000 neu a fydd yn cymryd mwy nag un diwrnod i'w penderfynu. |
| Cofnodion ar gopi'r swyddfa | Y ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Gofrestrfa Tir EM i ddangos y cofnodion ar y rhif teitl perthnasol o dir cofrestredig. Bydd yn dangos perchennog/perchnogion cyfreithiol cofrestredig y tir, a yw'n cael ei ddal dan ymddiriedolaeth a gofrestrwyd yn erbyn y teitl, a oes unrhyw arwystlon (gan gynnwys morgeisi) neu orchmynion arwystlo wedi'u cofnodi yn erbyn y tir, a thelerau unrhyw gyfamodau cyfyngol neu gyfamodau eraill y delir y tir danynt. Er y bydd y cofnodion ar gopi'r swyddfa yn dystiolaeth o berchnogaeth tir nid ydynt yn dystiolaeth bendant o berchnogaeth gyfreithiol y tir nac o faint y tir a gynhwysir yn y teitl. |
| Prif amcan | Egwyddor sylfaen y Rheolau Trefniadaeth Sifil i ymdrin ag achosion yn gyfiawn, gweler Pennod 4.6. |
| Hawliad Rhan 20 | Hawliad a wneir mewn achos gan ymgyfreithiwr ar wahân i'r hawlydd gwreiddiol. Gallai hwn fod yn wrth-hawliad gan y diffynnydd gwreiddiol neu hawliad trydydd parti a ddygir gan y diffynnydd gwreiddiol yn erbyn unigolyn ar wahân i'r hawlydd gwreiddiol. Rheolir yr hawliadau hyn gan CPR Rhan 20. (Fel arfer mae'n fwy cyfleus eu disgrifio fel 'gwrth-hawliadau' neu 'hawliadau trydydd parti' fel y bo'n briodol.) |
| Cynnig Rhan 36 | Cynnig i gyfaddawdu (setlo)'r hawliad ar delerau penodol a wneir yn unol â darpariaethau CPR Rhan 36, gweler pennod 17. |
| Manylion yr hawliad | Y plediad pryd y bydd hawlydd yn nodi manylion ffeithiol hanfodol ei hawliad a'r 'ymwared' y bydd yr hawlydd yn gofyn i'r llys ei ddyfarnu. |
| Cyfarwyddyd Ymarfer | Rheolau ymarfer a roddir mewn cyfarwyddyd ffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o Rannau'r CPR yn cynnwys cyfarwyddiadau ymarfer i ategu'r Rheolau, ond ceir hefyd gyfarwyddiadau ymarfer ar wahân ar bynciau penodol, er enghraifft *Cyfarwyddyd Ymarfer : Achosion Ansolfedd.* |

Ffurflen Ymarfer

Ffurflen weithdrefnol y mae’n ofynnol ei defnyddio i bwrpas penodol mewn achos cyfreithiol dan delerau Cyfarwyddyd Ymarfer.

Protocol cyn-cyfreitha

Protocol a luniwyd i sicrhau na fydd achos cyfreithiol yn dechrau yn ddiangen. Bydd protocolau unigol yn wahanol o ran manylion ond yr hanfod fydd gofyniad bod y darpar hawlydd yn hysbysu’r darpar ddiffynnydd o’r hawliad y mae’n dymuno’i ddwyn mewn digon o fanylder i alluogi’r darpar ddiffynnydd i ddeall am beth y mae’r hawliad, gyda gofyniad bod y darpar ddiffynnydd yn ymateb, gan egluro ar ba sail y bydd yn gwrthwynebu unrhyw hawliad, os mai felly y bydd. Gweler Pennod 7.1.

Braint

Hawl ymgyfreithiwr i wrthod datgelu neu ganiatáu archwilio dogfen, neu i wrthod ateb cwestiynau ar sail buddiant a gydnabyddir gan y gyfraith. Y breintiau a elwir i rym yn fwyaf cyffredin yw *braint broffesiynol gyfreithiol* (hawl parti i gadw’n gyfrinachol ddogfennau a gafwyd neu a baratowyd i ddibenion derbyn cyngor cyfreithiol ynghyd ag unrhyw gyngor a dderbyniwyd) a *braint cyfreitha* (sy’n cwmpasu dogfennau a baratowyd yn benodol neu’n bennaf i ddibenion cyfreitha ac sy’n ymestyn y tu hwnt i gyfathrebu uniongyrchol rhwng y cyfreithiwr a'r cleient.

Mae breintiau eraill yn cynnwys *braint yn erbyn hunan-argyhuddiad* sy'n rhoi hawl i barti (neu dyst) wrthod datgelu dogfennau nac ateb cwestiynau a allai dueddu i roi’r ymgyfreithiwr neu’r tyst yn agored i gosb droseddol neu sifil, a *braint budd cyhoeddus* sy’n rhoi imiwnedd rhag datgelu i ddogfennau y byddai eu cyflwyno’n niweidiol i fudd cyhoeddus.

Mae braint yn bwnc cymhleth. Os oes anghydfod ynghylch a yw dogfen yn wirioneddol freintiedig ai peidio, efallai y bydd angen i’r ddogfen gael ei dangos i farnwr (heb ei datgelu i’r ochr arall) i wneud penderfyniad. Os yn briodol, nid barnwr y treial fydd y barnwr hwn. Caiff parti hepgor braint a dangos dogfen freintiedig i’r llys ac i’r ochr arall, ond mae angen pwysleisio na chaiff parti ddewis a dethol pa ddogfennau i hepgor braint mewn cyswllt â hwy. Y rheol gyffredinol yw os bydd parti yn hepgor braint ar un ddogfen yn a bydd yn hepgor braint ar bob dogfen yn yr un dosbarth.

Ymwared

Term cynhwysfawr i ddisgrifio’r hyn y mae’r hawlydd yn ei geisio yn ei hawliad neu a ddyfernir iddo gan y llys. Gall ‘ymwared’ gynnwys iawndal, gwaharddeb, datganiad neu unrhyw fath arall o orchymyn.

| | |
|---|---|
| Ateb | Plediad a gyflwynir gan hawlydd mewn ymateb i blediad y diffynnydd o ran ei amddiffyniad. |
| Hawl i gael gwrandawiad | Yr hawl i gael gwrandawiad gan y llys mewn gwrandawiad llys. Mae gan unrhyw ymgyfreithiwr hawl i wrandawiad, ac felly hefyd bargyfreithiwr neu gyfreithiwr eiriol ar ei ran. Mae gan y Barnwr sy’n gwrando achos y grym i reoli’r drefn yn ei lys a chaiff ganiatáu i unigolion nad oes ganddynt hawl i gael gwrandawiad annerch y llys, er enghraifft cyfarwyddwr cwmni neu ysgrifennydd cwmni mewn cwmni atebolrwydd cyfyngedig neu gyfaill sydd wedi dod gyda’r ymgyfreithiwr. Fodd bynnag, nid oes raid i’r barnwr wrando ond ar yr ymgyfreithiwr ei hun neu adfocad proffesiynol cymwys ar ran yr ymgyfreithiwr. Nid oes gan ‘gyfaill McKenzie’ hawl i wrandawiad. |
| Rheol | Un o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil. Mae’r rhain wedi eu rhannu’n Rhannau, gweler pennod 4. |
| Sêl | Gosodir sêl y llys ar ddogfen i’w dilysu fel dogfen (Gorchymyn, fel arfer) a gyhoeddwyd gan y llys. |
| Ymgyfreithiwr sy’n cynrychioli’i hun | Parti mewn achos sy’n gweithredu drosto’i hun heb ddefnyddio cynrychiolydd cyfreithiol. Fe’i gelwir yn fwy cyffredin yn Ymgyfreithiwr Drosto’i Hun. |
| Cyflwyno | Y broses a ddefnyddir i ddwyn dogfennau mewn achos llys i sylw ymgyfreithiwr. Ceir rheolau manwl ynghylch cyflwyno yn CPR Rhan 6. Bydd ychydig o ddogfennau’n galw am gyflwyno'n bersonol. Caiff y rhan fwyaf o ddogfennau eu cyflwyno drwy’r post. Pan fo papur ysgrifennu cyfreithiwr yn cynnwys rhif ffacs neu gyfeiriad e-bost gellir cyflwyno dogfennau drwy ffacs neu e-bost oni fo papur ysgrifennu’r cyfreithiwr yn datgan nad dderbynnir y dull hwn o gyflwyno. |
| Rhoi o’r naill du | Canslo dyfarniad neu orchymyn llys, neu gam a gymerwyd yn yr achos gan barti. |
| Atebolrwydd unigol | Lle y mae dau barti neu fwy yn atebol gyda’i gilydd i rannu atebolrwydd unigol ond fod atebolrwydd pob parti ar wahân i atebolrwydd y partïon eraill (gwrthwyneb i ‘atebolrwydd ar y cyd’). |
| Llys hawliadau bychain | Term cyfleus i ddisgrifio’r llys sy’n gwrando ar hawliadau bychain. Fodd bynnag, nid yw’n llys ar wahân, ond yn hytrach |

| | |
|---|---|
| | Barnwr Rhanbarth yn eistedd yn y llys sirol ar fater ar y trac hawliadau bychain. |
| Cyfreithiwr | Twrnai proffesiynol a dderbyniwyd ar Rôl y Cyfreithwyr ar ôl llwyddo yn arholiadau Cymdeithas y Cyfreithwyr ac ymgymryd â chyfnod o hyfforddiant. |
| Datganiad gwirionedd | Y datganiad ffurfiol sy’n cadarnhau fod datganiad achos (plediad), datganiad tyst, neu ddogfen arall yn wir. |
| Gohiriad | Gorchymyn llys na chaniateir cymryd unrhyw gamau pellach mewn achos llys. Yn amodol ar delerau’r gohiriad caiff parti wneud cais i’r llys ddileu’r gohiriad. |
| Dileu | Gorchymyn llys bod y cyfan neu unrhyw ran o ffurflen hawlio, datganiad achos (plediad) neu ddatganiad tyst i’w trin fel rhai wedi’u dileu, gyda’r canlyniad na ellir dibynnu arnynt yn yr achos. |
| Asesiad diannod | Y drefn a ddefnyddir gan y barnwr sy’n gwrando cais (neu, yn llai aml, treial) lle y mae wedi gorchymyn un parti i dalu costau’r llall, i wneud asesiad di-oed o’r swm sy’n daladwy gan y parti sy’n talu. Bydd asesiad diannod fel arfer yn mynnu bod atodlen costau’n cael ei pharatoi (cyn y gwrandawiad) gan y parti sy’n derbyn, a ddylai fel arfer fod wedi ei chyflwyno i'r parti sy'n talu cyn yr achos. |
| Dyfarniad diannod | Dyfarniad am y cyfan neu ran o hawliad a wneir gan y llys heb glywed tystiolaeth 'fyw' gan dystion, gweler paragraff 13.30. |
| Hawliad trydydd parti | Hawliad a wneir gan ddiffynnydd yn erbyn unigolyn ar wahân i’r hawlydd. Fel arfer, mae trydydd parti yn unigolyn nad yw eto’n barti yn yr achos, ond gellir dwyn hawliad trydydd parti yn erbyn rhywun sydd eisoes yn barti yn yr achos mewn achosion lle y ceir partïon niferus. Mewn achosion lle y bydd y diffynnydd gwreiddiol mewn achos yn gwneud gwrth-hawliad i'r hawlydd gwreiddiol, caiff yr hawlydd ddod â hawliad trydydd parti. Mae CPR Rhan 20 yn cyfeirio at yr hawliadau hyn fel “hawliadau ychwanegol” ond caniateir cyfeirio atynt fel "hawliadau trydydd parti” (gweler CPR 20PD.7) gan mai dyma’r teitl mwy disgrifiadol a roddwyd i hawliadau o’r fath dan y rheolau blaenorol. Dylai’r hawliad trydydd parti ymwneud â phwnc yr hawliad gwreiddiol. Fe’i defnyddir gan amlaf pan fo’r diffynnydd yn honni fod ganddo hawl i indemniad yn erbyn neu gyfraniad tuag at hawliad yr hawlydd gan y trydydd parti. |

| | |
|---|---|
| Trac | Un o’r tair gweithdrefn rheoli achos y dyrennir achosion iddynt ar y dechrau, gweler paragraff 7.22. |
| Gorchymyn Tomlin | Ffurf ar Orchymyn lle y caiff achos ei atal ar delerau gyda chaniatâd wedi ei roi i orfodi’r telerau os bydd angen. Fel arfer nodir y telerau mewn atodlen a all, mewn amgylchiadau priodol, gael ei chadw’n gyfrinachol i’r partïon. Bydd rhan ffurfiol y Gorchymyn yn datgan yn syml fod yr achos wedi’i atal ar y telerau a nodir yn yr atodlen (neu ryw ddogfen a ddiffinnir yn glir e.e. briffiau'r cwnsleriaid) gyda chaniatâd i wneud cais i orfodi’r telerau. Bydd yr atodlen yn nodi’r telerau a gytunwyd gan y partïon, weithiau ar ôl dyfarniad llys. Mae’r math hwn o orchymyn yn golygu nad oes dyfarniad, fel y cyfryw, yn erbyn parti ac mae’n caniatáu i delerau cytundeb eithaf cymhleth gael grym gorchymyn llys. Mae’r math hwn o orchymyn yn galluogi gorfodi telerau’r setliad heb fod angen cyhoeddi ffurflen hawlio newydd. |
| Cais heb rybudd | Cais a wneir gan un parti heb yn wybod i’r ochr arall. Fe’i galwyd gynt yn gais ‘ex parte’. |
| Heb ymrwymiad | Cyfathrebiadau rhwng partïon gyda golwg ar gyrraedd setliad na chaniateir eu dwyn i sylw’r llys ac eithrio ar derfyn yr achos pan fydd cwestiwn costau'n cael ei ystyried. Mae hyn yn caniatáu i barti gynnig setlo hawliad, neu dderbyn setliad hawliad, heb i’r llys wybod. |